# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 05/03/2013

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Pwynt o Drefn
Point of Order

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Ardrethi Busnes
Statement: Business Rates

Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13
The Second Supplementary Budget 2012-13

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
International Women's Day

Ymateb Gweinidogion Cymru i Argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau Iaith Gymraeg
The Welsh Ministers' Response to the Welsh Language Commissioner's Proposals for Welsh Language Standards

Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44
Stage 3 Standing Order 26.44 debate on the Public Audit (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Public Audit (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I am pleased to announce that, on 4 March, Royal Assent was given to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013.

Rwy'n falch o gyhoeddi y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ar 4 Mawrth.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

### International Women's Day

13:31

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gefnogaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. OAQ(4)0940(FM)*

*1. What support is the Welsh Government giving to International Women's Day. OAQ(4)0940(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Welsh Government is supporting International Women's Day this year by providing funding to over 34 events across the length and breadth of Wales, and by increasing the number of events for black and minority ethnic women.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni trwy ddarparu cyllid i dros 34 o ddigwyddiadau ym mhob cwr o Gymru, a thrwy gynyddu nifer y digwyddiadau ar gyfer menywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig.

13:31 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer. Since the first International Women's Day, 100 years ago, women have made great strides in all walks of life. However, a recent report shows that the number of women in positions of influence in the UK has plummeted, damaging social, cultural and political life. UK Government policies mean that the number of unemployed young women has increased disproportionately. The support that the Welsh Government gives to International Women's Day is very welcome indeed, but what other action can you take to encourage more women to reach for the top?

Diolch i chi am yr ateb yna. Ers y Diwrnod Rhyngwladol y Menywod cyntaf, 100 mlynedd yn ôl, mae menywod wedi cymryd camau breision ym mhob agwedd ar fywyd. Fodd bynnag, mae adroddiad diweddar yn dangos bod nifer y menywod mewn swyddi dylanwadol yn y DU wedi gostwng yn sylweddol, gan niweidio bywyd cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol. Mae polisïau Llywodraeth y DU yn golygu bod nifer y merched ifanc di-waith wedi cynyddu'n anghymesur. Mae'r gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod i'w groesawu'n fawr iawn, ond pa gamau eraill allwch chi eu cymryd i annog mwy o fenywod i gyrraedd y brig?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Our programme for government includes a commitment to ensure that at least 40% of public appointments in Wales are filled by women. This is also reflected in our strategic equalities plan, in which we committed to improving the engagement and the participation of under-represented groups in public appointments in Wales.

Mae ein rhaglen ar gyfer y llywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod o leiaf 40% o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu llenwi gan fenywod. Adlewyrchir hyn yn ein cynllun cydraddoldeb strategol hefyd, lle'r ydym wedi ymrwymo i wella ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

13:32 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

International Women's Day is, of course, a great day to celebrate entrepreneurial women. Can you tell me whether you have had any conversations with the Minister for Education and Skills about promoting business courses to girls in school, and about assessing what proportion of the health and beauty courses that girls tend to take up is devoted to teaching and encouraging girls to set up their own businesses?

Wrth gwrs, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn ddiwrnod gwych i ddathlu menywod entrepreneuraidd. A allwch chi ddweud wrthyf a ydych wedi cael unrhyw sgyrsiau â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am hyrwyddo cyrsiau busnes i ferched yn yr ysgol, ac am asesu pa gyfran o'r cyrsiau iechyd a harddwch y mae merched yn tueddu i'w dilyn sydd wedi'i neilltuo i addysgu ac annog merched i sefydlu eu busnesau eu hunain?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I cannot say that I have had specific conversations about those issues, but I will write to the Member in response to her question.

Ni allaf ddweud fy mod i wedi cael sgyrsiau penodol am y materion hynny, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod i ymateb i'w chwestiwn.

13:32 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I heard your answer to Sandy Mewies about women getting to the top. Would you like to speculate as to when you think the Assembly will be led by a woman? [Laughter.]

Brif Weinidog, clywais eich ateb i Sandy Mewies am fenywod yn cyrraedd y brig. Hoffech chi ddyfalu pryd y credwch chi y bydd y Cynulliad yn cael ei arwain gan fenyw? [Chwerthin.]

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

That is a matter for the Welsh electorate. [Laughter.]

Mae hynny'n fater i etholwyr Cymru. [Chwerthin.]

## Tlodi Plant

## Child Poverty

13:33 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dlodi plant yn Ne Caerdydd a Phenarth. OAQ(4)0945(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on child poverty in Cardiff South and Penarth. OAQ(4)0945(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Tackling child poverty is a priority for this Government. We have awarded over £5.5 million to three Communities First clusters in Cardiff South to tackle poverty. This includes participating in a pilot approach to youth employment mentors that will build on the links between Jobs Growth Wales and Communities First.

Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rydym wedi dyfarnu dros £5.5 miliwn i dri chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn Ne Caerdydd i fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cynllun arbrofol i fentoriaid cyflogaeth pobl ifanc a fydd yn adeiladu ar y cysylltiadau rhwng Twf Swyddi Cymru a Chymunedau yn Gyntaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Thank you for that response, First Minister. You may be aware that statistics that were released in January by the End Child Poverty campaign group show that Cardiff South and Penarth has the highest percentage and volume of the number of children living in poverty in Wales, with over 30% in that category. I appreciate what you say about Welsh Government intervention programmes, and I accept that they have an impact. However, my concern is what the impact would be were those interventions not to exist. Can you confirm what account is taken of these ongoing statistics on child poverty in the way in which Welsh Government and local government services are delivered? For example, what account will the next roll-out of Flying Start take of these figures?

Diolch am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol bod ystadegau a gyhoeddwyd gan grŵp ymgyrchu Dileu Tlodi Plant ym mis Ionawr yn dangos mai De Caerdydd a Phenarth sydd â'r ganran a'r nifer uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, gyda dros 30% yn y categori hwnnw. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn yr ydych chi'n ei ddweud am raglenni ymyrraeth Llywodraeth Cymru, ac rwy'n derbyn eu bod yn cael effaith. Fodd bynnag, fy mhryder yw beth fyddai'r effaith pe na bai'r ymyraethau hynny yn bodoli. A allwch chi gadarnhau pa ystyriaeth a roddir i'r ystadegau parhaus hyn ar dlodi plant yn y ffordd y mae gwasanaethau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cael eu darparu? Er enghraifft, pa ystyriaeth fydd cyflwyniad nesaf Dechrau'n Deg yn ei rhoi i'r ffigurau hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The figures inform us very strongly in terms of our actions to tackle child poverty. In terms of Flying Start, for example, which is one of our flagship schemes, a number of communities in Cardiff South and Penarth have already benefitted from it and will continue to benefit from its expansion. That includes, for example, Mount Stuart Primary School, where £385,000 has been awarded to develop a new childcare setting as part of an extension to the school building.

Mae'r ffigurau'n ein hysbysu'n gryf iawn o ran ein camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant. O ran Dechrau'n Deg, er enghraifft, sy'n un o'n cynlluniau blaenllaw, mae nifer o gymunedau yn Ne Caerdydd a Phenarth wedi elwa ohono eisoes a byddant yn parhau i elwa o'i ehangu. Mae hynny'n cynnwys, er enghraifft, Ysgol Gynradd Mount Stuart, lle dyfarnwyd £385,000 i ddatblygu lleoliad gofal plant newydd yn rhan o estyniad i adeilad yr ysgol.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Given that Wales has the highest levels of child poverty in the UK, which are based on relative measures of child poverty—namely 60% of household median income—and given the consequence of that, that, even when relative poverty falls, real incomes may not be rising and absolute poverty may be stable or increasing, how do you respond to proposals that definitions of child poverty should be broadened to include measures, for example, of worklessness and educational attainment?

O gofio mai Cymru sydd â'r lefelau uchaf o dlodi plant yn y DU, sy'n seiliedig ar fesurau cymharol o dlodi plant—sef 60% o incwm canolrifol aelwydydd—ac o ystyried canlyniad hynny, sef hyd yn oed pan fydd tlodi cymharol yn gostwng, efallai na fydd incwm gwirioneddol yn codi ac efallai fod tlodi absoliwt yn sefydlog neu'n cynyddu, sut ydych chi'n ymateb i gynigion y dylid ehangu diffiniadau o dlodi plant i gynnwys mesurau o ddiweithdra a chyrhaeddiad addysgol, er enghraifft?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are issues that are a matter of consultation on behalf of the UK Government, and we will be answering the consultation so as to ensure that the statistics that are produced in the future are as accurate as possible.

Mae'r rhain yn faterion sy'n destun ymgynghoriad ar ran Llywodraeth y DU, a byddwn yn ateb yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod yr ystadegau sy'n cael eu cynhyrchu yn y dyfodol mor gywir â phosibl.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:35

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon, I call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Yn gyntaf y prynhawn yma, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:35

### Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

A recent Government consultation on community health councils said that properly functioning community health councils are an important part of the fabric of the Welsh NHS. Does the First Minister agree with that statement?

Dywedodd ymgynghoriad diweddar gan y Llywodraeth ar gynghorau iechyd cymuned bod cynghorau iechyd cymuned sy'n gweithio'n iawn yn rhan bwysig o wead y GIG yng Nghymru. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â'r datganiad hwnnw?

13:35

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

13:35

### Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased that he agrees with that statement, because community health councils provide a critical role in advocating for patients and carrying out unannounced hospital inspections and are generally a force for good in our Welsh NHS. Why is it the case therefore that the Welsh Government has not started the recruitment process for Welsh Government appointees to community health councils, which should have started last autumn in order for those appointments to take place on 1 April this year?

Rwy'n falch ei fod yn cytuno â'r datganiad hwnnw, gan fod cynghorau iechyd cymuned yn cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran eirioli ar ran cleifion a chynnal arolygiadau dirybudd mewn ysbytai, maen nhw'n yn rym er daioni yn ein GIG yng Nghymru yn gyffredinol. Pam felly, nad yw Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses recriwtio ar gyfer penodiadau Llywodraeth Cymru i gynghorau iechyd cymuned, a ddylai fod wedi dechrau yr hydref diwethaf, er mwyn gwneud y penodiadau hynny ar 1 Ebrill eleni?

13:36

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am not aware of such delays. We know that community health councils are exceptionally important. They have proven their worth in terms of the way in which they have examined the reconfiguration proposals. I note, of course, what has happened in Hywel Dda and Betsi Cadwaladr.

Nid wyf yn ymwybodol o oedi o'r fath. Rydym ni'n gwybod bod cynghorau iechyd cymuned yn eithriadol o bwysig. Maen nhw wedi profi eu gwerth o ran y ffordd y maen nhw wedi archwilio'r cynigion ad-drefnu. Nodaf, wrth gwrs, yr hyn sydd wedi digwydd yn Hywel Dda ac yn Betsi Cadwaladr.

13:36 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it is disappointing to note that you are unaware of this, given that your own comments around community health councils clearly show that you hold such store by them. Under the reforms by the previous Minister for health, specific appointments were made by the Welsh Government to community health councils to enable them to carry out their jobs as boards and to carry out inspection processes and advocacy for patients. The date of 1 April is when the new term of these appointments is to begin, yet no appointments have been made. This process takes about six months to complete. Therefore, for at least half a year, many community health councils will be unable to carry out the many functions that they have to undertake. Will you commit today to ensuring that that process begins today so that those appointments can be made in as short a time as possible? The boards of community health councils have been communicating with your Government, and, to date, have not received an answer as to why your Government has not rectified these shortcomings.

Brif Weinidog, mae'n siomedig nodi nad ydych yn ymwybodol o hyn, o gofio bod eich sylwadau eich hun ar gynghorau iechyd cymuned yn dangos yn eglur bod gennych gymaint o ffydd ynddynt. Dan y diwygiadau gan y Gweinidog iechyd blaenorol, gwnaed penodiadau penodol gan Lywodraeth Cymru i gynghorau iechyd cymuned er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith fel byrddau ac i gynnal prosesau arolygu ac eiriolaeth ar gyfer cleifion. Bydd tymor newydd y penodiadau hyn yn cychwyn ar 1 Ebrill, ac eto nid oes unrhyw benodiadau wedi'u gwneud. Mae'r broses hon yn cymryd tua chwe mis i'w chwblhau. Felly, am o leiaf hanner blwyddyn, bydd llawer o gynghorau iechyd cymuned na fyddant yn gallu cyflawni'r swyddogaethau niferus y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni. A wnewch chi ymrwymo heddiw i sicrhau bod y broses yn cychwyn heddiw fel y gellir gwneud y penodiadau hynny mewn cyn lleied o amser â phosibl? Mae byrddau cynghorau iechyd cymuned wedi bod yn cyfathrebu â'ch Llywodraeth a, hyd yma, nid ydynt wedi derbyn ateb i'r cwestiwn pam nad yw eich Llywodraeth unioni'r diffygion hyn.

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These appointees will be appointed at the appropriate time. It is important that community health councils continue to be robust, as I believe that they are. There are certainly no plans to change that situation.

Bydd y bobl hyn yn cael eu penodi ar yr adeg briodol. Mae'n bwysig bod cynghorau iechyd cymuned yn parhau i fod yn gadarn, fel yr wyf yn credu eu bod. Yn sicr nid oes unrhyw gynlluniau i newid y sefyllfa honno.

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, there has been a 700% increase in the prosecutions of parents for truancy by their children over the past five years. Your former Minister for education, Jane Hutt, said that prosecutions should be very much the last resort, and your current Minister for education says that he expects a zero tolerance of truancy. Why has your Government failed to get to grips with truancy rates?

Brif Weinidog, bu cynnydd o 700% yn yr erlyniadau o rieni oherwydd triwantiaeth gan eu plant yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dywedodd eich cyn-Weinidog addysg, Jane Hutt, mai fel dewis olaf yn unig y dylid defnyddio erlyniadau, ac mae eich Gweinidog addysg presennol yn dweud ei fod yn disgwyl dim goddefgarwch o driwantiaeth. Pam mae eich Llywodraeth wedi methu â mynd i'r afael â chyfraddau triwantiaeth?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Surely, it is an indication that truancy is being dealt with. The fact that we see these figures is a sign that truancy is being dealt with in a robust way.

Onid yw'n arwydd ein bod yn mynd i'r afael â thriwantiaeth? Mae'r ffaith ein bod yn gweld y ffigurau hyn yn arwydd ein bod yn mynd i'r afael â thriwantiaeth mewn ffordd gadarn.

13:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Really? I am surprised you say that, because your chief inspector of schools says in his annual report that attendance remains the weakest aspect of wellbeing for schools, that attendance is not good enough in over a third of secondary schools, and that it varies too much between primary schools in the most and least deprived areas. Of course, back in 2006, Professor Reid was commissioned by your Government to review national behaviour and attendance and he presented his report five years ago. Since then, we have had two Government action plans and a national implementation plan. When will we actually see the findings of that report being implemented and progress made?

Wir? Rwy'n synnu eich bod yn dweud hynny, oherwydd mae eich prif arolygydd ysgolion yn dweud yn ei adroddiad blynyddol mai presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les mewn ysgolion o hyd, nad yw presenoldeb yn ddigon da mewn dros un o bob tair ysgol uwchradd, a'i fod yn amrywio gormod rhwng ysgolion cynradd yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Wrth gwrs, yn ôl yn 2006, comisiynwyd yr Athro Reid gan eich Llywodraeth i adolygu ymddygiad a phresenoldeb cenedlaethol a chyflwynodd ei adroddiad bum mlynedd yn ôl. Ers hynny, rydym wedi cael dau gynllun gweithredu gan y Llywodraeth a chynllun cyflawni cenedlaethol. Pryd fyddwn ni'n gweld canfyddiadau'r adroddiad hwnnw yn cael eu rhoi ar waith a chynnydd yn cael ei wneud?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She does not seem to know that the level of absenteeism is decreasing in Welsh schools. We know that attendance at primary and secondary schools is up and that shows that the measures we are taking in this area are having a positive impact.

Nid yw'n ymddangos ei bod hi'n gwybod bod lefel absenoldeb yn gostwng yn ysgolion Cymru. Rydym yn gwybod bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynyddu ac mae hynny'n dangos bod y mesurau yr ydym ni'n eu cymryd yn y maes hwn yn cael effaith gadarnhaol.

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know exactly how much it has gone up by—0.8%. That is why your national inspector continues to say that it is the weakest aspect of wellbeing in schools and that the level of attendance in one-third of secondary schools is not good enough. Let me tell you what the independent expert that your Government previously employed to look at these issues on your behalf says: he says that progress has been painfully slow and disappointing. He also told Assembly Members that Wales is the only country that does not have a strategy in place. Despite what was said five years ago, he says that nothing has happened. Nothing has happened, First Minister. Is it not your job to make sure that something happens?

Rwy'n gwybod yn union faint mae wedi cynyddu—0.8%. Dyna pam mae eich arolygydd cenedlaethol yn parhau i ddweud mai dyma'r agwedd wannaf ar les mewn ysgolion ac nad yw lefel presenoldeb mewn un o bob tair ysgol uwchradd yn ddigon da. Gadewch i mi ddweud wrthych yr hyn y mae'r arbenigwr annibynnol a gyflogwyd gan eich Llywodraeth yn y gorffennol i ystyried y materion hyn ar eich rhan yn ei ddweud: mae'n dweud bod cynnydd wedi bod yn boenus o araf ac yn siomedig. Dywedodd wrth Aelodau'r Cynulliad hefyd mai Cymru yw'r unig wlad nad oes ganddi strategaeth ar waith. Er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd bum mlynedd yn ôl, mae'n dweud nad oes unrhyw beth wedi digwydd. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd, Brif Weinidog. Onid eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod rhywbeth yn digwydd?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If she only saw the figures, and I will read them out to her so that she is aware of them, between 2006-07 and 2010-11, overall absence in primary schools was stable, but, in 2011-12, it saw a drop of 0.5 percentage points to 6.2%. She makes it sounds as if it is a tiny drop in percentage—massaging the figures, of course, as she does. In 2011-12, 2.6% of primary school pupils in Wales were persistent absentees, which is a decrease of 0.7 percentage points. That is a significant decrease when you consider the original figure. That is something that she completely forgets.

Pe bai hi ond yn gweld y ffigurau, ac mi wnaf i eu darllen yn uchel iddi fel ei bod yn ymwybodol ohonynt, rhwng 2006-07 a 2010-11, roedd absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd yn sefydlog, ond, yn 2011-12, bu gostyngiad o 0.5 pwynt canran i 6.2%. Mae'n gwneud iddi swnio fel pe bai'n ostyngiad bach iawn i'r canran—gwyrdroi'r ffigurau, wrth gwrs, yn ôl ei harfer. Yn 2011-12, roedd 2.6% o ddisgyblion ysgolion cynradd yng Nghymru yn absennol yn gyson, sy'n ostyngiad o 0.7 pwynt canran. Mae hynny'n ostyngiad sylweddol o ystyried y ffigur gwreiddiol. Mae hynny'n rhywbeth y mae hi'n ei anghofio'n llwyr.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

'It is particularly worrying that living standards in Wales have fallen more than the rest of the UK.'

'Mae'n fater o bryder arbennig bod safonau byw yng Nghymru wedi gostwng mwy nag yng ngweddill y DU.'

Those are not my words, but the words of the shadow Secretary of State for Wales at Westminster, who is a member of your party.

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond geiriau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid yn San Steffan, sy'n aelod o'ch plaid chi.

First Minister, you promised to stand up for Wales and to provide a shield to protect people against the worst of the Tory cuts. Senior Welsh Members of Parliament in your party seem to think that you have failed to provide that shield. Are they right?

Brif Weinidog, gwnaethoch addewid i sefyll i fyny dros Gymru a darparu amddiffyniad i ddiogelu pobl rhag yr agweddau gwaethaf ar doriadau'r Torïaid. Mae'n ymddangos bod Aelodau Seneddol uwch o Gymru yn eich plaid yn meddwl eich bod wedi methu â darparu'r amddiffyniad hwnnw. A ydyn nhw'n gywir?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Who said it?

Pwy ddywedodd hyn?

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Owen Smith MP said:

Meddai Owen Smith AS:

'It is particularly worrying that living standards in Wales have fallen more than the rest of the UK.'

Mae'n fater o bryder arbennig bod safonau byw yng Nghymru wedi gostwng mwy nag yng ngweddill y DU.

Is he right?

A yw'n gywir?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will check with him to see whether he actually said that, because I will be seeing him this evening. We will double-check on that one. However, from our point of view, we are doing what we can to help people through schemes such as Jobs Growth Wales. Ultimately, of course, we rely on the UK Government to do its bit, which, at the moment, it is clearly not doing.

Byddaf yn gwirio gydag ef i weld a ddywedodd hynny mewn gwirionedd, gan y byddaf yn ei weld heno. Byddwn yn ail-wirio'r mater hwn. Fodd bynnag, o'n safbwynt ni, rydym yn gwneud popeth y gallwn i helpu pobl trwy gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru. Yn y pen draw, wrth gwrs, rydym yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i wneud ei rhan, ac mae'n amlwg nad yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder who is leading the Labour Party in Wales, First Minister. Some 40,000 households in Wales will be affected by the bedroom tax introduced in April. This will worsen the situation for many who are already skipping meals in order to make ends meet. The recent Cuts Watch Cymru report recommends that your Government does much more to mitigate the effects. One of its recommendations is that local government could use their discretionary housing payments to prevent as much disruption as possible. Another recommendation is to ensure that services are properly funded to deal with the impact of complicated benefits services, that is, welfare services. First Minister, will you commit to implementing the recommendations in that report?

Tybed pwy sy'n arwain y Blaid Lafur yng Nghymru, Brif Weinidog. Bydd tua 40,000 o gartrefi yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely sydd i'w chyflwyno ym mis Ebrill. Bydd hyn yn gwaethygu'r sefyllfa i lawer sydd eisoes yn colli prydau bwyd er mwyn tynnu dau ben llinyn ynghyd. Mae adroddiad diweddar Cuts Watch Cymru yn argymell y dylai eich Llywodraeth wneud llawer mwy i liniaru'r effeithiau. Un o'i argymhellion yw y gallai llywodraeth leol ddefnyddio eu taliadau tai dewisol i osgoi tarfu cymaint â phosibl. Argymhelliad arall yw sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hariannu'n briodol i ymdrin ag effaith gwasanaethau budd-daliadau cymhleth, hynny yw, gwasanaethau lles. Brif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i roi'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw ar waith?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will look to implement any recommendations that, first, are affordable and, secondly, will help people. That is something that any responsible Government will do. What we cannot do is to make up the funding shortfall that has been put in place by the UK Government and, indeed, nor can she or her party. We know that when it comes to 'welfare reform', as it is described, there are many people in Wales who will lose out as a result of the bedroom tax and many of the other measures that the UK Government are putting in place. I intend to make that point strongly at the Joint Ministerial Council tomorrow.

Byddwn yn ystyried rhoi unrhyw argymhellion ar waith sydd, yn gyntaf, yn fforddiadwy ac, yn ail, yn helpu pobl. Mae hynny'n rhywbeth y bydd unrhyw Lywodraeth gyfrifol yn ei wneud. Yr hyn na allwn ei wneud yw gwneud iawn am y diffyg cyllid a grëwyd gan Lywodraeth y DU ac, yn wir, ni all hithau na'i phlaid ychwaith. Rydym yn gwybod wrth drafod 'diwygio lles', fel y'i disgrifir, bod llawer o bobl yng Nghymru a fydd yn dioddef o ganlyniad i'r dreth ystafell wely a llawer o'r mesurau eraill y mae Llywodraeth y DU yn eu rhoi ar waith. Rwy'n bwriadu gwneud y pwynt hwnnw yn gryf yn y Cydgyngor Gweinidogion yfory.

Senedd.tv Fideo Video

## Diogelwch ar y Ffyrdd

## Road Safety

13:43 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0949(FM)*

*3. Will the First Minister provide an update on road safety in Wales. OAQ(4)0949(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Welsh roads are already among the safest in the world, although we want to see further improvements. We will continue to invest in road safety interventions in order to achieve those improvements.

Mae ffyrdd Cymru ymhlith y rhai mwyaf diogel yn y byd eisoes, er ein bod eisiau gweld gwelliannau pellach. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn ymyriadau diogelwch ffyrdd er mwyn cyflawni'r gwelliannau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. Tragically, around one in five cyclists killed on our roads are children, and 10 to 15-year-olds are more at risk of injury and death on our roads than any other age group. How is the Welsh Government helping to ensure that young people are fully educated about road safety and that drivers are more aware of the need to accommodate and respect the increasing numbers of young people on our roads?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn drasig, mae tua un o bob pum beiciwr sy'n cael eu lladd ar ein ffyrdd yn blant, ac mae pobl ifanc 10 i 15 mlwydd oed mewn mwy o berygl o gael eu hanafu a marw ar ein ffyrdd nag unrhyw grŵp oedran arall. Sut mae Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu haddysgu'n llawn am ddiogelwch ar y ffyrdd a bod gyrwyr yn fwy ymwybodol o'r angen i fod yn ystyriol o'r nifer gynyddol o bobl ifanc ar ein ffyrdd a'u parchu?

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We can do that through working closely with local authorities, the police and other road safety partners to educate children and car drivers about the dangers associated with the road. That includes a provision of grant funding to local authorities for road safety, which is £6.5 million in 2012-13. That can be used for the national standard for cycle training, which gives children the skills and confidence to cycle on the roads. An additional £30,000 has also been provided for the national standard for cycle training this year. The Active Travel (Wales) Bill will also help to promote safe and sustainable transport.

Gallwn wneud hynny drwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd eraill i addysgu plant a gyrwyr ceir am y peryglon sy'n gysylltiedig â'r ffordd. Mae hynny'n cynnwys darparu cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, sy'n £6.5 miliwn yn 2012-13. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer y safon genedlaethol ar gyfer hyfforddiant beicio, sy'n rhoi'r sgiliau a'r hyder i blant feicio ar y ffyrdd. Darparwyd £30,000 ychwanegol ar gyfer y safon genedlaethol ar gyfer hyfforddiant beicio eleni hefyd. Bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn helpu i hyrwyddo cludiant diogel a chynaliadwy hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am backing a week-long campaign in Montgomeryshire that encourages young cyclists not to ride unless they are wearing a helmet. The campaign is supported by Brake, the Bicycle Helmet Initiative Trust, Powys County Council and the emergency services. It has come about as a result of a constituent of mine, Val Barkley, whose son was involved in a bike accident last year. Will you lend your support to this local campaign? Can you also clarify what the Welsh Government can do to change young people's attitudes towards cycling and road safety?

Brif Weinidog, rwy'n cefnogi ymgyrch am wythnos yn Sir Drefaldwyn sy'n annog beicwyr ifanc i beidio â beicio oni bai eu bod yn gwisgo helmed. Cefnogir yr ymgyrch gan Brake, Ymddiriedolaeth y Fenter Helmedi Beicio, Cyngor Sir Powys a'r gwasanaethau brys. Mae hyn wedi digwydd oherwydd un o fy etholwyr, Val Barkley, ar ôl i'w mab fod mewn damwain beic y llynedd. A wnewch chi gefnogi'r ymgyrch leol hon? A allwch chi egluro hefyd yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i newid agweddau pobl ifanc tuag at feicio a diogelwch ar y ffyrdd?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am more than happy to back the campaign. I refer the Member to the answer that I gave some moments ago, when I described what we have done in relation to being able to fund cycle training campaigns. It is right to encourage campaigns, such as the one that he just mentioned, to make sure that fewer children are killed or injured on the road.

Rwy'n fwy na pharod i gefnogi'r ymgyrch. Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl, pan ddisgrifiais yr hyn yr ydym wedi ei wneud o ran gallu ariannu ymgyrchoedd hyfforddiant beicio. Mae'n iawn i annog ymgyrchoedd, fel yr un y mae newydd ei grybwyll, i wneud yn siŵr bod llai o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu ar y ffordd.

13:45 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, o droi at gyflymdra wrth deithio ar hewlydd Cymru, rwyf wedi bod yn ceisio canfod, drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth, sut y mae pobl sy'n goryrru yn cael eu trin. Mae anghysondeb ledled Cymru o ran y lefel o gyflymdra y mae'n rhaid i rywun ei gyflawni cyn bod achos yn cael ei ddwyn yn ei erbyn. Nid oes gwybodaeth ychwaith ynglŷn ag asesiad o'r cyrsiau ymwybyddiaeth cyflymdra i weld pa effaith y maent yn eu cael ar arferion gyrru pobl. A ydych yn fodlon edrych ar hyn i sicrhau bod cysondeb yn y broses?

First Minister, turning to speed in terms of travelling along the roads of Wales, I have been trying to discover, through freedom of information requests, how people who break the speed limit are treated. There is inconsistency throughout Wales as regards the level of speed that you have to attain before being prosecuted. There is no information either as regards the speed awareness courses to see what impact they have on people's driving habits. Would you be willing to look to ensure that we have consistency in the process?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, nid yw'r pethau hyn wedi'u datganoli, ond mae'n wir i ddweud bod y llysoedd ynadon yn trin achosion mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n rhaid cael system lle mae rhyw fath o hyblygrwydd, ond rydym yn gwybod bod agweddau gwahanol ledled Cymru o ran delio â throseddau gyrru. Fel Llywodraeth, rydym yn cyllido cynlluniau 20 milltir yr awr drwy grantiau fel y grant trafnidiaeth rhanbarthol.

Of course, these are non-devolved issues, but it is true to say that magistrates' courts deal with cases in different ways. You have to have a system that has some flexibility, but we know that the approach in dealing with driving offences is different throughout Wales. As a Government, we fund 20 mile per hour schemes through grants such as the regional transport grant.

13:46 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the volume and speed of traffic leaving Cardiff in the evenings has been raised by many of my constituents who are concerned that the lack of an eastern link road between Cardiff bay and the motorway is forcing traffic through residential streets, posing a danger to pedestrians and cyclists. Would you agree that it is time that we should look at completing that particular project?

Brif Weinidog, mae cyfanswm a chyflymder y traffig sy'n gadael Caerdydd fin nos wedi cael ei godi gan lawer o'm hetholwyr sy'n poeni bod diffyg ffordd gyswllt ddwyreiniol rhwng Bae Caerdydd a'r draffordd yn gorfodi traffig i fynd trwy strydoedd preswyl, gan beryglu cerddwyr a beicwyr. A fyddech chi'n cytuno ei bod yn bryd i ni edrych ar gwblhau'r prosiect penodol hwnnw?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Such projects can be looked at when finances allow. Finances are being cut and we do not yet have the power to borrow. We should bear in mind that the link road that comes in from the motorway towards this place is a local authority road, rather than a trunk road. Therefore, there are issues there as regards working with the local authority, with a view to being able to complete the circle, as far as the eastern link is concerned, at some point in the future.

Gellir ystyried prosiectau o'r fath pan fydd cyllid yn caniatáu hynny. Mae cyllid yn cael ei leihau ac nid oes gennym y pŵer i fenthyg hyd yn hyn. Dylem ni gofio mai ffordd awdurdod lleol yw'r ffordd gyswllt sy'n dod i mewn o'r draffordd tuag at y lle hwn, yn hytrach na chefnffordd. Felly, ceir problemau yno o ran gweithio gyda'r awdurdod lleol, gyda'r nod o allu cwblhau'r cylch, cyn belled ag y mae'r cyswllt dwyreiniol yn y cwestiwn, ar ryw adeg yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

After working with the local community, Rhondda Cynon Taf County Borough Council intends to introduce a range of measures to improve road safety in Penderyn in my constituency, including lowering the speed limit outside the primary school and new signage and lighting. Do you agree, First Minister, that measures such as these, in addition to improving road safety, will encourage more children and parents to feel safe enough to walk to school? In light of the disappointing news today about health in the UK, in comparison with other developed nations, do you agree that this will also help us to tackle obesity, which is one of the key challenges in the report?

Ar ôl gweithio gyda'r gymuned leol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu cyflwyno amrywiaeth o fesurau i wella diogelwch ar y ffyrdd ym Mhenderyn yn fy etholaeth i, gan gynnwys gostwng y terfyn cyflymder y tu allan i'r ysgol gynradd, a chael arwyddion a goleuadau newydd. A ydych chi'n cytuno, Brif Weinidog, y bydd camau fel y rhain, yn ogystal â gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn annog mwy o blant a rhieni i deimlo'n ddigon diogel i gerdded i'r ysgol? Yng ngoleuni'r newyddion siomedig heddiw am iechyd yn y DU, o'i gymharu â gwledydd datblygedig eraill, a ydych chi'n cytuno y bydd hyn hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â gordewdra, sy'n un o'r heriau allweddol yn yr adroddiad?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I do. One of the obstacles to walking and cycling that people sometimes cite is safety. The lighter the passage they take, the more confident they will be. In the summer, it is not so much of an issue, but it clearly an issue in the winter, therefore I welcome the initiative that you have mentioned.

Ydw. Mae diogelwch yw un o'r rhwystrau i gerdded a beicio a nodir gan bobl weithiau. Y mwyaf golau fydd y llwybr maen nhw'n ei ddilyn, y mwyaf hyderus y byddan nhw. Nid yw'n gymaint o broblem yn yr haf, ond mae'n amlwg yn broblem yn y gaeaf, felly rwy'n croesawu'r fenter a grybwyllwyd gennych.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Gwasanaeth Prawf

### The Probation Service

13:48 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*4. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael â Llywodraeth y DU am y bwriad i breifateiddio rhannau helaeth o'r gwasanaeth prawf. OAQ(4)0938(FM)*

*4. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding the plans to privatise vast areas of the probation service. OAQ(4)0938(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi trafod y cynigion gyda'r Gweinidog dros Garchardai ac Adsefydlu ac mae wedi ymateb i'r ymgynghoriad 'Trawsnewid Adsefydlu' i bwysleisio bod angen ystyried sefyllfa ddatganoledig unigryw Cymru fel rhan o'r newidiadau hyn. Nid ydym o blaid preifateiddio ein gwasanaeth prawf.

The Minister for Local Government and Communities has discussed the proposals with the Minister for Prisons and Rehabilitation and has responded to the 'Transforming Rehabilitation' consultation to highlight that Wales's unique devolved landscape must be taken into account within these changes. We are not in favour of privatising our probation service.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch clywed nad yw Llywodraeth Cymru o blaid preifateiddio. Fodd bynnag, yn anffodus, mae'r preifateiddio'n digwydd o dan ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Blaid Lafur pan yr oedd mewn grym yn San Steffan, sy'n tanseilio eich dadleuon chi. Yr hyn sy'n bwysig yn y sefyllfa hon yw bod Cymru'n cael ei thrin fel uned er mwyn ceisio gwarchod 'integrity' y gwasanaeth yn wyneb y bygythiad hwn i breifateiddio tua 80% o'r gwasanaeth—gwasanaeth sy'n cysylltu â llawer o wasanaethau a gaiff eu cynnig a'u hariannu gan y Llywodraeth yng Nghymru. Pa bwysau y gallwch chi ei roi ar y Llywodraeth yn San Steffan i sicrhau 'integrity' y gwasanaeth yng Nghymru?

I am pleased to hear that the Welsh Government is not in favour of privatisation. However, unfortunately, the privatisation is taking place under legislation passed by the Labour Party when it was in power in Westminster, which undermines your argument. The important point here is that Wales is treated as a unit to try to protect the integrity of the service in the light of this threat to privatise approximately 80% of the service—a service that is linked to many other services that are offered and funded by the Government in Wales. What pressure can you bring to bear on the Westminster Government to ensure the integrity of the service in Wales?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n bwysig dros ben. Ni fyddwn o blaid unrhyw strwythur a fyddai'n cymysgu Cymru a Lloegr. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth San Steffan ei bod yn bwysig dros ben bod unrhyw strwythur sy'n datblygu o ganlyniad i'r newidiadau yn cydnabod y ffaith nad oes achos i greu cyrff trawsffiniol, ond ei bod yn bwysig dros ben bod y cyrff yn gweithio y tu mewn i Gymru.

That is very important. I would not be in favour of any structure that would confuse things as regards England and Wales. We have told the Westminster Government that any structure that develops from these changes should recognise the fact that there is no case to create cross-border bodies, but that it is important that these bodies work within Wales itself.

13:50 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In addition to privatisation, which was mentioned in the previous question, the Westminster Government is planning to reduce the number of areas that will contract for packages of services from 35 to 16. Has the First Minister had any reassurances that the boundaries of these contract package areas will be coterminous with the boundaries of Wales, bearing in mind the fragmentation that will be introduced if there was any cross-border working, particularly with the devolved bodies that it is so important to work closely with—the health authorities, local authorities and other bodies?

Yn ogystal â phreifateiddio, a gafodd ei grybwyll yn y cwestiwn blaenorol, mae Llywodraeth San Steffan yn bwriadu lleihau nifer yr ardaloedd a fydd yn contractio ar gyfer pecynnau o wasanaethau o 35 i 16. A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw sicrwydd y bydd y ffiniau'r ardaloedd pecyn contract hyn yn cyd-ffinio â ffiniau Cymru, gan gofio'r darnio a fydd yn cael ei gyflwyno pe byddai unrhyw waith traws-ffiniol, yn enwedig gyda'r cyrff datganoledig y mae mor bwysig gweithio'n agos â nhw—yr awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol a chyrff eraill?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Minister indicated that he would wish to see Wales retained as a discrete area when the boundaries for probation trusts are amended. He also indicated that we would not be supportive of the payment-by-results policy.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n dymuno gweld Cymru'n cael ei chadw fel ardal ar wahân pan fydd y ffiniau ar gyfer ymddiriedolaethau prawf yn cael eu diwygio. Nododd hefyd na fyddem yn cefnogi'r polisi tâl ar sail canlyniadau.

13:51 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A consultation on this was launched in January, with Wales's probation service having been one of two services taking part in a pilot initiative to help inform the development of this policy. According to its chief executive, the Secretary of State said that he was impressed by what had been done in Wales with forging a new approach to the delivery of probation and that the public sector probation service would continue to look after the risk of harm from offenders in the community. Therefore, how do you respond to the following statement by the chief executive of Wales Probation? She said:

'We believe the introduction of Payment by Results offers exciting opportunities for engaging with private and voluntary sector partners in the development of new ways of working with offenders, which is why we were keen to be a pilot in the first place.'

Lansiwyd ymgynghoriad ar hyn ym mis Ionawr, ac roedd gwasanaeth prawf Cymru yn un o ddau wasanaeth a gymerodd ran mewn menter arbrofol i helpu i lywio datblygiad y polisi hwn. Yn ôl ei brif weithredwr, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol bod yr hyn a wnaed yng Nghymru o ran ffurfio dull newydd o ddarparu gwasanaethau prawf wedi gwneud cryn argraff arno ac y byddai gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus yn parhau i ofalu am y perygl o niwed gan droseddwyr yn y gymuned. Felly, sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad canlynol gan brif weithredwr Gwasanaeth Prawf Cymru? Meddai:

Rydym yn credu bod cyflwyno Tâl ar sail Canlyniadau yn cynnig cyfleoedd cyffrous i ymgysylltu â phartneriaid sector preifat a gwirfoddol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda throseddwyr, a dyna pam yr oeddem ni'n awyddus i fod yn gynllun arbrofol yn y lle cyntaf.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I do not think that it works. I do not think that it would work either if, for example, you paid police officers or doctors by results. It is a very easy thing to say, but what does it mean in practice? We need to see a probation service that has the confidence and ability to deal with people as they pass through the criminal justice system. Payment by results does not, to me, seem to be the best way of doing that.

Nid wyf yn credu ei fod yn gweithio. Nid wyf yn credu y byddai'n gweithio ychwaith pe byddech, er enghraifft, yn talu swyddogion yr heddlu neu feddygon ar sail canlyniadau. Mae'n beth hawdd iawn i'w ddweud, ond beth mae'n ei olygu yn ymarferol? Mae angen i ni weld gwasanaeth prawf sydd â'r hyder a'r gallu i ymdrin â phobl wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Nid yw'n ymddangos i mi mai tâl ar sail canlyniadau yw'r ffordd orau o wneud hynny.

**Adroddiad Francis**

**The Francis Report**

13:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*5. Pa wersi y gall Cymru eu dysgu o Adroddiad Francis ar ofal cleifion yn Ysbyty Ymddiriedolaeth GIG Canolbarth Swydd Stafford. OAQ(4)0937(FM)*

*5. What are the lessons for Wales from the Francis Report into the care of patients at the Mid Staffordshire NHS Trust Hospital. OAQ(4)0937(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It tells us that there can be no room for complacency in any healthcare system. The Minister for Health and Social Services is leading our work to enable safe and compassionate care across Wales. She will be making a full response to the Francis report by the summer.

Mae'n dweud wrthym nad oes lle i fod yn hunanfodlon mewn unrhyw system gofal iechyd. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain ein gwaith i alluogi gofal diogel a thosturiol ledled Cymru. Bydd hi'n ymateb yn llawn i adroddiad Francis erbyn yr haf.

13:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A recent survey by the 'Nursing Times' about whistleblowing indicated that most respondents had reported the poor practice or attitude of a colleague, but action was only taken in a third of cases, and in over half of cases it was felt that no action could be taken. The most difficult issue I hear about from constituents is the way in which people are treated, rather than the quality of surgery or clinical treatment. I wonder if we really know whether too few nurses are looking after too many patients who have complex comorbidity issues. The Francis report recommends the use of an evidence-based tool for establishing the staffing needs of each service. Is that something that the Welsh Government might consider?

Nododd arolwg diweddar gan y 'Nursing Times' ar chwythu'r chwiban bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi hysbysu am arfer neu agwedd gwael cydweithiwr, ond cymerwyd camau mewn un o bob tri achos yn unig, a theimlwyd mewn dros hanner yr achosion na ellid cymryd unrhyw gamau. Y mater mwyaf anodd rwy'n clywed amdano gan etholwyr yw'r ffordd y mae pobl yn cael eu trin, yn hytrach nag ansawdd llawdriniaeth neu driniaeth glinigol. Tybed a ydym mewn gwirionedd yn gwybod a oes rhy ychydig o nyrsys yn gofalu am ormod o gleifion sydd â phroblemau cyd-forbidrwydd cymhleth. Mae adroddiad Francis yn argymell defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarganfod anghenion staffio pob gwasanaeth. A yw hynny'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei ystyried?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, and that work is already under way. Over the past year, the chief nursing officer has led work on nurse staffing levels. The testing of an acuity tool for use by organisations in acute adult in-patient settings to determine the right staffing levels and skills mix to meet patients' needs is under way, and work on other tools for other care settings is also being planned.

Ydy, ac mae'r gwaith hwnnw wedi cychwyn eisoes. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prif swyddog nyrsio wedi arwain gwaith ar lefelau staffio nyrsys. Mae profi dull craffu i'w ddefnyddio gan sefydliadau mewn lleoliadau cleifion mewnol acíwt sy'n oedolion i benderfynu ar y lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau cywir i ddiwallu anghenion cleifion wedi cychwyn, ac mae gwaith ar ddulliau eraill ar gyfer lleoliadau gofal eraill yn cael ei gynllunio hefyd.

13:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware that there are lessons to be learnt from the Mid Staffs report. Does it concern you that the Public Accounts Committee recently took evidence in its maternity services inquiry and, unfortunately, received confirmation that there are maternity wards in Wales where staff who are suspended or who are on long-term sick leave are included in the rotas for the staffing arrangements on those wards. Does that not concern you and what immediate action will you take to stamp out that practice?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod gwersi i'w dysgu o adroddiad Canolbarth Swydd Stafford. A yw'n peri pryder i chi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi derbyn tystiolaeth yn ei ymchwiliad gwasanaethau mamolaeth yn ddiweddar ac, yn anffodus, ei fod wedi derbyn cadarnhad bod wardiau mamolaeth yng Nghymru lle mae aelodau staff sydd wedi'u gwahardd neu sydd ar absenoldeb salwch hirdymor yn cael eu cynnwys yn y rotas ar gyfer y trefniadau staffio ar y wardiau hynny. Onid yw hynny'n peri pryder i chi a pha gamau wnewch chi eu cymryd ar unwaith i roi terfyn ar yr arfer hwnnw?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I refer the Member to answer that I just gave. There is also a responsibility on the part of the local health boards to ensure that any unit, maternity or otherwise, is properly staffed.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb yr wyf newydd ei roi. Ceir cyfrifoldeb hefyd ar ran y byrddau iechyd lleol i sicrhau bod unrhyw uned, mamolaeth neu fath arall, yn cael ei staffio'n briodol.

13:54 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, un o'r argymhellion yn adroddiad Francis oedd cyflwyno deddfwriaeth i roi gorfodaeth ar staff meddygol i ddweud y gwir ynglŷn ag achos marwolaeth. Mae Plaid Cymru yn credu y dylid hefyd ystyried deddfwriaeth i'w wneud yn anghyfreithlon i newid cofnodion meddygol, yn dilyn achos Robbie Powell a rhai achosion eraill. A ydych chi fel Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth newydd er mwyn gwarchod y claf?

First Minister, one of the recommendations in the Francis report was to introduce legislation to place the obligation on medical staff to tell the truth about cause of death. Plaid Cymru believes that legislation should be considered to make it illegal to change medical records following the Robbie Powell case and certain other cases. Are you as a Government giving consideration to new legislation in order to protect patients?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ydym, ond nid yw'n glir ble mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd. Wedi dweud hynny, rydym yn ystyried sut y gallwn sicrhau nad yw cofnodion meddygol yn cael eu newid, er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth sydd wedi digwydd os bydd rhywun, yn anffodus, yn marw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rydym yn edrych i weld a oes grym yn y lle hwn er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yes, but it is not clear where the responsibility lies. Having said that, we are considering in what way we can ensure that medical records are not changed in order to ensure that everyone knows what has happened should someone, unfortunately, die. However, at present, we are looking to see whether we have the power in this place to ensure that that happens.

13:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the conclusions of the Francis report was that there was a disregard for the significance of mortality statistics. In answer to my question last week, you said that mortality statistics were not a good guide for hospital performance, yet local health boards are required by the Government, as a tier 1 indicator for the annual quality framework, to report on mortality statistics. Can you clarify your Government's view on the significance of mortality statistics, given that you say one thing and your Minister for health requires the LHBs to do something completely different?

Brif Weinidog, un o gasgliadau adroddiad Francis oedd bod arwyddocâd ystadegau marwolaethau yn cael ei ddiystyru. Wrth ateb fy nghwestiwn yr wythnos diwethaf, nodwyd gennych nad oedd ystadegau marwolaethau yn ganllaw da ar gyfer perfformiad ysbyty, ac eto mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol, fel dangosydd haen 1 ar gyfer y fframwaith ansawdd blynyddol, i adrodd ar ystadegau marwolaethau. A allwch chi egluro safbwynt eich Llywodraeth ar arwyddocâd ystadegau marwolaethau, o ystyried eich bod yn dweud un peth a bod eich Gweinidog iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BILlau wneud rhywbeth hollol wahanol?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They are clearly important, but complication rates are equally as important. In order to assess the performance of any hospital or any unit, the complication rates are important because of the need to understand how treatment is progressing once somebody has received that treatment—whether it is an operation or not. The two things are not contradictory, and that is precisely what I said last week.

Maen nhw'n amlwg yn bwysig, ond mae cyfraddau cymhlethdod yr un mor bwysig. Er mwyn asesu perfformiad unrhyw ysbyty neu unrhyw uned, mae'r cyfraddau cymhlethdod yn bwysig oherwydd yr angen i ddeall sut mae triniaeth yn datblygu ar ôl i rywun dderbyn y driniaeth honno—pa un a yw hi'n llawdriniaeth ai peidio. Nid yw'r ddau beth yn gwrthddweud ei gilydd, a dyna'n union yr hyn a ddywedais i yr wythnos diwethaf.

### Manteision 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'

### Benefits of 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'

13:56 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu manteision Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo i gymunedau yng Nghymru. OAQ(4)0941(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement outlining the benefits of Minerals Technical Advice Note 2: Coal to communities in Wales. OAQ(4)0941(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

'Minerals Technical Advice Note 2: Coal' provides comprehensive technical advice on coal extraction and enables an informed, balanced view to be taken of what the impacts there would be, including those for local people, how their quality of life might be improved by any proposed works, or not, and how best to secure them.

Mae 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' yn darparu cyngor technegol cynhwysfawr ar gloddio glo ac yn galluogi ffurfio safbwynt gwybodus a chytbwys o beth fyddai'r effeithiau, gan gynnwys y rhai i bobl leol, sut y gallai ansawdd eu bywydau gael ei wella gan unrhyw waith arfaethedig, neu beidio, a'r ffordd orau i'w sicrhau.

13:56 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The news that the Minister for Environment and Sustainable Development is minded to approve the Varteg Hill appeal has left local residents angry and deeply dismayed, and sets a deeply worrying precedent for opencast mining well within the MTAN's 500m buffer zone, with houses and a local school just some 100m away. You may be aware that the Minister has declined to release the inspector's report. Do you agree, First Minister, that, in the interests of transparency, it is vital that that report is released? In view of your previous statements that the guidance on buffer zones is there to be followed, what steps will you take to ensure that the MTAN does indeed protect our communities from such development?

Mae'r newyddion bod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o blaid cymeradwyo apêl Bryn Farteg wedi gadael trigolion lleol yn flin ac yn siomedig iawn, ac mae'n creu cynsail sy'n destun pryder mawr ar gyfer cloddio glo brig ymhell o fewn clustogfa 500m MTAN, gyda thai ac ysgol leol ddim ond tua 100m i ffwrdd. Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi gwrthod cyhoeddi adroddiad yr arolygydd. A ydych chi'n cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn hanfodol, er budd tryloywder, bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi? Yng ngoleuni eich datganiadau blaenorol bod y canllawiau ar glustogfeydd yno i'w dilyn, pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod yr MTAN yn amddiffyn ein cymunedau rhag datblygiadau o'r fath mewn gwirionedd?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The MTAN is there to protect communities and has done so in years gone by. I cannot comment on the specific situation related to the Varteg site; that is a matter for the Minister for environment. Perhaps if I write to the Member with further information, that would be of help to her.

Mae'r MTAN yno i ddiogelu cymunedau ac mae wedi gwneud hynny yn y blynyddoedd a fu. Ni allaf gynnig sylwadau ar y sefyllfa benodol yn ymwneud â safle Farteg; mae hwnnw'n fater i Weinidog yr amgylchedd. Efallai y byddai o gymorth i'r Aelod pe bawn yn ysgrifennu ati gyda gwybodaeth bellach.

13:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when I asked you about a similar event in April 2010, you replied that the relevant planning guidance must, of course, be taken into account by a planning authority. You went on to say that the planning guidance is there to be observed. Will you reiterate the Government's commitment to a 500m buffer zone?

Brif Weinidog, pan ofynnais i chi am ddigwyddiad tebyg ym mis Ebrill 2010, atebwyd bod yn rhaid i'r canllawiau cynllunio perthnasol, wrth gwrs, gael eu cymryd i ystyriaeth gan awdurdod cynllunio. Aethoch ymlaen i ddweud bod y canllawiau cynllunio yno i'w gweld. A wnewch chi ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i glustogfa o 500m?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is in the MTAN.

Mae hynny yn yr MTAN.

13:58 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we have a complicated situation in Neath Port Talbot, where planning officers are today recommending that Celtic Energy's unlawful coal extraction at the east pit is brought under control via a planning application. At present, that unlawful extraction occurs, so we believe, inside the 500m buffer zone stipulated, as has been mentioned, in MTAN 2 and adopted by Neath Port Talbot County Borough Council as part of the local development plan. Will you, as the First Minister, agree with me that this undermines the reasoning behind the Government's guidance, and can you now make the MTAN law so that we do not make a laughing stock of this MTAN guidance?

Brif Weinidog, mae gennym sefyllfa gymhleth yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mae swyddogion cynllunio yn argymell heddiw y dylid rheoli cloddio glo anghyfreithlon Celtic Energy yn y pwll dwyreiniol trwy gais cynllunio. Ar hyn o bryd, mae'r cloddio anghyfreithlon hwnnw yn digwydd, rydym yn credu, y tu mewn i'r glustogfa 500m a nodir, fel y crybwyllwyd, yn MTAN 2 ac a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn rhan o'r cynllun datblygu lleol. A wnewch chi, fel y Prif Weinidog, gytuno â mi bod hyn yn tanseilio'r rhesymeg sy'n sail i ganllawiau'r Llywodraeth, ac a allwch chi wneud yr MTAN yn ddeddf nawr fel nad ydym yn gwneud sbort o'r canllawiau MTAN hyn?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a matter for the local planning authority to determine what it does in its own area. However, I know of no planning guidance that has become law. It never does. It is always issued as guidance on the back of legislation. As I have said, it is a matter for the local planning authority to explain its approach to any planning application in its area.

Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu beth mae'n ei wneud yn ei ardal ei hun. Fodd bynnag, nid wyf yn gwybod am unrhyw ganllawiau cynllunio sydd wedi troi'n ddeddf. Nid yw byth yn digwydd. Fe'i cyhoeddir bob amser fel canllawiau i ategu deddfwriaeth. Fel rwyf wedi dweud, mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw egluro ei ddull o ymdrin ag unrhyw gais cynllunio yn ei ardal.

13:59 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, once again, MTAN 2 affects my constituency with regard to the Parc Slip site. However, MTAN 2 states that it is unacceptable for coal working to be within a buffer zone of 500m from settlements, but it leaves the definition of 'settlement' to the mineral planning authority. Will the Welsh Government review the British Geological Survey's definition of 'settlement' and give strong guidance regarding what it considers to be a 'settlement'?

Brif Weinidog, unwaith eto, mae MTAN 2 yn effeithio ar fy etholaeth i o ran safle Parc Slip. Fodd bynnag, mae MTAN 2 yn nodi ei bod yn annerbyniol cloddio glo o fewn clustogfa o 500m o aneddiadau, ond mae'n gadael y diffiniad o 'anheddiad' i'r awdurdod cynllunio mwynau. A wnaiff Llywodraeth Cymru adolygu diffiniad Arolwg Daearegol Prydain o 'anheddiad' a chyflwyno canllawiau cryf o ran yr hyn y mae'n ystyried sy'n 'anheddiad'?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will ask the Minister for Environment and Sustainable Development to write to you on this issue. It would not be right to say that there is a 500m buffer zone without exception, because we know that the MTAN does not state that. However, I will make sure that the Minister for environment writes to you with the definition that you have asked for.

Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ysgrifennu atoch ar y mater hwn. Ni fyddai'n iawn dweud bod clustogfa 500m yn ddieithriad, oherwydd gwyddom nad yw'r MTAN yn nodi hynny. Fodd bynnag, byddaf yn gwneud yn siŵr bod y Gweinidog yr amgylchedd yn ysgrifennu atoch gyda'r diffiniad yr ydych wedi gofyn amdano.

### Cynllun Gwarant Morgais

### Mortgage Guarantee Scheme

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu cynllun gwarant morgais Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0939(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the implementation of the Welsh Government's mortgage guarantee scheme. OAQ(4)0939(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are close to agreeing a launch date with all of the key parties and we hope that that date will be announced within seven to 10 days.

Rydym yn agos at gytuno ar ddyddiad lansio gyda phob un o'r partïon allweddol, ac rydym yn gobeithio y bydd y dyddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi o fewn saith i 10 diwrnod.

Senedd.tv
Fideo Video

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. In your letter to me on 31 January, you talked about launching it in the summer. This is earlier than that, so I am pleased that you are able to do that. Given that this scheme was agreed upon and announced by your Minister in May 2012, and given that local councils in Wales are implementing a similar scheme to that being implemented in England at the moment, do you not think that the length of time it has taken to get this scheme off the ground is unfortunate? Would it not have been possible for you to have put it in place much earlier?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn eich llythyr ataf i ar 31 Ionawr, roeddech yn sôn am ei lansio yn yr haf. Mae hyn yn gynharach na hynny, felly rwy'n falch eich bod yn gallu gwneud hynny. O ystyried y cytunwyd ac y cyhoeddwyd y cynllun hwn gan eich Gweinidog ym mis Mai 2012, ac o ystyried bod cynghorau lleol yng Nghymru yn sefydlu cynllun tebyg i'r hyn sy'n cael ei sefydlu yn Lloegr ar hyn o bryd, onid ydych yn credu bod y cyfnod o amser y mae wedi ei gymryd i roi'r cynllun hwn ar waith yn anffodus? Oni fyddai wedi bod yn bosibl i chi ei roi ar waith yn gynharach o lawer?

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, because the successful launch of the scheme is dependent on having sufficient numbers of participating builders and lenders. It is only now that we are in a position where that is the case.

Na fyddai, oherwydd mae lansiad llwyddiannus y cynllun yn dibynnu ar gael digon o adeiladwyr a benthycwyr i gymryd rhan. Dim ond nawr yr ydym ni mewn sefyllfa lle mae hynny'n wir.

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, as I am sure you are aware, there are potential pitfalls with this scheme. What safeguards does your Government have in place to ensure that borrowers taking advantage of the scheme do not suffer if house prices fall or if mortgage rates rise rapidly? What measures will you put in place to judge the success of the scheme?

Brif Weinidog, fel rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, ceir peryglon posibl sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn. Pa fesurau diogelu mae eich Llywodraeth wedi eu sefydlu i sicrhau nad yw benthycwyr sy'n manteisio ar y cynllun yn dioddef os bydd prisiau tai yn gostwng, neu os bydd cyfraddau morgais yn codi'n gyflym? Pa fesurau y byddwch chi'n eu rhoi ar waith i farnu llwyddiant y cynllun?

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have put in place a guarantee that reduces the substantial upfront deposit that is required by potential homebuyers to just 5%. It is difficult to predict how house prices will develop in the future. If I had stood here in 2007 and suggested that house prices would drop by up to 20%, people would have been amazed that I had said that. The intention of the scheme is not necessarily to provide people with an investment, but to provide people with a roof over their heads. That is why the scheme is so important.

Rydym wedi sefydlu gwarant sy'n lleihau'r blaendal sylweddol ymlaen llaw sydd ei angen ar brynwyr tai posibl i 5% yn unig. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd prisiau tai yn datblygu yn y dyfodol. Pe bawn i wedi sefyll yma yn 2007 ac awgrymu y byddai prisiau tai yn gostwng o hyd at 20%, byddai pobl wedi'u syfrdanu fy mod wedi dweud hynny. Nid darparu buddsoddiad i bobl yw bwriad y cynllun hwn o reidrwydd, ond rhoi to dros eu pennau. Dyna pam mae'r cynllun mor bwysig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Mewn llythyr diweddar, dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth fod cwmnïau megis Barratt Homes, Persimmon Homes a Taylor Wimpey yn cynnig cynlluniau perchentyaeth gan Lywodraeth Cymru. Gan nad oes gan y datblygwyr hyn safleoedd mewn ardaloedd megis Ynys Môn, a yw'r Prif Weinidog yn gallu cadarnhau y bydd cwmnïau lleol a rhanbarthol yn rhan o gynllun NewBuy Cymru?

In a recent letter, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage said that companies such as Barratt Homes, Persimmon Homes and Taylor Wimpey offer Welsh Government home-ownership schemes. These developers do not have sites in areas such as Ynys Môn, so can the First Minister confirm that local and regional companies will be a part of the NewBuy Wales scheme?

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ar hyn o bryd, rydym yn sicrhau bod digon o gwmnïau yn rhan o'r cynllun. Unwaith y bydd hynny wedi ei wneud, bydd yn bosibl i Aelodau weld pwy sydd yn rhan o'r cynllun.

We are currently ensuring that an adequate number of companies are part of the scheme. Once that has been done, Members will be able to see who is included in the scheme.

Senedd.tv Fideo Video

**Gofal i'r Newydd-anedig**

**Neonatal Care**

14:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

*8. Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu gofal i'r newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0944(FM)*

*8. What are the Welsh Government's plans for safeguarding neonatal care in North Wales. OAQ(4)0944(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I expect the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to ensure that the people of north Wales have access to safe and sustainable neonatal services.

Rwy'n disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau bod gan bobl gogledd Cymru fynediad at wasanaethau newyddenedigol diogel a chynaliadwy.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

First Minister, do you believe that it is acceptable for south Wales to retain three level 3 neonatal centres while north Wales will have none, with Arrowe Park Hospital not even meeting standards set by the British Association of Perinatal Medicine. What assurances will you give to women in north Wales who will soon be forced to travel across the border to be treated under a health system that your Government has heavily criticised?

Brif Weinidog, a ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol i dde Cymru gadw tair canolfan newyddenedigol lefel 3 pan na fydd yr un gan ogledd Cymru, gan nad yw Ysbyty Arrowe Park yn bodloni'r safonau a bennwyd gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain hyd yn oed. Pa sicrwydd y byddwch chi'n ei roi i fenywod yng ngogledd Cymru a fydd yn cael eu gorfodi'n fuan i deithio ar draws y ffin i gael eu trin dan system iechyd y mae eich Llywodraeth wedi ei beirniadu'n hallt?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No decisions have yet been taken on the configuration of services in Betsi Cadwaladr LHB. The community health council has referred some issues to Welsh Ministers, and it is now for Welsh Ministers to assess what steps need to be taken next. The last thing I can say is that this is not some southern plot, as she often tries to put it in this Chamber. We want to make sure that people in north Wales have access to the same level of services as people in south Wales.

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud eto ar drefn gwasanaethau yn BILl Betsi Cadwaladr. Mae'r cyngor iechyd cymuned wedi atgyfeirio rhai materion at Weinidogion Cymru, a chyfrifoldeb Gweinidogion Cymru bellach yw asesu pa gamau sydd angen eu cymryd nesaf. Y peth olaf y gallaf ei ddweud yw nad yw hwn yn rhyw fath o gynllwyn deheuol, fel y mae'n ceisio ei awgrymu'n aml yn y Siambr hon. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl yng ngogledd Cymru fynediad at yr un lefel o wasanaethau â phobl yn ne Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae'r cyngor iechyd cymuned yn y gogledd wedi cyfeirio rhai materion i'r Gweinidog iechyd, fel rydych yn ei ddweud, a'r rheswm am hynny mewn ambell achos yw'r pellter y bydd disgwyl i bobl deithio i gael mynediad i wasanaethau. A ydych yn meddwl bod hynny yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun gofal dwys i fabanod newydd-anedig, lle mae angen y gofal brys hwnnw mor agos ag sy'n bosibl?

The community health council in north Wales has referred some issues to the Minister for health, as you have said, the reason for which, in some cases, is the distance that people will be expected to travel to access services. Do you think that that is particularly relevant in the case of intensive neonatal care, where the urgent care needs to be provided as near as possible?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae gan Weinidogion hawl i alw mewn y cynlluniau beth bynnag, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. I'w gwneud yn glir, byddaf yn cymryd y penderfyniad hwnnw gan fod gan y Gweinidog etholaeth o fewn ardal Betsi Cadwaladr. Bydd hyn, felly, yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried dros y diwrnodau nesaf.

Ministers have a right to call schemes in, and this is something that is currently being considered. To be clear, I will be the one making this decision, given that the Minister's constituency is within the Betsi Cadwaladr area. This will, therefore, be something that I will be considering over the coming days.

14:04 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn derbyn tystiolaeth yn ei gyfarfod dydd Iau gan y rhwydwaith newyddenedigol, sy'n nodi bod diffyg gofal dwys i fabanod yn y gogledd o'i gymharu â'r de. Mae'r rhwydwaith hefyd yn dweud nad yw'n sicr iawn os yw'r trefniadau a awgrymwyd gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ynghylch gofal, unwaith y caiff y gwasanaeth ei drosglwyddo i ysbyty Arrowe Park, yn ddigon cadarn. Ar sail hynny ac ar sail yr hyn a ddywedodd Llyr Huws Gruffydd, a wnewch chi ystyried, o ran eich grymoedd fel Gweinidogion, y cais hwn gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr i drosglwyddo'r gwasanaeth i Arrowe Park?

First Minister, the Children and Young People Committee will hear evidence in its meeting on Thursday from the neonatal network, which notes a lack of intensive care for babies in north Wales as compared with south Wales. The network also says that it is not convinced that the arrangements suggested by the Betsi Cadwaladr health board for care, once it has been transferred to Arrowe Park hospital, are robust enough. On that basis and following what was said by Llyr Huws Gruffydd, will you, within your powers as Ministers, give consideration to this request by the Betsi Cadwaladr health board to transfer the service to Arrowe Park?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r cais, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y pen draw. Bydd y penderfyniad hwnnw, ynghylch a ddylai rhan o'r cynllun neu'r cynllun i gyd ddod i Weinidogion, yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf.

Consideration will be given to this request, and a decision will ultimately be made. That decision, on whether part of the scheme or the whole scheme should come to Ministers, will be made over the next few weeks.

## System Anrhydeddu Arfaethedig Cymru

## Planned Welsh Honours System

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am system anrhydeddu arfaethedig Cymru. OAQ(4)0943(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the planned Welsh honours system. OAQ(4)0943(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcomed the constructive debate on this issue on the floor of the Assembly last week. As I indicated, I have asked officials to work up the detail of the St David awards, and I will keep Members informed of developments.

Croesewais yn fawr iawn y drafodaeth adeiladol ar y mater hwn ar lawr y Cynulliad yr wythnos diwethaf. Fel y dywedais, rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio ar fanylion gwobrau Dewi Sant, a byddaf yn hysbysu'r Aelodau am y datblygiadau.

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You have probably answered the question that I was going to put, which was: how detailed are the proposals that you announced last week during the Welsh Conservative debate? From your original answer this afternoon, you have indicated that a lot of the proposals are still being worked up. However, will the awards be presented by a third party separate from you as First Minister or the Government, or will they be Government awards, awarded to people across the whole of Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'n debyg eich bod wedi ateb y cwestiwn roeddwn i'n mynd i'w ofyn, sef: pa mor fanwl yw'r cynigion a gyhoeddwyd gennych yr wythnos ddiwethaf yn ystod trafodaeth Ceidwadwyr Cymru? O'ch ateb gwreiddiol y prynhawn yma, rydych wedi nodi bod llawer o'r cynigion yn dal i gael eu llunio. Fodd bynnag, a fydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno gan drydydd parti ar wahân i chi fel Prif Weinidog neu'r Llywodraeth, neu a fyddant yn wobrau'r Llywodraeth, a roddir i bobl ledled Cymru gyfan?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They cannot be Government awards. I want to ensure that the process of identifying who should eligible for the awards is as wide as possible. That takes us beyond Government. One option might be the use of an independent group of people to assess the awards, in the same way as is done with the honours system in Whitehall.

Ni allant fod yn wobrau'r Llywodraeth. Rwyf am sicrhau bod y broses o nodi pwy ddylai fod yn gymwys ar gyfer y gwobrau mor eang â phosibl. Mae hynny'n mynd â ni y tu hwnt i Lywodraeth. Un dewis fyddai defnyddio grŵp annibynnol o bobl i asesu'r gwobrau, yn yr un modd ag y gwneir gyda'r system anrhydeddau yn Whitehall.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, I, too, was going to ask how the details are progressing, but you have answered that. Do you agree with me that there is no need to mix churches or monarchies with any new Welsh honours system and that, instead, it should be a proud symbol of the citizenship of Wales that rewards Members of our national community for their work and contribution to our society, without involving political patronage?

Brif Weinidog, roeddwn innau hefyd yn mynd i ofyn sut mae'r manylion yn mynd rhagddynt, ond rydych chi wedi ateb hynny. A ydych chi'n cytuno â mi nad oes angen cymysgu eglwysi neu freniniaethau gydag unrhyw system anrhydeddau newydd i Gymru ac, yn hytrach, y dylai fod yn symbol balch o ddinasyddiaeth Cymru sy'n gwobrwyo Aelodau o'n cymuned genedlaethol am eu gwaith a'u cyfraniad at ein cymdeithas, heb gynnwys nawdd gwleidyddol?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I seem to have powers of telepathy this afternoon, which I hope I will retain over the course of the next 10 minutes and beyond. I listened to the debate last week, and there were some Members who took the view that there should be church involvement—Church in Wales involvement to be precise—and that there may be involvement by the monarchy. That is not the intention as far as the St David awards are concerned. They exist in a complementary way to the existing honours system. I see no role for any particular church in the awards themselves, although there will no doubt be religious organisations who will wish to nominate people in due course.

Mae'n ymddangos bod gen i bwerau telepathi'r prynhawn yma, ac rwy'n gobeithio y byddaf yn eu cadw yn ystod y 10 munud nesaf a thu hwnt. Gwrandewais ar y drafodaeth yr wythnos diwethaf, ac roedd rhai Aelodau o'r farn y dylid cynnwys yr eglwys—yr Eglwys yng Nghymru i fod yn fanwl gywir—ac y gellid cynnwys y frenhiniaeth. Nid dyna'r bwriad cyn belled ag y mae gwobrau Dewi Sant yn y cwestiwn. Maen nhw'n bodoli mewn ffordd sy'n ategu'r system anrhydeddau bresennol. Ni welaf unrhyw swyddogaeth i unrhyw eglwys benodol yn y gwobrau eu hunain, er nad oes amheuaeth y bydd sefydliadau crefyddol a fydd yn dymuno enwebu pobl maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

### Caethiwed i Hapchwarae

### Gambling Addiction

14:07 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaethau Llywodraeth Cymru o ran asesu a mynd i'r afael â chaethiwed i hapchwarae. OAQ(4)0946(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government provisions for assessing and tackling gambling addiction. OAQ(4)0946(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In general, there is no medical intervention for gambling, although psychological interventions can help individuals change their behaviour. People can access advice and support via their GP or organisations such as Gamblers Anonymous.

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw ymyrraeth feddygol ar gyfer hapchwarae, er y gall ymyraethau seicolegol helpu unigolion i newid eu hymddygiad. Gall pobl gael gafael ar gyngor a chefnogaeth drwy eu meddyg teulu neu sefydliadau fel Gamblers Anonymous.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

The UK Government has scrapped the gambling addiction survey that was carried out annually. Scotland and England are using the national health survey to try to seek this information. Wales has chosen not to do so. How will the Welsh Government be looking at assessing the implications of gambling addiction, particularly in the light of the growth of online gambling?

Mae Llywodraeth y DU wedi diddymu'r arolwg caethiwed i hapchwarae a gynhaliwyd yn flynyddol. Mae'r Alban a Lloegr yn defnyddio'r arolwg iechyd cenedlaethol i geisio cael y wybodaeth hon. Mae Cymru wedi dewis peidio â gwneud hynny. Sut fydd Llywodraeth Cymru yn asesu goblygiadau caethiwed i hapchwarae, yn enwedig yng ngoleuni twf gamblo ar-lein?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Policy on gambling is not devolved, nor is it an area that we particularly seek to see devolved in the near future. The Gambling Commission works closely with the UK Government's Department for Culture, Media and Sport to ensure that problem gambling is adequately understood and researched. Of course, we are all aware of the impact that gambling can have on individuals or their families. Support is available through websites such as GamCare, and Gamblers Anonymous provides further information and advice, as does Citizens Advice.

Nid yw polisi ar hapchwarae wedi'i ddatganoli, ac nid yw'n faes yr ydym am ei weld yn cael ei ddatganoli'n arbennig yn y dyfodol agos ychwaith. Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU i sicrhau bod hapchwarae sy'n peri problemau yn cael ei ddeall a'i ymchwilio'n briodol. Wrth gwrs, rydym i gyd yn ymwybodol o'r effaith y gall hapchwarae ei gael ar unigolion neu ar eu teuluoedd. Mae cymorth ar gael trwy wefannau fel GamCare, ac mae Gamblers Anonymous, yn ogystal â Chyngor ar Bopeth, yn darparu gwybodaeth a chyngor pellach.

14:08 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a recent report by the Royal College of Psychiatrists called for more awareness-raising about problematic gambling among public health practitioners and the general public, to highlight the dangers of addiction. Given the serious implications of problem gambling to public health, will the First Minister consider giving the health department a greater role in highlighting the danger of gambling, as it does for alcohol addiction?

Brif Weinidog, mae adroddiad diweddar gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yn galw am fwy o godi ymwybyddiaeth o hapchwarae sy'n peri problemau ymhlith ymarferwyr iechyd y cyhoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol, i dynnu sylw at beryglon caethiwed. O ystyried goblygiadau difrifol hapchwarae sy'n peri problemau i iechyd y cyhoedd a wnaiff y Prif Weinidog ystyried rhoi swyddogaeth fwy i'r adran iechyd o ran tynnu sylw at berygl hapchwarae, fel y mae'n ei wneud ar gyfer caethiwed i alcohol?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gambling does not sit entirely in the field of health. I mentioned earlier that there are no pharmaceutical interventions that can help in terms of gambling. Whether NHS treatment is available would depend on the severity and clinical need of any person. Those with a gambling addiction can seek the support and advice of their GP, and mental health services might play a part if the issue is having a bearing on, or is caused by, an individual's mental ill health. So, in terms of dealing with gambling, it is not a discrete health issue, but there are organisations out there that can help people who have gambling problems and which are easily accessible.

Nid yw hapchwarae ym maes iechyd yn gyfan gwbl. Soniais yn gynharach nad oes unrhyw ymyraethau fferyllol a all helpu o ran hapchwarae. Byddai'r cwestiwn o ba un a fyddai triniaeth y GIG ar gael ai peidio yn dibynnu ar ddifrifoldeb ac angen clinigol unrhyw unigolyn. Gall y rhai sy'n gaeth i hapchwarae ofyn am gefnogaeth a chyngor eu meddygon teulu, a gallai gwasanaethau iechyd meddwl chwarae rhan os yw'r mater yn cael dylanwad ar salwch meddwl unigolyn, neu'n ei achosi. Felly, o ran ymdrin â hapchwarae, nid yw'n fater iechyd ar wahân, ond mae yna sefydliadau ar gael sy'n gallu helpu pobl sydd â phroblemau hapchwarae ac y gellir cael gafael arnynt yn rhwydd.

14:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Alcohol Concern Cymru and the Royal College of Psychiatrists have co-launched a report called 'A losing bet? Alcohol and gambling: investigating parallels and shared solutions', which highlights the strong parallels between alcoholism and gambling addiction. Will the Welsh Government consider that report and explore how practitioners who specialise in problem gambling, or encounter it, can learn lessons from the approaches adopted to limiting alcohol misuse, both in terms of health, as you have mentioned, and the community work that we do?

Brif Weinidog, mae Alcohol Concern Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi cyd-lansio adroddiad o'r enw 'A losing bet? Alcohol and gambling: investigating parallels and shared solutions', sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd cryf rhwng alcoholiaeth a chaethiwed i hapchwarae. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried yr adroddiad hwnnw ac archwilio sut y gall ymarferwyr sy'n arbenigo mewn hapchwarae sy'n peri problemau, neu'n dod ar ei draws, ddysgu gwersi o'r dulliau a fabwysiadwyd i gyfyngu ar gamddefnydd o alcohol, o ran iechyd, fel yr ydych wedi ei grybwyll, a'r gwaith cymunedol yr ydym yn ei wneud?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned earlier, policy on gambling is not devolved, but the Minister for Health and Social Services has asked officials to contact the Department for Culture, Media and Sport to seek its views on that document and the need for further research on the health impacts of gambling addiction to see what lessons we can learn.

Fel y soniais yn gynharach, nid yw polisi ar hapchwarae wedi'i ddatganoli, ond mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i swyddogion gysylltu â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ofyn am ei barn ar y ddogfen honno a'r angen am ymchwil pellach i effeithiau caethiwed i hapchwarae er mwyn gweld pa wersi y gallwn ni eu dysgu.

### Athrawon Cyflenwi

### Supply Teachers

14:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am reoleiddio asiantaethau sy'n cyflenwi athrawon i ysgolion. OAQ(4)0947(FM)*

*11. Has the Welsh Government had any discussions with the UK Government on the regulation of agencies providing supply teachers to schools. OAQ(4)0947(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Schools adopt a range of approaches when employing supply teachers to cover absences in the summer. Estyn will report on the impact of different strategies on learner progress alongside a value-for-money study by the Wales Audit Office. We will then use evidence from those studies to inform and spread best practice across Wales and to raise any non-devolved issues with the UK Government.

Mae ysgolion yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau wrth gyflogi athrawon llanw yn ystod absenoldebau yn yr haf. Bydd Estyn yn adrodd ar effaith gwahanol strategaethau ar gynnydd dysgwyr ynghyd ag astudiaeth gwerth am arian gan Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o'r astudiaethau hynny wedyn i lywio a rhannu arfer gorau ledled Cymru ac i godi unrhyw faterion nad ydynt wedi'u datganoli gyda Llywodraeth y DU.

14:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister, which has pre-empted most of my points. However, last week, the NASUWT highlighted concerns that were previously highlighted by the National Union of Teachers, about the impact of agencies providing supply teachers to educate our children. While I recognise the need for headteachers to speed up the process of identifying supply replacement, there are examples that this approach of using private agencies might hit the moral of these teachers, resulting in qualified teachers not being treated equally in respect of pay, conditions or continuous professional development, and of some being paid as cover supervisors and being required to deliver the curriculum. Following that Estyn review, will the Welsh Government look into the issue to ensure that standards are maintained in delivering education to Welsh pupils?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, sydd wedi achub y blaen ar y rhan fwyaf o'm pwyntiau. Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf, tynnodd NASUWT sylw at bryderon a amlygwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn y gorffennol, am effaith asiantaethau sy'n darparu athrawon llanw i addysgu ein plant. Er fy mod yn cydnabod yr angen i benaethiaid gyflymu'r broses o nodi athro neu athrawes llanw, ceir enghreifftiau sy'n dangos y gallai'r dull hwn o ddefnyddio asiantaethau preifat fod yn ergyd i ysbryd yr athrawon hyn, gan olygu nad yw athrawon cymwysedig yn cael eu trin yn gyfartal o ran cyflog, amodau neu ddatblygiad proffesiynol parhaus, a bod rhai'n cael eu talu fel goruchwylwyr cyflenwi a'i bod yn ofynnol iddynt ddarparu'r cwricwlwm. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw gan Estyn, a fydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r mater er mwyn sicrhau y cynhelir safonau wrth ddarparu addysg i ddisgyblion Cymru?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have to remember that the employment of supply teachers is governed by a combination of UK employment law, through the temporary agency workers directive and the school teachers' pay and conditions document. Therefore, none of those fall into the remit of the Welsh Government. I refer the Member to the point I made earlier in terms of the work being carried out by Estyn, which will then inform us of what we need to do if it identifies issues and what we need to raise with the UK Government in terms of non-devolved issues.

Mae'n rhaid i ni gofio bod cyflogi athrawon llanw yn cael ei lywodraethu gan gyfuniad o gyfraith cyflogaeth y DU, trwy'r gyfarwyddeb gweithwyr asiantaeth dros dro a'r ddogfen tâl ac amodau athrawon ysgol. Felly, nid yw'r un o'r rhain yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Cyfeiriaf yr Aelod at y pwynt i mi ei wneud yn gynharach o ran y gwaith sy'n cael ei wneud gan Estyn, a fydd yn ein hysbysu wedyn am yr hyn y mae angen i ni ei wneud os bydd yn nodi problemau a'r hyn y mae angen i ni ei godi gyda Llywodraeth y DU o ran materion nad ydynt wedi'u datganoli.

14:12 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following on from David Rees's excellent question, concerns have been raised about the contracts that some supply teachers are almost forced to sign—the Swedish derogation. Concerns are coming forward about the need for the Welsh Government to put in place some practice to regulate what is termed as the exploitation of our valuable and vital supply teachers in Wales. We have 5,000 of these in Wales and they provide valuable support to our education system, but there are calls for the Welsh Government to look at regulating this in some way.

Yn dilyn ymlaen o gwestiwn ardderchog David Rees, codwyd pryderon am y contractau y mae rhai athrawon llanw yn cael eu gorfodi bron i'w llofnodi—rhan-ddirymiad Sweden. Mae pryderon yn cael eu cyflwyno am yr angen i Lywodraeth Cymru sefydlu rhyw fath o arfer i reoleiddio'r hyn a elwir yn gamfanteisio ar ein hathrawon llanw gwerthfawr a hanfodol yng Nghymru. Mae gennym 5,000 o'r rhain yng Nghymru, ac maen nhw'n darparu cefnogaeth werthfawr i'n system addysg, ond mae galwadau ar Lywodraeth Cymru i edrych ar reoleiddio hyn mewn rhyw ffordd.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Unless they are calls to devolve teachers' pay and conditions or to devolve employment law, it is difficult to see directly what we can do at present. However, I welcome what the Member has said, especially as I know that so many of her colleagues in London would happily get shot of the directive.

Oni bai eu bod yn alwadau i ddatganoli tâl ac amodau athrawon neu i ddatganoli'r gyfraith cyflogaeth, mae'n anodd gweld beth allwn ni ei wneud yn uniongyrchol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud, yn enwedig gan fy mod yn gwybod y byddai cynifer o'i chydweithwyr yn Llundain yn hapus i gael gwared ar y gyfarwyddeb.

14:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, beth am werth am arian i'r pwrs cyhoeddus am yr asiantaethau hyn? Mae ymchwil yr wyf i wedi'i wneud wedi canfod wyth awdurdod amrywiol iawn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth yr awdurdodau hynny wario dros £8 miliwn yn cyflogi athrawon drwy'r asiantaethau hyn, sy'n awgrymu bod rhyw £20 miliwn yn cael ei wario dros Gymru gyfan. Gwn fod y swyddfa archwilio yn edrych ar hyn, ac os yw'r swyddfa'n canfod bod cryn dipyn o arian yn cael ei wario yn y modd hwn, a fyddai modd meddwl am asiantaeth gydweithredol genedlaethol i ddarparu athrawon i'n ysgolion ni i gyd?

First Minister, what about value for money for the public purse in respect of these agencies? Research that I have undertaken has found eight very different authorities. In the last year, those authorities have spent over £8 million on employing teachers through these agencies, which suggests that some £20 million is spent across the whole of Wales. I know that the audit office is looking at this, and if it finds that a significant sum of money is spent in this way, would it be possible to give consideration to setting up a national agency to collaborate on providing teachers for all our schools?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n rhaid inni aros i weld beth fydd canlyniadau gwaith Estyn a'r swyddfa archwilio. Ar ôl hynny, byddwn mewn sefyllfa i ystyried y dystiolaeth ac i weithredu.

We must await the results of the work carried out by Estyn and the audit office. We will then be in a position to consider the evidence and take action.

## Cynlluniau i Ddiwygio 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'

## Plans to Revise 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'

14:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo. OAQ(4)0948(FM)*

*12. Does the Welsh Government have any plans to revise Minerals Technical Advice Note 2: Coal. OAQ(4)0948(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No. National planning policy and advice is, of course, kept under review, but there are no specific plans at this stage to review MTAN 2.

Nac oes. Wrth gwrs, mae polisi a chyngor cynllunio cenedlaethol yn cael ei adolygu'n barhaus, ond nid oes unrhyw gynlluniau penodol i adolygu MTAN 2 ar hyn o bryd.

14:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. You said earlier that, perhaps on certain occasions, an adequate buffer zone was not essential. How does that reconcile with when, on the basis of a site's proximity to residential properties, it was deemed an unacceptable impact on local residents in relation to noise and dust?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Nodwyd gennych yn gynharach, nad oedd clustogfa addas yn hanfodol ar rai achlysuron efallai. Sut mae hynny'n gyson â'r ffaith, ar sail agosrwydd safle i safleoedd preswyl, yr ystyriwyd ei fod yn creu effaith annerbyniol ar drigolion lleol o ran sŵn a llwch?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is a presumption in favour of the buffer zone, I would argue. There are exceptions in place to deal with specific situations. I cannot comment on specific planning applications.

Byddwn yn dadlau bod rhagdybiaeth o blaid y glustogfa. Mae eithriadau wedi'u sefydlu i ymdrin â sefyllfaoedd penodol. Ni allaf gynnig sylwadau ar geisiadau cynllunio penodol.

14:15 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gan ein bod yn sôn am ddiwygio nodiadau cyngor technegol, mae'n ddwy flynedd i'r mis ers pan gyhoeddodd y Llywodraeth ei bod am adolygu nodyn cyngor technegol 20 ar yr iaith Gymraeg. A ydych yn meddwl ei bod wedi cymryd tipyn bach yn hir ac onid yw'n hen bryd i'r Llywodraeth gyhoeddi nodyn diwygiedig, gan ei fod yn un o'r meysydd sy'n cael impact sylweddol ar yr iaith Gymraeg?

As we are talking about amending technical advice notes, it is two years this month since the Government announced that it was to review technical advice note 20 on the Welsh language. Do you think that it has taken rather a long time and is it not about time that the Government published an amended note, given that it is one of the areas that significantly impacts the language?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid oes gan hynny ddim byd i'w wneud â glo, wrth gwrs, ond er mwyn diwygio unrhyw TAN, mae proses sydd yn cael ei dilyn. Mae pob TAN yn cael ei ddiwygio mewn amser priodol.

That has nothing to do with coal, of course, but in amending any TAN, a process is followed. All TANs are amended in a timely manner.

14:16

## Pwynt o Drefn

## Point of Order

Senedd.tv Fideo Video

**Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Diolch am y cyfle i godi pwynt o drefn.

Thank you for the opportunity to raise a point of order.

Earlier this afternoon, during First Minister's questions, the leader of Plaid Cymru quoted the shadow Secretary of State for Wales in a way that was clearly intended to convey the impression that he had been critical of the Welsh Government's record in relation to the Welsh economy. In fact, what Mr Smith said was:

Yn gynharach y prynhawn yma, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, dyfynnwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid gan arweinydd Plaid Cymru mewn ffordd a oedd â'r nod eglur o gyfleu'r argraff ei fod wedi bod yn feirniadol o record Llywodraeth Cymru o ran economi Cymru. Yr hyn a ddywedodd Mr Smith mewn gwirionedd, oedd:

'Wales is being hit harder than anywhere else …by the Tory/Lib Dem Bedroom Tax, and the most vulnerable in Wales will be hit hardest.'

Mae Cymru'n cael ei tharo'n galetach nag unrhyw le arall … gan Dreth Ystafell Wely'r Toriaid / Democratiaid Rhyddfrydol, a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru fydd yn cael eu taro galetaf.'

Is it in order to ask that this accurate version of what was said be read into the account of our proceedings, so that the real intention of the shadow Secretary of State can be reflected there rather than the clearly erroneous version offered earlier?

A yw mewn trefn i ofyn bod y fersiwn gywir o'r hyn a ddywedwyd yn cael ei chynnwys yng nghofnod ein trafodion, fel y gellir adlewyrchu bwriad go iawn yr Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid yn hytrach na'r fersiwn sy'n amlwg yn anghywir a gynigiwyd yn gynharach?

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is not a matter for me, but I will give the Member an opportunity to clarify her remarks if she so wishes.

Nid yw hwn yn fater i mi, ond byddaf yn rhoi cyfle i'r Aelod egluro ei sylwadau os yw'n dymuno gwneud hynny.

14:17

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I directly quoted from a newspaper article this morning. I have nothing further to add. [Interruption.]

Lywydd, dyfynnais yn uniongyrchol o erthygl papur newydd y bore yma. Nid oes gennyf ddim pellach i'w ychwanegu. [Torri ar draws.]

14:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that that was a good answer, but your colleagues did not allow me to hear it. However, thank you for your clarification. That was not a point of order, and I remind Members that points of order should not be used as a means of continuing debates.

Rwy'n siŵr bod hwnna'n ateb da, ond ni chaniataodd eich cydweithwyr i mi ei glywed. Fodd bynnag, diolch am eich eglurhad. Nid oedd hwnna'n bwynt o drefn, ac rwy'n atgoffa'r Aelodau na ddylai pwyntiau o drefn gael eu defnyddio fel ffordd o barhau trafodaethau.

14:17

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

Llywydd, I have three changes to report to this week's business. In order to accommodate this afternoon's debate on the Welsh Ministers' response to the Welsh Language Commissioner's proposals for Welsh language standards, I have postponed the Minister's statement on youth engagement and progression and I have reduced the time allocated to the Stage 3 and 4 debates on the Public Audit (Wales) Bill from 90 to 60 minutes. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers and is available to Members electronically.

Lywydd, mae gennyf dri newid i fusnes yr wythnos hon i'w hysbysu amdanynt. Er mwyn cynnwys trafodaeth y prynhawn yma ar ymateb Gweinidogion Cymru i gynigion Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer safonau iaith Gymraeg, rwyf wedi gohirio datganiad y Gweinidog ar ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc ac wedi lleihau'r amser a neilltuwyd i drafodaethau Cyfnod 3 a 4 Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o 90 munud i 60 munud. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ddangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir dod o hyd iddo ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:18

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, is it possible to have two statements, please? The first is in relation to the news this afternoon of the relocation of the Royal Corps of Signals to RAF ST Athan. I am sure that you will join me in warmly welcoming this and in congratulating the Member of Parliament for the Vale of Glamorgan, Alun Cairns, for his tireless work on this—[Interruption.]

Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r newyddion y prynhawn yma am adleoli'r Corfflu Signalau Brenhinol i Awyrlu Brenhinol Sain Tathan. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i roi croeso cynnes i hyn ac i longyfarch yr Aelod Seneddol dros Fro Morgannwg, Alun Cairns, am ei waith diflino ar hyn—[Torri ar draws.]

14:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:18

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have a statement on the role of the Welsh Government in assisting this relocation to happen smoothly and on whether there are any obligations or offerings that the Welsh Government has made to the Ministry of Defence and the Westminster Government in relation to this relocation to St Athan?

A allem ni gael datganiad ar swyddogaeth Llywodraeth Cymru o ran darparu cymorth i sicrhau bod yr adleoliad hwn yn digwydd mewn modd didrafferth ac a oes unrhyw rwymedigaethau neu gynigion y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth San Steffan o ran yr adleoliad hwn i Sain Tathan?

Secondly, in relation to section 106 agreements, I had a meeting on Sunday night with residents in the village of Rhoose in relation to the moneys that were promised via planning permissions to make improvements to flooding, road infrastructure and transport operations. The company was unable to fulfil its section 106 agreements, so the money was not forthcoming. Is it possible to have a statement from the Minister with responsibility for planning as to what guidance the Welsh Government issues to planning authorities in relation to making sure that, where commitments are entered into, when companies go bankrupt, bonds are secured, and obligations are carried out so that residents are not left in the lurch?

Yn ail, o ran cytundebau adran 106, cefais gyfarfod gyda thrigolion ym mhentref y Rhŵs nos Sul i drafod yr arian a addawyd trwy ganiatâd cynllunio i wneud gwelliannau i seilwaith llifogydd, ffyrdd a gweithrediadau trafnidiaeth. Nid oedd y cwmni'n gallu bodloni ei gytundebau adran 106, felly nid oedd yr arian ar gael. A fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio ynghylch pa ganllawiau y dylai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i awdurdodau cynllunio o ran gwneud yn siŵr, lle gwneir ymrwymiadau, pan fydd cwmnïau yn mynd yn fethdalwyr, bod bondiau yn cael eu sicrhau, a rhwymedigaethau yn cael eu bodloni fel nad yw trigolion yn cael eu gadael mewn twll?

14:19

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To respond to Andrew R.T. Davies's questions, I am sure that we would all welcome—when we have seen the detail of the announcement—any relocation of the Royal Corps of Signals, particularly to St Athan. We await the details of that announcement. I think that it has just been made in Westminster, in the House of Commons, in the last hour or so. I congratulate all of those who played a part in seeking full use of St Athan; that includes thanking the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, Edwina Hart, for her role and work with the UK Government, and in making great progress in terms of our aerospace business park. All other partners, of course, have played their part.

I ymateb i gwestiynau Andrew R.T. Davies, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn croesawu—pan fyddwn ni wedi gweld manylion y cyhoeddiad—unrhyw adleoli'r Corfflu Signalau Brenhinol, ac i Sain Tathan yn enwedig. Rydym yn aros am fanylion y cyhoeddiad hwnnw. Rwy'n credu ei fod newydd gael ei wneud yn San Steffan, yn Nhŷ'r Cyffredin, yn ystod yr awr ddiwethaf. Rwy'n llongyfarch pawb a gymerodd ran yn y broses o geisio defnydd llawn o Sain Tathan; mae hynny'n cynnwys diolch i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Edwina Hart, am ei swyddogaeth a'i gwaith gyda Llywodraeth y DU, ac am wneud cynnydd mawr o ran ein parc busnes awyrofod. Mae'r holl bartneriaid eraill, wrth gwrs, wedi chwarae eu rhan.

Your second point is a matter for the Minister for Environment and Sustainable Development. Part of it, as I know, as a local issue, is historical. I wish to clarify this point to reassure constituents, as well as the wider public, on these matters.

Mater i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yw eich ail bwynt. Mae rhan ohono, fel rwyf yn gwybod, fel mater lleol, yn hanesyddol. Hoffwn egluro'r pwynt hwn i dawelu meddyliau etholwyr, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, o ran y materion hyn.

14:20

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have had a number of debates here recently about trying to get more finance for small and medium-sized enterprises, in particular, to access, but in view of yesterday's very disappointing announcement that lending from the banks actually went down during the last quarter, when can we have an opportunity to discuss how Wales is being affected by the failure, so far, of the Westminster Government's Funding for Lending scheme?

Rydym wedi cael nifer o drafodaethau yma yn ddiweddar am geisio cael mwy o gyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint, yn benodol, i gael mynediad, ond o ystyried y cyhoeddiad siomedig iawn ddoe bod benthyca gan y banciau wedi gostwng yn ystod y chwarter diwethaf, pryd allwn ni gael cyfle i drafod sut mae Cymru yn cael ei heffeithio gan fethiant cynllun Funding for Lending Llywodraeth San Steffan hyd yma?

14:21

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member for Cardiff North has raised an important point and question in terms of the recent announcement on the lending from banks. The impact on Wales particularly is being looked at by Dylan Jones-Evans, who is leading this other review, to examine how SMEs in Wales are served by existing sources of funding. I know that the Minister will want to bring back his report to the Chamber and to the Assembly in due course.

Mae'r Aelod dros Ogledd Caerdydd wedi codi pwynt a chwestiwn pwysig o ran y cyhoeddiad diweddar am y benthyca gan fanciau. Mae'r effaith ar Gymru yn benodol yn cael ei hystyried gan Dylan Jones-Evans, sy'n arwain yr adolygiad arall hwn, i ystyried sut mae BBaChau yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu gan ffynonellau cyllid presennol. Gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i ddod â'i adroddiad yn ôl i'r Siambr ac i'r Cynulliad maes o law.

14:22

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask for three statements. First of all, I welcome the fact that the Welsh Government held a summit on flooding yesterday, but it is important that we have the opportunity to test the outcomes of that with a ministerial oral statement.

Gofynnaf am dri datganiad. Yn gyntaf oll, rwy'n croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal uwchgynhadledd ar lifogydd ddoe, ond mae'n bwysig ein bod yn cael y cyfle i brofi canlyniadau hynny gyda datganiad llafar gweinidogol.

Secondly, could we have a written statement from the Minister for Health and Social Services in terms of the timetable that she now expects to follow in respect of the referrals that have been made to her regarding health reorganisation plans in north and west Wales? It is important that members of the public and clinicians in those areas have some certainty about the future. The sooner that the Minister is able to publish a timetable to provide that the better; it would be helpful.

Yn ail, a allem ni gael datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran yr amserlen y mae'n disgwyl ei dilyn bellach yng nghyswllt yr atgyfeiriadau a wnaed iddi ar gynlluniau ad-drefnu iechyd yng ngogledd a gorllewin Cymru? Mae'n bwysig bod gan aelodau o'r cyhoedd a chlinigwyr yn yr ardaloedd hynny rywfaint o sicrwydd am y dyfodol. Gorau po gyntaf y bydd y Gweinidog yn gallu cyhoeddi amserlen i ddarparu hynny; byddai o gymorth.

Thirdly, many Assembly Members have received correspondence from the Dogs Trust regarding the issue of microchipping. I know that the Welsh Government wants to move forward on this, but the correspondence that Members have received has indicated that there is finance available from the Dogs Trust to provide a free microchipping service to help dog owners with costs, and that this is only available for a temporary period. Could we have a statement from the Minister about whether he is able to take that offer up? Thank you.

Yn drydydd, mae llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi derbyn gohebiaeth gan y Dogs Trust ynghylch y mater o ficrosglodynnu. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i symud ymlaen ar hyn, ond mae'r ohebiaeth y mae'r Aelodau wedi ei derbyn wedi nodi bod cyllid ar gael gan y Dogs Trust i ddarparu gwasanaeth microsglodynnu am ddim i helpu perchnogion cŵn gyda chostau, a bod hyn ar gael am gyfnod dros dro yn unig. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog o ran a yw'n gallu manteisio ar y cynnig hwnnw? Diolch.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those three questions, Darren Millar. We all welcomed the flooding summit, particularly those of us whose constituencies were affected over the recent weeks and months. There was a clear indication from the Minister that this is a strategic priority, and an investment priority, in terms of a Wales infrastructure investment plan. Of course, it is about protection and alleviation. The allocation of funding will be reflected in our supplementary budget, as we debate it later this afternoon.

Diolch i chi am y tri chwestiwn yna, Darren Millar. Rydym i gyd yn croesawu'r uwchgynhadledd llifogydd, yn enwedig y rhai yn ein plith yr effeithiwyd ar eu hetholaethau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf. Roedd arwydd clir gan y Gweinidog bod hyn yn flaenoriaeth strategol, ac yn flaenoriaeth buddsoddi, o ran cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'n ymwneud, wrth gwrs, â diogelu a lliniaru. Bydd dyraniad y cyllid yn cael ei adlewyrchu yn ein cyllideb atodol, wrth i ni ei thrafod yn ddiweddarach y prynhawn yma.

It is important that the Minister for health can take stock of where we are with timescales for the receipt of feedback from extensive and detailed consultation and consideration, particularly by our community health councils as well as the health boards. Of course, that is a matter for the Minister for Health and Social Services to respond to and to update us in due course.

Mae'n bwysig y gall y Gweinidog iechyd gymryd golwg ar ble rydym ni o ran amserlenni ar gyfer derbyn adborth o ymgynghoriad ac ystyriaeth helaeth a manwl, yn enwedig gan ein cynghorau iechyd cymuned yn ogystal â'r byrddau iechyd. Mae hwnnw'n fater i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb iddo, wrth gwrs, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni maes o law.

In terms of taking forward the consultation on the Control of Dogs (Wales) Bill, that is now progressing. We are consulting widely. Consultation closed on 1 March, which was last week. This is about encouraging responsible dog ownership. The legislation will make it an offence for a dog to be dangerously out of control anywhere in Wales, including on private property.

O ran bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y Bil Rheoli Cŵn (Cymru), mae hynny'n mynd rhagddo bellach. Rydym yn ymgynghori'n eang. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Mawrth, sef yr wythnos diwethaf. Mae hyn yn ymwneud ag annog perchnogaeth cŵn cyfrifol. Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n drosedd i gi fod allan o reolaeth yn beryglus mewn unrhyw le yng Nghymru, gan gynnwys ar eiddo preifat.

14:24 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may know that Neath Port Talbot County Borough Council is considering ending free home-to-school transport for pupils at voluntary aided schools. I know that Welsh Government advice on this matter leaves it to the discretion of the local authority, but in this instance, no equality impact assessment was made. Therefore, in your capacity as Minister with responsibility for equality, could we have a statement from you to indicate whether this should have taken place and whether this will happen across the board in Wales in future when this policy is amended?

Weinidog, efallai eich bod yn gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ystyried rhoi terfyn ar gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gwn fod cyngor Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn ei adael i ddisgresiwn yr awdurdod lleol, ond yn yr achos hwn, ni chynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb. Felly, yn eich swydd fel Gweinidog â chyfrifoldeb am gydraddoldeb, a allem ni gael datganiad gennych chi i nodi a ddylai hyn fod wedi digwydd ac a fydd hyn yn digwydd ym mhob rhan o Gymru yn y dyfodol pan gaiff y polisi hwn ei ddiwygio?

Secondly, we have seen today, in questions from my colleagues from Gwent, that coal mining is very much back on the agenda. In my area, however, it has never really been off the agenda, what with opencast mining, the tragedy at Gleision and now the plans to extract coal from a tipping site in the Swansea Valley, near Ystalyfera. I would, therefore, request from the Government a debate on the future of coal. Considering the Government's emphasis on its priorities in sustainability, where will coal fit in the wider scheme of Government policy in the future?

Yn ail, rydym wedi gweld heddiw, mewn cwestiynau gan fy nghydweithwyr o Went, bod cloddio glo yn sicr yn ôl ar yr agenda. Yn fy ardal i, fodd bynnag, nid yw erioed wedi bod oddi ar yr agenda mewn gwirionedd, gan ystyried cloddio glo brig, y trychineb yng Ngleision a'r cynlluniau nawr i gloddio glo o safle tipio yng Nghwm Tawe, ger Ystalyfera. Hoffwn, felly, wneud cais i'r Llywodraeth am drafodaeth ar ddyfodol glo. O ystyried pwyslais y Llywodraeth ar ei blaenoriaethau mewn cynaliadwyedd, beth fydd sefyllfa glo yng nghyswllt ehangach polisi'r Llywodraeth yn y dyfodol?

14:25

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that Bethan Jenkins, in her first question, was quite right to say that it is a matter for the local authority to decide on the provision of school transport, and on the charging for school transport and any changes to be made. It is a matter for the local authority, and we would expect it to deliver in terms of an equality impact assessment under the strategic equality plans that local authorities are responsible for.

Credaf fod Bethan Jenkins, yn ei chwestiwn cyntaf, yn hollol iawn i ddweud mai mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu ar y ddarpariaeth o gludiant ysgol, ac ar godi tâl am gludiant ysgol, ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud. Mater i'r awdurdod lleol yw hwn, a byddem yn disgwyl iddo gyflawni o ran asesu'r effaith ar gydraddoldeb dan y cynlluniau cydraddoldeb strategol y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt.

The second question is a matter for Ministers to consider in terms of developments and our wider energy policy.

Mae'r ail gwestiwn yn fater i Weinidogion ei ystyried o ran datblygiadau a'n polisi ynni ehangach.

14:26

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the House, I wonder whether we could have a statement from the Minister for Environment and Sustainable Development. On 25 January, the UK Government stole a march, as it were, on the Welsh Government by announcing that it would lift the restrictions on redundant farm buildings, meaning that they could be put to use without an application for planning permission, and that empty office space could be turned into housing, again without the need for planning permission. This move substantially removes red tape, and creates opportunities for employment, particularly in construction. I am sure that you are aware of the pressure on local authorities to make sure that there is sufficient local housing for the projected population growth. Could we, therefore, have a statement from the Minister for environment, who is, of course, responsible for planning, given that the new planning Bill is anticipated to be many years away?

Arweinydd y Tŷ, tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Ar 25 Ionawr, achubodd Llywodraeth y DU y blaen, fel petai, ar Lywodraeth Cymru trwy gyhoeddi y byddai'n diddymu'r cyfyngiadau ar adeiladau fferm segur, sy'n golygu y gellid eu defnyddio heb gais am ganiatâd cynllunio, ac y gellid troi swyddfeydd gwag yn dai, heb yr angen am ganiatâd cynllunio eto. Mae'r cam hwn yn cael gwared ar fiwrocratiaeth yn sylweddol, ac yn creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r pwysau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o dai lleol ar gael ar gyfer y twf a ragwelir i'r boblogaeth. A gawn ni ddatganiad, felly, gan Weinidog yr amgylchedd, sydd, wrth gwrs, yn gyfrifol am gynllunio, o gofio y rhagwelir bod y Bil cynllunio newydd rai blynyddoedd i ffwrdd?

14:28

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Of course, there has been extensive consultation on our new planning Bill, which will be made in Wales to fit our purposes and needs. I am sure that that will include the opportunity to use any redundant buildings, including farm buildings. Anything that could be used for housing would fit very well with our forthcoming housing Bill, which is being promoted by the Minister for Housing, Regeneration and Heritage.

Wrth gwrs, bu ymgynghori helaeth ar ein Bil cynllunio newydd, a fydd yn cael ei wneud yng Nghymru i gyd-fynd â'n dibenion a'n hanghenion. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n cynnwys y cyfle i ddefnyddio unrhyw adeiladau segur, gan gynnwys adeiladau fferm. Byddai unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tai yn cyd-fynd yn dda iawn gyda'n Bil tai sydd ar y gweill, ac sy'n cael ei hyrwyddo gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth.

14:28 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n cydnabod y gwaith mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth yn ei wneud ynghylch trydaneiddio rheilffordd y gogledd, ond mae materion yn codi sy'n ymwneud â thrafnidiaeth drawsffiniol i Lerpwl a Manceinion. A yw'n bosibl i'r Llywodraeth bennu amser yn ei hamserlen i drafod y pwysau o du Llywodraeth Prydain ynghylch yr achos busnes mae'r Gweinidog yn gweithio arno ar hyn o bryd?

Minister, I acknowledge the work that the Minister with responsibility for transport is doing on the electrification of the railways in north Wales, but matters do arise in relation to cross-border transport to Liverpool and Manchester. Is it possible for the Government to allocate time within its timetable to discuss the pressure from the British Govermment on the business case on which the Minister is currently working?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Aled Roberts raises a point that the Minister for transport is already fully aware of in terms of cross-border transport infrastructure and, indeed, investment. That goes across UK Government and Welsh Government responsibilities—particularly relating to UK Government responsibilities. He will be responding to that.

Mae Aled Roberts yn codi pwynt y mae'r Gweinidog trafnidiaeth yn gwbl ymwybodol ohono eisoes o ran seilwaith trafnidiaeth traws-ffiniol ac, yn wir, buddsoddiad. Mae hynny'n mynd ar draws cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru—yn enwedig o ran cyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Bydd yn ymateb i hynny.

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, we have recently heard many concerns about the horsemeat issue, but linked to that is the side issue of microchipping horses. It has proved very difficult to trace horses back from the abattoirs to where they came from. On that basis, could we have a statement from the Welsh Government, from the Minister for environment, on what is being done to encourage the microchipping of horses in Wales? It became a legal requirement in 2009, but I think that only 1% or so of horses are actually being microchipped as they should be.

Arweinydd y Tŷ, rydym wedi clywed llawer o bryderon yn ddiweddar am y mater cig ceffyl, ond yn gysylltiedig â hynny mae'r mater ategol o ficrosglodynnu ceffylau. Mae wedi bod yn anodd iawn olrhain ceffylau yn ôl o'r lladd-dai a chanfod o ble y daethant. Ar y sail honno, a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru, gan Weinidog yr amgylchedd, ar yr hyn sy'n cael ei wneud i annog microsglodynnu ceffylau yng Nghymru? Daeth yn ofyniad cyfreithiol yn 2009, ond rwy'n credu mai dim ond tua 1% o geffylau sy'n cael eu microsglodynnu fel y dylent mewn gwirionedd.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 2.30 p.m.*

*Sandy Mewies took the Chair at 2.30 p.m.*

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be sharing this with the Minister. I would also say that we are very concerned about the unilateral closure of the national equine database. That has made traceability much more difficult, and has placed far greater burdens on passport-issuing officers and local enforcement authorities. I would therefore ask Nick Ramsay to join us in raising our concerns with the UK Government on this matter. We have raised it a number of times, and it now seems more urgent than ever that the UK Government works with us, and the wider equine community, to address this issue.

Byddaf yn rhannu hyn gyda'r Gweinidog. Byddwn hefyd yn dweud ein bod yn bryderus iawn am y penderfyniad unochrog i gau'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol. Mae hynny wedi gwneud olrhain yn llawer mwy anodd, ac mae wedi rhoi llawer mwy o faich ar swyddogion sy'n cyflwyno pasbortau ac awdurdodau gorfodi lleol. Rwyf yn gofyn felly i Nick Ramsay ymuno â ni i godi ein pryderon gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Rydym wedi ei godi nifer o weithiau, ac mae'n ymddangos bellach bod mwy o frys nag erioed i Lywodraeth y DU weithio gyda ni, a'r gymuned geffylau ehangach, i fynd i'r afael â'r mater hwn.

14:31 **Datganiad: Ardrethi Busnes** / **Statement: Business Rates**

Senedd.tv
Fideo Video

## Edwina Hart

Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth / The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science*

I want to update you on the developments and the progress being made on business rates policy in Wales, as we address the recommendations of the independent business rates policy review. The UK Government has taken the decision to defer the next non-domestic rate revaluation in England from 2015 until 2017. This was not an announcement that we welcomed. Last month, the National Assembly for Wales agreed the legislative consent motion on the subject of allowing Welsh Ministers to decide on the date of the next revaluation here. To inform that decision, I sought the advice of Professor Brian Morgan and his colleagues on the task and finish group, who have engaged with several stakeholders on this issue, including the members of the council for economic renewal. The task and finish group has considered the issues, and has concluded that there are technical, economic and practical reasons for Wales to implement the same revaluation date as England. The same decision has recently been taken in Scotland.

Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau a'r cynnydd o ran polisi ardrethi busnes yng Nghymru, wrth i ni ymdrin â'r argymhellion yn yr adolygiad annibynnol ar bolisi ardrethi busnes. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu gohirio'r ailbrisiad nesaf ar ardrethi annomestig yn Lloegr o 2015 tan 2017. Nid oedd hwn yn gyhoeddiad yr oeddem yn ei groesawu. Fis diwethaf, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar ganiatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar ddyddiad yr ailbrisiad nesaf yma. I lywio'r penderfyniad hwnnw, gofynnais am gyngor yr Athro Brian Morgan a'i gydweithwyr ar y grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi trin a thrafod â nifer o randdeiliaid ar y mater hwn, gan gynnwys aelodau o gyngor adnewyddu'r economi. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi ystyried y materion, ac wedi dod i'r casgliad bod rhesymau technegol, economaidd ac ymarferol i Gymru weithredu'r un dyddiad ailbrisio â Lloegr. Gwnaed yr un penderfyniad yn ddiweddar yn yr Alban.

First, and of particular relevance to Professor Morgan's conclusion, are the significant economic issues and close interrelationship of businesses on both sides of the border. Businesses have consistently told the task and finish group that they value certainty, and Professor Morgan has concluded that instituting a different revaluation date in Wales would not assist a stable business environment. Secondly, if Wales was to set a different date, then it is possible that the rates multiplier would need to be significantly increased to balance against reductions in rateable values. In addition, a higher multiplier in Wales than that just across our border may create a perception of a less competitive and less business-friendly environment for new investors. Finally, while cost issues are not the determining factor in the decision, it is clear that operating a different five-year cycle to England may result in increased administrative costs. For example, valuation evidence is drawn from both England and Wales, and certain classes of property are subject to schemes of value that are drawn up by professional bodies. These bodies may not be prepared to bear the cost of administering two distinct revaluation cycles.

Yn gyntaf, ac yn arbennig o berthnasol i gasgliad yr Athro Morgan, mae'r materion economaidd sylweddol a'r berthynas agos rhwng busnesau ar ddwy ochr y ffin. Mae busnesau wedi dweud yn gyson wrth y grŵp gorchwyl a gorffen eu bod yn gwerthfawrogi sicrwydd, ac mae'r Athro Morgan wedi dod i'r casgliad na fyddai dyddiad ailbrisio gwahanol yng Nghymru o gymorth i greu amgylchedd busnes sefydlog. Yn ail, pe byddai Cymru yn pennu dyddiad gwahanol, yna mae'n bosibl y byddai angen cynyddu'r lluosydd ardrethi yn sylweddol er mwyn mantoli yn erbyn gostyngiadau mewn gwerthoedd ardrethol. Yn ogystal, gallai lluosydd uwch yng Nghymru nag yn union dros y ffin greu canfyddiad ymhlith buddsoddwyr newydd o amgylchedd llai cystadleuol a llai cyfeillgar i fusnesau. Yn olaf, er nad materion yn ymwneud â chostau yw'r ffactor sy'n llywio'r penderfyniad, mae'n amlwg y gallai gweithredu cylch pum mlynedd gwahanol i Loegr arwain at fwy o gostau gweinyddol. Er enghraifft, mae tystiolaeth brisio yn cael ei thynnu o Gymru a Lloegr, ac mae dosbarthiadau penodol o eiddo yn destun cynlluniau gwerth sy'n cael eu llunio gan gyrff proffesiynol. Efallai na fydd y cyrff hyn yn barod i dalu costau gweinyddu dau gylch ailbrisio gwahanol.

In taking this decision to defer the next revaluation to 2017, in line with England and Scotland, I am aware that there are concerns. For this reason, I am proposing to take two steps. First, there may be some sections of the business community that are particularly affected by the deferral. I am therefore prepared to consider the potential for a fund to cover the period from April 2015 until April 2017. This would not be for all businesses that have been affected, as that would be unaffordable, however, I would consider a targeted approach, but this will require more in-depth analysis and costing. I have asked officials to consider this in more detail going forward. Secondly, a number of Members and businesses have raised concerns about rateable values, and this process, with me. I want to use this period to explore and consider these concerns. I have asked the business rates policy task and finish group to examine the issues and the anomalies that businesses and others perceive. I will consider its findings and use its evidence to press the UK Government to improve the system prior to any future revaluation. In addition, the Minister for Local Government and Communities and I recently announced some research into the classification of holiday lettings for local taxation purposes. This is an issue that businesses have raised with me.

I would also like to take this opportunity to update Members on Professor Morgan's work on charity shops and rates. Over recent months, I have received significant correspondence from charities, Members and others, who fear that a change in the rates regime may affect some of the most vulnerable, as well as having a negative impact on the work of smaller charities. I want to allay some fears today, as there seems to have been some inaccurate coverage of this issue. In particular, unnecessary alarm seems to have been caused by a suggestion that a 50% rate relief limit would apply to all charity shops. However, Professor Morgan's recommendation focused on larger charity shops. I would ask everyone to look at the principal recommendation of the business rates policy review, which was for the Welsh Government and the UK Government to consult with charitable and retail sectors to discuss these issues. I have previously made it clear that there was no suggestion that the Welsh Government was going to take immediate or unilateral action.

Professor Morgan has received over 100 responses to his call for evidence. He also led a workshop last week, attended by a range of representatives from charities, businesses and social enterprises. Professor Morgan is now finalising his advice and I will provide an update for Members when I have had a chance to consider his report.

Finally, I would like to update Members briefly on some other developments. The fundamental recommendation of the business rates policy review to fully devolve rates was shared by the Silk commission. The UK Government has committed to publishing a response to the Silk commission's proposals on financial reform in the spring, and I look forward to developments in this area. I am pleased to say that the UK Government has already acted on some policy proposals in its autumn statement, following the Welsh Government response to the business rates policy review in October.

Wrth wneud y penderfyniad hwn i ohirio'r ailbrisio nesaf hyd at 2017, yn unol â Lloegr a'r Alban, rwyf yn ymwybodol bod pryderon. Am y rheswm hwnnw, rwy'n bwriadu cymryd dau gam. Yn gyntaf, efallai y bydd rhai rhannau o'r gymuned fusnes y bydd y gohirio'n effeithio'n arbennig arnynt. Rwyf yn barod, felly, i ystyried potensial creu cronfa ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2015 tan fis Ebrill 2017. Ni fyddai hyn ar gyfer yr holl fusnesau yr effeithiwyd arnynt, gan y byddai hynny'n anfforddiadwy; fodd bynnag, byddwn yn ystyried dull wedi'i dargedu, ond bydd hynny'n gofyn am ddadansoddi a chostio mwy manwl. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried hyn yn fanylach yn y dyfodol. Yn ail, mae nifer o Aelodau a busnesau wedi codi pryderon am werthoedd ardrethol, a'r broses hon, gyda mi. Rwyf am ddefnyddio'r cyfnod hwn i archwilio ac ystyried y pryderon hyn. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar bolisi ardrethi busnes edrych ar y materion a'r anghysondebau y mae busnesau ac eraill yn eu canfod. Byddaf yn ystyried ei ganfyddiadau ac yn defnyddio'i dystiolaeth i bwyso ar Lywodraeth y DU i wella'r system cyn unrhyw ailbrisio yn y dyfodol. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a minnau yn ddiweddar rywfaint o ymchwil i ddosbarthiad tai gwyliau ar osod at ddibenion trethiant lleol. Mae hwn yn fater y mae busnesau wedi'i godi gyda mi.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar waith yr Athro Morgan ar siopau elusen ac ardrethi. Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi derbyn cryn dipyn o ohebiaeth gan elusennau, Aelodau ac eraill, sy'n ofni y gallai newid yn y gyfundrefn ardrethi effeithio ar rai o'r rhai mwyaf agored i niwed, yn ogystal â chael effaith negyddol ar waith elusennau llai. Rwyf am dawelu rhai ofnau heddiw, oherwydd ymddengys y bu rhywfaint o sylw anghywir i'r mater hwn. Yn benodol, ymddengys fod ofnau diangen wedi eu codi yn sgil awgrym y byddai terfyn rhyddhad ardrethi o 50% yn berthnasol i bob siop elusen. Fodd bynnag, roedd argymhelliad yr Athro Morgan yn canolbwyntio ar siopau elusen mwy. Byddwn yn gofyn i bawb edrych ar brif argymhelliad yr adolygiad o bolisi ardrethi busnes, sef bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymgynghori â sectorau elusennol a manwerthu i drafod y materion hyn. Rwyf wedi dweud yn glir o'r blaen nad oedd unrhyw awgrym fod Llywodraeth Cymru yn mynd i gymryd camau ar unwaith neu gamau unochrog.

Mae'r Athro Morgan wedi cael dros 100 o ymatebion i'w alwad am dystiolaeth. Arweiniodd weithdy hefyd yr wythnos diwethaf, gydag ystod o gynrychiolwyr o elusennau, busnesau a mentrau cymdeithasol. Mae'r Athro Morgan yn awr yn cwblhau ei gyngor a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau pan fyddaf wedi cael cyfle i ystyried ei adroddiad.

Yn olaf, hoffwn roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau yn fyr ar rai datblygiadau eraill. Roedd comisiwn Silk yn rhannu argymhellion sylfaenol yr adolygiad o bolisi ardrethi busnes i ddatganoli ardrethi'n llawn. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyhoeddi ymateb i gynigion comisiwn Silk ar ddiwygio ariannol yn y gwanwyn, ac edrychaf ymlaen at ddatblygiadau yn y maes hwn. Rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth y DU eisoes wedi gweithredu ar rai cynigion polisi yn ei datganiad yn yr hydref, yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o bolisi ardrethi busnes ym mis Hydref.

On small business rate relief, we successfully pressed for an extension of the scheme and, in January, I announced the extension of the Welsh small business rate relief scheme from 2012-13 to 2013-14. The review had important recommendations about empty property rates exemptions for new developments, and the UK Government announced a longer period of relief—18 months—from empty property rates for certain new non-domestic buildings completed between 1 October 2013 and 30 September 2016. I welcome this and have asked my officials to consider the costs and other issues associated with improving this further by implementing the recommendation of the review for a two-year exemption, with three years in assisted areas.

O ran rhyddhad ardrethi busnesau bach, rydym wedi pwyso'n llwyddiannus am estyn y cynllun ac, ym mis Ionawr, cyhoeddais y byddai'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru'n cael ei estyn o 2012-13 i 2013-14. Roedd yn yr adolygiad argymhellion pwysig am eithriadau o ran ardrethi eiddo gwag ar gyfer datblygiadau newydd, a chyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfnod hirach o ryddhad—18 mis—rhag ardrethi eiddo gwag ar gyfer rhai adeiladau newydd annomestig a gwblheir rhwng 1 Hydref 2013 a 30 Medi 2016. Rwy'n croesawu hyn ac wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y costau a materion eraill sy'n gysylltiedig â gwella hyn ymhellach drwy weithredu argymhelliad yr adolygiad ar gyfer eithriad o ddwy flynedd, a thair blynedd mewn ardaloedd a gynorthwyir.

In addition, I asked Professor Morgan to look at the schemes in Northern Ireland and Scotland to bring empty properties into use by offering 50% relief. I have received some initial advice from Professor Morgan that suggests that we should explore the opportunity for a similar scheme in Wales. I have asked officials to consider the costs and implementation issues. Finally, we are at the point of setting out the detail of the £200,000 start-up funding for business improvement districts to support town centres in Wales.

Yn ogystal, gofynnais i'r Athro Morgan edrych ar y cynlluniau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban i sicrhau bod eiddo gwag yn dechrau cael ei ddefnyddio eto drwy gynnig rhyddhad o 50%. Rwyf wedi cael rhywfaint o gyngor cychwynnol gan yr Athro Morgan sy'n awgrymu y dylem edrych ar y cyfle i gael cynllun tebyg yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried y costau a materion yn ymwneud â gweithredu'r cynllun. Yn olaf, rydym ar fin datgan manylion yr arian cychwyn o £200,000 ar gyfer ardaloedd gwella busnes i gefnogi canol trefi yng Nghymru.

We have launched a £20 million business rate scheme across all our Welsh enterprise zones. We also launched a Welsh renewable energy business rate scheme to provide further support for this sector. Applications for both schemes are currently being assessed. A good degree of progress has been made, but this is a fast-paced policy agenda and there is more to do. I will ensure that Members are kept informed of developments.

Rydym wedi lansio cynllun ardrethi busnes gwerth £20 miliwn ar draws ein holl ardaloedd menter yng Nghymru. Rydym hefyd wedi lansio cynllun ardrethi busnes ynni adnewyddadwy yng Nghymru i roi rhagor o gefnogaeth i'r sector hwn. Mae ceisiadau ar gyfer y ddau gynllun yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Gwnaed cynnydd da, ond mae'r agenda bolisi hon yn symud yn gyflym ac mae mwy i'w wneud. Byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau.

14:37

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the Minister for business's statement today on business rates, which is clearly a very important subject at the moment with the difficulties that businesses are facing. I also welcome the work that has been done in this area by Professor Brian Morgan. It does seem that this group is a lot more task than finish at the moment, but we look forward to Professor Morgan's conclusions when he is finished with his current pieces of work on business rates, charity shops and the like.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog busnes heddiw ar ardrethi busnes, sy'n amlwg yn bwnc pwysig iawn ar hyn o bryd gyda'r anawsterau y mae busnesau'n eu hwynebu. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn gan yr Athro Brian Morgan. Mae'n ymddangos bod y grŵp hwn yn llawer mwy o dasg na gorffen ar hyn o bryd, ond rydym yn edrych ymlaen at gasgliadau'r Athro Morgan pan fydd wedi gorffen delio â'i waith cyfredol ar ardrethi busnes, siopau elusen ac yn y blaen.

Having heard the Minister's arguments, I thank her for the briefings that I and other AMs have had on this. It has been very helpful to have been kept in the loop as things have developed. I agree that there are good technical reasons for us to implement the same revaluation date as in England. The arguments have been made by Professor Morgan and the costs of moving to a different five-year cycle to that which is happening in England would seem to be prohibitive. Also, the fact that there would be a need for a separate multiplier in Wales seems, on the face of it, to be a complexity that, certainly at this point in time, we do not need. The important thing should be to help businesses that need it.

Ar ôl clywed dadleuon y Gweinidog, diolchaf iddi am y sesiynau briffio yr wyf i ac ACau eraill wedi eu cael ar hyn. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael gwybodaeth berthnasol wrth i bethau ddatblygu. Rwy'n cytuno bod rhesymau technegol da dros ddefnyddio'r un dyddiad ailbrisio â Lloegr. Mae'r dadleuon wedi eu gwneud gan yr Athro Morgan ac ymddengys y byddai costau symud i gylch pum mlynedd gwahanol i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr yn anymarferol. Hefyd, ymddengys ar yr wyneb fod y ffaith y byddai angen lluosydd ar wahân yng Nghymru'n cymhlethu pethau, mewn ffordd nad ydym yn sicr ei angen ar hyn o bryd. Dylem fod yn canolbwyntio ar helpu busnesau y mae angen cymorth arnynt.

I have a couple of questions for you, Minister. I am pleased that you recognise the need for a fund to support those sections of the business community that will be affected by the delay in revaluation, and I am sure that many Assembly Members have been contacted by businesses that are concerned about the detrimental effect of revaluation being pushed back until 2017. However, as you said, that is not something that was within your control here; it was on a UK level. How are you going to decide which businesses are most in need? Clearly, there is a limited amount of funding available. How will you prioritise which businesses should qualify for that support, because some businesses will feel left out? How much money do you envisage being in that support fund? Could you give us an estimate of how much money will be in it? Do you have money in reserve to cover that fund, or will it have to come from other areas of business support? Will there be knock-on consequences down the line?

Mae gennyf ychydig o gwestiynau i chi, Weinidog. Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod yr angen am gronfa i gefnogi'r rhannau hynny o'r gymuned fusnes y bydd yr oedi wrth ailbrisio'n effeithio arnynt, ac rwy'n siŵr bod llawer o fusnesau sy'n pryderu am effaith andwyol gwthio'r ailbrisio'n ôl tan 2017 wedi cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, fel y dywedasoch, nid oedd hynny'n rhywbeth a oedd o fewn eich rheolaeth yma; roedd ar lefel y DU. Sut ydych chi'n mynd i benderfynu pa fusnesau sydd angen hyn fwyaf? Yn amlwg, swm cyfyngedig o arian sydd ar gael. Sut y byddwch yn blaenoriaethu pa fusnesau ddylai fod yn gymwys am y cymorth hwnnw, gan y bydd rhai busnesau yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan? Faint o arian ydych chi'n rhagweld fydd yn y gronfa gymorth? A wnewch chi roi amcangyfrif i ni o faint o arian fydd ynddi? A oes gennych arian wrth gefn i dalu am y gronfa, neu a fydd rhaid iddo ddod o feysydd eraill o gymorth busnes? A fydd canlyniadau yn sgil hyn yn y dyfodol?

In terms of the small business rate relief that you mentioned, I am pleased that you are looking at that. In terms of empty property rates and exemptions, the UK Government has indeed been looking at that, and has agreed to the 18-month period of relief for empty properties. We need something equitable in Wales. You mentioned a two-year figure; if you could tell us when that will come into operation, that would be helpful.

O ran y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a grybwyllwyd gennych, rwy'n falch eich bod yn edrych ar hynny. O ran ardrethi eiddo gwag ac eithriadau, mae'n wir fod Llywodraeth y DU wedi bod yn edrych ar hynny, ac mae wedi cytuno â'r cyfnod o 18 mis o ryddhad ar gyfer eiddo gwag. Mae angen rhywbeth sy'n cyfateb i hynny yng Nghymru. Roeddech yn sôn am ffigur dwy flynedd; pe gallech ddweud wrthym pryd y bydd hynny'n dod i rym, byddai hynny o gymorth.

Finally, in terms of small business rate relief, the Welsh Conservatives have long been pressing for small businesses to receive far greater relief. We spoke about businesses with a rateable value of up to £12,000, but we are open to other figures from you, as long as we feel that businesses out there in all our constituencies, which are suffering at the moment from the economic situation, will receive that help. We believe that taking smaller businesses out of business rates altogether would be very helpful. If you could answer these questions, that would be most helpful.

Yn olaf, o ran rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, mae'r Ceidwadwyr Cymreig ers tro byd wedi bod yn pwyso er mwyn i fusnesau bach gael rhyddhad llawer mwy. Buom yn siarad am fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, ond rydym yn agored i ffigurau eraill gennych chi, cyhyd ag y byddwn yn teimlo bod busnesau sydd i'w cael ym mhob un o'n hetholaethau, ac sy'n dioddef ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa economaidd, yn cael yr help hwnnw. Credwn y byddai tynnu busnesau llai allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl yn ddefnyddiol iawn. Pe gallech ateb y cwestiynau hyn, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

14:41

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your comments. When we had the briefing from Professor Morgan, I think that we all understood the complexities of going to 2015, and of course the cost issues around that. In my statement, I indicated that some businesses would be disappointed at that decision, so I am duty bound and, as you indicated, I indicated that I would look at some sort of scheme. What I have asked officials to do is to go out and look at the evidence that we have had in about why we need this type of scheme, which areas we should focus on, and then we will look at the budgetary considerations at that stage.

Diolch am eich sylwadau. Pan gawsom y sesiwn friffio gan yr Athro Morgan, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn deall cymhlethdodau mynd hyd at 2015, ac wrth gwrs y problemau o ran costau'n ymwneud â hynny. Yn fy natganiad, nodais y byddai rhai busnesau'n siomedig ynghylch y penderfyniad hwnnw, felly mae'n rhwym arnaf, ac, fel y dywedasoch, dywedais y byddwn yn edrych ar ryw fath o gynllun. Yr hyn yr wyf wedi gofyn i swyddogion ei wneud yw mynd allan ac edrych ar y dystiolaeth yr ydym wedi'i chael ynglŷn â pham y mae angen y math hwn o gynllun arnom, pa ardaloedd y dylem ganolbwyntio arnynt, ac yna byddwn yn edrych ar yr ystyriaethau cyllidebol bryd hynny.

I particularly welcome your comments about some of the empty property issues, because I think that progress has been made in that particular area. We continue to work in those areas because it is important that we recognise the difficulties that some of these issues around empty properties can cause. I would be delighted to update Members when further work has been done in this particular area, and I will of course keep Members informed of every twist and turn that happens in this business rates discussion.

Croesawaf yn arbennig eich sylwadau am rai o'r materion yn ymwneud ag eiddo gwag, oherwydd credaf fod cynnydd wedi ei wneud yn y maes penodol hwnnw. Rydym yn parhau i weithio yn y meysydd hynny oherwydd y mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr anawsterau y gall rhai o'r materion yn ymwneud ag eiddo gwag eu hachosi. Byddai'n bleser gennyf roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau pan fo gwaith pellach wedi ei wneud yn y maes penodol hwn, a byddaf wrth gwrs yn hysbysu Aelodau o bob dim sy'n digwydd yn y drafodaeth hon ar ardrethi busnes.

14:42

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I welcome the statement, but perhaps, more importantly, I wish to say that I am sure that it will be welcomed by the traders in Woodfield Street in Morriston in my constituency, who have concerns regarding rates. I have one question. A number of retailers pay combined rent and rates to the owner of the property, so what can be done to ensure that, when rate relief is given, it is actually passed on to the retailer, rather than adding to the profit of the people who own the building?

Yn gyntaf oll, croesawaf y datganiad, ond yn bwysicach na hynny efallai, hoffwn ddweud fy mod yn sicr y bydd yn cael ei groesawu gan y masnachwyr yn Stryd Woodfield yn Nhreforys yn fy etholaeth, sy'n pryderu ynghylch ardrethi. Mae gennyf un cwestiwn. Mae nifer o fanwerthwyr yn talu rhent ac ardrethi wedi'u cyfuno i berchennog yr eiddo, felly beth ellir ei wneud i sicrhau, pan fydd rhyddhad ardrethi yn cael ei roi, ei fod yn cael ei drosglwyddo i'r manwerthwr, yn hytrach nag yn ychwanegu at elw'r bobl sy'n berchen ar yr adeilad?

14:42

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Those are issues that have been raised with us, and it is a point that I will ask Professor Brian Morgan to look at as he continues with his deliberations.

Mae'r rheiny'n faterion sydd wedi'u codi gyda ni, ac mae'n bwynt y byddaf yn gofyn i'r Athro Brian Morgan edrych arno wrth iddo barhau â'i ystyriaethau.

14:42

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Delaying the revaluation in general is a mistake, a big mistake. There are winners and losers always, but it only delays the inevitable and makes the shock even worse. I accept that there are issues involved that support the decision to delay the revaluation in Wales. I think that it is a mistake for England to do it, but I accept that the Welsh Government has sound reasons for delaying the revaluation in Wales as a consequence of that.

Mae gohirio'r ailbrisio'n gyffredinol yn gamgymeriad, yn gamgymeriad mawr. Mae enillwyr a chollwyr bob amser, ond dim ond gohirio'r anochel y mae hyn, ac mae'n gwneud y sioc hyd yn oed yn waeth. Derbyniaf fod materion dan sylw sy'n cefnogi'r penderfyniad i ohirio'r broses ailbrisio yng Nghymru. Credaf ei bod yn gamgymeriad i Loegr wneud hynny, ond rwy'n derbyn bod gan Lywodraeth Cymru resymau cadarn dros ohirio'r ailbrisio yng Nghymru o ganlyniad i hynny.

I welcome the indication that the Government will consider setting up a targeted hardship fund, and we await the details eagerly. I have often mentioned the inconsistencies in setting rateable value. It is a major problem and it hits the tourist industry very hard, so I welcome the research that will be undertaken, and it reinforces the need to devolve business rates lock, stock and barrel to the Welsh Government. We all look forward to the response of the UK Government to the Silk commission in this area, but would the Minister clarify the UK Labour Party's policy in this area, since that could be crucial in the future?

Rwy'n croesawu'r awgrym y bydd y Llywodraeth yn ystyried sefydlu cronfa galedi wedi'i thargedu, ac rydym yn aros yn eiddgar am y manylion. Rwyf wedi sôn yn aml am yr anghysonderau o ran gosod gwerth ardrethol. Mae'n broblem fawr, ac mae'n taro'r diwydiant twristiaeth yn galed iawn, felly croesawaf y gwaith ymchwil a fydd yn cael ei wneud, ac mae'n atgyfnerthu'r angen i ddatganoli ardrethi busnes yn gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth y DU i gomisiwn Silk yn hyn o beth, ond a wnaiff y Gweinidog egluro polisi Plaid Lafur y DU yn y maes hwn, gan y gallai hynny fod yn allweddol yn y dyfodol?

As far as small business rate relief is concerned, we welcome the extension wholeheartedly. Plaid Cymru believes that the scheme should be extended to all businesses with a rateable value of up to £15,000. With regard to the £20 million business rate relief scheme in the enterprise zones, I think that the jury is still out at the moment. Again, I ask the Minister what certainty she can give that this relief will not suck in companies from other areas in Wales instead of encouraging new businesses to set up. That is a real concern and I hope that the Minister will be able to say something to allay my fears.

O ran rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, rydym yn croesawu'r estyniad yn fawr iawn. Cred Plaid Cymru y dylai'r cynllun gael ei estyn i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. O ran y cynllun rhyddhad ardrethi busnes £20 miliwn yn yr ardaloedd menter, nid wyf yn meddwl bod pobl wedi penderfynu ynghylch hynny eto. Unwaith eto, gofynnaf i'r Gweinidog pa sicrwydd y gall hi ei roi na fydd y rhyddhad hwn yn sugno cwmnïau i mewn o ardaloedd eraill yng Nghymru yn hytrach nag annog busnesau newydd i ymsefydlu. Mae hynny'n bryder go iawn ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu dweud rhywbeth i dawelu fy ofnau.

14:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In responding, I made it quite clear that I did not agree with the decision of the UK Government with regard to extending the cycle to 2017. We were into a five-year cycle and we should have kept to it. On the other hand, I had to look at the best interests of us as a Government and of the taxpayers of Wales with regard to what we needed to do, hence my decision to recommend 2017. From what you say in your contribution, I am sure that you can understand that, although it was a difficult decision, it was the right decision to make.

Wrth ymateb, dywedais yn eithaf clir nad oeddwn yn cytuno â phenderfyniad Llywodraeth y DU o ran estyn y cylch i 2017. Roeddem wedi dechrau ar gylch pum mlynedd a dylem fod wedi cadw ato. Ar y llaw arall, bu'n rhaid i mi edrych ar ein buddiannau ni fel Llywodraeth a threthdalwyr Cymru o ran yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud, a dyna esbonio fy mhenderfyniad i argymell 2017. O'r hyn a ddywedwch yn eich cyfraniad, rwy'n siŵr y gallwch ddeall, er ei fod yn benderfyniad anodd, mai dyna'r penderfyniad cywir.

With regard to the targeted fund, I will keep Members apprised. If Members have any information that they would like to put into the system, as it were, for discussion, I will always have early discussions on how we would deal with some of the targeted fund issues.

O ran y gronfa wedi'i thargedu, byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau. Os oes gan Aelodau unrhyw wybodaeth y byddent yn hoffi ei rhoi yn y system, fel petai, i'w thrafod, byddaf bob amser yn cynnal trafodaethau cynnar ar sut y byddwn yn delio â rhai o'r materion yn ymwneud â'r gronfa wedi'i thargedu.

I am very much taken by the issues that Alun Ffred Jones raised about the way that the business rates system works. In private discussions that have been held with the parties, I think that we are all aware of the particular problems with regard to the tourism industry and others that we think need to be ironed out. I have indicated to Professor Brian Morgan that if there are areas of concern that we think are not working across the piece on business rates, now is our opportunity to collectively make representations to the UK Government to say that it is not just good for Wales to look at some of these issues, but it would be good with regard to how we deal with legislation across the piece.

Fe'm trawyd yn fawr gan y materion a godwyd gan Alun Ffred Jones am y ffordd y mae'r system ardrethi busnes yn gweithio. Mewn trafodaethau preifat a gynhaliwyd gyda'r pleidiau, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn ymwybodol o'r problemau penodol o ran y diwydiant twristiaeth ac eraill y credwn y mae angen eu datrys. Rwyf wedi dweud wrth yr Athro Brian Morgan, os oes meysydd sy'n peri pryder y credwn nad ydynt yn gweithio drwyddi draw ar ardrethi busnes, mai dyma ein cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cyd i Lywodraeth y DU i ddweud nad dim ond i Gymru y byddai'n dda o beth edrych ar rai o'r materion hyn, ond y byddai'n dda o beth o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â deddfwriaeth drwyddi draw.

I, like Alun Ffred Jones, eagerly await the UK Government's response to the Silk commission's report. As regards my political party, I am only responsible, as a Government Minister, for issues here. We are very committed to what we have said on business rates, and we are glad that the Silk commission concurred with us on that particular matter.

Yr wyf fi, fel Alun Ffred Jones, yn aros yn eiddgar am ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad comisiwn Silk. O ran fy mhlaid wleidyddol, nid wyf ond yn gyfrifol, fel Gweinidog y Llywodraeth, am faterion yma. Rydym yn ymrwymedig iawn i'r hyn yr ydym wedi'i ddweud am ardrethi busnes, ac rydym yn falch fod comisiwn Silk yn cytuno â ni ar y mater penodol hwnnw.

You have raised with me previously your concerns about business incentives in the enterprise zones. We have the committed budget there. We are confident that it will work in terms of what businesses will take advantage of it. However, I will certainly closely monitor the position as and when it arises—when people apply, et cetera—to make sure that we do not have the position that we saw when we created enterprise zones before, where businesses moved from one area into another and the distortion of the market. I will keep you apprised of that.

Rydych wedi codi gyda mi o'r blaen eich pryderon am gymhellion busnes yn yr ardaloedd menter. Mae gennym gyllideb ymroddedig yno. Rydym yn hyderus y bydd yn gweithio o ran pa fusnesau fydd yn manteisio arno. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn monitro'r sefyllfa wrth i hynny godi—pan fydd pobl yn gwneud cais, ac ati—i wneud yn siŵr na fyddwn yn yr un sefyllfa ag a welsom pan aethom ati i greu ardaloedd menter o'r blaen, lle'r oedd busnesau'n symud o un ardal i'r llall ac yn ystumio'r farchnad. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am hynny.

14:47 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

14:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for your very comprehensive statement this afternoon. With regard to the timing of the revaluation, we understand why you have made the decision you have. However, while the briefings that we have had have been very helpful in exploring those circumstances, I wonder whether you would consider publishing a summary report for the wider population so that they can also have a deeper understanding of what has been assessed in those terms.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad cynhwysfawr iawn y prynhawn yma. O ran amseriad yr ailbrisio, rydym yn deall pam yr ydych wedi gwneud y penderfyniad yr ydych wedi'i wneud. Fodd bynnag, er bod y cyfarfodydd briffio a gawsom wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth edrych ar yr amgylchiadau hynny, tybed a fyddech yn ystyried cyhoeddi adroddiad cryno ar gyfer y boblogaeth ehangach fel y gallant hwythau hefyd ddeall yn well yr hyn sydd wedi cael ei asesu yn y termau hynny.

With regard to some of the steps that you have taken, I noticed that you pointed out that you fear that some businesses will be particularly affected by the deferral. Can you give us an idea of which particular sectors you are most worried about? You also talked about concerns about rateable values and processes. Can you give us some examples of those, very briefly?

O ran rhai o'r camau yr ydych wedi eu cymryd, rwy'n sylwi eich bod wedi nodi eich bod yn ofni y bydd y gohirio'n effeithio'n arbennig ar rai busnesau. A allwch chi roi syniad i ni o'r sectorau penodol yr ydych yn poeni fwyaf amdanynt? Soniasoch hefyd am bryderon am brosesau a gwerthoedd ardrethol. A allwch chi roi rhai enghreifftiau i ni o'r rheiny, yn gryno iawn?

Your main reservation with regard to a long delay of the revaluation process is, of course, about the issue that I have raised with you on many occasions of businesses being faced with huge percentage hikes in their business rates. Would you consider tapering big increases after 2017? It is something that I have asked you for in the past, and I wonder whether you can make clear your intentions in that regard.

Mae eich prif amheuaeth o ran oedi hir â'r broses ailbrisio, wrth gwrs, yn ymwneud â'r mater yr wyf wedi'i godi gyda chi ar sawl achlysur, sef y gallai busnesau wynebu codiadau canrannol enfawr yn eu hardrethi busnes. A fyddech yn ystyried tapro cynnydd mawr ar ôl 2017? Mae'n rhywbeth yr wyf wedi ei ofyn i chi yn y gorffennol, a tybed a allwch chi wneud eich bwriadau yn glir yn hynny o beth.

With regard to charities, the recommendation in the Morgan report was for the Welsh Government and the UK Government to consult with the charitable and retail sectors. I notice that Professor Morgan has being doing that extensively on your behalf. However, the responses to written questions to you have been a little less clear. You say that you have received a number of representations regarding the relief available to charities. When I asked you about what plans you had to meet with charities to discuss any future recommendations, you said that you had not yet formally received Professor Morgan's report. Can you clarify for us on the record whether you have met with charities in person between the publication of the initial Morgan report and the new information that you are expecting to receive in the next two weeks or so?

O ran elusennau, argymhelliad adroddiad Morgan oedd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ymgynghori â'r sector elusennol a'r sector manwerthu. Rwy'n sylwi bod yr Athro Morgan wedi bod yn gwneud hynny'n helaeth ar eich rhan. Fodd bynnag, mae'r atebion i gwestiynau ysgrifenedig i chi wedi bod ychydig yn llai eglur. Rydych yn dweud eich bod wedi derbyn nifer o sylwadau ynghylch y rhyddhad sydd ar gael i elusennau. Pan ofynnais i chi pa gynlluniau oedd gennych i gwrdd ag elusennau i drafod unrhyw argymhellion yn y dyfodol, dywedasoch nad oedd adroddiad yr Athro Morgan wedi dod i law'n ffurfiol eto. A allwch egluro i ni ar gofnod a ydych wedi cwrdd ag elusennau'n bersonol rhwng adeg cyhoeddi adroddiad cychwynnol Morgan a'r wybodaeth newydd yr ydych yn disgwyl ei chael yn y pythefnos nesaf fwy neu lai?

With regard to another point on charity shops, you say in your statement that Professor Morgan's recommendations focus on larger charity shops. That is a slightly difficult concept. Does that mean shops belonging to larger charities, or is it larger shops belonging to charities? Could you please clarify that for the record?

O ran pwynt arall ar siopau elusen, dywedwch yn eich datganiad fod argymhellion yr Athro Morgan yn canolbwyntio ar siopau elusen mwy. Mae hynny'n gysyniad braidd yn anodd. A yw hynny'n golygu siopau sy'n perthyn i elusennau mwy o faint, neu a yw'n golygu siopau mwy o faint sy'n perthyn i elusennau? A allech chi egluro hynny ar gofnod?

Turning to other points, the devolution of business rates was recommendation 1, as you point out. Recommendation 2 was about the local retention of business rates in order to encourage growth and incentivise local authorities to work on economic renewal. What progress have you made to date on that? You also discuss empty property rates, and I thank you for that. When a business fails, the burden of empty property rates can cause very real distress to individuals, particularly if their business has failed and has had to be ended but they have not become bankrupt. Recommendation 9 looks at hardship provisions and I thought that it was a little wider than this. What progress have you made in looking at the way in which hardship funds are used in local authorities and how effectively they are promoted to businesses?

A throi at bwyntiau eraill, datganoli ardrethi busnes oedd argymhelliad 1, fel yr ydych wedi nodi. Roedd argymhelliad 2 yn ymwneud â chadw ardrethi busnes yn lleol er mwyn annog twf a chymell awdurdodau lleol i weithio ar adnewyddu'r economi. Pa gynnydd ydych chi wedi'i wneud hyd yma ar hynny? Rydych hefyd yn trafod ardrethi eiddo gwag, a diolch i chi am hynny. Pan fydd busnes yn methu, gall baich ardrethi eiddo gwag achosi gofid gwirioneddol i unigolion, yn enwedig os yw eu busnes wedi methu ac wedi gorfod dod i ben, ond nad yw wedi mynd yn fethdalwyr. Mae argymhelliad 9 yn edrych ar y darpariaethau caledi ac roeddwn i'n meddwl ei fod ychydig yn ehangach na hyn. Pa gynnydd ydych chi wedi'i wneud o ran edrych ar y ffordd y mae cronfeydd caledi'n cael eu defnyddio mewn awdurdodau lleol a pha mor effeithiol y maent yn cael eu hyrwyddo i fusnesau?

Finally, the most significant challenge to high streets that is raised with me when I talk to small traders is the proliferation of out-of-town developments and how they damage small, local high streets. Recommendation 14 of Professor Morgan's report deals with that, and I wonder what progress you have been able to make on that to date.

Yn olaf, yr her fwyaf sylweddol i'r stryd fawr sy'n cael ei chodi gyda mi pan fyddaf yn siarad â masnachwyr bach yw'r cynnydd yn nifer y datblygiadau tu allan i'r dref a sut y maent yn niweidio'r stryd fawr leol sy'n llai o faint. Mae argymhelliad 14 adroddiad yr Athro Morgan yn ymdrin â hynny, a thybed pa gynnydd yr ydych wedi gallu ei wneud ar hynny hyd yma.

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There were quite a lot of questions in that contribution. I will attempt to go through them one by one. With regard to empty property rates, businesses made it absolutely clear that, in their current form, they are unpopular and a burden, as you indicated. I have asked officials to look at some of the issues that arose from the task and finish group, particularly on how I can help with exemption periods within particular areas and how we are going to look at schemes elsewhere to make them work better. I think that we all agreed across the Chamber that empty property rates can be very difficult for individuals and communities. Also, there is nothing worse than empty properties when it comes to regeneration.

Roedd cryn dipyn o gwestiynau yn y cyfraniad hwnnw. Ceisiaf fynd drwyddynt fesul un. O ran ardrethi eiddo gwag, roedd busnesau yn ei gwneud yn gwbl glir eu bod, yn eu ffurf bresennol, yn amhoblogaidd ac yn faich, fel y dywedasoch. Rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar rai o'r materion a gododd o'r grŵp gorchwyl a gorffen, yn enwedig o ran sut y gallaf helpu gyda chyfnodau eithrio mewn ardaloedd penodol a sut yr ydym yn mynd i edrych ar gynlluniau mewn mannau eraill i wneud iddynt weithio'n well. Credaf ein bod i gyd yn gytûn ar draws y Siambr y gall ardrethi eiddo gwag fod yn anodd iawn i unigolion a chymunedau. Hefyd, nid oes dim yn waeth nag eiddo gwag o safbwynt adfywio.

What has most exercised everybody is some of the discussions on charities around that. You have had your answers to written questions to me, which, quite clearly, you are not satisfied with. I have had a lot of written submissions from charities and I meet the voluntary sector in meetings that I have to attend under the scheme, so views can get through in that way, but I made the decision that Professor Brian Morgan, while he was doing his report, would meet the charities that came forward to give their views. Once I receive Professor Brian Morgan's report and see his full recommendations, I will make a decision on what level of engagement I will have on those recommendations if I intend to take them forward. I think that that is perfectly clear.

Yr hyn sydd wedi poeni pawb yw rhai o'r trafodaethau ar elusennau o gwmpas hynny. Rydych wedi cael eich atebion i gwestiynau ysgrifenedig i mi, ac nid ydych, yn amlwg iawn, yn fodlon â hwy. Rwyf wedi cael llawer o gyflwyniadau ysgrifenedig gan elusennau ac rwy'n cwrdd â'r sector gwirfoddol mewn cyfarfodydd y mae'n rhaid i mi eu mynychu o dan y cynllun, felly gall safbwyntiau ddod yn y ffordd honno, ond penderfynais y byddai'r Athro Brian Morgan, tra oedd yn gwneud ei adroddiad, yn cwrdd â'r elusennau a fyddai'n rhoi eu barn. Ar ôl i adroddiad yr Athro Brian Morgan ddod i law ac ar ôl i mi weld ei argymhellion llawn, byddaf yn gwneud penderfyniad ar lefel yr ymgysylltu y byddaf yn ei gael ar yr argymhellion hynny os ydw i'n bwriadu bwrw ymlaen â hwy. Credaf fod hynny'n gwbl glir.

Also, I think that, sometimes, when you ask an independent person to do a report, you do not want to be meeting the same people as them and getting different views. It is important that I see his views and then take a strategic decision on his report. I am happy to consider with Professor Morgan what a useful summary report might contain, if Members think that that would be particularly helpful. I think that it would also be useful, if he does a summary report, if he could explain how rateable values and other things work. When you look at a building as a shop and what it does—does it get bigger at the back, how does that affect things—there are a lot of issues involved, which people do not quite realise. When you look at tourism, particularly, you have to look at the business and you need to look at—. It is very complicated. I think it might be very useful to have a dialogue on some of those issues and put some of them into the public domain.

Hefyd, rwy'n meddwl, weithiau, pan fyddwch yn gofyn i rywun annibynnol wneud adroddiad, nad ydych am gwrdd â'r un bobl â hwy a chael safbwyntiau gwahanol. Mae'n bwysig fy mod yn gweld ei sylwadau ac yna'n gwneud penderfyniad strategol ar ei adroddiad. Rwy'n hapus i ystyried gyda'r Athro Morgan yr hyn y gallai adroddiad cryno defnyddiol ei gynnwys, os yw'r Aelodau'n credu y byddai hynny'n arbennig o fuddiol. Credaf y byddai hefyd yn ddefnyddiol, os yw'n gwneud adroddiad cryno, pe gallai egluro sut y mae gwerth ardrethol a phethau eraill yn gweithio. Pan fyddwch yn edrych ar adeilad fel siop a beth y mae'n ei wneud— a yw'n mynd yn fwy yn y cefn, sut mae hynny'n effeithio ar bethau—mae llawer o faterion i'w hystyried, ac nid yw pobl yn sylweddoli hynny'n llawn. Pan fyddwch yn edrych ar dwristiaeth, yn enwedig, rhaid i chi edrych ar y busnes ac mae angen i chi edrych ar—. Mae'n gymhleth iawn. Rwy'n credu y gallai fod yn ddefnyddiol iawn cael deialog ar rai o'r materion hynny a rhoi rhai ohonynt yn llygad y cyhoedd.

You are quite right that you need certainty on revaluation and five years is enough time to go by when you see changes. That is why I was so concerned about 2017. I think that I can say determinedly that we have the powers now, so, after 2017, it will be every five years for Wales.

Rydych yn llygad eich lle bod angen sicrwydd ar ailbrisio ac mae pum mlynedd yn ddigon o amser i fynd heibio pan fyddwch yn gweld newidiadau. Dyna pam yr oeddwn yn poeni gymaint am 2017. Credaf y gallaf ddweud yn bendant fod gennym y pwerau erbyn hyn, felly, ar ôl 2017, bydd yn digwydd bob pum mlynedd ar gyfer Cymru.

You raised a lot of issues with regard to local retention and so on, and I will be coming back to the Chamber to give an update on Brian Morgan's full report when we return from the Easter recess. I will certainly be happy to report on all the issues that we have dealt with around hardship then.

Codasoch lawer o faterion yn ymwneud â chadw ardrethi'n lleol ac yn y blaen, a byddaf yn dod yn ôl i'r Siambr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad llawn Brian Morgan pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl toriad y Pasg. Byddaf yn sicr yn hapus i adrodd ar yr holl faterion yr ydym wedi delio â hwy ynghylch caledi bryd hynny.

14:53 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The statement by the Minister for Education and Skills on youth engagement and progression has been postponed until 23 April.

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'r datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ymgysylltu â datblygiad ieuenctid wedi ei ohirio tan 23 Ebrill.

## Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13

## The Second Supplementary Budget 2012-13

Cynnig NDM5162 Jane Hutt

Motion NDM5162 Jane Hutt

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2013.

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Second Supplementary Budget for the financial year 2012-13 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 5 February 2013.

14:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The second supplementary budget, which I published on 5 February, reflects all the changes that we have made since the first supplementary budget, which was approved in July. Through the prudent use of our reserves and careful in-year financial management, we have allocated an additional £164 million in the supplementary budget to support our strategic priorities. That includes the £91.5 million that I announced in January to support a range of capital projects, including investment in schools, hospitals and social housing.

Mae'r ail gyllideb atodol, a gyhoeddwyd gennyf ar 5 Chwefror, yn adlewyrchu'r holl newidiadau a wnaethom ers y gyllideb atodol gyntaf, a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf. Trwy ddefnydd doeth o'n cronfeydd wrth gefn a rheolaeth ariannol ofalus yn ystod y flwyddyn, rydym wedi dyrannu swm ychwanegol o £164 miliwn yn y gyllideb atodol i gefnogi ein blaenoriaethau strategol. Mae hynny'n cynnwys y £91.5 miliwn a gyhoeddais ym mis Ionawr i gefnogi amryw o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys buddsoddi mewn ysgolion, ysbytai a thai cymdeithasol.

In addition to this funding, we have allocated £7.8 million from the centrally retained capital fund, including £3 million to support the Flying Start programme. Only yesterday, I visited Trelai Primary School in Ely, which benefited from the capital allocation, to see the benefits that early years intervention through Flying Start can provide. In total, through the supplementary budget, we are transferring nearly £140 million from resource to capital to support additional investment across Wales. That injection will provide a significant boost to stimulate growth and create and protect jobs across Wales, building on the £97 million that we transferred from resource to capital last year.

Yn ogystal â'r cyllid hwn, rydym wedi dyrannu £7.8 miliwn o'r gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog, gan gynnwys £3 miliwn i gefnogi'r rhaglen Dechrau'n Deg. Ddoe ddiwethaf, ymwelais ag Ysgol Gynradd Trelái yn Nhrelái, a oedd yn elwa o'r dyraniad cyfalaf, i weld y manteision y gall ymyriad y blynyddoedd cynnar drwy Dechrau'n Deg eu darparu. Yn gyfan gwbl, drwy'r gyllideb atodol, rydym yn trosglwyddo bron i £140 miliwn o adnoddau i gyfalaf i gefnogi buddsoddiad ychwanegol ar draws Cymru. Bydd y chwistrelliad hwnnw'n rhoi hwb sylweddol i ysgogi twf a chreu a diogelu swyddi ledled Cymru, gan adeiladu ar y £97 miliwn a drosglwyddasom o adnoddau i gyfalaf y llynedd.

I also confirm my intention to maximise the flexibility available to us this year under the budget exchange system. At present, we are planning to carry forward £59 million fiscal resource department expenditure limit to next year, including £40 million to provide additional support for apprenticeships, which was reflected in the final budget approved in December, and £19 million to provide council tax support for local authorities. As part of the measures we are taking to mitigate partially the cut in our capital budget, we have successfully negotiated with the UK Government to increase our flexibility to carry forward capital DEL to 2014 up to an additional £50 million over and above the agreed cap.

Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mwriad i wneud y gorau o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni eleni o dan y system cyfnewid cyllidebau. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cario'r terfyn gwariant adrannol ar adnoddau cyllidol o £59 miliwn ymlaen i'r flwyddyn nesaf, gan gynnwys £40 miliwn i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer prentisiaethau, a adlewyrchwyd yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr, a £19 miliwn i ddarparu cymorth y dreth gyngor i awdurdodau lleol. Fel rhan o'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i liniaru'n rhannol y toriad yn ein cyllideb cyfalaf, rydym wedi trafod yn llwyddiannus â Llywodraeth y DU i gynyddu ein hyblygrwydd i gario cyfalaf DEL ymlaen at 2014 hyd at £50 miliwn yn ychwanegol uwchlaw'r cap y cytunwyd arno.

14:55

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Normally, when additional money is made available, it is carried forward as an earmarked reserve for a specific project. Is that the case with this carry forward?

Fel arfer, pan fydd arian ychwanegol ar gael, mae'n cael ei gario ymlaen fel cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer prosiect penodol. Ai dyna'r sefyllfa gyda'r arian hwn a ddygir ymlaen?

14:55

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, there will be significant projects that, I am sure, the Welsh Government will want to support and this enables us to stick to our commitment to have a budget for growth and jobs.

Yn amlwg, bydd prosiectau arwyddocaol, yr wyf yn sicr y bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w cefnogi ac mae hyn yn ein galluogi i gadw at ein hymrwymiad i gael cyllideb ar gyfer twf a swyddi.

Using the tools available to us to support growth and jobs remains our priority. That is why we have again taken measures in this budget to support infrastructure investment, an approach we have consistently advocated to the UK Government. It is clearly more important than ever that we continue to make progress to deliver a fair and accountable funding regime for Wales. To that end, I was pleased to update the Assembly in February on intergovernmental talks on Silk commission 1. As I said in my statement, I will seek to maintain the broad consensus on the agenda that exists across the political spectrum in Wales. In the meantime, we are committed to using the resources available to us to support the economy and to deliver efficient and effective public services across Wales.

Defnyddio'r offer sydd ar gael i ni i gefnogi twf a swyddi yw ein blaenoriaeth o hyd. Dyna pam yr ydym wedi cymryd camau unwaith eto yn y gyllideb hon i gefnogi buddsoddi mewn seilwaith, dull yr ydym wedi ei argymell yn gyson i Lywodraeth y DU. Mae'n amlwg yn fwy pwysig nag erioed ein bod yn parhau i gymryd camau i gyflwyno trefn ariannu deg ac atebol ar gyfer Cymru. I'r perwyl hwnnw, roeddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ym mis Chwefror am drafodaethau rhynglywodraethol ar gomisiwn Silk 1. Fel y dywedais yn fy natganiad, byddaf yn ceisio cynnal y consensws bras ar yr agenda sy'n bodoli ar draws y sbectrwm gwleidyddol yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i gefnogi'r economi ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol ledled Cymru.

Part of that is about the Welsh Government supporting public services as they identify and implement new efficient ways of working. That is why I have increased support for the invest-to-save fund by over £0.5 million in this supplementary budget to meet the growing demand for investments. That funding is additional to my previous announcement to increase the size of the fund, when I committed an additional £20 million over this and the next two financial years. That means, in 2012-13, that we are providing over £19 million, which, together with the £45 million committed previously, will help public service providers deliver improved, more efficient services through project investments. I will be announcing the outcome of the latest invest-to-save funding round, concerning investments in 2013-14, next week.

Yn rhan o'r gwaith hwnnw mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt nodi a gweithredu ffyrdd newydd effeithlon o weithio. Dyna pam yr wyf wedi cynyddu cymorth ar gyfer y gronfa buddsoddi i arbed dros £0.5 miliwn yn y gyllideb atodol hon i ddiwallu'r galw cynyddol am fuddsoddiadau. Mae'r arian hwnnw'n ychwanegol at fy nghyhoeddiad blaenorol i gynyddu maint y gronfa, pan ymrwymais £20 miliwn yn ychwanegol dros y flwyddyn hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hynny'n golygu, yn 2012-13, ein bod yn darparu dros £19 miliwn, a fydd, ynghyd â'r £45 miliwn a neilltuwyd o'r blaen, yn helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau gwell, mwy effeithlon drwy fuddsoddiadau prosiect. Byddaf yn cyhoeddi canlyniad rownd ddiweddaraf yr arian buddsoddi i arbed, yn ymwneud â buddsoddiadau yn 2013-14, yr wythnos nesaf.

I would also like to take this opportunity to thank the Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget and its subsequent report. As well as responding to this debate, I will formally respond to its Chair, specifically with regard to the recommendations in the committee's report, in due course. I hope that Members will support the supplementary budget, which demonstrates our continuing commitment to supporting growth and jobs in Wales.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar y gyllideb atodol a'i adroddiad yn sgil hynny. Yn ogystal ag ymateb i'r ddadl hon, byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'w Gadeirydd, yn benodol mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor, maes o law. Gobeithiaf y bydd Aelodau yn cefnogi'r gyllideb atodol, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi twf a swyddi yng Nghymru.

14:58 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to speak on behalf of the Finance Committee.

Rwy'n galw ar Jocelyn Davies i siarad ar ran y Pwyllgor Cyllid.

14:58 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to focus on a handful of headline issues in the short time I have available today. The first of these is NHS funding, because that is an issue that has become a regular feature on the Finance Committee's radar. We note in our report that the actions taken by the Welsh Government have served to increase the flexibility available to local health boards. That is a very good thing, because the previous situation was far too inflexible. However, the way in which it has been achieved means that it is incredibly difficult to follow the money.

Rwyf am ganolbwyntio ar lond dwrn o brif faterion yn yr amser byr sydd ar gael i mi heddiw. Y cyntaf o'r rhain yw cyllid y GIG, oherwydd mae hynny'n fater sy'n ymddangos yn rheolaidd ar radar y Pwyllgor Cyllid. Nodwn yn ein hadroddiad fod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru'n golygu bod mwy o hyblygrwydd ar gael i fyrddau iechyd lleol. Mae hynny'n beth da iawn, gan fod y sefyllfa o'r blaen yn llawer rhy anhyblyg. Fodd bynnag, mae'r ffordd y gwnaed hyn yn golygu ei bod yn eithriadol o anodd dilyn yr arian.

In December 2012, the Minister for health announced an extra £82 million for the health boards from her budget. However, even with that money, and the repeated statements from the Minister that local health boards will break even, I am still not sure that they all will. Both the Minister for health and the Minister for Finance have acknowledged the need for new arrangements for local health boards. It is not reasonable to expect them to balance their books to the penny on April 1 every year, but neither is it reasonable for them to continue to receive bail outs year after year. I am all for LHBs having extra flexibility, but that must come with increased accountability for their expenditure. In summary, we need more clarity on NHS finances now, and we need a simple, sustainable new funding mechanism that makes LHBs more accountable as a matter of urgency.

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd £82 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y byrddau iechyd o'i chyllideb. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r arian hwnnw, a'r datganiadau dro ar ôl tro gan y Gweinidog y bydd byrddau iechyd lleol yn mantoli'r gyllideb, nid wyf yn siŵr y byddant i gyd yn gwneud hynny. Mae'r Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Cyllid wedi cydnabod yr angen am drefniadau newydd ar gyfer byrddau iechyd lleol. Nid yw'n rhesymol disgwyl iddynt fantoli'r cyfrifon i'r geiniog ar 1 Ebrill bob blwyddyn, ond nid yw'n rhesymol chwaith iddynt barhau i dderbyn cyllid i achub eu croen flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rwyf yn llwyr o blaid rhoi rhagor o hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol, ond rhaid iddynt felly fod yn fwy atebol am eu gwariant. I grynhoi, mae angen mwy o eglurder ar gyllid y GIG yn awr, ac mae arnom angen mecanwaith cyllido newydd, syml, cynaliadwy sy'n gwneud byrddau iechyd lleol yn fwy atebol fel mater o frys.

Secondly, on council tax support, in our work on the draft budget, we highlighted council tax support as an area that would need further attention. Therefore, we are pleased that the Welsh Government has acknowledged that more work will be needed to find a sustainable, long-term solution. The Welsh Government will need to work closely with local authorities to ensure that council tax remains affordable and that the most vulnerable in society can get the help they need.

Yn ail, o ran cymorth y dreth gyngor, yn ein gwaith ar y gyllideb ddrafft, tynnwyd sylw at gymorth y dreth gyngor fel maes y byddai angen rhoi sylw pellach iddo. Felly, rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd angen mwy o waith i ddod o hyd i ateb cynaliadwy, hirdymor. Bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y dreth gyngor yn dal i fod yn fforddiadwy ac y gall y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

With regard to the budget exchange system that the Minister mentioned earlier, under this system, the UK Treasury allows the Welsh Government to carry unspent money, up to an agreed limit, from one financial year to the next. This is a useful facility and it means that there is not just a 'use it or lose it' mentality every March. Our report notes the Minister's success in negotiating additional carry-over for this year, and the intention to safeguard future projects. We have previously recommended greater flexibility, and would wish to see this become the norm, not just a one-off permission from the Treasury. However, we would like to sound one note of caution. Every pound carried forward to next year is a pound not being spent to stimulate growth and jobs this year. I hope that the Government has the right balance.

O ran y system cyfnewid cyllidebau a grybwyllodd y Gweinidog yn gynharach, o dan y system hon, mae Trysorlys y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gario arian heb ei wario, hyd at derfyn y cytunwyd arno, o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Mae hwn yn gyfleuster defnyddiol ac mae'n golygu nad oes meddylfryd 'ei ddefnyddio neu ei golli' bob mis Mawrth. Mae ein hadroddiad yn nodi llwyddiant y Gweinidog o ran trafod cario arian ychwanegol ymlaen am eleni, a'r bwriad i ddiogelu prosiectau yn y dyfodol. Rydym wedi argymell mwy o hyblygrwydd o'r blaen, a hoffem weld hyn yn dod yn norm, nid dim ond caniatâd untro gan y Trysorlys. Fodd bynnag, hoffem roi un rhybudd. Mae pob punt a ddygir ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn bunt nad yw'n cael ei gwario i ysgogi twf a swyddi eleni. Gobeithio bod y cydbwysedd cywir gan y Llywodraeth.

The Welsh Government has previously announced that it intends to extend the current small business rate relief scheme into 2013-14. Our report sets out that continuing with the small business rate relief scheme carries an opportunity cost of £22.7 million. We are not in a position to say whether this provides value for money. We recommend that the Welsh Government looks at the impact of the current scheme on the Welsh economy and also considers whether there are any alternative investments that could generate an even greater benefit to the Welsh economy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi o'r blaen ei bod yn bwriadu ymestyn y cynllun presennol i roi rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i 2013-14. Mae ein hadroddiad yn nodi bod parhau â'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn cario cost cyfle o £22.7 miliwn. Nid ydym mewn sefyllfa i ddweud a yw hyn yn rhoi gwerth am arian. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar effaith y cynllun presennol ar economi Cymru a hefyd yn ystyried a oes unrhyw fuddsoddiadau eraill a allai ddod â hyd yn oed mwy o fudd i economi Cymru.

Lastly, I and the other members of the Finance Committee want Wales to be ahead of the game when it comes to clear, open budgeting, because the more we can understand, the better we can question the value that taxpayers are getting for their money. In recent years, the committee has been a big supporter of some of the work that the Welsh Government has done to improve transparency. The Welsh Government has been part of a UK Government project called Clear Line of Sight, which aimed to simplify Government finance. To date, the Welsh Government has not implemented the final stages of the project, involving the incorporation of sponsored and other designated bodies, in its budgeting and accounting processes. Therefore, this is an area that could be a fruitful area for future work, and I am sure that we will return to that.

Yn olaf, rwyf i ac aelodau eraill y Pwyllgor Cyllid am i Gymru fod ar flaen y gad o ran cyllidebu clir, agored, oherwydd po fwyaf y gallwn ei ddeall, gorau oll y gallwn gwestiynu'r gwerth y mae trethdalwyr yn ei gael am eu harian. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r pwyllgor wedi bod yn gefnogwr mawr o rywfaint o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i wella tryloywder. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o brosiect Llywodraeth y DU o'r enw Llwybr Clir, a oedd yn ceisio symleiddio cyllid Llywodraeth. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu camau olaf y prosiect, sy'n cynnwys ymgorffori cyrff a noddir a chyrff dynodedig eraill, yn ei phrosesau cyllidebu a chyfrifo. Felly, gallai hwn fod yn faes ffrwythlon ar gyfer gwaith yn y dyfodol, ac rwy'n siŵr y byddwn yn dychwelyd at hynny.

To close, I would like to say that I am pleased with the progress that we have made in the scrutiny of Government spend, including this supplementary budget.

I gloi, hoffwn ddweud fy mod yn falch â'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn y gwaith craffu ar wariant y Llywodraeth, gan gynnwys y gyllideb atodol hon.

15:02

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Rwy'n falch i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Mae'r gyllideb atodol hon yn bennaf yn cyflawni tri phrif ddiben, sef gwneud dyraniadau o gronfeydd canolog wrth gefn, adlewyrchu newidiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchiadau ariannol tyn yr ydym yn dal i ffeindio ein hunain ynddynt, mae'n gwbl hanfodol bod y Llywodraeth yn synhwyrol yn y modd y mae'n gwario arian cyhoeddus. Mae'n hanfodol hefyd bod Llywodraeth Cymru yn dangos ei heffeithiolrwydd o ran rheoli ei chyllid gan sicrhau bod ei chyllidebau yn fforddiadwy ac yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

I am pleased to take part in this debate this afternoon. The supplementary budget primarily achieves three aims, namely to make virements from the central reserves, to reflect the changes between the portfolios of the Welsh Government and to transfers from departments in the United Kingdom Government. However, considering the tight financial circumstances in which we continue to find ourselves, it is essential that the Government is sensible about the way in which it spends public money. It is also vital that the Welsh Government shows its effectiveness with regard to managing its finances, making sure that its budgets are affordable and that they provide value for money for taxpayers.

Ni fydd yn sioc enfawr i'r Gweinidog fy mod am ganolbwyntio'r rhan fwyaf o fy sylwadau y prynhawn yma ar ariannu'r gwasanaeth iechyd. Mae adroddiadau olynol gan nifer o bwyllgorau'r Cynulliad wedi mynegi pryderon ynghylch cyllid byrddau iechyd lleol. Fis diwethaf, dywedodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei fod yn gwybod am rai byrddau iechyd sy'n cychwyn y flwyddyn ariannol heb gynllun i adennill costau. Yn wir, mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch rheolaeth ariannol byrddau iechyd. Yn yr adroddiad ar y gyllideb atodol yn 2011-12, nododd y pwyllgor:

It will not come as a great shock to the Minister to hear that I will focus most of my comments on the funding of the health service. Successive reports by a number of the Assembly's committees have expressed concern about the budgets for the local health boards. Last month, the Public Accounts Committee said that it knew of some local health boards that were starting the financial year without schemes to recoup costs. Indeed, the Finance Committee has also expressed concern regarding the financial management of the health boards. In the report on the 2011-12 supplementary budget, the committee noted that

'wrth fwrw golwg dros adroddiadau cyllid ystod o gyfarfodydd byrddau rheoli Byrddau Iechyd Lleol, rydym yn pryderu bod risgiau ariannol sylweddol yn parhau i fodoli, a'i bod yn ymddangos bod ystod o Fyrddau Iechyd Lleol mewn perygl o wynebu diffygion ariannol.'

'looking across the financial reports of a range of Local Health Boards' management board meetings, we are concerned that significant financial risks remain, with a range of Local Health Boards appearing to be at risk of potential deficits.'

Yn anffodus, yn dilyn nifer o adroddiadau ac er gwaethaf yr arian ychwanegol sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae'r pryderon hyn yn parhau. Y gwir yw hyn: ni all ein byrddau iechyd ymdopi â thoriadau enfawr y Llywodraeth hon. Mae hyn yn glir iawn o gofio bod y Llywodraeth yn gorfod darparu cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd lleol bob hyn a hyn.

Unfortunately, following a number of reports and despite additional money being available from the Welsh Government, these concerns persist. The truth is that our health boards cannot cope with the huge cuts being made by this Government. This is very clear bearing in mind that the Government has to provide additional funding for local health boards every now and then.

Fis Rhagfyr diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ychwanegol o £82 miliwn ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn craffu ar y ffigur hwn yn y gyllideb atodol gyda'r Gweinidog Cyllid ac yn gofyn am eglurhad o ran ble y mae'r arian ar gyfer y 'bail-out' hwn yn dod. Yn anffodus, er gwaethaf y ffaith i'r Gweinidog anfon nodyn ychwanegol at y pwyllgor, mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch yr arian hwn yn dal i fod. Felly, mae sylw'r Pwyllgor Cyllid bod trefniadau'r froceriaeth bresennol wedi cyflwyno hyblygrwydd i fyrddau iechyd ar draul eglurder i unrhyw un sy'n dymuno deall y sefyllfa yn hollol gywir. Felly, mae'r pwyllgor yn iawn i argymell yn ei adroddiad y dylai'r Gweinidog roi esboniad clir i'r pwyllgor am sut mae'r trefniadau broceriaeth yn gweithredu yn ymarferol, rhoi dadansoddiad clir o le mae'r £82 miliwn yn cael ei ddyrannu, y sefyllfa bresennol ynghylch y gronfa wrth gefn o fewn y portffolio iechyd a manylion am faint y bydd pob bwrdd iechyd yn ei dderbyn neu yn cael ei derfynau wedi eu haddasu o ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn.

Last December, the Minister for Health and Social Services announced additional funding of £82 million for the rest of this financial year, and the Finance Committee has been scrutinising this figure in the supplementary budget with the Minister for Finance and asking for an explanation as to where this money for the bail-out is coming from. Unfortunately, despite the fact that the Minister has sent an additional note to the committee, there is still a lot of uncertainty about this money. Therefore, the Finance Committee's comment that the current brokerage arrangements have introduced flexibility to health boards at the expense of clarity for anyone who wishes to understand the situation is totally accurate. Therefore, the committee is right to suggest in its report that the Minister should give a clear explanation to the committee about how the brokerage arrangements work in practice and give a clear analysis of from where the £82 million is being allocated, the current situation about the reserves in the health portfolio and details about how much each health board will receive or have its limits adjusted as a result of this additional funding.

Rydym i gyd yn ymwybodol bod y Gweinidog dros iechyd yn cynnal adolygiad o gyllid y gwasanaeth iechyd, ac mae'n bwysig i'r adolygiad ddod i ben cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae hefyd yn amlwg y dylai unrhyw system newydd o ariannu'r gwasanaeth iechyd arwain at system dryloyw.

We are all aware that the Minister for health is conducting a review of funding in the health service, and it is important that the review is completed as soon as possible. It is also obvious that any new system of funding the health service should lead to a transparent system.

O gofio bod arian ychwanegol wedi cael ei roi i fyrddau iechyd lleol, mae'n hanfodol bod y Gweinidog yn rhoi manylion am sut y bydd y trefniadau broceriaeth yn gweithredu os oes eu hangen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Bearing in mind that additional funding has been given to local health boards, it is vital that the Minister gives details on how the brokerage arrangements will operate if they are needed at the end of this financial year.

Mae'r Gweinidog dros iechyd wedi dweud bod yn rhaid i'r gwasanaeth iechyd ddysgu byw o fewn ei gyllideb, ac y bydd rheolwyr o fewn y gwasanaeth iechyd yn atebol ac yn cael eu dal i gyfrif. Wrth ymateb i'r ddadl hon, efallai y gwnaiff y Gweinidog gymryd y cyfle i egluro beth mae 'dal uwch reolwyr i gyfrif' yn ei olygu mewn gwirionedd, oherwydd rydym wedi clywed hyn i gyd o'r blaen.

The Minister for health has said that the health service has to learn to live within its budget, and that managers within the health service will be accountable and held to account. In responding to this debate, perhaps the Minister will take the opportunity to explain what 'holding senior managers to account' actually means, because we have heard all of this before.

Yn fyr, hoffwn hefyd gyffwrdd ar y dreth gyngor a'r hyn a fydd yn digwydd tu hwnt i 2013-14. Rwy'n deall fod y Gweinidog, yn 2013-14, yn dod â £19 miliwn ymlaen mewn cymorth y dreth gyngor, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r rheoliadau cyfredol gyda golwg ar gyflwyno rheoliadau newydd, fel y cytunwyd yn y cymalau machlud. Fodd bynnag, rwy'n deall bod ansicrwydd o hyd ynghylch effaith hyn; gobeithio bod gwaith yn cael ei wneud i ymdrin â hynny. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i ddarparu trefniant tymor hir ar gyfer cymorth y dreth gyngor yng Nghymru, ac ategaf sylwadau'r Pwyllgor Cyllid, gan obeithio y bydd y Gweinidog yn cadw mewn cysylltiad â ni ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer cymorth y dreth gyngor yn y blynyddoedd i ddod.

Briefly, I would like to touch on council tax and what will happen after 2013-14. I understand that the Minister, in 2013-14, will be bringing £19 million forward in council tax benefit, and that the Welsh Government is working with local government to review the current regulations with a view to introducing new regulations, as agreed in the sunset clauses. However, I understand that there is still uncertainty regarding the impact of all of this; I hope that work is being done to deal with that. I accept that the Welsh Government has acknowledged that more work needs to be done to provide a long-term arrangement for council tax benefit in Wales, and I endorse the Finance Committee's comments, and hope that the Minister will keep in touch with us and keep us informed of how the Welsh Government will be making provision for council tax benefit in the years to come.

Fodd bynnag, o ystyried y pryderon parhaus a godwyd ynghylch pwysau ariannol o fewn y gwasanaeth iechyd ac o ystyried bod llawer o ansicrwydd yn dal i fod ynghylch yr £82 miliwn hwn, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn mynd i ymatal yn y bleidlais ar y cynnig.

However, bearing in mind the continuous concerns that have been raised about the financial pressures within the health service and considering that there is still great uncertainty about the £82 million, we on this side of the Chamber intend to abstain in the vote on the motion.

15:08 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that this motion will generally be agreed this afternoon, because I think that the Government is making good use of the resources available to it. That is what the Government is there for—to maximise the resources that it has. If we were in most other places that were not political environments, there would be general agreement that this second supplementary budget is a job very well done, as it maximises expenditure for the benefit of the people of Wales. The Finance Committee came forward with something that was unanimously agreed, which basically said, 'This supplementary budget is a good thing'.

Rwy'n siŵr y ceir cytundeb ar y cynnig hwn yn gyffredinol y prynhawn yma, oherwydd credaf fod y Llywodraeth yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael iddi. Dyna pam y mae'r Llywodraeth yno—i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ganddi. Pe baem ni yn y rhan fwyaf o fannau eraill nad ydynt yn amgylcheddau gwleidyddol, byddai cytundeb cyffredinol bod yr ail gyllideb atodol hon yn waith da iawn, gan ei bod yn gwneud yn fawr o wariant er budd pobl Cymru. Cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid rywbeth y cytunwyd yn unfrydol arno, a oedd yn dweud yn y bôn, 'Mae'r gyllideb atodol hon yn beth da'.

The Conservatives have to accept that some of the responsibility for any cuts taking place in Wales is theirs. They have cut the Welsh block grant. It is almost like someone telling you that you have less money than you used to have but that you have to spend more of it. It is disingenuous at best, and dishonest at worst.

Rhaid i'r Ceidwadwyr dderbyn rhywfaint o'r cyfrifoldeb am unrhyw doriadau sy'n digwydd yng Nghymru. Maent wedi torri grant bloc Cymru. Mae bron fel petai rhywun yn dweud wrthych fod gennych lai o arian nag oedd yn arfer bod gennych, ond bod yn rhaid i chi wario mwy ohono. Mae'n annidwyll ar y gorau, ac yn anonest ar y gwaethaf.

15:09 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept that the previous UK Labour Government wasted huge amounts of taxpayers' money? I can think of £12 billion on a scheme for the NHS that did not even work. Do you accept that?

A ydych yn derbyn bod Llywodraeth Lafur flaenorol y DU wedi gwastraffu symiau enfawr o arian y trethdalwyr? Gallaf feddwl am £12 biliwn ar gynllun ar gyfer y GIG nad oedd hyd yn oed yn gweithio. A ydych chi'n derbyn hynny?

15:09 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I accept that it employed doctors, consultants, policemen and built hospitals, which, to the Conservatives, is a waste of money. To those of us on this side of the Chamber, that is a good use of money. It is about helping people; it is what we are here for. The Conservatives are in a different place and they have a different philosophy.

Rwy'n derbyn ei fod wedi cyflogi meddygon, meddygon ymgynghorol, heddweision ac wedi adeiladu ysbytai, sydd, i'r Ceidwadwyr, yn wastraff arian. I'r rhai ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr, mae hwn yn ddefnydd da o arian. Mae'n ymwneud â helpu pobl; dyna ein gwaith. Mae'r Ceidwadwyr mewn lle gwahanol ac mae ganddynt athroniaeth wahanol.

Effective use of resources—[Interruption.]

Mae defnydd effeithiol o adnoddau—[Torri ar draws.]

15:09 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Can people not call across the Chamber, please?

Trefn. A wnaiff pobl beidio â gweiddi ar draws y Siambr, os gwelwch yn dda?

15:10 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is difficult with in-year changes to both capital and revenue allocations. I come from the simple world of local government, where you get your money at the beginning of the year; you might get some more during the year, but you will not get any less. It is far more complicated when, during the year, the amount of money in both capital and revenue can be changed substantially.

Mae'n anodd gyda newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyfalaf a dyraniadau refeniw fel ei gilydd. Rwy'n dod o fyd syml llywodraeth leol, lle'r ydych yn cael eich arian ar ddechrau'r flwyddyn; efallai y byddwch yn cael rhywfaint yn fwy yn ystod y flwyddyn, ond ni fyddwch yn cael dim llai. Mae'n fwy cymhleth o lawer pan ellir newid y swm o arian, mewn cyfalaf a refeniw, yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

The allocations that have been made from central reserves reflect transfers within and between Welsh Government departmental budgets. That is really good management, is it not? If people have money that they are not going to use, or cannot use effectively, move it somewhere so that it can be used more effectively. What you do not want to see happening at the end of the year is people trying to spend as much money as they possibly can to try to get the money out through the door. That is something that no-one on our side of the Chamber wants to see; I am not sure about others. There is also the baseline taking account of the transfers with the UK Government and transferring revenue and capital to carry forward funding.

Mae'r dyraniadau sydd wedi eu gwneud o gronfeydd wrth gefn canolog yn adlewyrchu trosglwyddiadau o fewn cyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru a rhyngddynt. Mae hynny'n rheoli da iawn, onid yw? Os oes gan bobl arian nad ydynt yn mynd i'w ddefnyddio, neu na allant ei ddefnyddio yn effeithiol, symudwch ef i rywle fel y gellir ei ddefnyddio yn fwy effeithiol. Yr hyn nad ydych am ei weld yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn yw pobl yn ceisio gwario cymaint o arian ag y gallant i geisio cael yr arian allan drwy'r drws. Mae hynny'n rhywbeth nad oes neb ar ein hochr ni o'r Siambr am ei weld; nid wyf yn siŵr am bobl eraill. Mae llinell sylfaen hefyd sy'n ystyried y trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU a throsglwyddo refeniw a chyfalaf i gario arian ymlaen.

The key, as far as many of us are concerned, is the additional capital money. Capital expenditure has one great advantage: it gets people into work. It helps to reflate the economy. It is something that the Conservatives and their Liberal Democrat helpers have not understood. We need capital expenditure as it reflates the economy, it gets people into work and it gets the building trade working. It benefits the whole economy. One of the key things with capital expenditure is that you need to make sure that it is reflating the Welsh economy, providing work to the construction industry and people working in Wales, rather than reflating the economy of other parts of western Europe. It is important that contracts are developed so that they do not reflate the economy of other European countries and that it is the Welsh economy that benefits.

Yr allwedd, i lawer ohonom, yw'r arian cyfalaf ychwanegol. Mae gan wariant cyfalaf un fantais fawr: mae'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gwaith. Mae'n helpu i ailchwyddo'r economi. Mae'n rhywbeth nad yw'r Ceidwadwyr a'u cynorthwywyr ymhlith y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei ddeall. Mae arnom angen gwariant cyfalaf gan ei fod yn ailchwyddo'r economi, mae'n rhoi gwaith i bobl ac mae'n sicrhau bod y diwydiant adeiladu'n gweithio. Mae o fudd i'r economi gyfan. Un o'r pethau allweddol ynghylch gwariant cyfalaf yw bod angen i chi wneud yn siŵr ei fod yn ailchwyddo economi Cymru, yn darparu gwaith i'r diwydiant adeiladu ac i bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn hytrach nag ailchwyddo economi rhannau eraill o orllewin Ewrop. Mae'n bwysig bod contractau'n cael eu datblygu fel nad ydynt yn ailchwyddo economi gwledydd Ewropeaidd eraill ac mai economi Cymru sy'n elwa.

I am very pleased to see more money for invest-to-save, as it is a wonderful initiative of the Welsh Government. It has worked tremendously well in a number of places. Some of the initiatives are fairly simple, such as putting in photo-voltaic cells at the National Botanic Garden of Wales, which will save substantial sums of money over a period of time. Substantial savings will also be made due to the money being used to change the estate of Bridgend County Borough Council. That is an example of invest-to-save doing what it says on the tin; the money is invested and savings coming out of it. I would also like the Government to consider having an innovation fund, because I think that some of the invest-to-save money is being used for innovation. Therefore, I would like to see it looking to have an innovation fund to benefit from that. What it really comes down to is a good use of resources, good management of the finance available and a good reallocation to ensure maximum benefit. It is a job well done yet again by the Welsh Government.

Rwy'n falch iawn o weld mwy o arian ar gyfer buddsoddi i arbed, gan ei bod yn fenter wych gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi gweithio'n hynod o dda mewn nifer o leoedd. Mae rhai o'r mentrau'n eithaf syml, fel gosod celloedd ffotofoltäig yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, a fydd yn arbed symiau sylweddol o arian dros gyfnod o amser. Bydd arbedion sylweddol hefyd yn cael eu gwneud oherwydd yr arian sy'n cael ei ddefnyddio i newid ystad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dyna enghraifft o fuddsoddi i arbed yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun; caiff yr arian ei fuddsoddi ac mae arbedion yn dod o hynny. Hoffwn hefyd i'r Llywodraeth ystyried sefydlu cronfa arloesi, oherwydd credaf fod rhywfaint o'r arian buddsoddi i arbed yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arloesi. Felly, hoffwn ei gweld yn sefydlu cronfa arloesi i gael budd o hynny. Yn y bôn mae'n ymwneud â defnyddio adnoddau'n dda, rheoli'r cyllid sydd ar gael yn dda ac ailddyrannu'n dda i sicrhau'r budd mwyaf. Dyma waith da unwaith eto gan Lywodraeth Cymru.

15:12 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf am ganolbwyntio ar dri maes penodol yn y gyllideb atodol hon. Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi cyhoeddi y bydd y cynllun i helpu busnesau bach gyda'r dreth fusnes yn parhau tan o leiaf fis Mawrth 2014. Mae'r penderfyniad hwnnw wedi cael croeso brwd iawn yn fy etholaeth ac mewn nifer o etholaethau eraill. Mae parhau i roi help, i siopau bach yn arbennig, yn hanfodol, gan fod busnesau'r stryd fawr o dan bwysau cynyddol yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

I would like to focus on three areas in this supplementary budget. I welcome the fact that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has announced that the scheme to help small businesses with business rates will continue until at least March 2014. This decision received an enthusiastic welcome in my constituency and in a number of other constituencies. Continuing to provide assistance, to small shops in particular, is vital, as high-street businesses are under increasing pressure in the current economic climate.

Fel Cynulliad, rydym hefyd wedi croesawu symud arian o'r cronfeydd wrth gefn ac o'r tanwariant drwy'r system cyfnewid cyllidebol er mwyn gwneud iawn am y diffyg mewn budd-daliadau'r dreth gyngor. Cafodd hyn ei gyhoeddi ar ôl ymgyrch barhaus gan Blaid Cymru. Fodd bynnag, a all y Gweinidog esbonio pa un a fydd y trosglwyddiadau ariannol hyn yn ddigon i gyllido'r lefelau presennol o gymorth yn llawn? Hefyd, a allwn gael eglurhad ynghylch a yw'r sefyllfa yn ymwneud â datganoli cymorth y dreth gyngor yn debygol o greu unrhyw bwysau ariannol eithriadol i lywodraeth leol?

As an Assembly, we have also welcomed the movement of funds from the reserves and from the underspend through the budget exchange mechanism in order to compensate for the deficit in council tax benefits. This came about following a continuous campaign by Plaid Cymru—The Party of Wales. However, can the Minister explain whether these funding transfers will be sufficient to sustain the current levels of support in full? Also, can we have an explanation as to whether the situation as regards the devolution of council tax benefit is likely to create any exceptional financial pressures for local government?

Nid yw'n syndod chwaith bod o leiaf dri Aelod hyd yma wedi siarad am sefyllfa'r gwasanaeth iechyd. Fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, nid ydym yn hollol glir sut y mae'r gorwariant yn y gwasanaeth iechyd yn cael ei gyllido, yn yr ystyr bod y Llywodraeth yn dweud bod rhan o'r arian hwnnw yn cael ei fenthyg dros dro a bod rhaid talu hwnnw yn ôl. Fodd bynnag, o'r ffigurau rydym wedi'u gweld, nid yw'n glir sut yn union y mae'r arian hwnnw yn cael ei ad-dalu. Beth yw pwynt ad-dalu os bydd y byrddau iechyd yn gwneud cais am fwy o arian yn ystod y flwyddyn beth bynnag? Felly, mae aneglurder ynghylch yr arian hwn.

It is no surprise that at least three Members to date have talked about the position of the health service. As the Chair of the committee stated, the fact of the matter is that we are not completely clear how the overspend in the health service is being funded, in the sense that the Government states that part of that funding is a temporary loan and has to be repaid. However, it is not clear from the figures that we have seen how exactly that money will be repaid. What is the point of repaying it if the health boards subsequently make a request for additional funding during the year anyway? So, there is a lack of clarity about this funding.

Hoffwn gael gwybod dau beth gan y Llywodraeth. Yn gyntaf, beth yn union yw'r sefyllfa ynghylch talu yn ôl arian a fenthycwyd dros dro drwy'r system froceriaeth? Yn ail, faint o hyder sydd gan y Llywodraeth y bydd byrddau iechyd lleol yn dod i mewn—a chyfeiriodd Cadeirydd y pwyllgor at hyn—ar y geiniog, ar gyfer diwedd y flwyddyn? Hynny yw, a ydym yn hyderus bod byrddau iechyd yn gweithredu o fewn y gyllideb a gawsant?

I would like to hear the answer to two questions from the Government. First, what exactly is the position with regard to repaying temporary loans through the brokerage system? Secondly, how confident is the Government that the local health board will come in—as the committee Chair referred—on target at the end of the year? That is, are we confident that the local health boards are operating within the budget allocated to them?

Mae'r sefyllfa bresennol o ran cyllido'r byrddau iechyd yn anhyblyg iawn, fel y soniodd Cadeirydd y pwyllgor. Rydym wedi gweld bod rhyw gymaint o waith wedi'i wneud i sicrhau elfen o hyblygrwydd drwy'r system froceriaeth, ond mae angen mwy na hynny. Mae'r pwyllgor y mae gennyf y fraint o fod yn aelod ohono yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar fyrder gyda'i hadolygiad o'r modd y caiff y gwasanaeth iechyd cenedlaethol ei gyllido, a bod yn rhaid i unrhyw system newydd o gyllido'r gwasanaeth arwain at system dryloyw. Mae'n rhaid inni allu dilyn yr arian a gwybod yn union o le y mae wedi dod ac i le y mae wedi mynd.

The current funding system for the health boards is very inflexible, as the committee Chair mentioned. We have seen that some work has been done to secure an element of flexibility through the brokerage system, but we need more than that. The committee of which I have the privilege of being a member has recommended that the Welsh Government should proceed as a matter of urgency with its review of how the health service is funded, and that any new system of funding the service should lead to transparency. We must be able to follow the money and know where exactly it came from and where it has gone.

Gwn fod trafodaeth wedi bod yn y pwyllgor ynglŷn ag o ble yn union y daeth yr £82 miliwn ychwanegol. Cawsom wybod iddo ddod yn rhannol o'r cronfeydd wrth gefn, yn rhannol o drosglwyddo arian cyfalaf i'r gyllideb refeniw ac yn rhannol drwy ad-dalu broceriaeth. Felly, mae gennym ryw syniad o le mae'r arian hwnnw wedi'i neilltuo, ond ni fedrwn ei ddilyn yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn dweud ei fod yn cael ei ad-dalu.

I know that there has been discussion in committee about where exactly the additional £82 million came from. We were informed that it came partially from reserves, partially from the transfer of capital funding to the revenue budget, and partially from the repayment of brokerage. Therefore, we have some idea of where that money has been allocated from, but we cannot trace it in the way that the Government says it is being repaid.

Hoffwn gyfeirio at un pwynt arall yn ein trafodaethau ar y mater hwn, sef ein bod yn hynod ddiolchgar i weld yr arian a gytunwyd gan y Llywodraeth i brentisiaethau yn ymddangos erbyn hyn. Rydym yn disgwyl datganiad gan y Llywodraeth ynglŷn â sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei neilltuo, ond yr hyn sy'n bwysig ei nodi yw bod blaenoriaeth Plaid Cymru i sicrhau bod prentisiaethau ar gael, ac i bobl ifanc yn arbennig er mwyn eu paratoi ar gyfer y gweithle, yn hanfodol bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

I would like to refer to one further point in our discussions on this matter, which is the fact that we are extremely grateful to see the funding agreed with the Government for apprenticeships now materialising. We expect a statement from the Government about how exactly that funding will be allocated, but what is important to note is that the Plaid Cymru priority of securing apprenticeships, particularly for young people in order to prepare them for the workplace, is crucial in the current economic climate.

15:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the supplementary budget. As Mike Hedges said, this is a standard adjustment, which happens every year in terms of how we tidy up the budget before the year-end to make sure that we do not waste resource or give money back unnecessarily, and to ensure that those commitments made by Government Ministers in year are funded in accordance with those commitments.

Rwy'n croesawu'r gyllideb atodol. Fel y dywedodd Mike Hedges, mae hwn yn addasiad safonol, sy'n digwydd bob blwyddyn o ran sut yr ydym yn tacluso'r gyllideb cyn diwedd y flwyddyn i wneud yn siŵr nad ydym yn gwastraffu adnoddau neu roi arian yn ôl yn ddiangen, ac i sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny a wnaed gan Weinidogion y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn yn cael eu hariannu'n unol â'r ymrwymiadau hynny.

Unfortunately, Mike Hedges did stray a bit in his use of facts in describing our current situation. Yes, the block grant has been cut; no-one will dispute that fact. However, if Mike had referred to the previous Chancellor of the Exchequer's budget in 2009, he would have seen that the cut to the block grant is less than was envisaged by Labour when it set out that budget, partly because the UK coalition Government prioritised education and health in its expenditure. That has passed through in terms of the money that comes to this Assembly.

Yn anffodus, fe grwydrodd Mike Hedges ychydig wrth ddefnyddio ffeithiau i ddisgrifio ein sefyllfa ar hyn o bryd. Ydy, mae'r grant bloc wedi ei dorri, ni all neb amau'r ffaith honno. Fodd bynnag, pe bai Mike wedi cyfeirio at gyllideb flaenorol Canghellor y Trysorlys yn 2009, byddai wedi gweld bod y toriad yn y grant bloc yn llai nag a ragwelwyd gan Lafur pan gyflwynodd y gyllideb honno, yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth glymblaid y DU yn blaenoriaethu addysg ac iechyd yn ei gwariant. Mae hynny wedi treiddio drwodd o ran yr arian sy'n dod i'r Cynulliad hwn.

Therefore, we are in a much better position than we would have been if Gordon Brown had won the 2010 general election, because his budget plans and those of Alistair Darling would have left us with an even bigger cut. The reasons for those cuts are to do not with the UK Government's expenditure on hospitals, doctors or nurses, but with the fact that we have had to bail out banks with huge sums of money, as a result of the financial crisis that hit this country because the previous Government did not regulate those banks sufficiently and because we were not prepared, as some other countries were, to cope with the financial crisis that hit the world at the time.

Felly, rydym mewn sefyllfa well o lawer nag y byddem wedi bod ynddi pe bai Gordon Brown wedi ennill etholiad cyffredinol 2010, oherwydd byddai ei gynlluniau cyllideb ef a rhai Alistair Darling wedi ein gadael gyda thoriad hyd yn oed yn fwy. Mae'r rhesymau am y toriadau hynny'n ymwneud nid â gwariant Llywodraeth y DU ar ysbytai, meddygon neu nyrsys, ond â'r ffaith ein bod wedi achub croen y banciau â symiau enfawr o arian, o ganlyniad i'r argyfwng ariannol a drawodd y wlad hon oherwydd nad oedd y Llywodraeth flaenorol yn rheoleiddio'r banciau hynny'n ddigonol, ac oherwydd nad oeddem yn barod, fel yr oedd rhai gwledydd eraill, i ymdopi â'r argyfwng ariannol a drawodd y byd ar y pryd.

Like Mike Hedges, I agree that we need to spend on capital expenditure. Previous supplementary budgets have put huge amounts of money into capital expenditure, which we have supported and will continue to support, because that is clearly one way of helping to boost the economy. It is a lesson that the UK Government has also picked up, because it has also committed huge sums of money to capital expenditure, not least its commitment to electrify the main line all the way to Swansea, along with a commitment to many other capital expenditure projects. So, we are hopeful that that will help to turn the economy around.

Fel Mike Hedges, rwyf yn cytuno bod angen i ni wario ar wariant cyfalaf. Mae cyllidebau atodol blaenorol wedi rhoi symiau enfawr o arian i mewn i wariant cyfalaf, ac rydym wedi cefnogi hynny, a byddwn yn parhau i'w gefnogi, oherwydd bod hynny'n amlwg yn un ffordd o helpu i roi hwb i'r economi. Mae'n wers y mae Llywodraeth y DU wedi ei hystyried hefyd, gan ei bod hithau wedi ymrwymo symiau enfawr o arian i wariant cyfalaf, gan gynnwys ei hymrwymiad i drydaneiddio'r brif lein yr holl ffordd i Abertawe, ynghyd ag ymrwymiad i lawer o brosiectau gwariant cyfalaf eraill. Felly, rydym yn obeithiol y bydd hynny'n helpu i wella'r economi.

To turn to the supplementary budget before us, I, like other Members, have concerns about the health element. A number of Members have outlined the committee's concerns about where the £82 million came from and how that was allocated, particularly the brokerage as part of that. I would draw attention to paragraph 25 of the committee's report, which states that

A throi at y gyllideb atodol ger ein bron, mae gennyf i, fel Aelodau eraill, bryderon am yr elfen iechyd. Mae nifer o Aelodau wedi amlinellu pryderon y pwyllgor ynghylch o ble y daeth yr £82 miliwn, a sut y dyrannwyd hwnnw, yn enwedig y froceriaeth fel rhan o hynny. Hoffwn dynnu sylw at baragraff 25 adroddiad y pwyllgor, sy'n datgan

'it has been suggested that at least two of the health boards may still fail to break even at the end of the 2012-13 financial year, despite the additional allocations in December 2012.'

'cafwyd awgrymiadau y bydd o leiaf dau fwrdd iechyd yn methu mantoli'r gyllideb hyd yn oed ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13, er gwaethaf y dyraniadau ychwanegol a gafwyd ym mis Rhagfyr 2012.'

This is at the heart of my concern; it is not so much where the money is coming from, but how it is being spent and how it is being accounted for. There is a clear transparency gap in the Welsh budget about how money is being spent on health, how health boards are being held to account for that money and the ability of Assembly Members to scrutinise a huge chunk of the Welsh Government's budget as it goes to health boards. Effectively, we have a single line that says, 'This money is being distributed to local health boards'. We do not even have a line about how much each local health board gets. The level of scrutiny that is available to us is inadequate, and the transparency of the Welsh Government's budget in that respect is also inadequate.

Mae hyn wrth wraidd fy mhryder; nid yn gymaint o ble mae'r arian yn dod, ond sut y mae'n cael ei wario a sut y rhoddir cyfrif amdano. Mae bwlch tryloywder clir yng nghyllideb Cymru ynghylch sut y mae arian yn cael ei wario ar iechyd, sut y mae byrddau iechyd yn cael eu dwyn i gyfrif am yr arian hwnnw a gallu Aelodau'r Cynulliad i graffu ar ddarn mawr o gyllideb Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd i fyrddau iechyd. I bob pwrpas, mae gennym un llinell sy'n dweud, 'Mae'r arian yn cael ei ddosbarthu i fyrddau iechyd lleol'. Nid oes gennym linell hyd yn oed ynglŷn â faint y mae pob bwrdd iechyd lleol yn ei gael. Mae lefel y craffu sydd ar gael i ni yn annigonol, ac mae tryloywder cyllideb Llywodraeth Cymru yn hynny o beth hefyd yn annigonol.

This is a learning process on both sides of the house, for opposition scrutiny and for the Government. I hope that the Minister will take on board that this is not the first time that the Finance Committee has raised this point. I also hope that we will be able, as part of the arrangements that are being looked into for local health boards, to get that greater transparency and scrutiny of the money being spent on the health service, so that we can be certain, when the Minister for Finance allocates an extra £82 million to those health boards, not only of what they will get, but of how it will be spent and how it will help their financial position, so that they do not go on to overspend, which they are currently not allowed to do and. We also need to be certain of the relationship between that bail-out or that extra money and the long-term financial position of the health boards as regards their solvency and their medium and long-term plans for structuring the service that they provide. I hope that the Minister is able to take that on board and give us some assurances on that issue.

Mae hon yn broses ddysgu ar ddwy ochr y tŷ, o ran gwaith craffu'r wrthblaid ac o ran y Llywodraeth. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn nad dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor Cyllid godi'r pwynt hwn. Rwyf hefyd yn gobeithio y byddwn, fel rhan o'r trefniadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer byrddau iechyd lleol, yn gallu cael mwy o dryloywder a chraffu ar yr arian sy'n cael ei wario ar y gwasanaeth iechyd, fel y gallwn fod yn sicr, pan fydd y Gweinidog Cyllid yn dyrannu £82 miliwn yn ychwanegol i'r byrddau iechyd hynny, nid yn unig o'r hyn y byddant yn ei gael, ond sut y bydd yn cael ei wario a sut y bydd yn helpu eu sefyllfa ariannol, fel nad ydynt yn mynd ymlaen i orwario, na chaniateir iddynt wneud ar hyn o bryd. Mae angen hefyd i ni fod yn sicr o'r berthynas rhwng yr arian achub croen neu'r arian ychwanegol hwnnw a sefyllfa ariannol hirdymor y byrddau iechyd o ran eu diddyledrwydd a'u cynlluniau yn y tymor canol a'r tymor hir ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi sylw i hynny a rhoi rhywfaint o sicrwydd i ni ar y mater hwnnw.

15:22 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance and Leader of the House to reply.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ i ymateb.

15:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I thank Members this afternoon for their contributions, following robust and thorough scrutiny by the Finance Committee on this all-important second supplementary budget. I welcome the debate. It evidences how the Welsh Government, despite the difficult economic and financial circumstances, is continuing to identify and use all the levers that we have available to us. These include new levers that we are using and developing, such as the invest-to-save fund, which has had additional funding this year, as I have identified and as Mike Hedges has also highlighted, in terms of its contribution to public service improvement and transformation. We are also making use of the opportunities that we have as a result of UK Government decisions to extend small business rate relief, which was welcomed by Ieuan Wyn Jones, and by the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies. We will review that in terms of taking it forward, and we have had a useful statement from the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science this afternoon.

Diolch i'r Aelodau y prynhawn yma am eu cyfraniadau, yn dilyn craffu cadarn a thrylwyr gan y Pwyllgor Cyllid ar yr ail gyllideb atodol hollbwysig hon. Croesawaf y ddadl. Mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru, er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd ac ariannol anodd, yn parhau i ddod o hyd i bob dull sydd ar gael i ni, a'u defnyddio. Ymhlith y rhain mae dulliau newydd yr ydym yn eu defnyddio ac yn eu datblygu, megis y gronfa buddsoddi i arbed, sydd wedi cael arian ychwanegol eleni, fel yr wyf wedi nodi ac fel y mae Mike Hedges hefyd wedi tynnu sylw ato, o ran ei chyfraniad at wella a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfleoedd sydd gennym yn sgil penderfyniadau Llywodraeth y DU i estyn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a gafodd ei groesawu gan Ieuan Wyn Jones, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies. Byddwn yn adolygu hynny o ran bwrw ymlaen â'r cynllun, ac rydym wedi cael datganiad defnyddiol gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y prynhawn yma.

The Chair of the Finance Committee has laid out a constructive and informative response to the second supplementary budget. She drew attention, as did other Members, including the Conservative and Welsh Liberal Democrat finance spokespeople and, indeed, Ieuan Wyn Jones, to the health service. I am happy to respond to those points. They were discussed at the Finance Committee last month, and I have responded and written to the Chair of the Finance Committee to provide information on a number of issues raised, including an important clarification, and therefore enabling that transparency to appear in terms of the second supplementary budget on arrangements for the repayment of funding under the brokerage scheme.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi rhoi ymateb adeiladol a defnyddiol i'r ail gyllideb atodol. Tynnodd sylw, fel y gwnaeth Aelodau eraill, gan gynnwys llefarwyr cyllid y Ceidwadwyr a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac, yn wir, Ieuan Wyn Jones, at y gwasanaeth iechyd. Rwyf yn hapus i ymateb i'r pwyntiau hynny. Cawsant eu trafod yn y Pwyllgor Cyllid fis diwethaf, ac rwyf wedi ymateb ac wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i roi gwybodaeth ar nifer o faterion a godwyd, gan gynnwys eglurhad pwysig, ac felly wedi peri bod modd cael y tryloywder hwnnw o ran yr ail gyllideb atodol ar drefniadau i ad-dalu arian o dan y cynllun broceriaeth.

As Members know, we have managed to provide the additional allocation of £82 million from within the overall health settlement. For the record and as I indicated in the Finance Committee, this includes a capital to revenue transfer of £35 million, an allocation from the contingency reserve established within the NHS targeted services action of £28.6 million, and a repayment of brokerage from NHS organisations borrowing additional funding provided in 2011-12 of £18.4 million. This is evidence of repayment from one year to the next, and it is important evidence in terms of the questions raised this afternoon.

Fel y gŵyr yr Aelodau, rydym wedi llwyddo i ddarparu dyraniad ychwanegol o £82 miliwn o fewn y setliad iechyd cyffredinol. Er mwyn rhoi hyn ar gofnod, ac fel y nodais yn y Pwyllgor Cyllid, mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad cyfalaf i refeniw o £35 miliwn, dyraniad o'r gronfa wrth gefn a sefydlwyd o fewn camau gweithredu gwasanaethau wedi'u targedu y GIG o £28.6 miliwn, ac ad-daliad broceriaeth wrth i sefydliadau'r GIG gael benthyg cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2011-12 o £18.4 miliwn. Mae hyn yn dystiolaeth o ad-dalu o un flwyddyn i'r llall, ac mae'n dystiolaeth bwysig o ran y cwestiynau a godwyd y prynhawn yma.

I have given the allocations, as has the Minister for health, to the health boards in terms of the £82 million but, in terms of our decision to allocate that funding, we have been clear in our support for the NHS in Wales. The settlement imposed by the UK Government is not without challenge, as has been highlighted this afternoon, and we consistently stated our intention to keep NHS funding under review in terms of ensuring that services are safe and sustainable in the long term.

Rwyf wedi rhoi'r dyraniadau, fel y mae'r Gweinidog Iechyd, i'r byrddau iechyd o ran yr £82 miliwn ond, o ran ein penderfyniad i ddyrannu'r cyllid hwnnw, rydym wedi bod yn glir yn ein cefnogaeth i'r GIG yng Nghymru. Nid yw'r setliad a osodwyd gan Lywodraeth y DU heb her, fel yr amlygwyd y prynhawn yma, ac rydym yn gyson wedi datgan ein bwriad i barhau i adolygu arian y GIG o ran sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

I also clarified in my response to the Finance Committee the arrangements for the repayments. The revenue resource limits of each local health board sit within the core NHS services delivery action. They have been adjusted to reflect payments. I do seek, as does the Minister for Health and Social Services, to make more transparent the decisions that we have made. This is an opportunity to do that.

Eglurais hefyd yn fy ymateb i'r Pwyllgor Cyllid y trefniadau ar gyfer ad-daliadau. Mae terfynau adnoddau refeniw pob bwrdd iechyd lleol yn rhan o gamau cyflenwi gwasanaethau craidd y GIG. Maent wedi eu haddasu i adlewyrchu taliadau. Rwy'n ceisio, fel y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gwneud y penderfyniadau a wnaed gennym yn fwy tryloyw. Dyma gyfle i wneud hynny.

15:26

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for giving way. On that issue of transparency, will you undertake to keep under review the aspect of the health budget that that goes to the ambulance service? We had a debate in this Chamber recently, with the Minister for health leading on that, and real concerns were raised about the way that the ambulance budget is presented as an overall part of the NHS budget.

Rwy'n ddiolchgar i chi am ildio. Ynghylch tryloywder, a wnewch chi ymrwymo i barhau i adolygu'r rhan honno o'r gyllideb iechyd sy'n mynd i'r gwasanaeth ambiwlans? Cawsom ddadl yn y Siambr hon yn ddiweddar, gyda'r Gweinidog Iechyd yn arwain ar hynny, a chodwyd pryderon gwirioneddol am y ffordd y mae'r gyllideb ambiwlans yn cael ei chyflwyno fel rhan gyffredinol o gyllideb y GIG.

15:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services is continually reviewing commitments against budgets. Of course, that would include the ambulance trust within her main expenditure group. This enables us and the Minister to use funding that is uncommitted or for low-priority programmes to be redirected to meet pressures within the NHS or elsewhere within the MEG. I do not think that there is any disagreement across the Chamber that we need to look at this. 'Together for Health' clearly identifies our need to review the NHS finance regime. We are looking to the options for taking forward additional financial flexibilities in the short and medium term. NHS organisations are well sighted on these proposals. They will be issued with formal guidance from the Welsh Government in due course, and those arrangements will operate from 2013-14 onwards. So, clearly, this is work in progress in terms of ensuring that there is that transparency, clarity and recognition of the importance of those flexibilities that we are taking forward.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adolygu'n barhaus ymrwymiadau yn erbyn cyllidebau. Wrth gwrs, byddai hynny'n cynnwys yr ymddiriedolaeth ambiwlans o fewn ei phrif grŵp gwariant. Mae hyn yn ein galluogi ni a'r Gweinidog i ailgyfeirio cyllid sydd heb ei rwymo neu sydd ar gyfer rhaglenni blaenoriaeth isel i ddiwallu pwysau o fewn y GIG neu mewn mannau eraill o fewn y prif grŵp gwariant. Nid wyf yn credu bod unrhyw anghytundeb ar draws y Siambr fod angen i ni edrych ar hyn. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn nodi'n glir fod angen i ni adolygu cyfundrefn gyllid y GIG. Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â hyblygrwydd ariannol ychwanegol yn y tymor byr a'r tymor canol. Mae sefydliadau'r GIG yn gweld yn dda ar y cynigion hyn. Byddant yn cael arweiniad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru maes o law, a bydd y trefniadau ar waith o 2013-14 ymlaen. Felly, yn amlwg, mae hwn yn waith ar y gweill o ran sicrhau y ceir tryloywder ac eglurder a sicrhau y cydnabyddir pwysigrwydd yr hyblygrwydd yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef.

Members moved on to discuss our commitments to council tax support. The 10% cut to expenditure on council tax support from the UK Government, before devolving the budget to the Welsh Government, would have placed severe financial burdens on some of the poorest and most vulnerable households in Wales. It was important that we made the decision to meet that cut, and to ensure that we work closely with local government to develop affordable arrangements from 2014-15 onwards. Of course, the Minister for Local Government and Communities will keep Members clearly informed of that.

Aeth Aelodau ymlaen i drafod ein hymrwymiadau i gymorth y dreth gyngor. Byddai'r toriad o 10% i wariant ar gymorth y dreth gyngor gan Lywodraeth y DU, cyn datganoli'r gyllideb i Lywodraeth Cymru, wedi gosod baich ariannol difrifol ar rai o'r aelwydydd tlotaf a'r mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Roedd yn bwysig ein bod yn penderfynu wynebu'r toriad hwnnw, ac yn sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau fforddiadwy o 2014-15 ymlaen. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau'n rhoi gwybodaeth glir i Aelodau am hynny.

15:29 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could you conclude, Minister?

A wnewch chi ddirwyn i ben, Weinidog?

15:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an area where we have allocated £21 million from central reserves for council tax support.

Mae hwn yn faes lle'r ydym wedi dyrannu £21 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn canolog ar gyfer cymorth y dreth gyngor.

In conclusion we are moving forward with a budget exchange system. We are also taking forward our Clear Line of Sight opportunities, as highlighted by the Chair of the Finance Committee. However, finally, this is a real opportunity for us to manage a reduced budget in terms of constrained circumstances. It is also a clear indication that we are doing all that we can to improve growth and jobs in Wales and to maximise our resources to deliver for Wales, our economy, and our people.

I gloi, rydym yn symud ymlaen gyda system cyfnewid cyllidebau. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â'n cyfleoedd Llwybr Clir, fel yr amlygwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, yn olaf, mae hwn yn gyfle gwirioneddol i ni i reoli cyllideb lai mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae hefyd yn arwydd clir ein bod yn gwneud popeth a allwn i wella twf a swyddi yng Nghymru ac i wneud yn fawr o'n hadnoddau i gyflawni dros Gymru, ein heconomi, a'n pobl.

15:29 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer voting on this item until voting time.

Diolch yn fawr, Weinidog. Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.30 p.m.*

*The Presiding Officer took the Chair at 3.30 p.m.*

## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham.*

Cynnig NDM5174 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

## International Women's Day

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of William Graham.*

Motion NDM5174 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales:

Celebrates International Women's Day 2013 in recognition of the role and contribution of women in Wales.

15:30

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I move the motion.

I am pleased to open this debate in celebration of International Women's Day 2013, and in recognition of the role and contribution of women in Wales.

I want to use this day—as I am sure that we will, across the Chamber—to promote the importance of gender equality and women's empowerment, and to celebrate achievements, but also to highlight the real issues and barriers that still face women and girls. There are many themes across the world for International Women's Day in 2013, including the United Nations' women's theme, which is ending violence against women. This was the Welsh Government's focus last year, and it is a major priority for this Government. The theme for International Women's Day 2013 in Wales is Visible Women: Empowering Girls and Women in Wales. We chose this theme to provide a further opportunity to support our commitment to empowering women and girls in every aspect of Welsh life. International Women's Day gives us an opportunity to challenge stereotypes and accepted norms. Current evidence and debate makes clear our need to address prejudice and discrimination, as well as the sexual harassment of women, and I was pleased to announce today funding of £105,000 to extend the employment of specialist discrimination caseworkers up to September 2013. This will ensure the continuation of these valuable posts, pending the outcome of our advice service review.

Cynigiaf y cynnig.

Rwy'n falch o gael agor y ddadl hon i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013, er mwyn cydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

Rwyf am ddefnyddio'r diwrnod hwn—fel yr wyf yn siŵr y byddwn, ar draws y Siambr—i hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod, ac i ddathlu llwyddiannau, ond hefyd i dynnu sylw at y materion a'r rhwystrau gwirioneddol sy'n dal i wynebu menywod a merched . Mae llawer o themâu ar draws y byd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn 2013, gan gynnwys thema menywod y Cenhedloedd Unedig, sef dod â thrais yn erbyn menywod i ben. Dyma oedd ffocws Llywodraeth Cymru y llynedd, ac mae'n flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth hon. Y thema ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 yng Nghymru yw Menywod Gweladwy: Grymuso Merched a Menywod yng Nghymru. Rydym wedi dewis y thema hon i roi cyfle pellach i gefnogi ein hymrwymiad i rymuso menywod a merched ym mhob agwedd ar fywyd Cymru. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle i ni herio stereoteipiau a normau sy'n cael eu derbyn. Mae tystiolaeth gyfredol a'r ddadl sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn glir fod angen i ni fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu, yn ogystal ag aflonyddu rhywiol ar fenywod, ac roeddwn yn falch o gyhoeddi cyllid heddiw o £105,000 i estyn cyflogaeth gweithwyr achos sy'n arbenigo ar wahaniaethu hyd at fis Medi 2013. Bydd hyn yn sicrhau parhad y swyddi gwerthfawr hyn, hyd nes y cawn ganlyniad ein hadolygiad o wasanaethau cynghori.

This year, the Women's Equality Network Wales was supported to administer our funding for International Women's Day events. The network has been working with women's groups across Wales to help them develop viable grant proposals for International Women's Day. This was evident in the greater number, quality and variety of applications for funding across Wales. In total, over £74,000 has been awarded to several diverse events across Wales. These include the Vi-ability educational programme, which seeks to empower girls and women through football, as well as the Welsh Asian Women's Achievement Awards which, in their second year, will be highlighting and celebrating the achievements of Asian women in Wales. Other events that are being funded by the Welsh Government to empower women of all ages include, later this month, the Mostly Women Doing Digital event, which is aimed at women who wish to develop their digital skills and improve their career opportunities, at a time when only one in 12 technical job applicants are female. I was pleased to see that partners in the private sector, with Cardiff Council, are sponsoring an event to introduce girls to a range of jobs, sports and interests that are traditionally seen as male dominated.I would like to thank the inspirational Non Evans, the former Welsh ladies rugby player, who will speak at the event; I know that she is an inspiration for those who will be attending.

Eleni, cafodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru gefnogaeth i weinyddu ein cyllid ar gyfer digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae'r rhwydwaith wedi bod yn gweithio gyda grwpiau menywod ar draws Cymru i'w helpu i ddatblygu cynigion grant hyfyw ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn sgil hynny, cafwyd mwy o geisiadau, a'r rheiny'n geisiadau mwy amrywiol ac o ansawdd uwch, am gyllid ar draws Cymru. Yn gyfan gwbl, mae dros £74,000 wedi'i ddyfarnu i nifer o ddigwyddiadau amrywiol ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen addysgol Vi-ability, sy'n ceisio grymuso merched a menywod trwy bêl-droed, yn ogystal â Gwobrau Llwyddiant Menywod Asiaidd Cymru a fydd, yn eu hail flwyddyn, yn amlygu a dathlu llwyddiannau menywod Asiaidd yng Nghymru. Ymhlith digwyddiadau eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i rymuso menywod o bob oedran, yn ddiweddarach y mis hwn, mae digwyddiad Mostly Women Doing Digital, sydd wedi'i anelu at fenywod sy'n dymuno datblygu eu sgiliau digidol a gwella eu cyfleoedd gyrfaol, ar adeg pan nad oes ond un o bob 12 ymgeisydd am swyddi technegol yn fenyw. Rwy'n falch o weld bod partneriaid yn y sector preifat, gyda Chyngor Caerdydd, yn noddi digwyddiad i gyflwyno merched i amrywiaeth o swyddi, chwaraeon a diddordebau sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol yn rhai i ddynion yn bennaf. Hoffwn ddiolch i'r ysbrydoledig Non Evans, y cyn chwaraewr gyda thîm rygbi menywod Cymru, a fydd yn siarad yn y digwyddiad; gwn ei bod yn ysbrydoliaeth i'r rhai fydd yno.

Women's organisations in Wales receive support to achieve their goals, not just through the International Women's Day one-off grant award each year, but also via the advancing equality fund. Women Connect First and Women Making a Difference—which I know Members will be aware of—are successfully introducing older women to the internet, as well as introducing women from all backgrounds into public life. The Government has provided annual funding to Chwarae Teg since 1992, and I will be launching its major research report, 'A Woman's Place', on 24 April. Chwarae Teg's innovative Agile Nation project encourages and assists women to achieve their full potential in the workplace.

Mae sefydliadau menywod yng Nghymru'n derbyn cefnogaeth i gyflawni eu nodau, nid dim ond drwy ddyfarniad grant untro Diwrnod Rhyngwladol y Menywod bob blwyddyn, ond hefyd trwy'r gronfa hyrwyddo cydraddoldeb. Mae Women Connect First a Merched yn Gwneud Gwahaniaeth—yr wyf yn gwybod y bydd yr Aelodau'n ymwybodol ohonynt—yn llwyddo i gyflwyno merched hŷn i'r rhyngrwyd, yn ogystal â chyflwyno menywod o bob cefndir i fywyd cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn darparu cyllid blynyddol i Chwarae Teg ers 1992, a byddaf yn lansio ei adroddiad ymchwil pwysig ar rolau menywod yn y gweithlu ar 24 Ebrill. Mae prosiect arloesol Cenedl Hyblyg Chwarae Teg yn annog ac yn cynorthwyo menywod i gyflawni eu llawn botensial yn y gweithle.

However, it is not just through funding International Women's Day, and other events, that we are working to increase the engagement and participation of women. You will know that I am challenging public sector bodies, political parties and the media to play their part in increasing the number of women in public roles in Wales. We have recently completed a case study on the Sport Wales public appointments process. It set a great example last year by actively looking to recruit more women to its board, and we would like to see more public bodies in Wales do the same. Many of you will have seen or heard Professor Laura McAllister speaking about this issue over the weekend. As can be seen from Laura McAllister's example, the commitment of the chair of public sector boards is instrumental in terms of increasing the number of women in public appointments. By appointing more women into high profile roles, we can set the right example for young girls as they look forward to their future careers, and make them realise the opportunities that are out there. We can also provide role models for other women who may have thought about undertaking such a role but need encouragement to make it a reality.

Fodd bynnag, nid dim ond drwy ariannu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a digwyddiadau eraill, yr ydym yn gweithio i hybu ymgysylltiad a chyfranogiad menywod. Byddwch yn gwybod fy mod yn herio cyrff y sector cyhoeddus, pleidiau gwleidyddol a'r cyfryngau i chwarae eu rhan i gynyddu nifer y menywod mewn rolau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ddiweddar, cwblhawyd astudiaeth achos gennym ar broses penodiadau cyhoeddus Chwaraeon Cymru. Gosododd esiampl wych y llynedd gan fynd ati i geisio recriwtio mwy o ferched i'w fwrdd, a hoffem weld mwy o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud yr un peth. Bydd llawer ohonoch wedi gweld neu glywed yr Athro Laura McAllister yn siarad am hyn dros y penwythnos. Fel y gellir gweld o esiampl Laura McAllister, mae ymrwymiad cadeiryddion byrddau'r sector cyhoeddus yn allweddol o ran cynyddu nifer y menywod mewn penodiadau cyhoeddus. Drwy benodi mwy o fenywod i swyddi proffil uchel, gallwn osod yr esiampl orau i ferched ifanc wrth iddynt edrych ymlaen at eu gyrfaoedd yn y dyfodol, a gwneud iddynt sylweddoli pa gyfleoedd sydd ar gael. Gallwn hefyd ddarparu esiamplau ar gyfer menywod eraill a allai fod wedi meddwl am ymgymryd â rôl o'r fath ond y mae angen anogaeth arnynt i wireddu hynny.

New evidence from the Counting Women In coalition report, 'Sex and Power 2013: Who runs Britain?', has shown, very recently, that the number of women in positions of power is now in decline at almost every level. This is further evidence that we must do more to ensure that we live in a representative democracy. Although we do have slightly better representation here in the Assembly, we must not be complacent. Women had equal representation with men in 2003, but this has now fallen to 42%. The Electoral Reform Society is clear that the progress women have made in politics now risks going into reverse. Every party in the Chamber today can do more to encourage and enable women to come into public life.

Mae tystiolaeth newydd o adroddiad Counting Women In y glymblaid, 'Sex and Power 2013: Who runs Britain?', wedi dangos, yn ddiweddar iawn, fod nifer y menywod mewn safleoedd pwerus erbyn hyn yn dirywio ar bron bob lefel. Mae hyn yn dystiolaeth bellach fod yn rhaid i ni wneud mwy i sicrhau ein bod yn byw mewn democratiaeth gynrychioliadol. Er bod gennym gynrychiolaeth ychydig yn well yma yn y Cynulliad, ni ddylem fod yn hunanfodlon. Roedd gan fenywod gynrychiolaeth gyfartal â dynion yn 2003, ond mae hyn bellach wedi gostwng i 42%. Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn glir bod perygl y bydd y llanw'n troi ar y cynnydd y mae menywod wedi ei wneud mewn gwleidyddiaeth. Gall pob plaid yn y Siambr heddiw wneud mwy i annog a galluogi menywod i ddod yn rhan o fywyd cyhoeddus.

The Welsh Government is committed to reversing this trend, but we all have a role to play in increasing diversity. As Minister for equality, I have taken a proactive approach to increasing the number of women and other under-represented groups in public appointments. Welsh Ministers have now written to all public sector bodies challenging them to take action to increase the number of women and other under-represented groups on their boards. They will be providing me with an update on progress and I will be meeting all chairs of boards in June to discuss progress and to use the Sport Wales case study and its action plans in order to increase representation of women and other under-represented groups. I am also exploring what legislative steps we could take if this approach is not successful.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wyrdroi'r duedd hon, ond mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae o ran cynyddu amrywiaeth. A minnau'n Weinidog dros gydraddoldeb, rwyf wedi mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu nifer y menywod ac eraill o grwpiau a dan-gynrychiolir mewn penodiadau cyhoeddus. Mae Gweinidogion Cymru bellach wedi ysgrifennu at holl gyrff y sector cyhoeddus yn eu herio i gymryd camau i gynyddu nifer y menywod ac eraill o grwpiau a dan-gynrychiolir ar eu byrddau. Byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y cynnydd a byddaf yn cyfarfod â holl gadeiryddion y byrddau ym mis Mehefin i drafod cynnydd ac i ddefnyddio astudiaeth achos Chwaraeon Cymru a'i gynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau mwy o gynrychiolaeth i fenywod ac eraill o grwpiau a dan-gynrychiolir. Rwyf hefyd yn archwilio pa gamau deddfwriaethol y gallem eu cymryd pe na bai'r dull hwn yn llwyddiannus.

Equally, we want strong representation of women on company boards. The Welsh Government has expressed its concern that the UK Government's approach of a voluntary-led approach to increasing the number of women on boards may not achieve this goal quickly enough. Finally, I would like to congratulate our Presiding Officer, Rosemary Butler, on her nomination in the Women in Public Life awards, which highlight and reward the achievements of women and encourage others to pursue leadership roles and to strive for greater representation.

Yn yr un modd, rydym am weld cynrychiolaeth gref o blith menywod ar fyrddau cwmnïau. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei phryder na fydd ymagwedd wirfoddol Llywodraeth y DU at gynyddu nifer y menywod ar fyrddau o bosibl yn cyrraedd y nod hwn yn ddigon cyflym. Yn olaf, hoffwn longyfarch ein Llywydd, Rosemary Butler, ar ei henwebiad yng ngwobrau Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, sy'n amlygu ac yn gwobrwyo llwyddiannau menywod ac yn annog eraill i gymryd rolau arwain ac i ymdrechu am fwy o gynrychiolaeth.

There is a danger that efforts to ensure gender equality can be lost at times like this and that women will become less visible and their voices will not be heard as the impacts of the recession and welfare reform hit women particularly hard. The impact of welfare reform changes on women in Wales has been evidenced through the report by the Bevan Foundation, 'Women, work and the recession in Wales', which I launched last week. The report findings confirm that the recession is far from over for women in Wales. The last four years have seen complex changes in women's employment, with women continuing to lose jobs in the last 12 months. Young women are hit particularly hard by the recession.

Mae perygl y gall ymdrechion i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau gael eu colli ar adegau fel hyn ac y bydd menywod yn dod yn llai gweladwy ac na fydd eu lleisiau'n cael eu clywed gan fod effeithiau'r dirwasgiad a diwygiadau lles yn taro menywod yn arbennig o galed. Mae effaith y newidiadau diwygio lles ar fenywod yng Nghymru wedi cael ei ddangos drwy'r adroddiad gan Sefydliad Bevan, 'Menywod, gwaith a'r dirwasgiad yng Nghymru', a lansiwyd gennyf yr wythnos diwethaf. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cadarnhau bod y dirwasgiad ymhell o fod drosodd i fenywod yng Nghymru. Mae'r pedair blynedd diwethaf wedi gweld newidiadau cymhleth yng nghyflogaeth menywod, gyda menywod yn parhau i golli swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r dirwasgiad yn taro menywod ifanc yn arbennig o galed.

Through our strategic equality plan, we have key actions to allow more women better access to employment. That links with our tackling poverty action plan and our actions to improve the provision of affordable and high-quality childcare. Wales has much to be proud of in advancing the roles of women in public life and work. However, we should be in no doubt that we are in very challenging times, and we must re-double our efforts if we are to ensure that women play a full and effective role in Wales in the future.

Drwy ein cynllun cydraddoldeb strategol, mae gennym gamau gweithredu allweddol er mwyn i fwy o fenywod gael gwell mynediad i gyflogaeth. Mae hynny'n gysylltiedig â'n cynllun gweithredu i ymdrin â thlodi a'n camau gweithredu i wella darpariaeth gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel. Mae gan Gymru lawer i ymfalchïo ynddo o ran hyrwyddo rolau menywod mewn bywyd cyhoeddus a gwaith. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfnod heriol iawn heb os nac oni bai, a rhaid i ni ymdrechu'n galetach os ydym am sicrhau bod menywod yn chwarae rhan lawn ac effeithiol yng Nghymru yn y dyfodol.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod dewrder menywod sydd wedi cael eu cam-drin am roi gwybod am ddigwyddiadau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol.*

*Recognises the courage of women who have suffered abuse in reporting incidents and calls on the Welsh Government to promote an integrated strategy to tackle domestic and sexual violence.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu nifer y menywod sydd mewn sefyllfa o bŵer a dylanwad yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to examine ways to increase the number of women in positions of power and influence in Wales.*

15:38 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

The motion before us today is to celebrate International Women's Day, in recognition of the role and contribution of women in Wales. International Women's Day has been observed since the early part of the last century, and became an annually recognised day throughout the United Nations in 1996. From its inception, it has grown to become a global day of recognition and celebration, with thousands of events being held to inspire women and celebrate their achievements. Women have made, and continue to make, significant contributions in all aspects of life in Wales—Siân Phillips, Glynis Johns, Rachel Roberts in acting, designers Laura Ashley and Mary Quant, the daughter of Welsh parents, Tanni Grey-Thompson, Nicole Cooke, Jade Jones in sport, Charlotte Church and Katherine Jenkins, and opera singers Gwyneth Jones and Margaret Price, to name but a few. Indeed, for many people, the highlights of recent Academy Awards have been the performances by Catherine Zeta Jones and Dame Shirley Bassey—two of Wales's brightest stars.

Bwriad y cynnig ger ein bron heddiw yw dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod wedi cael ei gynnal ers dechrau'r ganrif ddiwethaf, ac yn 1996 daeth yn ddiwrnod sy'n cael ei gydnabod bob blwyddyn ledled y Cenhedloedd Unedig. Ers ei sefydlu, mae wedi tyfu i fod yn ddiwrnod byd-eang o gydnabyddiaeth a dathlu, gyda miloedd o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal i ysbrydoli menywod a dathlu eu cyflawniadau. Mae menywod wedi gwneud, ac maent yn parhau i wneud, cyfraniadau sylweddol ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru—Siân Phillips, Glynis Johns, Rachel Roberts mewn actio, y dylunwyr Laura Ashley a Mary Quant, y ferch i rieni o Gymry, Tanni Grey-Thompson, Nicole Cooke, Jade Jones mewn chwaraeon, Charlotte Church a Katherine Jenkins, a'r cantorion opera Gwyneth Jones a Margaret Price, i enwi ond ychydig. Yn wir, i lawer o bobl, uchafbwyntiau Gwobrau'r Academi'n ddiweddar oedd y perfformiadau gan Catherine Zeta Jones a'r Fonesig Shirley Bassey—dwy o sêr mwyaf disglair Cymru.

Even with greater equality in legislative rights and impressive role models for women, we still face challenges, and I wish to highlight a few of them today. The first is the problem of violence against women. According to the Equality and Human Rights Commission, there were nearly 17,000 incidents of domestic abuse in Wales in 2007-08. Three quarters of domestic abuse offences were repeat offences, and women in Wales are twice as likely as men to be victims of sexual violence. It takes tremendous courage to come forward and report incidents of domestic abuse. We must do more to encourage such victims to report abuse and to recognise the signs of domestic violence.

Hyd yn oed gyda mwy o gydraddoldeb o ran hawliau deddfwriaethol ac esiamplau trawiadol i fenywod, mae heriau'n ein hwynebu o hyd, ac rwyf am dynnu sylw at ambell un ohonynt heddiw. Y cyntaf yw problem trais yn erbyn menywod. Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd bron i 17,000 o ddigwyddiadau o gam-drin domestig yng Nghymru yn 2007-08. Roedd tri chwarter y troseddau cam-drin domestig yn droseddau wedi'u hailadrodd, ac mae menywod yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o ddioddef trais rhywiol. Mae'n cymryd dewrder mawr i ddod ymlaen a rhoi gwybod am ddigwyddiadau o gam-drin domestig. Mae'n rhaid i ni wneud mwy i annog dioddefwyr o'r fath i roi gwybod am gam-drin ac i adnabod arwyddion trais domestig.

15:41

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking this intervention, Oscar. Do you agree, given all that you have said, that the power and conviction for women, given the struggle that they have gone through, to report all those crimes should be matched by the right to legal aid? Will you be making the case for such legal aid to stay in place to your Government in Westminster?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad hwn, Oscar. O ystyried popeth yr ydych wedi'i ddweud, a ydych yn cytuno y dylai grym ac argyhoeddiad menywod wrth roi gwybod am yr holl droseddau hyn gyd-fynd â'r hawl i gael cymorth cyfreithiol, o gofio'r frwydr yr aethant drwyddi? A fyddwch yn cyflwyno achos dros gadw cymorth cyfreithiol o'r fath i'ch Llywodraeth yn San Steffan?

15:41

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Listen to my speech, Joyce, and you will find that the answer will come soon enough. [Laughter.]

Gwrandewch ar fy araith, Joyce, ac fe glywch yr ateb yn ddigon buan. [Chwerthin.]

Last June, the First Minister gave a positive response to my suggestion that all public sector organisations should have a workplace violence-against-women policy in place. This would identify and assist employees who are the victims of violence. The Minister for Local Government and Communities also confirmed that he had written to the chairs of all local service boards, asking them to put this item on the agenda for their next meeting. I hope that the Minister will be able to report on progress in this regard in her reply to this debate.

Fis Mehefin diwethaf, ymatebodd y Prif Weinidog yn gadarnhaol i'm hawgrym y dylai fod gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus bolisi trais yn erbyn menywod yn y gweithle. Byddai hyn yn nodi gweithwyr sy'n dioddef trais ac yn eu cynorthwyo. Cadarnhaodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd ei fod wedi ysgrifennu at gadeiryddion byrddau gwasanaeth lleol, yn gofyn iddynt roi'r eitem hon ar agenda eu cyfarfod nesaf. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu adrodd ar gynnydd yn hyn o beth wrth ateb y ddadl hon.

In 1897, Susan Anthony, the American editor and campaigner for women's suffrage, said:

Yn 1897, dywedodd Susan Anthony, y golygydd Americanaidd a'r ymgyrchydd dros y bleidlais i ferched:

'There never will be complete equality until women themselves help to make laws and elect lawmakers.'

Nid fydd byth gydraddoldeb llwyr hyd nes y bydd menywod eu hunain yn helpu i wneud deddfau ac ethol deddfwyr.

Since that time, we have witnessed significant progress towards women's equality and emancipation. However, while taking this on board, I also wish to say a few words about the lack of women in positions of power in Wales.

Ers hynny, gwelsom gynnydd sylweddol tuag at gydraddoldeb a rhyddfreinio menywod. Fodd bynnag, er fy mod yn derbyn hynny, rwyf hefyd am ddweud ychydig eiriau am brinder menywod mewn swyddi pwerus yng Nghymru.

In Wales, there are major problems regarding gender imbalance in private sector boardrooms. In 2011, of the top 50 companies in Wales, only two had women in the most senior position. According to the Assembly's own research, less than 27% of local councillors in Wales are women.

Yng Nghymru, mae problemau mawr o ran diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ystafelloedd bwrdd y sector preifat. Yn 2011, o'r 50 prif gwmni yng Nghymru, dim ond dau oedd â menywod yn y swyddi uchaf. Yn ôl ymchwil y Cynulliad ei hun, mae llai na 27% o gynghorwyr lleol yng Nghymru yn fenywod.

15:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In some Scandinavian countries, there has been legislation to provide quotas to ensure a minimum number of women on company boards. Is that something that you would support for Wales?

Mewn rhai gwledydd Sgandinafaidd, cafwyd deddfwriaeth i ddarparu cwotâu er mwyn sicrhau isafswm o fenywod ar fyrddau cwmnïau. A yw hynny'n rhywbeth y byddech yn ei gefnogi ar gyfer Cymru?

15:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I think that there is still a learning process going on here.

Credaf fod proses ddysgu yn dal i ddigwydd yma.

Only six out of 22 local authorities have women councillors making up 30% or more of the council.

Dim ond mewn chwech allan o 22 awdurdod lleol y mae menywod yn cyfrif am 30% neu fwy o'r cyngor.

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. Can you start winding up, please?

Trefn. A wnewch chi ddechrau dirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

15:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Is my time up now, Presiding Officer?

A yw fy amser ar ben yn awr, Lywydd?

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It will be soon, so you need to start winding up.

Bydd yn fuan, felly mae angen i chi ddechrau dirwyn i ben.

15:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Okay. Thank you very much.

Iawn. Diolch yn fawr iawn.

The phenomenon of human trafficking is becoming more recognised. Minister, there are many things that I could talk about now, but in this Chamber, we have Assembly Members who have contributed a great deal, including the Presiding Officer. However, we have a lot to do. With the Presiding Officer, I include Eluned Parrott, Leanne Wood, Julie Morgan—

Mae ffenomen masnachu mewn pobl yn dechrau cael mwy o gydnabyddiaeth. Weinidog, mae llawer o bethau y gallwn siarad amdanynt yn awr, ond yn y Siambr hon, mae gennym Aelodau Cynulliad sydd wedi cyfrannu llawer iawn, gan gynnwys y Llywydd. Fodd bynnag, mae gennym lawer i'w wneud. Gyda'r Llywydd, rwyf yn cynnwys Eluned Parrott, Leanne Wood, Julie Morgan—

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. You do not have to name all the female Members.

Trefn. Nid oes raid i chi enwi'r holl Aelodau benywaidd.

15:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

They are all great contributors. Women have done a wonderful job, but more needs to be done.

Maent i gyd yn gyfranwyr mawr. Mae menywod wedi gwneud gwaith gwych, ond mae angen gwneud mwy.

15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I remind people that we have only an hour for this debate, and I have a long list of speakers, so if you can keep it concise, that would be helpful. I will now call Sandy Mewies to speak on behalf of the Assembly Commission.

Diolch. Hoffwn atgoffa pobl mai dim ond awr sydd gennym ar gyfer y ddadl hon, ac mae gen i restr hir o siaradwyr, felly os gallwch chi fod yn gryno, byddai hynny o gymorth. Galwaf yn awr ar Sandy Mewies i siarad ar ran Comisiwn y Cynulliad.

15:45 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

As the Assembly Commissioner with responsibility for equalities, I am very pleased that this debate has been brought forward today. The equalities agenda is very important to the Assembly Commission, and we take these responsibilities seriously. That is not just because we have a legal responsibility to do so, but because we want to, and we think it is right to do so. We have continued to enhance our services to the people of Wales across the equalities spectrum, so I am delighted to trumpet the work that we are doing here at the Assembly, specifically on the contribution of women in Wales.

A minnau'n Gomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, rwy'n falch iawn fod y ddadl wedi cael ei dwyn gerbron heddiw. Mae'r agenda cydraddoldeb yn bwysig iawn i Gomisiwn y Cynulliad, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldebau hyn o ddifrif, nid dim ond am fod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i wneud hynny, ond oherwydd bod arnom eisiau gwneud hynny, ac rydym yn credu ei bod yn iawn gwneud hynny. Rydym wedi parhau i wella ein gwasanaethau i bobl Cymru ar draws y sbectrwm cydraddoldeb, felly rwy'n falch iawn o ganmol y gwaith yr ydym yn ei wneud yma yn y Cynulliad, yn benodol ar gyfraniad menywod yng Nghymru.

Let us not forget that the National Assembly for Wales's commitment to providing a family-friendly working environment has been recognised with a prestigious award. We are the only Welsh organisation that was named in the top-10 UK employers by the Top Employers for Working Families organisation in the autumn. This is an industry-recognised benchmark for good practice when it comes to providing a working environment that allows for a positive work-life balance. It means that the Assembly is in the same league as FTSE 100 companies, but, more importantly, it sends a strong message to potential employees who are considering working in this institution.

Rhaid i ni beidio ag anghofio bod ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n parchu teuluoedd wedi ei gydnabod â gwobr uchel ei bri. Ni yw'r unig sefydliad Cymreig a gafodd ei enwi yn rhestr 10 uchaf cyflogwyr y DU gan y sefydliad Cyflogwyr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio yn yr hydref. Mae hwn yn feincnod a gydnabyddir gan y diwydiant ar gyfer arfer da o ran darparu amgylchedd gweithio sy'n caniatáu cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae'n golygu bod y Cynulliad yn yr un gynghrair â chwmnïau FTSE 100, ond, yn bwysicach na hynny, mae'n anfon neges gref i bobl sy'n ystyried gweithio yn y sefydliad hwn.

The Assembly Commission also has a good record on women in senior management roles. The chief executive and director of legal services are women, and women make up over 61% of the senior management team. Of course, 60% of the Assembly Commissioners are women. The Assembly as a legislature has a good record on gender equality, too. Currently, 41% of Assembly Members are women, putting the Assembly in ninth place in the world rankings, compared to the UK Parliament's fifty-eighth place. From 2003 to 2007, more than 50% of Assembly Members were women, and over the last few years we have seen the emergence of women as leaders of two of our political parties. With women representing around 51% of the population, it is right that this institution leads by example.

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad hefyd record dda o ran menywod mewn swyddi rheoli uwch. Mae'r prif weithredwr a chyfarwyddwr y gwasanaethau cyfreithiol yn fenywod, ac mae menywod yn cyfrif am dros 61% o'r tîm uwch reoli. Wrth gwrs, mae 60% o Gomisiynwyr y Cynulliad yn fenywod. Mae gan y Cynulliad fel deddfwrfa record dda o ran cydraddoldeb rhywiol, hefyd. Ar hyn o bryd, mae 41% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod, gan roi'r Cynulliad yn y nawfed safle yn y byd, o'i gymharu â Senedd y DU yn safle 58. Rhwng 2003 a 2007, roedd mwy na 50% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod, a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld menywod yn dod yn arweinwyr dwy o'n pleidiau gwleidyddol. Gan fod tua 51% o'r boblogaeth yn fenywod, mae'n briodol fod y sefydliad hwn yn arwain drwy esiampl.

Many of you will know that, in 2012, the Presiding Officer highlighted a serious issue about the lack of representation of women in public life by running a series of regional events across Wales exploring the barriers to women's participation. That culminated in a national conference in November at which the delegates mandated her to write to party leaders, asking them to address the drift in women's representation at the Assembly in the last few years.

Bydd llawer ohonoch yn gwybod bod y Llywydd, yn 2012, wedi tynnu sylw at fater difrifol yn ymwneud â diffyg cynrychiolaeth menywod mewn bywyd cyhoeddus drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled Cymru yn edrych ar y rhwystrau i fenywod rhag cymryd rhan. Penllanw hyn oedd cynhadledd genedlaethol ym mis Tachwedd lle rhoddodd y cynrychiolwyr fandad iddi i ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau, yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r llithriad o ran cynrychiolaeth menywod yn y Cynulliad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

15:48 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree that the UK Parliament, and the Independent Parliamentary Standards Authority in particular, is leading the way in relation to those in public life with caring responsibilities? Are you concerned that that is not being addressed in this Assembly term?

A ydych yn cytuno bod Llywodraeth y DU, a'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol yn arbennig, yn arwain y ffordd mewn perthynas â'r rhai mewn bywyd cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau gofalu? A ydych yn poeni nad yw hynny'n cael sylw yn ystod tymor y Cynulliad hwn?

15:48 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I do not agree.

This is not just about Assembly Members, but the wider issues of barriers to women standing for public office, such as becoming magistrates, board members through the public appointments system, or standing as councillors or school governors. There is a whole skillset that, as a society, we are not tapping into. I am pleased that the Presiding Officer has led the initiative and is seeking ways to encourage more participation. I know that she has a whole workplan to take these important issues forward in 2013, and I believe that everyone across the political parties here supports that move.

Let us be clear: it is not about women being better than men, or vice versa. Research shows that gender balance can lead to more balanced policy. It is inevitable that a broad range of issues will be covered when you have a mixed group of people considering an issue. That of course it is really important for a legislature. While we have been doing really well as a seat of democracy in Wales, we have more to do to lead by example. For anyone who asks why, you do not have to look far to find the statistics. They are worth repeating. The Equality and Human Rights Commission's report 'Who runs Wales?', which was launched in 2012, states that only 4% of chief executives in the top-50 Welsh companies are female, only 5% of council leaders are women, only 25% of councillors are women, only 27% of members of Welsh Government boards are women, only 10% of chief executives of Assembly-sponsored public bodies are women, only 23% of local government executives are women and only 18% of Welsh MPs are women. To conclude, we need to ensure that real and perceived barriers are removed across the piece, that we value the contribution that women can make, and that we make gender equality a mainstream issue across all the policy areas that we are responsible for.

Nac ydw, nid wyf yn cytuno.

Nid yw hyn yn ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad yn unig, ond â materion ehangach o ran rhwystrau i fenywod rhag ymgeisio am swyddi cyhoeddus, megis dod yn ynadon, aelodau byrddau drwy'r system benodiadau cyhoeddus, neu sefyll fel cynghorwyr neu lywodraethwyr ysgolion. Mae set gyfan o sgiliau nad ydym, fel cymdeithas, yn manteisio arnynt. Rwy'n falch bod y Llywydd wedi arwain y fenter ac yn chwilio am ffyrdd o annog mwy o gyfranogiad. Gwn fod ganddi gynllun gwaith cyfan i fwrw ymlaen â'r materion pwysig hyn yn 2013, a chredaf fod pawb ar draws y pleidiau gwleidyddol yma'n cefnogi hynny.

Gadewch i ni fod yn glir: nid yw'n ymwneud â bod menywod yn well na dynion, nac i'r gwrthwyneb. Mae ymchwil yn dangos y gall cydbwysedd rhwng y rhywiau arwain at bolisi mwy cytbwys. Mae'n anochel y bydd amrywiaeth eang o faterion yn cael eu trafod pan fydd grŵp cymysg o bobl yn ystyried unrhyw bwnc. Mae hynny, wrth gwrs, yn bwysig iawn i ddeddfwrfa. Er ein bod wedi bod yn gwneud yn dda iawn fel sedd democratiaeth yng Nghymru, mae gennym fwy i'w wneud i arwain trwy esiampl. I unrhyw un sy'n gofyn pam, nid oes raid i chi edrych yn bell i ddod o hyd i'r ystadegau. Maent yn werth eu hailadrodd. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?', a lansiwyd yn 2012, yn datgan mai dim ond 4% o brif weithredwyr yn y 50 cwmni uchaf yng Nghymru sy'n fenywod, dim ond 5% o arweinwyr cynghorau sy'n fenywod, dim ond 25% o gynghorwyr sy'n fenywod, dim ond 27% o aelodau o fyrddau Llywodraeth Cymru sy'n fenywod, dim ond 10% o brif weithredwyr cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n fenywod, dim ond 23% o swyddogion gweithredol llywodraeth leol sy'n fenywod a dim ond 18% o ASau Cymru sy'n fenywod. I gloi, mae angen i ni sicrhau bod rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig yn cael eu diddymu drwyddi draw, ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall menywod ei wneud, a'n bod yn gwneud cydraddoldeb rhywiol yn fater prif ffrwd ar draws yr holl feysydd polisi yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

15:50 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I feel quite qualified to speak in this important debate on International Women's Day, because so much of my correspondence is addressed to Mrs, Miss or Ms Lindsay Whittle. [Laughter]. I take no offence whatsoever, unless it is from people who know me personally. I clearly have a lot of PR work do to. However, this is an extremely important debate, and I am delighted that there are so many events being held across Wales. I welcome the fact there are at least three events in Cardiff alone dedicated to International Women's Day this month.

Rwy'n teimlo'n eithaf cymwys i siarad yn y ddadl bwysig hon ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, gan fod cymaint o'm gohebiaeth yn cael ei chyfeirio at Mrs, Miss neu Ms Lindsay Whittle. [Chwerthin.] Nid wyf yn digio o gwbl, oni bai ei bod gan bobl sy'n fy adnabod yn bersonol. Mae'n amlwg fod gennyf lawer o waith cysylltiadau cyhoeddus i'w wneud. Fodd bynnag, mae hon yn ddadl eithriadol o bwysig, ac rwy'n falch iawn fod cymaint o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru. Croesawaf y ffaith fod o leiaf dri digwyddiad yng Nghaerdydd yn unig wedi'u neilltuo i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod y mis hwn.

I think that it was Sandy Mewies who mentioned in the questions to the First Minister earlier that the campaign in the United Kingdom started 100 years ago with the suffragette movement, and it is now celebrated in many countries. I want to pay tribute to a woman called Margaret Haig Mackworth. She was from Llanwern in south-east Wales. She was the Viscountess Rhondda from a very well-to-do family. She was a very active suffragette who organised boisterous and rowdy public meetings. She was arrested for jumping on the running board of the car of the then Prime Minister, Herbert Asquith. She was arrested and jailed for five days for blowing up a pillar box in Newport with a chemical bomb. She sounds quite a feisty woman. She even survived, believe it or not, the torpedoing of the Lusitania. She tried to take her seat in the House of Lords when her father died, and was naturally refused. One month after she died, the first women entered the House of Lords. It is a shame that she did not live to see that. Do Google her, because she was a fantastic women.

Rwy'n credu mai Sandy Mewies a grybwyllodd yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach fod yr ymgyrch yn y Deyrnas Unedig wedi dechrau 100 mlynedd yn ôl gyda mudiad y swffragetiaid, ac mae'n cael ei dathlu yn awr mewn llawer o wledydd. Hoffwn dalu teyrnged i fenyw o'r enw Margaret Haig Mackworth. Roedd hi o Lan-wern yn ne-ddwyrain Cymru. Hi oedd Is-iarlles Rhondda, o deulu cefnog iawn. Roedd yn swffragét weithgar iawn a drefnai gyfarfodydd cyhoeddus afreolus a swnllyd. Cafodd ei harestio am neidio ar stepen car y Prif Weinidog bryd hynny, Herbert Asquith. Cafodd ei harestio a'i charcharu am bum diwrnod am chwythu blwch llythyrau i fyny yng Nghasnewydd gyda bom cemegol. Mae'n swnio'n fenyw eithaf tanllyd. Fe wnaeth hi hyd yn oed oroesi, credwch neu beidio, suddo'r Lusitania â thorpido. Ceisiodd gymryd ei sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi pan fu farw ei thad, ac fe'i gwrthodwyd, wrth gwrs. Fis ar ôl iddi farw, aeth y menywod cyntaf i Dŷ'r Arglwyddi. Mae'n drueni na chafodd fyw i weld hynny. Rhowch ei henw yn Google, oherwydd roedd hi'n fenyw wych.

In Wales and the rest of the United Kingdom, even after 100 years, we have heard that women do not enjoy rates of pay that are comparable with those of men and, as Sandy Mewies so ably read out, women fill only a small minority of senior executive posts. In addition, we have apprenticeships: young women tend to be steered away from the traditional male careers in fields such as technology, science and engineering and are placed into stereotypical placements in caring and hairdressing.

Yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, hyd yn oed ar ôl 100 mlynedd, rydym wedi clywed nad yw menywod yn cael cyfraddau cyflog y gellir eu cymharu â rhai dynion, ac fel y darllenodd Sandy Mewies mor fedrus, nid yw menywod ond yn llenwi lleiafrif bach o swyddi gweithredol uwch. Yn ogystal, mae gennym brentisiaethau: mae menywod ifanc yn tueddu i gael eu tywys oddi wrth y gyrfaoedd gwrywaidd traddodiadol mewn meysydd megis technoleg, gwyddoniaeth a pheirianneg ac yn cael eu gosod mewn lleoliadau ystrydebol ym maes gofalu a thrin gwallt.

15:53

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau / The Deputy Minister for Skills*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. You mentioned apprenticeships. I am sure that you will pleased to know that, about a month and a half ago, I visited the Engineering Employers Federation presentation in Margam Park, where I was pleased to award apprenticeship prizes, and half of them were young ladies.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Soniasoch am brentisiaethau. Rwy'n siŵr y byddwch yn falch o wybod i mi ymweld, tua mis a hanner yn ôl, â chyflwyniad Ffederasiwn y Cyflogwyr Peirianneg ym Mharc Margam, lle'r oeddwn yn falch o ddyfarnu gwobrau prentisiaeth, ac roedd eu hanner yn ferched ifanc.

15:53

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is excellent news, Jeff. I follow your political career with great interest. [Laughter.]

Mae hynny'n newyddion gwych, Jeff. Rwy'n dilyn eich gyrfa wleidyddol gyda diddordeb mawr. [Chwerthin.]

We know that, during the second world war, women took on jobs in factories and the armed forces that were previously regarded as exclusively the domain of men. When the war was over, they returned to their dutiful roles as wives and mothers as depicted in newsreels and, later on, in television commercials.

Rydym yn gwybod bod menywod, yn ystod yr ail ryfel byd, yn gwneud swyddi mewn ffatrïoedd ac yn y lluoedd arfog a arferai gael eu hystyried yn rhai i ddynion yn unig. Pan ddaeth y rhyfel i ben, aethant yn ôl i'w rolau ufudd fel gwragedd a mamau fel y'u darluniwyd mewn ffilmiau newyddion ac, yn ddiweddarach, mewn hysbysebion teledu.

I read an article recently in a United Kingdom national newspaper that suggested that the reason why so few women occupied top jobs was that they did not crave power and they were happy not to seek jobs in order to look after their children. The word 'patronising' comes to mind. I certainly do not want to be patronising. All of us in this Chamber can think of the outstanding contributions that women in Wales have made, certainly in the public sector, notably in senior posts in the NHS, as the head of the Confederation of British Industry in Wales, and in sports, the media, entertainment and education—I will not name all of these amazing women.

Darllenais erthygl yn ddiweddar yn un o bapurau newydd cenedlaethol y Deyrnas Unedig a oedd yn awgrymu mai'r rheswm pam mae cyn lleied o ferched yn llenwi'r swyddi uchaf yw nad ydynt yn chwennych grym a'u bod yn hapus i beidio â chwilio am swyddi, er mwyn gofalu am eu plant. Mae'r gair 'nawddoglyd' yn dod i'r meddwl. Yn sicr nid wyf am fod yn nawddoglyd. Gall pob un ohonom yn y Siambr hon feddwl am y cyfraniadau eithriadol y mae menywod yng Nghymru wedi'u gwneud, yn sicr yn y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn swyddi uwch yn y GIG, fel pennaeth Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, ac ym myd chwaraeon, y cyfryngau, adloniant ac addysg—nid wyf am enwi pob un o'r menywod rhyfeddol hyn.

My party is also leading the way. Our chief executive, the leader of our party, the chair of our party, our most recent president, who is a Member of the European Parliament, are all women. As a failsafe mechanism, our deputy leader, Elin Jones, and business manager, Jocelyn Davies, are both women as well. However, before we get carried away with this praise, not everything is positive about women in Wales today.

Mae fy mhlaid innau hefyd yn arwain y ffordd. Mae ein prif weithredwr, arweinydd ein plaid, cadeirydd ein plaid, ein llywydd mwyaf diweddar, sy'n Aelod o Senedd Ewrop, i gyd yn fenywod. Fel mecanwaith diogelu, mae ein dirprwy arweinydd, Elin Jones, a'n rheolwr busnes, Jocelyn Davies, ill dwy yn fenywod hefyd. Fodd bynnag, cyn i'r clod fynd yn drech na ni, nid yw popeth yn gadarnhaol i fenywod yng Nghymru heddiw.

We have to focus our efforts on the appalling abuse that many women in Wales suffer at the hands of deranged men. We have heard of the alleged abuse of women by politicians, who perhaps wander around certain establishments with their beer goggles on, thinking that they are god's gift to women. That behaviour is totally unacceptable. I even read a report last week that the police have been known to try to persuade women to drop allegations of rape. Is this a hangover of the not-too-distant past when domestic violence was regarded as something to which the police would shamefully turn a blind eye?

Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cam-drin ofnadwy y mae llawer o fenywod yng Nghymru'n ei ddioddef dan ddwylo dynion gorffwyll. Rydym wedi clywed am y cam-drin honedig ar fenywod gan wleidyddion, sydd efallai'n crwydro o gwmpas rhai sefydliadau gyda'u gogls cwrw ymlaen, yn meddwl bod pob merch yn gwirioni arnynt. Mae hynny'n ymddygiad cwbl annerbyniol. Darllenais hyd yn oed adroddiad yr wythnos diwethaf ei bod yn hysbys bod yr heddlu wedi ceisio darbwyllo menywod i ollwng honiadau o drais rhywiol. A yw hyn yn adlais o'r gorffennol gweddol agos pan oedd trais domestig yn cael ei ystyried yn rhywbeth y byddai'r heddlu, er mawr gywilydd, yn cau llygad arno?

While doing some research, apart from my research on Margaret Haig Mackworth, I read a slogan that sums up this debate: respect for women is one of the greatest gifts that a father can show to a son.

Wrth wneud rhywfaint o ymchwil, ar wahân i'm hymchwil ar Margaret Haig Mackworth, darllenais slogan sy'n crynhoi'r ddadl hon: mae parch tuag at fenywod yn un o'r rhoddion mwyaf y gall tad ei roi i'w fab.

15:56

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in what I regard as a very important debate. I welcome the focus that the Welsh Government is putting, on this particular International Women's Day, on raising the aspirations of girls and young women in Wales. As a mother of three daughters, I am all too aware of the pressures on them to conform to certain stereotypes regarding what they should look like, how they should dress, what they should spend their time doing and what they should aspire to do with their lives. It made me smile when Sandy Mewies talked about the Assembly being proud of its family-friendly working hours. Sandy, my husband would also give a wry smile in response to that statement. However, I hope that the first time that a man tells one of my girls that they cannot do something, they will smile back and say, 'That is what they used to say to my mother and she did it anyway'.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl bwysig iawn hon. Rwy'n croesawu'r sylw y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi, ar y Diwrnod Rhyngwladol y Menywod arbennig hwn, i godi dyheadau merched a menywod ifanc yng Nghymru. Fel mam i dair merch, rwyf yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd arnynt i gydymffurfio â stereoteipiau penodol ynghylch sut y dylent edrych, sut y dylent wisgo, beth y dylent dreulio eu hamser yn ei wneud a'r hyn y dylent anelu at ei wneud gyda'u bywydau. Roedd yn rhaid i mi wenu pan ddywedodd Sandy Mewies fod y Cynulliad yn falch o'i oriau gwaith sy'n parchu teuluoedd. Sandy, byddai fy ng?r hefyd yn rhoi gwên gam mewn ymateb i'r datganiad hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y tro cyntaf y bydd dyn yn dweud wrth un o'm merched na all wneud rhywbeth, y bydd yn gwenu'n ôl a dweud, 'Dyna beth roedden nhw'n arfer ei ddweud wrth fy mam ac roedd hi'n ei wneud beth bynnag'.

There are many inspiring women in Wales. People have already named some highly effective, talented and successful women. There are women in the Chamber who have talked about issues that simply would not have been talked about in political spheres had they not been talked about in this Chamber—certain subjects would have been ignored. There are inspiring women in other aspects of Welsh political and public life. I, too, would like to pay tribute to Laura McAllister and her work and the example that she has set. There are notable women in academia and culture. I would like to mention the woman who opened the Brecon Women’s Festival last Friday night, the international violinist Rachel Podger, who travels the world as one of the finest baroque violinists of her age. She took the time out on Friday night to open the Brecon Women’s Festival, which is organised by local women to celebrate the great contribution that women are making in that town. There are also the most recent achievements of Becky James, a young woman from Abergavenny who is leading her field in the world of cycling.

Presiding Officer, if you will excuse me, I would like to touch on some women that are doing amazing work, not in the community here, but who are looking to raise the profile of women in other areas of the world where things are even more challenging, and to secure better services for them. I was brought up short recently at an event in the Assembly that was attended by women in politics from a number of countries around the world. I found myself embarrassed, having moaned about some of the issues facing women in politics in Wales, to be confronted by women who were trying to enter politics in Libya and Egypt. We might get upset by the unequal treatment and the characterisation of female politicians in the ‘Western Mail’, but let us face it, we are not putting our lives on the line every day when we come to work, unlike the women who were involved in Libya and Egypt.

I would like to pay tribute to Dr Mary Hughes and Dr Julie Grigg who run the Hay to Timbuktu health project, using their resources and skills, and fundraising in this country, to be able to improve outcomes for mothers in Mali—a country that, at this very moment, finds itself caught up in a terrible situation where women have been locked up by insurgents who entered Timbuktu, and have had sharia law imposed upon them in recent months. I would like to pay tribute to the women in Hay-on-Wye who are doing so much to raise the profile of that. I also pay tribute to Dr Rachel Lindoewood of the Brecon Molo Link, who is looking to improve health outcomes for women in Kenya. These are women who not only want to contribute to healthcare in their own community, but who want to extend the hand of friendship and sisterhood to women across the world.

Mae llawer o fenywod sy'n ysbrydoli yng Nghymru. Mae pobl eisoes wedi enwi rhai menywod effeithiol, talentog a llwyddiannus dros ben. Mae menywod yn y Siambr sydd wedi siarad am faterion na fyddent wedi cael eu crybwyll mewn meysydd gwleidyddol pe na baent wedi cael eu trafod yn y Siambr hon-byddai rhai pynciau wedi cael eu hanwybyddu. Mae menywod sy'n ysbrydoli mewn agweddau eraill ar fywyd gwleidyddol a chyhoeddus yng Nghymru. Hoffwn innau, hefyd, dalu teyrnged i Laura McAllister a'i gwaith a'r esiampl y mae wedi'i gosod. Ceir menywod nodedig yn y byd academaidd a diwylliannol. Hoffwn sôn am y fenyw a agorodd ŵyl Menywod Aberhonddu nos Wener ddiwethaf, y fiolinydd rhyngwladol Rachel Podger, sy'n teithio'r byd fel un o fiolinwyr Baróc gorau ei chyfnod. Cymerodd yr amser ar nos Wener i agor Gŵyl Menywod Aberhonddu, sy'n cael ei threfnu gan fenywod lleol i ddathlu'r cyfraniad gwych y mae menywod yn ei wneud yn y dref honno. Ceir hefyd lwyddiannau mwyaf diweddar Becky James, merch ifanc o'r Fenni sy'n arwain ei maes ym myd seiclo.

Lywydd, os gwnewch chi fy esgusodi, hoffwn sôn rhywfaint am rai menywod sy'n gwneud gwaith anhygoel, nid yn y gymuned yma, ond sy'n ceisio codi proffil menywod mewn rhannau eraill o'r byd lle mae pethau hyd yn oed yn fwy heriol, a sicrhau gwasanaethau gwell ar eu cyfer. Cefais fy syfrdanu'n ddiweddar mewn digwyddiad yn y Cynulliad, a fynychwyd gan fenywod mewn gwleidyddiaeth o nifer o wledydd ledled y byd. Cefais fy hun yn teimlo'n chwithig, ar ôl cwyno am rai o'r materion sy'n wynebu menywod mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru, i ddod wyneb yn wyneb â menywod a oedd yn ceisio mynd i mewn i wleidyddiaeth yn Libya a'r Aifft. Efallai y bydd y driniaeth anghyfartal a'r modd y caiff menywod mewn gwleidyddiaeth eu portreadu yn y 'Western Mail' yn ein gwylltio, ond gadewch inni wynebu'r gwir, nid ydym yn peryglu ein bywydau bob dydd pan fyddwn yn dod i weithio, yn wahanol i'r menywod a oedd yn cymryd rhan yn Libya a'r Aifft.

Hoffwn dalu teyrnged i Dr Mary Hughes a Dr Julie Grigg sy'n rhedeg y prosiect iechyd y Gelli i Timbuktu, gan ddefnyddio eu hadnoddau a'u sgiliau, ac yn codi arian yn y wlad hon, i allu gwella canlyniadau ar gyfer mamau ym Mali-gwlad sydd, ar yr eiliad hon, yn ei chael ei hun mewn sefyllfa ofnadwy. Mae menywod wedi cael eu rhoi dan glo gan wrthryfelwyr a ddaeth i mewn i Timbuktu, ac y mae cyfraith sharia wedi'i gosod arnynt yn ystod y misoedd diwethaf. Hoffwn dalu teyrnged i'r menywod yn y Gelli sy'n gwneud cymaint i godi proffil hynny. Rwyf hefyd yn talu teyrnged i'r Dr Rachel Lindoewood o Gyswllt Molo Aberhonddu, sy'n ceisio gwella canlyniadau iechyd ar gyfer menywod yn Kenya. Dyma ferched sydd nid yn unig eisiau cyfrannu at ofal iechyd yn eu cymuned eu hunain, ond sydd eisiau estyn llaw cyfeillgarwch a chwaeroliaeth i fenywod ar draws y byd.

There are very many challenges, as have been outlined today, that still face women in Wales, but let us spare a thought on this International Women's Day for the plight of our sisters in Africa and the challenges they face, and for female politicians across the world—or perhaps, closer to home in the case of my colleague, Naomi, of the Alliance Party of Northern Ireland, who, along with her family, has been threatened by her decision and that of her party regarding flag-flying in Belfast. Let us remember them today and the dangers that they put themselves in on a daily basis to advance the cause of sisterhood and women's rights in the world.

Mae sawl her, sydd wedi eu hamlinellu heddiw, yn dal i wynebu menywod yng Nghymru, ond gadewch inni gofio ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod am sefyllfa anodd ein chwiorydd yn Affrica a'r heriau sy'n eu hwynebu, ac am fenywod mewn gwleidyddiaeth ar draws y byd-neu efallai, yn agosach at gartref yn achos fy nghydweithiwr, Naomi, o Blaid y Gynghrair Gogledd Iwerddon, sydd, ynghyd â'i theulu, wedi bod dan fygythiad oherwydd ei phenderfyniad, ac un ei phlaid ynghylch hedfan baneri ym Melfast. Gadewch i ni eu cofio heddiw a'r peryglon y maent yn eu hwynebu'n ddyddiol i hyrwyddo achos chwaeroliaeth a hawliau menywod yn y byd.

16:01

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to make a contribution to this debate ahead of International Women's Day. While I was at university, my thesis was on discrimination against women in foreign aid projects—there was clear evidence that women were being offered food on the condition that they were sterilised. Those kinds of practices were taking place not that long ago and are completely unacceptable. I will use my contribution to speak in favour of amendment 2, which seeks to address the shortfall of women in positions of power and influence in Wales.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon cyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Tra'r oeddwn yn y brifysgol, roedd fy nhraethawd ymchwil ar wahaniaethu yn erbyn menywod mewn prosiectau cymorth tramor-roedd tystiolaeth glir bod menywod yn cael cynnig bwyd ar yr amod eu bod yn cael eu sterileiddio. Roedd arferion o'r fath yn digwydd heb fod mor bell yn ôl ac maent yn hollol annerbyniol. Byddaf yn defnyddio fy nghyfraniad i siarad o blaid gwelliant 2, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg menywod mewn safleoedd o bŵer a dylanwad yng Nghymru.

It is of concern that the Assembly has specifically exempted itself from the equalities provisions that apply to other public bodies. I would like to know why that is the case. There are figures from the Equality and Human Rights Commission that paint a worrying figure. Just one in 10 chief executives of Welsh Government-sponsored bodies are women. Only a quarter of board members of Welsh Government-sponsored bodies are women. Women make up more than two thirds of the health, education, administrative and service workforce, yet are underrepresented in senior roles. The gender pay gap remains persistent, at nearly 10% for full time and 36% for part-time positions.

Mae'n destun pryder bod y Cynulliad wedi eithrio ei hun yn benodol o'r darpariaethau yngl?n â chydraddoldebau sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill. Hoffwn wybod pam mai dyma'r achos. Ceir ffigurau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n peri pryder. Dim ond un o bob 10 o brif weithredwyr cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n fenywod. Dim ond chwarter aelodau byrddau cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n fenywod. Menywod yw mwy na dwy ran o dair o'r gweithlu iechyd, addysg, gweinyddol a gwasanaeth, ac eto nid oes ganddynt gynrychiolaeth deg mewn swyddi uwch. Mae'r bwlch cyflog yn parhau, ar bron i 10% ar gyfer swyddi amser llawn a 36% ar gyfer swyddi rhan-amser.

I find it very sad that, in my local county council area of Conwy, the initial proposals by the Plaid and Labour-run Conwy County Borough Council for its cabinet did not include a single woman. Following a threat to refer that to the equalities commission, there is now one. Well, I think that is unacceptable in this day and age.

Rwyf yn meddwl ei bod yn drist iawn, yn ardal fy nghyngor sir lleol sef Conwy, nad oedd y cynigion cychwynnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cael ei redeg gan Blaid Cymru a Llafur ar gyfer ei gabinet yn cynnwys yr un fenyw. Yn dilyn bygythiad i gyfeirio hynny at y comisiwn cydraddoldeb, mae un erbyn hyn. Wel, rwyf yn meddwl bod hynny'n annerbyniol yn yr oes sydd ohoni.

The UK Government has introduced a number of measures to help women in the workforce. There is a women's business council, which has been created to advise on how to maximise women's contribution to economic growth. Some 2.2 million of the lowest paid workers, 59% of whom are women, have been lifted out of tax altogether. I would like to support what the Assembly has done in terms of ensuring a living wage in that respect.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o fesurau i helpu menywod yn y gweithlu. Ceir cyngor busnes menywod, sydd wedi cael ei sefydlu i roi cyngor ar sut i gynyddu cyfraniad menywod i dwf economaidd. Sicrhawyd nad oes yn rhaid i tua 2.2 miliwn o'r gweithwyr â'r cyflogau isaf, 59% ohonynt yn fenywod, dalu treth o gwbl. Hoffwn gefnogi'r hyn y mae'r Cynulliad wedi ei wneud o ran sicrhau cyflog byw yn hynny o beth.

A £2 million fund has been set up to support women to establish or expand businesses in rural areas. I would like to highlight the comments made by Chwarae Teg that an Institute for Public Policy Research report highlights the relationship between affordable universal childcare and female employment rates. Ensuring affordable, flexible childcare support for parents is a significant action required to support working mothers to participate in the labour market and, more importantly, to make work pay. As the Minister for Local Government and Communities will be aware, I have been pressing him for some time to set up a virtual Communities First for rural areas in Wales so that that type of support can be offered, because isolation and deprivation in rural areas is often disguised in the larger statistics in which those matters are identified. By doing that, there could be real help and support for women in rural areas.

Mae cronfa £2 filiwn wedi ei sefydlu i gynorthwyo menywod i sefydlu neu ehangu busnesau mewn ardaloedd gwledig. Hoffwn dynnu sylw at y sylwadau a wnaed gan Chwarae Teg bod adroddiad Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn tynnu sylw at y berthynas rhwng gofal plant fforddiadwy cyffredinol a chyfraddau cyflogaeth menywod. Un cam sylweddol sydd ei angen i gynorthwyo mamau sy'n gweithio i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac, yn bwysicach, i wneud i waith dalu yw sicrhau cymorth gofal plant fforddiadwy, hyblyg i rieni. Fel y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwybodol, rwyf wedi bod yn pwyso arno ers amser i sefydlu Cymunedau yn Gyntaf rhithwir ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru fel y gellir cynnig y math hwnnw o gefnogaeth, oherwydd bod unigedd ac amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn aml yn cael ei guddio yn yr ystadegau ehangach y nodir y materion hynny oddi mewn iddynt. Drwy wneud hynny, gellid darparu cymorth a chefnogaeth go iawn i fenywod mewn ardaloedd gwledig.

I support what Kirsty Williams said about raising the aspirations of girls and women. At the Engineering Education Scheme Wales’s awards yesterday, which I was very happy to be at and at which I saw a number of all-girl teams, I spoke to a representative from Airbus UK. It wanted to recruit 28 girls to its higher level apprenticeships, but only 151 girls in the whole of Wales had achieved the B grade in their Physics exam that would qualify them to go into its scheme. That is shocking, and it shows a lack of aspiration and a lack of support. We desperately need that, and, therefore, I would welcome more action to support aspiration and achievement for girls in Wales.

Rwyf yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams am godi dyheadau merched a menywod. Roeddwn yn hapus iawn i fod yn bresennol yng ngwobrau'r Cynllun Addysg Beirianneg Cymru ddoe, lle y gwelais nifer o dimau o ferched yn unig. Siaradais â chynrychiolydd o Airbus UK. Roedd yn awyddus i recriwtio 28 o ferched i'w brentisiaethau lefel uwch, ond dim ond 151 o ferched yng Nghymru gyfan oedd wedi cyflawni'r radd B yn eu harholiad Ffiseg a fyddai'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer y cynllun. Mae hynny'n frawychus, ac mae'n dangos diffyg uchelgais a diffyg cefnogaeth. Mae gwir angen hynny, ac, felly, byddwn yn croesawu mwy o weithredu i gefnogi dyheadau a chyflawniad ar gyfer merched yng Nghymru.

16:06 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Today serves as an ideal opportunity to put on record our recognition of the role and contributions of women in Wales down the years, many of which, at the time that they were making those ground-breaking decisions—we heard Lindsay’s story of the person he looked up on Google—went unmentioned and unnoticed. Today, it is right that we recognise them and ordinary women, such as those who challenged the higher purchase system so that women who were doing the housekeeping could get higher purchase without the husband having to sign the forms. Many husbands probably did not know how the household budgets were kept, yet women were forced to get the man’s signature. It is the contributions of ordinary women such as those that we should be celebrating and recognising today.

Mae heddiw'n gyfle delfrydol i gofnodi ein cydnabyddiaeth o swyddogaeth a chyfraniadau menywod yng Nghymru ar hyd y blynyddoedd. Roedd llawer ohonynt, pan oeddent yn gwneud y penderfyniadau arloesol hynny-clywsom stori Lindsay am y sawl y chwiliodd am ei enw ar Google-yn ddi-sôn-amdanynt ac yn ddisylw. Heddiw, mae'n iawn inni eu cydnabod nhw a menywod cyffredin, megis y rhai a heriodd y system hurbwrcas fel y gallai menywod a oedd yn gwneud y gwaith cadw tŷ gael hurbwrcas heb i'r gŵr orfod llofnodi'r ffurflenni. Roedd llawer o w?r mwy na thebyg nad oeddent yn gwybod sut yr oedd cyllidebau cartrefi yn cael eu cadw, ond eto roedd yn rhaid i fenywod gael llofnod y dyn. Cyfraniadau menywod cyffredin megis y rhain y dylem fod yn eu dathlu ac yn eu cydnabod heddiw.

While International Women’s Day serves as a focal point on the calendar for celebration and debate, it also allows us to highlight the efforts of those who campaign for women’s rights and recognition throughout the year and across the world, and to join together with those that still face oppression, torture and even death, as Kirsty mentioned. Many face oppression, torture and death in campaigning for the most basic rights that we, in the western world, take for granted. I wonder how many of us would have stood for public office at any level had we faced the threats, oppression and torture that many women and even young girls experience in standing up to face oppressors. We have to recognise that. A very important of our celebration of International Women’s Day is to say to all of those out there fighting that we are alongside you. We may not be alongside you physically, but we are alongside you in spirit, and we will help you in every way that we can.

Er bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gweithredu fel canolbwynt ar y calendr ar gyfer dathlu a dadl, mae hefyd yn caniatáu i ni dynnu sylw at ymdrechion y rheini sy'n ymgyrchu dros hawliau a chydnabyddiaeth menywod drwy gydol y flwyddyn ac ar draws y byd, ac i ymuno â'r rhai sy'n dal i wynebu gorthrwm, artaith a hyd yn oed farwolaeth, fel y dywedodd Kirsty. Mae llawer yn wynebu gorthrwm, artaith a marwolaeth wrth ymgyrchu dros yr hawliau mwyaf sylfaenol yr ydym ni, yn y byd gorllewinol, yn eu cymryd yn ganiatãol. Tybed faint ohonom fyddai wedi sefyll am swydd gyhoeddus ar unrhyw lefel pe baem yn wynebu'r bygythiadau, y gormes a'r artaith y mae llawer o fenywod a hyd yn oed merched ifanc yn eu profi wrth sefyll i wynebu gorthrymwyr. Mae'n rhaid i ni gydnabod hynny. Rhan bwysig iawn o'n dathliad o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yw dweud wrth bob un o'r rhai sydd allan yn ymladd ein bod gyda chi. Efallai nad ydym gyda chi yn gorfforol, ond rydym gyda chi mewn ysbryd, a byddwn yn eich helpu ym mhob ffordd y gallwn.

I will turn briefly back to the motion, which talks about women in Wales. I want to talk about what we are doing on these benches, and to highlight the end violence against women Bill. I praise Carl Sargeant, the Minister, who has driven this through. That brings us back to what Kirsty said about so many women here, that we are discussing issues that would otherwise perhaps never have been discussed, but, nevertheless, it is Carl who is driving that forward. We must also recognise those women who have suffered abuse and have come forward, told their stories, and have gone through what can be a very difficult process, to make sure that others may be saved from experiencing that awful, horrendous episode that they have experienced in their lives. We need to continue to ensure that women are heard and supported. I am sorry to say that the Tories in Westminster are not helping that by cutting legal aid and by cutting funding to independent domestic violence advisers.

Trof yn fyr yn ôl at y cynnig, sy'n sôn am fenywod yng Nghymru. Rwyf eisiau siarad am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar y meinciau hyn, a thynnu sylw at y Bil i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Rwyf yn canmol Carl Sargeant, y Gweinidog, sydd wedi sbarduno hyn. Mae hynny'n dod â ni yn ôl at yr hyn a ddywedodd Kirsty am gymaint o fenywod yma, ein bod yn trafod materion na fyddent byth wedi cael eu trafod fel arall efallai. Serch hynny, Carl sy'n sbarduno hyn. Rhaid inni hefyd gydnabod y menywod sydd wedi dioddef camdriniaeth ac sydd wedi dod ymlaen, adrodd eu straeon, ac wedi mynd drwy'r hyn a all fod yn broses anodd iawn, i wneud yn si?r y gellir achub eraill rhag y profiad ofnadwy, erchyll hwnnw y maent wedi'i gael yn eu bywydau. Mae angen i ni barhau i sicrhau bod menywod yn cael eu clywed a'u cefnogi. Mae'n ddrwg gennyf ddweud nad yw'r Toriaid yn San Steffan yn helpu, drwy dorri cymorth cyfreithiol a thrwy dorri cyllid i gynghorwyr trais domestig annibynnol.

16:09 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Legal aid in cases of domestic violence is continuing. That has been made absolutely clear in the proposals.

Mae cymorth cyfreithiol mewn achosion o drais domestig yn parhau. Mae hynny wedi cael ei wneud yn gwbl glir yn y cynigion.

16:10 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There are still cuts to the legal aid budget and to the independent domestic violence advisors. The budget has been cut. I believe that it has only been announced today, so I would suggest you look at the details of that. Taking that together with all the welfare reforms, which are going to hurt women most, I think that some people on that side of the Chamber ought to take a look at themselves before they speak in debates such as this.

Mae toriadau yn dal i fod i'r gyllideb cymorth cyfreithiol ac i'r cynghorwyr trais domestig annibynnol. Mae'r gyllideb wedi cael ei thorri. Credaf mai dim ond heddiw y cafodd ei gyhoeddi, felly byddwn yn awgrymu y dylech edrych ar y manylion. Gan gymryd hynny ynghyd â'r holl ddiwygiadau i'r gyfundrefn les, a fydd yn taro menywod yn galetach na neb, rwyf yn meddwl y dylai rhai pobl ar yr ochr acw i'r Siambr edrych arnynt eu hunain cyn siarad mewn dadleuon fel hon.

In general practice, we need to make sure that doctors record the injuries of people who have suffered at the hands of their abusive partner to make sure that they do not write it down as a woman who has just had a bit of a domestic row with her husband. We need to make sure that GPs are fully aware that they have to record the injuries properly for those women, so that when those women have the courage and support to come forward, the story is there to tell. There is a lot more that I wanted to talk about, but what we have to do is continue to fight for women's rights, to stand up and be counted, men and women together, and to say to those whom we are fighting for, as I said before, 'We are with you'.

Mewn ymarfer cyffredinol, mae angen i ni wneud yn siŵr bod meddygon yn cofnodi anafiadau pobl sydd wedi dioddef dan law eu partner treisgar i wneud yn siŵr nad ydynt yn ei gofnodi fel menyw sydd wedi cael dipyn o ffrae ddomestig gyda'i gŵr a dim mwy. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod meddygon teulu yn gwbl ymwybodol bod yn rhaid iddynt gofnodi'r anafiadau yn briodol ar gyfer y menywod hynny, fel bod y stori yno i'w hadrodd pan fydd y menywod hynny'n teimlo'n ddigon dewr ac yn cael y gefnogaeth i ddod ymlaen. Roeddwn yn dymuno siarad am lawer mwy, ond yr hyn mae'n rhaid i ni ei wneud yw parhau i frwydro dros hawliau menywod, sefyll i fyny a chael ein cyfrif, yn ddynion a menywod gyda'n gilydd, a dweud wrth y rhai yr ydym yn ymladd drostynt, fel y dywedais o'r blaen, 'Rydym gyda chi'.

16:11

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very pleased to be participating in this debate marking International Women's Day. I think that we have made great strides here in highlighting gender differences in public and private life. We are all familiar with statistics relating to women in business, women in politics and, perhaps the most telling of the gender inequality indicators, the wage gap between men and women. As we come together to acknowledge and to condemn gender inequality in all its forms, I think we really struggle to eliminate it. I am also concerned that, in the midst of an economic crisis, issues such as gender equality are seen as an unaffordable luxury, as something a bit abstract, to be discussed when we are out of the economic doldrums. However, history will show us that the backburner is no place for fundamental and vital social change. We will not achieve social justice more generally without addressing it in its individual forms.

Rwyf yn falch iawn o fod yn cymryd rhan yn y ddadl hon i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Rwyf yn credu ein bod wedi cymryd camau breision yma i dynnu sylw at wahaniaethau rhwng y ddau ryw mewn bywyd cyhoeddus a phreifat. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r ystadegau sy'n ymwneud â menywod mewn busnes, menywod mewn gwleidyddiaeth ac, efallai'r mwyaf trawiadol o ddangosyddion anghydraddoldeb rhywiol, y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod. Wrth i ni ddod at ein gilydd i gydnabod ac i gondemnio anghydraddoldeb rhywiol yn ei holl ffurfiau, rwyf yn credu ein bod wir yn cael trafferth cael gwared arno. Rwyf hefyd yn pryderu, yng nghanol yr argyfwng economaidd, bod materion fel cydraddoldeb rhywiol yn cael eu gweld fel rhywbeth na ellir ei fforddio, fel rhywbeth braidd yn haniaethol, i'w drafod pan fyddwn allan o'r sefyllfa economaidd farwaidd. Fodd bynnag, bydd hanes yn dangos i ni na ddylid gohirio pethau fel newid cymdeithasol sylfaenol a hanfodol. Ni fydd modd inni sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn fwy cyffredinol heb fynd i'r afael â'i amryw elfennau unigol.

As the Minister said, we cannot, as women, risk becoming invisible again. So, the need is urgent and it is obvious, especially in times of recession, that job cuts in the public sector hit women hard: 65% of public sector workers are women and the figure is even higher in particular segments of the public sector. Unemployment overall for women has grown at a faster rate than for men. Also, of course, there is the issue of welfare reform. The 2010 comprehensive spending review set out £34 billion of cuts in funding to public services, with 74% taken from women's income, according to the Fawcett Society. What we are seeing is not just a simple disregard for gender equality, but steps that will exacerbate gender inequality.

Fel y dywedodd y Gweinidog, ni allwn, fel menywod, fentro dod yn anweledig unwaith eto. Felly, mae'r angen yn un brys ac mae'n amlwg, yn enwedig ar adegau o ddirwasgiad, bod toriadau swyddi yn y sector cyhoeddus yn taro merched yn galed: mae 65% o weithwyr y sector cyhoeddus yn fenywod ac mae'r ffigur hyd yn oed yn uwch mewn rhannau penodol o'r sector cyhoeddus. Mae diweithdra cyffredinol ar gyfer menywod wedi tyfu ar gyfradd gyflymach nag ar gyfer dynion. Hefyd, wrth gwrs, mae'r diwygiadau i'r gyfundrefn les. Yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2010, nodwyd £34 biliwn o doriadau mewn cyllid i wasanaethau cyhoeddus, gyda 74% wedi'i gymryd o incwm menywod, yn ôl Cymdeithas Fawcett. Mae'r hyn yr ydym yn ei weld yn dangos difaterwch llwyr tuag at gydraddoldeb rhywiol, ond yn fwy na hynny bydd yn gwaethygu anghydraddoldeb rhywiol.

Today, I do not want to just catalogue the failures, because I think that we have a duty to provide positive suggestions for addressing gender issues. The Welsh Government especially cannot just sit back and play the blame game. I would suggest that we adopt an inclusive approach to gender equality here, because we need boys and men to be involved in gender issues as much as we need to empower girls and women. I am pleased to hear about the action that the Welsh Government is taking and I share the Minister's concern about the gender ratio here and in other institutions, as outlined by our Commissioner earlier. In a practical sense, we can only close the gender gap by eradicating gender stereotypes. Women make up almost 80% of the NHS workforce, but less than a third of consultants are women. In the private sector, there are 666 members of the Institute of Directors in Wales, of whom just 114 are women. So, the challenge is to change attitudes. I think that that should be achieved through education, because our children must grow up in a society that makes it as normal for a woman to pick up the briefcase as it is for a man to be the carer. I can assure Lindsay Whittle that women do crave power and when they get it, they do at least equally as well as their male colleagues.

Heddiw, nid wyf am restru methiannau yn unig, oherwydd y credaf fod gennym ddyletswydd i ddarparu awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer mynd i'r afael â materion rhyw. Ni all Llywodraeth Cymru'n enwedig eistedd yn ôl a beio eraill. Byddwn yn awgrymu ein bod yn mabwysiadu agwedd gynhwysol at gydraddoldeb rhywiol yma, oherwydd bod angen i fechgyn a dynion gymryd rhan yn gymaint ag y mae angen inni rymuso merched a menywod. Rwyf yn falch o glywed am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ac rwy'n rhannu pryder y Gweinidog am y gymhareb rhwng y rhywiau yma ac mewn sefydliadau eraill, fel yr amlinellwyd gan ein Comisiynydd yn gynharach. Mewn ystyr ymarferol, rhaid cael gwared ar stereoteipiau rhyw cyn y gallwn gau'r bwlch rhwng y rhywiau. Menywod yw bron i 80% o weithlu'r GIG, ond mae llai na thraean o ymgynghorwyr yn fenywod. Yn y sector preifat, mae 666 aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghymru, a dim ond 114 o'r rhain sy'n fenywod. Felly, yr her yw newid agweddau. Rwyf yn credu y dylai hynny gael ei gyflawni drwy addysg, oherwydd bod yn rhaid i'n plant dyfu mewn cymdeithas lle mae hi'r un mor arferol i ferch fynd i'r swyddfa ag y mae i ddyn fod yn ofalwr. Gallaf sicrhau Lindsay Whittle bod menywod yn chwennych p?er a phan fyddant yn ei gael, maent yn gwneud o leiaf cystal â'u cydweithwyr gwrywaidd.

To close, we are rightly proud in this country of the changes made to early years education to transform learning. Let us strengthen those radical changes by including the capacity to change how young people see the world and their place within it, including the removal of gender barriers to a child's ambitions and aspirations.

I gloi, rydym yn haeddiannol falch yn y wlad hon o'r newidiadau a wnaed i addysg y blynyddoedd cynnar i drawsnewid dysgu. Gadewch i ni gryfhau'r newidiadau radical hynny drwy gynnwys y gallu i newid sut mae pobl ifanc yn gweld y byd a'u lle ynddo, gan gynnwys cael gwared ar rwystrau i uchelgeisiau a dyheadau plant o'r ddau ryw.

16:15

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is inspiring to join in this debate with women and men from all parties. In my remarks, I want to focus on four extraordinary ordinary Welsh women who show us how much women can achieve, but who also highlight how much work there is still to do to make sure that women reach their full potential and are not thwarted. There is much to celebrate, but there is also, usually, a 'however', a sticking point, which most women still face.

Mae'n ysbrydoliaeth i ymuno yn y ddadl hon â menywod a dynion o bob plaid. Yn fy sylwadau, rwyf am ganolbwyntio ar bedair menyw anghyffredin gyffredin o Gymru sy'n dangos i ni faint y gall menywod ei gyflawni, ond sydd hefyd yn tynnu sylw at faint o waith sydd i'w wneud o hyd i sicrhau bod menywod yn cyrraedd eu llawn botensial ac nad ydynt yn cael eu rhwystro. Mae llawer i'w ddathlu, ond mae hefyd, fel arfer, faen tramgwydd 'fodd bynnag', y mae'r rhan fwyaf o fenywod yn dal i'w wynebu.

First, from the world of sport, Elinor Barker is from my constituency of Cardiff North and attends Llanishen High School, and she is, amazingly, a cycling world champion at the age of 18, having won a gold medal in the team pursuit title in Minsk last month. She joins Becky James, who has been mentioned by Kirsty Williams. However, in 17 months' time at the Glasgow Commonwealth Games, a woman cyclist like Elinor Barker will not be able to ride in a women's team pursuit race, because there is no such race. There is a men's team pursuit race, but not a women's one. This means that a male cyclist has more races to compete in—three more, I think—and more chances to win a gold medal than a female cyclist like Elinor Barker or Becky James. Therefore, we still have a long way to go before we achieve parity in sport. I know that the Presiding Officer will be discussing this with Professor Laura McAllister later this week.

Yn gyntaf, o fyd chwaraeon, mae Elinor Barker yn dod o'm hetholaeth, sef Gogledd Caerdydd, ac yn mynychu Ysgol Uwchradd Llanisien. Mae hi, yn rhyfeddol, yn bencampwr beicio'r byd yn 18 oed, ar ôl ennill medal aur yn y ras ymlid i dimau yn Minsk y mis diwethaf. Mae hi'n ymuno â Becky James, sydd wedi cael ei chrybwyll gan Kirsty Williams. Fodd bynnag, ymhen 17 mis yn Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow, ni fydd menyw fel Elinor Barker yn gallu reidio mewn ras ymlid i fenywod, oherwydd nad oes ras o'r fath. Mae ras ymlid i ddynion, ond nid un i fenywod. Mae hyn yn golygu bod gan ddyn sy'n feiciwr fwy o rasys i gystadlu ynddynt-tair yn fwy, rwy'n meddwl-a mwy o gyfleoedd i ennill medal aur na menyw fel Elinor Barker neu Becky James. Felly, mae gennym ffordd bell i fynd cyn i ni gyflawni cydraddoldeb mewn chwaraeon. Gwn y bydd y Llywydd yn trafod hyn gyda'r Athro Laura McAllister yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Next, I would like to highlight the success of a Welsh woman in the world of business. Last November, Cynthia Ogbonna was appointed managing director of Cardiff Bus and became the first woman to hold this position in the 110-year history of Cardiff Bus: the first woman and the first black woman. In fact, the managing directors of the 10 other municipal bus companies throughout the UK are all men. That is a great achievement, but it is just one step.

Nesaf, hoffwn dynnu sylw at lwyddiant gwraig Gymraeg ym myd busnes. Fis Tachwedd diwethaf, penodwyd Cynthia Ogbonna yn rheolwr gyfarwyddwr Bws Caerdydd a hi yw'r ferch gyntaf i ddal y swydd hon yn hanes 110 mlynedd Bws Caerdydd: y fenyw gyntaf a'r fenyw ddu gyntaf. Yn wir, mae rheolwyr gyfarwyddwyr y 10 cwmni bysiau trefol arall ledled y DU i gyd yn ddynion. Mae hynny'n wych, ond dim ond un cam ydyw.

In politics, I want to highlight the achievement of Councillor Diana Ellis from Blackwood, who was the first black woman to be elected to Caerphilly County Borough Council last May, and might be the first black woman elected to a council in the Valleys. I remember welcoming Diana to the House of Commons a few years ago when she was a participant in the Step Up Cymru scheme and it has been wonderful to watch her rise to this position. Last May, however, only 27% of those elected were women. It is very slow progress.

Mewn gwleidyddiaeth, rwyf am dynnu sylw at lwyddiant y Cynghorydd Diana Ellis o'r Coed Duon, a oedd y fenyw ddu gyntaf i gael ei hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fis Mai y llynedd, ac o bosibl y fenyw ddu gyntaf i gael ei hethol i gyngor yn y Cymoedd. Rwy'n cofio croesawu Diana i D?'r Cyffredin ychydig flynyddoedd yn ôl pan oedd yn cymryd rhan yn y cynllun Camu Ymlaen Cymru ac mae wedi bod yn wych ei gweld yn codi i'r swydd hon. Fis Mai diwethaf, fodd bynnag, dim ond 27% o'r rhai a etholwyd oedd yn fenywod. Mae'n gynnydd araf iawn.

Finally, on Friday, I will be travelling to London to the Royal Festival Hall. I want to applaud a woman active in a voluntary organisation in Wales in the field of migration and asylum. Constance Nzeneu sought asylum in the UK from Cameroon. She is the founder of the Women Seeking Sanctuary Advocacy Group Wales, which is a self-help group for women who have sought asylum. Its motto is 'ownership of our own destiny'. She is on the shortlist for the Migrant and Refugee Woman of the Year Awards this year. I am delighted that I will be at the Royal Festival Hall with Constance this Friday.

Yn olaf, ar ddydd Gwener, byddaf yn teithio i Lundain i'r Royal Festival Hall. Rwyf am gymeradwyo menyw sy'n weithredol mewn sefydliad gwirfoddol yng Nghymru ym maes mewnfudo a lloches. Daeth Constance Nzeneu i'r DU o Cameroon i geisio lloches. Hi yw sylfaenydd y Grŵp Eiriolaeth Menywod yn Ceisio Lloches Cymru, sydd yn grŵp hunangymorth ar gyfer menywod sydd wedi ceisio lloches. Ei arwyddair yw 'bod yn gyfrifol am ein tynged ein hunain'. Mae hi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Menyw'r Flwyddyn Ymfudwyr a Ffoaduriaid eleni. Rwy'n falch iawn y byddaf yn y Royal Festival Hall gyda Constance ddydd Gwener.

I remember going around with her in Cardiff trying to experience how the voucher card that asylum-seeking families have in order to buy food and clothes actually affects them. I went with Constance and experienced the ignominy that that provoked. As the quote on Constance's group's website says, she is not just a Home Office reference number; she is also a woman.

Cofiaf fynd o amgylch gyda hi yng Nghaerdydd yn ceisio profiad o sut y mae'r cerdyn taleb sydd gan deuluoedd sy'n ceisio lloches er mwyn prynu bwyd a dillad yn effeithio arnynt mewn gwirionedd. Es i gyda Constance a phrofi'r cywilydd yr oedd hynny'n ei achosi. Fel y mae'r dyfyniad ar wefan grŵp Constance yn dweud, nid dim ond rhif cyfeirnod y Swyddfa Gartref yw hi, mae hi hefyd yn fenyw.

These four women—the last three are black women—are inspirations to us all. We do not have any black or Asian women Members of this Assembly yet, but I think that that is only a matter of time. These are just four stories for International Women's Day, but there are many more stories of ordinary women who do extraordinary things, which need to be told and are waiting to be told. As the writer Carol Shields says, 'There are chapters in every life which are seldom read and certainly not aloud.' We need to make sure that women's stories are read and are heard loud and clear, especially on International Women's Day.

Mae'r pedair menyw hyn-mae'r tair ddiwethaf yn fenywod du-yn ysbrydoliaeth i ni i gyd. Nid oes gennym unrhyw fenywod du neu Asiaidd yn Aelodau o'r Cynulliad hwn eto, ond credaf mai mater o amser yw hi. Dim ond pedair stori yw'r rhain ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ond mae angen adrodd llawer mwy o straeon am fenywod cyffredin sy'n gwneud pethau anghyffredin, ac maent aros i gael eu hadrodd. Fel y dywed yr awdur Carol Shields, mae yna benodau ym mhob bywyd sy'n cael eu darllen yn anaml ac yn sicr ni chânt eu clywed yn uchel. Mae angen i ni wneud yn si?r bod straeon menywod yn cael eu darllen ac yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir, yn enwedig ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod.

16:19 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also want to discuss the issues raised in amendment 2 about increasing the number of women in positions of power and influence in Wales. I feel that we need to start with the mote in own eye before we move on to others. How do we maintain the previous excellent record of gender balance in our numbers? On the Labour benches, we are proud of having 50:50 male/female representation, but there is some work to do on the opposition benches. Yes, it is great that two of our four party leaders are women, but in 2011, we saw a significant reduction in the number of women Assembly Members who were voted into this Assembly. Therefore, we now only have 24 women out of 60. We are going backwards. I would be interested to hear what the opposition parties might like to suggest to help us to reverse that situation.

Rwyf hefyd yn awyddus i drafod y materion a godwyd yng ngwelliant 2 am gynyddu nifer y menywod mewn swyddi pwerus a dylanwadol yng Nghymru. Rwyf yn teimlo bod angen i ni ddechrau gyda'r brycheuyn yn ein llygad ein hun cyn i ni symud ymlaen at eraill. Sut mae cynnal y record ragorol flaenorol o gydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein niferoedd? Ar y meinciau Llafur, rydym yn falch o gael cynrychiolaeth 50:50 o ddynion a menywod, ond mae rhywfaint o waith i'w wneud ar feinciau'r gwrthbleidiau. Ydy, mae'n wych bod arweinwyr dau o'n pedair plaid yn fenywod, ond yn 2011, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y menywod a etholwyd yn Aelodau i'r Cynulliad hwn. Felly, nid oes gennym bellach ond 24 o ferched allan o 60. Rydym yn mynd tuag yn ôl. Byddai'n ddiddorol clywed beth yr hoffai'r gwrthbleidiau ei awgrymu i'n helpu i wyrdroi'r sefyllfa honno.

In Westminster, women's representation remains a national scandal. With only a small amount above 20% being women, we are No. 55 in the international league table for women's participation in national legislatures. It is of no surprise then that the policies implemented in Westminster reflect the make-up of Parliament or that women and children are bearing the brunt of the financial meltdown in 2008.

Yn San Steffan, mae cynrychiolaeth menywod yn parhau i fod yn sgandal cenedlaethol. Gyda dim ond ychydig bach dros 20% yn fenywod, rydym yn rhif 55 yn y tabl cynghrair rhyngwladol ar gyfer cyfranogiad menywod mewn deddfwrfeydd cenedlaethol. Nid yw o unrhyw syndod felly bod y polisïau a weithredir yn San Steffan yn adlewyrchu gwneuthuriad Senedd y DU neu fod menywod a phlant yn dioddef y gwaethaf o effeithiau'r chwalfa ariannol yn 2008.

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose-*

**Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

For 2012, over 200 HSBC bankers will benefit from bonuses of over £1 million, and they are mainly men. We have to do something about that, because, otherwise, we are completely undermining the basis on which the democratic process gets to control and decide how our society is formed. It is commendable that the Swiss referendum on bankers' bonuses has given a resounding 'yes' in favour of control, which the UK Government would do well to consider. However, there is clearly a need for an absolute step change towards the radical proposals that need to be implemented to change the way that women are represented in our UK Government and Parliament.

Ar gyfer 2012, bydd dros 200 o fancwyr HSBC yn elwa o daliadau bonws o dros £1 miliwn, a dynion ydynt yn bennaf. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth am hynny, oherwydd, fel arall, rydym yn llwyr danseilio'r modd y mae'r broses ddemocrataidd yn rheoli ac yn penderfynu sut y mae ein cymdeithas yn cael ei ffurfio. Mae'n glodwiw mai 'ie' ysgubol o blaid rheolaeth oedd canlyniad y refferendwm yn y Swistir ar daliadau bonws bancwyr, a byddai'n dda o beth i Lywodraeth y DU ei ystyried. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen newid sylweddol llwyr tuag at y cynigion radical y mae angen eu gweithredu i newid y ffordd y mae menywod yn cael eu cynrychioli yn ein Llywodraeth y DU a Senedd y DU.

As we are discussing International Women's Day, I would like to tell you about a trip that I took to Ecuador during the recess at the invitation of the national electoral commission of Ecuador. You may ask what Ecuador has to do with Wales. The fact is that it used to have 5% women's representation in Parliament 15 years ago and it now has 35% women's representation in Parliament. That level of change should tell us that it is doing something right to redress the balance. First, it has an alternate list system whereby the list may start with a male, but then the next person on the list has to be female et cetera. It can be the other way around. That is one of the ways by which it is ensuring that there is a decent number of women across all the parties putting their names forward to be elected. That has concentrated the minds of all the different political parties wonderfully.

Gan ein bod yn trafod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, hoffwn ddweud wrthych am daith a gymerais i Ecuador yn ystod y toriad ar wahoddiad comisiwn etholiadol cenedlaethol Ecuador. Efallai y byddwch yn gofyn beth sydd gan Ecuador i'w wneud â Chymru. Y ffaith yw mai 5% oedd cynrychiolaeth menywod yn y Senedd 15 mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn menywod yw 35% o'r Senedd. Dylai'r lefel honno o newid ddweud wrthym ei bod yn gwneud rhywbeth yn iawn i unioni'r cydbwysedd. Yn gyntaf, mae ganddi system restr am yn ail, lle gall y rhestr ddechrau gyda dyn, ond wedyn rhaid i'r nesaf ar y rhestr fod yn fenyw ac yn y blaen. Gall fod y ffordd groes. Dyna un o'r ffyrdd y mae'n sicrhau bod nifer gweddus o ferched ar draws yr holl bleidiau yn cyflwyno'u henwau i gael eu hethol. Mae hynny wedi canolbwyntio meddyliau'r holl bleidiau gwleidyddol yn rhyfeddol.

Another reason why Ecuador has a lot to tell us about our situation is the level of voter turnout. In this country, we have about 65% turnout in the general election, at best. In Assembly and local Government elections, we had somewhere between 49% and 41% turnout in the 2011 elections that got us all elected. Therefore, that is a significant democratic deficit that we need to think carefully what we are going to do about. If people are not voting, that undermines the whole credibility of what we do and our mandate to implement change. If we are not seen as the vehicle of change, people will take other measures. That is a significant situation—

Rheswm arall pam fod gan Ecuador lawer i'w ddweud wrthym am ein sefyllfa yw'r nifer sy'n pleidleisio. Yn y wlad hon, mae tua 65% yn pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol, ar y gorau. Yn etholiadau'r Cynulliad a Llywodraeth leol yn 2011 pryd y cawsom ni i gyd eith hethol, rhywle rhwng 49% a 41%. Felly, mae hynny'n ddiffyg democrataidd sylweddol ac mae angen inni feddwl yn ofalus beth rydym yn mynd i'w wneud yn ei gylch. Os nad yw pobl yn pleidleisio, mae hynny'n tanseilio holl hygrededd yr hyn a wnawn a'n mandad i weithredu newid. Os nad ydym yn cael ein gweld fel cyfrwng newid, bydd pobl yn cymryd camau eraill. Mae honno'n sefyllfa arwyddocaol-

16:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you wind up, please?

Allwch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

16:24

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have run out of time. We need to look at the ways in which other countries are doing things in order to increase women’s representation, particularly across local government.

Mae fy amser wedi dod i ben. Mae angen i ni edrych ar y ffyrdd y mae gwledydd eraill yn gwneud pethau er mwyn cynyddu cynrychiolaeth menywod, yn enwedig ar draws llywodraeth leol.

16:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you are out of time.

Rwy'n meddwl bod eich amser wedi dod i ben.

16:25

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This year’s global theme for International Women’s Day is ending violence against women. Like other Members, I congratulate the Welsh Government on the work that it is doing in showing leadership to tackle domestic violence in Wales.

Thema fyd-eang eleni ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Fel yr Aelodau eraill, rwyf yn llongyfarch Llywodraeth Cymru ar y gwaith y mae'n ei wneud i ddangos arweiniad i fynd i'r afael â thrais domestig yng Nghymru.

I am particularly keen to see the new focus on educating children and young people about healthy relationships. It was only yesterday that the National Society for the Prevention of Cruelty to Children showed that police in England and Wales have dealt with 5,000 cases of harmful sexual behaviour by those under 18 years of age against other young children and young people over the last three years. The responsibility lies in many places, but through educating young people and children the Welsh Government can make a significant impact so that young men grow up to respect young women and young women grow up with strong self-confidence and self-esteem.

Rwyf yn arbennig o awyddus i weld y pwyslais newydd ar addysgu plant a phobl ifanc am berthnasau iach. Dim ond ddoe y dangosodd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant fod yr heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi ymdrin â 5,000 o achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol gan rai o dan 18 oed yn erbyn plant ifanc a phobl ifanc eraill dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd mewn llawer man, ond trwy addysgu pobl ifanc a phlant gall Llywodraeth Cymru gael effaith sylweddol fel bod dynion ifanc yn tyfu i barchu menywod ifanc a menywod ifanc yn tyfu gyda hunanhyder a hunan-barch cryf.

This debate offers us a rare opportunity to spend some time looking outwards; to shine a light on issues that affect women internationally. The United Nations has referred to violence against women as a global pandemic; therefore, I want to explore an issue that affects millions of tomorrow’s women. According to UNICEF, child marriage represents perhaps the most prevalent form of sexual violence and exploitation of girls. The harmful consequences of a child marriage violate almost every article of the UN Convention on the Rights of the Child, and means separation from family and friends, lack of freedom to interact with peers and participate in community activities, and decreased opportunities for education.

Mae'r ddadl hon yn cynnig cyfle prin i dreulio rhywfaint o amser yn edrych tuag allan, i daflu goleuni ar faterion sy'n effeithio ar fenywod yn rhyngwladol. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyfeirio at drais yn erbyn menywod fel pandemig byd-eang, felly, rwyf am drafod mater sy'n effeithio ar filiynau o fenywod y dyfodol. Yn ôl UNICEF, mae'n bosibl mai'r dull mwyaf cyffredin o gam-fanteisio ar ferched a chyflwyno trais rhywiol yn eu herbyn yw eu priodi pan eu bod yn blant. Mae canlyniadau niweidiol priodi plant yn torri bron pob erthygl o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn golygu y cânt eu gwahanu oddi wrth deulu a ffrindiau, nad oes ganddynt ryddid i ryngweithio â chyfoedion a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, a bod ganddynt lai o gyfleoedd ar gyfer addysg.

Child marriage can also result in bonded labour or enslavement, commercial sexual exploitation and violence. Globally, girls under 15 years of age are five times more likely to die in childbirth than women in their 20s. Pregnancy is the leading cause of death worldwide for women aged 15 to 19. Child brides face a much higher risk of contracting HIV because they often marry people who are older than them and have more sexual experience.

Gall plant sy'n cael eu priodi hefyd gael eu gorfodi i weithio neu ddioddef caethiwed, cam-fanteisio rhywiol masnachol a thrais. Yn fyd-eang, mae merched o dan 15 oed bum gwaith yn fwy tebygol o farw wrth roi genedigaeth na menywod yn eu 20au. Beichiogrwydd yw prif achos marwolaeth ledled y byd i fenywod rhwng 15 a 19 oed. Mae priodferched sy'n blant yn wynebu risg llawer uwch o ddal HIV oherwydd eu bod yn aml yn priodi pobl sy'n hŷn na nhw ac sydd â mwy o brofiad rhywiol.

All of this is relevant to Wales because we have committed to support and develop the UN millennium development goals. Given that child marriage is so prevalent in many struggling countries, the practice becomes an obstacle to nearly every development goal. Eradicating poverty and hunger, achieving universal primary education, promoting gender equality, protecting children’s lives, and improving health are all those millennium goals that we are unlikely to achieve because of child marriage.

Mae hyn i gyd yn berthnasol i Gymru oherwydd ein bod wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu amcanion datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y mileniwm. O ystyried bod priodi plant yn arfer mor gyffredin mewn nifer o wledydd sydd mewn trafferthion, mae'r arfer yn dod yn rhwystr i bron pob amcan datblygu. Dileu tlodi a newyn, sicrhau addysg gynradd i bawb, hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, diogelu bywydau plant, a gwella iechyd yw'r holl amcanion hynny ar gyfer y mileniwm yr ydym yn annhebygol o'u cyflawni oherwydd bod plant yn cael eu priodi.

There is a terrible irony at the heart of child marriage. On the one hand, it is a response to deprivation as parents agree out of economic necessity or out of the desire to give their child the protection of a husband, but on the other it is a practice that keeps families and individuals ensnared in poverty.

Mae eironi ofnadwy wrth galon priodi plant. Ar y naill law, mae'n ymateb i amddifadedd gan fod rhieni yn cytuno o reidrwydd economaidd neu o'r awydd i'w plentyn gael gŵr i'w hamddiffyn, ond ar y llaw arall mae'n arfer sy'n cadw teuluoedd ac unigolion wedi'u rhwydo mewn tlodi.

Child marriage is closely tied to poverty. In developing countries girls living in poor households are almost twice as likely to marry as children than girls in higher-income households. More than half of girls in Bangladesh, Mali and Mozambique, for example, are married before they are aged 18. It is of no surprise therefore that, in these same countries, more than 75% of people live on less than $2 a day.

Mae cysylltiad agos rhwng priodi plant a thlodi. Mewn gwledydd sy'n datblygu mae merched sy'n byw mewn cartrefi tlawd bron ddwywaith yn fwy tebygol o briodi fel plant na merched mewn aelwydydd incwm uwch. Mae mwy na hanner y merched yn Bangladesh, Mali a Mozambique, er enghraifft, yn briod cyn iddynt gael eu 18 oed. Nid yw o unrhyw syndod felly, yn y gwledydd hyn, bod mwy na 75% o bobl yn byw ar lai na $2 y dydd.

Tackling poverty is one part of the answer; increasing education is the other. Girls with higher levels of schooling are less likely to marry as children. In Mozambique, for example, some 60% of girls with no education are married before they are 18, compared with less than 1% of those who have received higher levels of education. Educating adolescent girls has been a critical factor in increasing the age of marriage in developing countries such as Indonesia, Sri Lanka, Taiwan and Thailand.

Mae mynd i'r afael â thlodi yn un rhan o'r ateb, mwy o addysg yw'r llall. Mae merched sydd â mwy o addysg yn llai tebygol o briodi'n blant. Ym Mozambique, er enghraifft, mae tua 60% o ferched heb unrhyw addysg yn briod cyn eu bod yn 18, o'i gymharu â llai nag 1% o'r rhai sydd wedi derbyn mwy o addysg. Mae addysgu merched ifanc wedi bod yn ffactor allweddol o ran sicrhau eu bod yn hŷn yn priodi mewn gwledydd sy'n datblygu megis Indonesia, Sri Lanka, Taiwan a Thailand.

From Wales, we can help to support tomorrow’s women by tackling poverty and increasing education through our Wales for Africa programme, which is a scheme of which I am very proud. Today, I have sent a message of support to the young women of Uganda through a Wales for Africa community scheme. Uganda is fourteenth in the world ranking of child marriages, with almost half of its girls marrying before the age of 18. Hopefully, the young women who read it will know that there are women across the world that stand in solidarity with them.

O Gymru, gallwn helpu i gefnogi menywod y dyfodol drwy fynd i'r afael â thlodi a darparu mwy o addysg drwy ein rhaglen Cymru o Blaid Affrica, sy'n gynllun yr wyf yn falch iawn ohono. Heddiw, rwyf wedi anfon neges o gefnogaeth i ferched ifanc o Uganda drwy un o gynlluniau cymunedol Cymru o Blaid Affrica. Mae Uganda yn bedwaredd ar ddeg yn y byd o ran priodasau plant, gyda bron i hanner y merched yn priodi cyn cyrraedd 18 oed. Gobeithio y bydd y merched ifanc sy'n ei ddarllen yn gwybod bod menywod ar draws y byd sy'n sefyll mewn undod â hwy.

The International Center for Research on Women tells us that if present trends continue 142 million girls will marry over the next 10 years. That is 38,000 girls married every day for the next 10 years. That is why taking an international approach to International Women's Day is important, and that is why the Welsh Government's efforts in the field of poverty and education in parts of the developing world, through its Wales for Africa programme, are so important.

Mae'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Ymchwil ar Fenywod yn dweud wrthym y bydd 142 miliwn o ferched yn priodi dros y 10 mlynedd nesaf os bydd y tueddiadau presennol yn parhau. Mae hynny'n 38,000 o ferched yn priodi bob dydd am y 10 mlynedd nesaf. Dyna pam ei bod yn bwysig ystyried Diwrnod Rhyngwladol y Menywod o safbwynt rhyngwladol, a dyna pam y mae ymdrechion Llywodraeth Cymru ym maes tlodi ac addysg mewn rhannau o'r byd sy'n datblygu, trwy raglen Cymru o Blaid Affrica, mor bwysig.

16:29

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Much has been made here today about getting more women into positions of power. I pay tribute to the Presiding Officer who has worked really hard in her role, first to propel the item up the agenda, and then to think about ways of solving that particular situation. However, it is about more than simply asking women to take positions of power. What we absolutely must do is to ensure that when women do take positions of power, they do something with that power. That is of critical importance to me. Power for power's sake means nothing. That is why I want to pay tribute today to some women who have actually made a difference: Rosemary Butler clearly has in her position of power; Edwina Hart, in the very first Assembly, with her contribution to the domestic violence Bill, showed the commitment of the Assembly to women; Jane Hutt, as Minister with responsibility for equality, has shown absolute dedication to equalities being enshrined in the Welsh Government's proofing of its policies.

Mae llawer wedi ei ddweud yma heddiw am gael mwy o fenywod i sefyllfa o bŵer. Talaf deyrnged i'r Llywydd sydd wedi gweithio'n galed iawn yn ei swyddogaeth, yn gyntaf i yrru'r eitem i fyny'r agenda, ac yna i feddwl am ffyrdd o ddatrys y sefyllfa benodol honno. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â mwy na dim ond gofyn i ferched gymryd swyddi o bŵer. Beth sy'n rhaid i ni yn bendant ei wneud yw sicrhau bod menywod, pan fyddant yn dod i sefyllfaoedd o bŵer, yn gwneud rhywbeth â'r pŵer hwnnw. Mae hynny'n allweddol bwysig i mi. Nid yw pŵer er ei fwyn ei hun yn golygu dim. Dyna pam rwyf eisiau talu teyrnged heddiw i rai menywod sydd wedi gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd: mae Rosemary Butler yn amlwg wedi gwneud hynny yn ei swydd bwerus, dangosodd Edwina Hart, yn y Cynulliad cyntaf, ymrwymiad y Cynulliad i fenywod gyda'i chyfraniad i'r Bil trais domestig,; mae Jane Hutt, fel Gweinidog â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, wedi dangos ymroddiad llwyr i ymgorffori cydraddoldeb ym mhroses Llywodraeth Cymru i brawfesur ei pholisïau.

I pay tribute also to the women who are not in the Assembly but who have supported changing the lot of women outside. I pay tribute to the WI for supporting the Not in my Name campaign last year and signing up male ambassadors throughout Wales, in all sectors of society, to encourage their male peers to say 'no' to violence against women. I pay tribute to Soroptimist International, which has pledged its support to provide clean water for children and women in Africa, so that they do not die of disease, and to provide mosquito nets, to prevent malaria affecting women and children in those societies, and for a very small cost.

Talaf deyrnged hefyd i'r menywod nad ydynt yn y Cynulliad ond sydd wedi cefnogi'r gwaith i newid tynged menywod y tu allan. Talaf deyrnged i'r WI am gefnogi'r ymgyrch Nid yn fy Enw I y llynedd a sicrhau ymrwymiad gan ddynion ledled Cymru, ym mhob sector o gymdeithas, i annog eu cyfoedion gwrywaidd i ddweud 'na' i drais yn erbyn menywod. Talaf deyrnged i Soroptimyddion Rhyngwladol, sydd wedi addo eu cefnogaeth i ddarparu dŵr glân ar gyfer plant a menywod yn Affrica, fel nad ydynt yn marw o glefydau, ac i ddarparu rhwydi mosgitos, er mwyn atal malaria sy'n effeithio ar fenywod a phlant yn y cymdeithasau hynny, ac am gost fach iawn.

The argument has to be that it is not enough to give people power; it is about how they use that power. Here, oddly, I will pay tribute to Margaret Thatcher for empowering women in the Valleys to get up and fight her draconian policies. They quickly united, as all good Valleys women do, and they stood up, they fought, and they were counted. Some of them are in the House of Commons today as a consequence. To that end, I will pay tribute to her.

Y ddadl ddylai fod nad yw'n ddigon i roi pŵer i bobl, mae'n ymwneud â sut y maent yn defnyddio'r pŵer hwnnw. Yma, yn rhyfedd, byddaf yn talu teyrnged i Margaret Thatcher am rymuso menywod yn y Cymoedd i godi ac i ymladd ei pholisïau llym. Fe wnaethant uno'n gyflym, fel y mae holl fenywod da'r Cymoedd yn ei wneud, a sefyll, ymladd, a chael eu cyfrif. Mae rhai ohonynt yn Nhŷ'r Cyffredin heddiw o ganlyniad. I'r perwyl hwnnw, byddaf yn talu teyrnged iddi.

I also have to pay tribute to Carl Sargeant, who clearly is not a woman [Laughter.] I pay tribute to him for supporting women's causes and fighting for their safety, whoever they are and wherever they are, and for his absolute, undying commitment to ending violence against women.

Mae'n rhaid i mi hefyd dalu teyrnged i Carl Sargeant, y mae'n amlwg nad yw'n fenyw [Chwerthin.] Talaf deyrnged iddo am gefnogi achosion menywod a brwydro dros eu diogelwch, pwy bynnag ydynt a lle bynnag y maent, ac am ei ymrwymiad absoliwt, diddiwedd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.

16:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Finance and Leader of the House to reply to the debate: Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ i ymateb i'r ddadl: Jane Hutt.

16:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

Senedd.tv Fideo Video

I believe that this is the first full debate that we have held in the National Assembly to mark International Women's Day. It is a debate in which we have delivered, across the Chamber, a range of inspiring contributions. We need to use every opportunity to debate the work that we are doing in Wales, through the Assembly, through Welsh Government and, indeed, more widely in the public, private and third sectors to increase women's participation and engagement. Equally important is for us to strengthen our resolve to tackle enduring and new challenges and barriers.

Credaf mai dyma'r ddadl lawn gyntaf i ni ei chynnal yn y Cynulliad Cenedlaethol i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae'n ddadl lle'r ydym wedi cyflwyno, ar draws y Siambr, amrywiaeth o gyfraniadau sy'n ysbrydoli. Mae angen i ni fanteisio ar bob cyfle i drafod y gwaith yr ydym yn ei wneud yng Nghymru, drwy'r Cynulliad, drwy Lywodraeth Cymru ac, yn wir, yn fwy eang yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad menywod. Mae yr un mor bwysig i ni gryfhau ein penderfyniad i fynd i'r afael â heriau a rhwystrau parhaus a newydd.

I welcome the contributions to identify how we can address and improve the representation of women in Wales. As Sandy Mewies pointed out so clearly, the Equality and Human Rights Commission's update on who runs Wales for 2012 showed challenges across the sectors. Also, it is important to look at the important work of the Electoral Reform Society, which shows that despite an 8% increase in the proportion of women councillors since 1999, the rate of progress this year was just 1.5%. It is good that we look to role models such as Councillor Diana Ellis, the first black woman councillor in Caerphilly County Borough Council. However, at this slow rate of progress, women will not have an equal voice in Welsh local government for another 60 years and more. We know that, in government, at the local authority and national level, we can work best with a wide range of people and experiences, reflecting communities that they serve.

Croesawaf y cyfraniadau i ganfod sut y gallwn fynd i'r afael â hyn a gwella cynrychiolaeth menywod yng Nghymru. Fel y nododd Sandy Mewies mor glir, roedd diweddariad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar bwy sy'n rhedeg Cymru ar gyfer 2012 yn dangos heriau ar draws y sectorau. Hefyd, mae'n bwysig edrych ar waith pwysig y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, sy'n dangos mai dim ond 1.5% oedd cyfradd y cynnydd eleni, er gwaethaf cynnydd o 8% yng nghyfran y menywod sy'n gynghorwyr ers 1999. Mae'n dda ein bod yn edrych ar rai sy'n esiampl i ni i gyd, fel y Cynghorydd Diana Ellis, y fenyw ddu gyntaf i fod yn gynghorydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, os bydd pethau'n parhau i ddatblygu mor araf â hyn, ni fydd menywod yn cael llais cyfartal mewn llywodraeth leol yng Nghymru am 60 mlynedd arall a mwy. Rydym yn gwybod, mewn llywodraeth, ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel genedlaethol, ein bod yn gallu gweithio orau gydag amrywiaeth eang o bobl a phrofiadau, gan adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

We know that the economy is strongest when everybody has the chance to make their full contribution. In the current economic climate, that means that we must help parents to balance working life with family life, and tackle barriers that restrict participation in the workplace. We continue to work with our partners through the strategic equality plan and the tackling poverty action plan to address the causes of gender pay and employment differences, as Lindsay Whittle identified. It was very helpful that Jeff Cuthbert, our Deputy Minister for Skills, identified awards made to young women apprentices in non-traditional roles. Jocelyn Davies focused on education and the fact that STEM subjects are being identified as a key part of the increased investment in apprenticeships, which will, I believe, also make a difference, as will continuing funding for organisations like Chwarae Teg.

Rydym yn gwybod bod yr economi ar ei gryfaf pan fydd pawb yn cael y cyfle i wneud eu cyfraniad llawn. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni helpu rhieni i gydbwyso bywyd gwaith â bywyd teuluol, a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfranogiad yn y gweithle. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid drwy'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun gweithredu trechu tlodi i fynd i'r afael â'r rhesymau dros wahaniaethau cyflog a chyflogaeth rhwng y rhywiau, fel y nododd Lindsay Whittle. Roedd yn ddefnyddiol iawn bod Jeff Cuthbert, ein Dirprwy Weinidog Sgiliau, wedi nodi dyfarniadau a wnaed i brentisiaid sy'n fenywod ifanc mewn swyddogaethau anhraddiodiadol. Canolbwyntiodd Jocelyn Davies ar addysg a'r ffaith bod pynciau STEM yn cael eu nodi fel rhan allweddol o'r buddsoddiad cynyddol mewn prentisiaethau, a fydd, yr wyf yn credu, hefyd yn gwneud gwahaniaeth, fel y bydd parhau cyllid ar gyfer sefydliadau megis Chwarae Teg.

16:35 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention? Would you agree that we also need to have a debate about much more equality in the home? Research suggests that women are still taking on a lot of the domestic care, and if they are doing that, it is more difficult for them to get involved in public life as well. We need that debate in the home, and in other countries they are looking at it.

A wnewch chi dderbyn ymyriad? A fyddech chi'n cytuno bod angen i ni hefyd gael trafodaeth am lawer mwy o gydraddoldeb yn y cartref? Mae ymchwil yn awgrymu bod menywod yn dal i ymgymryd â llawer o'r gofal yn y cartref, ac os ydynt yn gwneud hynny, mae'n fwy anodd iddynt gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn ogystal. Mae angen y ddadl honno yn y cartref, ac mewn gwledydd eraill, maent yn edrych ar hyn.

16:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That is clear in terms of the extension of our efforts. Of course, it links to the educational point in terms of our children and young people, and, of course, it has been very valuable to have contributions from men and woman across the Assembly today pointing out the policy challenges that we have to address on those key points.

Mae hynny'n amlwg o ran ymestyn ein hymdrechion. Wrth gwrs, mae'n cysylltu â'r pwynt addysgol o ran ein plant a phobl ifanc, ac, wrth gwrs, mae wedi bod yn werthfawr iawn i gael cyfraniadau gan ddynion a menywod ar draws y Cynulliad heddiw yn tynnu sylw at yr heriau polisi y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw ar y pwyntiau allweddol.

It is important that we recognise, in taking on board and accepting the amendments from the Welsh Conservatives, that they are entirely in accord with Welsh Government actions. We are united in recognising the priority that we afford to ensuring that we increase the number of women and other under-represented groups in public appointments and across all sectors. It is important to note that not only are Ministers writing to all their public sector bodies asking them to take action in terms of the number of women represented, but our submission to the Silk commission on devolution calls for full competence over whether, and the extent to which, positive discrimination is permitted in public appointments to the governing bodies of devolved public sector organisations.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, wrth ystyried a derbyn y gwelliannau gan y Ceidwadwyr Cymreig, eu bod yn gyfan gwbl yn unol â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru. Rydym yn gytûn yn cydnabod y flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi i sicrhau ein bod yn cynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill a dangynrychiolir mewn penodiadau cyhoeddus ac ar draws pob sector. Mae'n bwysig nodi bod Gweinidogion yn ysgrifennu at holl gyrff y sector cyhoeddus i ofyn iddynt gymryd camau o ran y nifer o ferched a gynrychiolir, ond hefyd bod ein cyflwyniad i gomisiwn Silk ar ddatganoli yn galw am gymhwysedd llawn ynghylch pa un a ganiateir, ac i ba raddau y caniateir, gwahaniaethu cadarnhaol mewn penodiadau cyhoeddus i gyrff llywodraethu sefydliadau sector cyhoeddus datganoledig.

As I said, we need to look at legislative opportunities as well as the pioneering work that can be taken forward with examples such as Sport Wales. It is important that we have proactive, targeted work to increase the number of women and under-represented groups, showing decisive action and making Wales a more equal society.

Fel y dywedais, mae angen i ni edrych ar gyfleoedd deddfwriaethol yn ogystal â gwaith arloesol y gellir eu datblygu gydag enghreifftiau megis Chwaraeon Cymru. Mae'n bwysig bod gennym waith rhagweithiol, wedi'i dargedu i gynyddu nifer y menywod a grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg, gan ddangos camau gweithredu pendant a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.

Important contributions were made in terms of tackling violence against women. Ann Jones, Mohammad Asghar and Lindsay Whittle contributed to the debate by recognising the role of our Minister, Carl Sargeant, in taking forward an integrated strategy and protecting the budget line. Again, there was reference to the way equality impact assessments can be used effectively; to the Right to be Safe strategy published in 2010; and to the consultation on the White Paper on ending violence against women and the legislative opportunity of the Bill that will come forward shortly.

Gwnaed cyfraniadau pwysig o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Cyfrannodd Ann Jones, Mohammad Asghar a Lindsay Whittle at y ddadl drwy gydnabod swyddogaeth ein Gweinidog, Carl Sargeant, wrth ddatblygu strategaeth integredig ac amddiffyn llinell y gyllideb. Unwaith eto, cyfeiriwyd at y ffordd y gellir defnyddio asesiadau o effaith cydraddoldeb yn effeithiol; at y strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel a gyhoeddwyd yn 2010; ac at yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a chyfle deddfwriaethol y Bil a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen cyn bo hir.

Finally, there was recognition across this Chamber of the role of women across all parties—and not only those in the Assembly—who have different roles, facets and responsibilities, be they in opposition, Government or on the backbenches. Of course, we also remembered some of our former Members, such as Val Feld, who helped to bring onto the statute book that all-important commitment to promoting equality of opportunity, and Helen Mary Jones and many other former Members from all parties who have played significant roles. Some of them are now in the House of Lords, like Jenny Randerson. It is important that we recognise those women in politics, sport, music and business, some of whom have been named today by Lindsay Whittle, Kirsty Williams and Julie Morgan. Rebecca Evans is right to point to the millennium development goals. The experience from Ecuador that we heard from Jenny Rathbone is important. I think that Kirsty Williams's focus on those local and international links is important, as is the need to recognise what women are facing across the world. Throughout the world, International Women's Day will be celebrated, and the continuing pressures will be recognised. This is a day when we can celebrate the role and contribution of women in Wales and recognise the challenges that we face and which need to be tackled.

Yn olaf, cafwyd cydnabyddiaeth ar draws y Siambr hon o rôl menywod ar draws pob plaid-ac nid dim ond y rhai yn y Cynulliad-sydd â swyddogaethau, agweddau a chyfrifoldebau gwahanol, boed hynny yn yr wrthblaid, yn y Llywodraeth neu ar y meinciau cefn. Wrth gwrs, rydym hefyd yn cofio rhai o'n cyn-Aelodau, megis Val Feld, a helpodd i ddod â'r ymrwymiad holl-bwysig i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r llyfr statud, a Helen Mary Jones a llawer o gyn- Aelodau eraill o bob plaid sydd wedi chwarae rhan sylweddol. Mae rhai ohonynt yn awr yn Nhŷ'r Arglwyddi, fel Jenny Randerson. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y menywod hynny sydd mewn gwleidyddiaeth, chwaraeon, cerddoriaeth a busnes, rhai ohonynt wedi eu henwi heddiw gan Lindsay Whittle, Kirsty Williams a Julie Morgan. Mae Rebecca Evans yn iawn i bwyntio at yr amcanion datblygu ar gyfer y mileniwm. Mae'r profiad o Ecuador a glywsom gan Jenny Rathbone yn bwysig. Credaf fod ffocws Kirsty Williams ar y cysylltiadau lleol a rhyngwladol yn bwysig, yn ogystal â'r angen i gydnabod yr hyn y mae menywod yn ei wynebu ar draws y byd. Ledled y byd, bydd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cael ei ddathlu, a bydd y pwysau parhaus yn cael ei gydnabod. Mae hwn yn ddiwrnod pryd y gallwn ddathlu rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru a chydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu ac y mae angen inni fynd i'r afael â hwy.

16:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 1wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5174 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5174 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

Celebrates International Women's Day 2013 in recognition of the role and contribution of women in Wales.

Yn cydnabod dewrder menywod sydd wedi cael eu cam-drin am roi gwybod am ddigwyddiadau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol.

Recognises the courage of women who have suffered abuse in reporting incidents and calls on the Welsh Government to promote an integrated strategy to tackle domestic and sexual violence.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu nifer y menywod sydd mewn sefyllfa o bŵer a dylanwad yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to examine ways to increase the number of women in positions of power and influence in Wales.

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the amended motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Mae'r cynnig diwygiedig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd cynnig NDM5174 fel y'i diwygiwyd.*

*Motion NDM5174 as amended agreed.*

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 4.41 p.m.*

*Peter Black took the Chair at 4.41 p.m.*

# Ymateb Gweinidogion Cymru i Argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau Iaith Gymraeg

# The Welsh Ministers' Response to the Welsh Language Commissioner's Proposals for Welsh Language Standards

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NNDM5176 Jane Hutt

Motion NNDM5176 Jane Hutt

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

That the National Assembly for Wales:

1. yn nodi bod:

1. Notes that:

(a) y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg;

(a) the Minister for Education and Skills has decided not to proceed with the Welsh Language Commissioner's proposed Welsh language standards;

(b) y Gweinidog nawr yn bwriadu adeiladu ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, i ddatblygu cyfres o safonau a fydd yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg, o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(b) the Minister now intends to build on the Welsh Language Commissioner's consultation to develop a set of standards which will see rights established for Welsh speakers, with regard to Welsh language services; and

(c) y Gweinidog yn bwriadu gwneud gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, rheoliadau yn gwneud y gyfres gyntaf o safonau, a gwneud y safonau hynny yn benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

(c) the Minister intends to make, with the National Assembly's approval, regulations making standards, and making the standards specifically applicable to persons, by the end of 2014.

16:41

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Education and Skills to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig.

16:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Bydd Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi yr wythnos diwethaf fy mhenderfyniad i beidio â chefnogi cynigion Comisiynydd y Gymraeg ynghylch safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Heddiw, byddaf yn esbonio sut y gwneuthum y penderfyniad hwnnw a beth yw'r camau nesaf sydd angen eu cymryd er mwyn creu safonau cyn gynted ag y bo modd.

Members will be aware that, last week, I announced my decision not to support the Welsh Language Commissioner's proposals for Welsh language standards. Today, I will explain how I came to that decision and what the next steps will be in order to make Welsh language standards as soon as possible.

Mae peth o’r drafodaeth gyhoeddus a ddilynodd fy mhenderfyniad yn awgrymu efallai bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â’r broses, rôl y comisiynydd a fy rôl i fel Gweinidog. Credaf y byddai’n ddefnyddiol i mi atgoffa Aelodau, felly, mai Gweinidogion Cymru sy’n creu’r safonau gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rydym wedi ein hethol yn ddemocrataidd, ac mae ond yn iawn a phriodol mai yma y dylid penderfynu pa ystod o ddyletswyddau iaith Gymraeg a allai fod yn addas i’w gosod ar amrediad eang o sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau i bobl Cymru.

Gyda golwg ar ddatblygu safonau, mae’r Mesur yn darparu pwerau i Gomisiynydd y Gymraeg gyflawni ymchwiliad safonau. Wrth gynnal ymchwiliad o’r fath, mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r comisiynydd ystyried yr angen i sicrhau nad yw’r gofynion ar bersonau i gydymffurfio â safonau yn afresymol nac yn anghymesur. Yn dilyn ymchwiliad safonau, mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiynydd baratoi adroddiad safonau, a bod Gweinidogion yn rhoi sylw priodol i’r adroddiad hwnnw.

Yn yr achos hwn, dewisodd y comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad safonau statudol. Yn lle hynny, cynhaliodd ymgynghoriad anstatudol gydag ystod eang o sefydliadau. Er hynny, anfonodd hi ei hargymhellion ataf yn dilyn yr ymgynghoriad. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth briodol i’r argymhellion hynny. Penderfynais na fyddwn yn cyflwyno ei chynigion fel y’i drafftiwyd, ac esboniais fy rhesymau dros wneud hynny mewn llythyr at y comisiynydd yr wythnos diwethaf. Rwyf wedi rhannu’r llythyr gydag Aelodau’r Cynulliad.

Nid yw fy mhenderfyniad yn tanseilio rôl y comisiynydd. Yn wir, mae’n cadarnhau annibyniaeth y comisiynydd ar y Llywodraeth. Mae hi’n parhau yn bencampwraig dros yr iaith, yn annibynnol ar y Llywodraeth, yn enwedig o ran ei rôl rheoleiddio.

Mewn llythyr at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ym mis Mehefin 2010, esboniodd Alun Ffred Jones, y Gweinidog Treftadaeth bryd hynny, beth oedd y broses yr oedd disgwyl iddi gael ei dilyn wrth ddatblygu safonau. Roedd y broses a ddisgrifiodd yn dechrau gydag ymchwiliad safonau statudol, yn unol ag adran 61 i 64 o’r Mesur. Cafodd y disgwyliad bod y broses yn dechrau gydag ymchwiliad safonau statudol ei ailadrodd mewn dogfen a gyflwynodd fy swyddogion i’r comisiynydd ym mis Ionawr 2012. Roedd y ddogfen yn cyflwyno mewn manylder beth oedd y camau i’w dilyn. Roedd y ddogfen hefyd yn cyfeirio at y ffaith y byddai’n ddymunol pe bai’r ymchwiliad yn helpu i baratoi asesiad effaith rheoleiddiol. Ategwyd hynny mewn llythyr at y comisiynydd gan gyfarwyddwr cyffredinol yr Adran Addysg a Sgiliau ym mis Awst 2012.

Some of the public debate following my decision suggests that there may be some confusion about the process, the role of the commissioner and my role as Minister. As such, I think it might be useful if I were to remind Members that, in accordance with the Welsh Language (Wales) Measure 2011, standards are made by the Welsh Ministers with the approval of the Assembly. We are democratically elected and it is right and proper that this place should determine what range of Welsh language duties could be appropriate to impose on a wide range of organisations that provide services to the people of Wales.

With regard to the development of standards, the Measure provides powers for the Welsh Language Commissioner to undertake a standards investigation. In carrying out such an investigation, the Measure requires that the commissioner must have regard to the need to secure that the requirements for persons to comply with standards are not unreasonable or disproportionate. Following a standards investigation the Measure requires the commissioner to prepare a standards report, and for Ministers to have due regard to that report.

In this case, the commissioner chose not to undertake a statutory standards investigation, and conducted a non-statutory consultation with a wide range of organisations instead. Even so, she sent me her recommendations following her consultation. I have given due regard to those recommendations. I decided that I will not be bringing forward her proposals as drafted, and my reasons for this were set out in my letter to the commissioner, last week. I have shared that letter with Assembly Members.

My decision does not undermine the role of the commissioner. Indeed, it confirms the independence of the commissioner from Government. She remains a champion for the language, independent of Government, particularly with regard to her regulatory role.

In a letter to Legislation Committee No. 2 in June 2010, Alun Ffred Jones, the then Minister for Heritage, outlined the process he expected would be followed as standards were developed. The process he described began with a statutory standards investigation, as set out in sections 61 to 64 of the Measure. The expectation that the process should begin with a statutory standards investigation was reiterated in a document presented by my officials to the commissioner in January 2012, which set out in detail the steps to be followed. The document referred to the desirability of ensuring that the investigation should assist with the preparation of a regulatory impact assessment. This was reiterated in a letter to the commissioner from the director general of the Department for Education and Skills in August 2012.

Yn ei hadroddiad i mi, ni wnaeth y comisiynydd gynnwys ei barn am yr angen i sicrhau nad yw'r gofynion ar unigolion sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau yn afresymol na'n anghymesur. Nid yw ei hadroddiad ychwaith yn cynnig tystiolaeth a fyddai'n cynorthwyo i baratoi asesiad effaith rheoleiddiol. Mae gennyf nifer o bryderon am y safonau mae'r comisiynydd wedi'u cynnig. Mae ystyr rhai ohonynt yn aneglur, mae rhai yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Mesur, mae rhai safonau yn gwrthddweud ei gilydd, a byddai rhai safonau yn afresymol ac yn anghymesur i nifer fawr o gyrff.

In her report to me, the commissioner did not provide me with her views on the need to ensure that requirements for persons to comply with standards are not unreasonable or disproportionate, nor does her report offer the evidence that would assist with the preparation of a regulatory impact assessment. I also have a number of concerns with regard to the commissioner's proposed standards. Some are unclear in their meaning, some go beyond the scope of the Measure, some standards contradict other standards, and some of the standards would be unreasonable and disproportionate for a great many organisations.

Er enghraifft, mae safon 1(b) yn nodi wrth gyflenwi gwasanaethau rhaid

For example, standard 1(b) states that, in the delivery of services

'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

'the Welsh language must be treated no less favourably than the English language'.

Egwyddor yw hon—egwyddor sy'n ganolog i'r Mesur, ac mae'r geiriad yn anaddas ar gyfer safon. O ystyried cyrhaeddiad eang a chyffredinol y safon hon ar draws holl weithgareddau sefydliad, byddai hysbysiadau cydymffurfio'r comisiynydd yn rhy gymhleth a byddai'n anodd i aelod o'r cyhoedd ddeall pa wasanaethau ddylai fod ar gael yn Gymraeg.Gallai'r broses gamarwain y cyhoedd. Mewn sawl achos, mae'n bosibl y byddai'r gwasanaethau sydd ar gael yn is na'r argraff y mae'r safon yn ei rhoi. Yn hynny o beth, ni fyddai safonau'r comisiynydd yn cyrraedd y nod polisi o ddarparu hawliau ieithyddol clir i ddinasyddion.

This is a principle enshrined in the Measure, and the form of words is not suitable for a standard. Given the broad, overarching reach of this standard over all of an organisation's activities, the commissioner's compliance notices would be complex and would make it difficult for a member of the public to understand what Welsh language services should be available. This process could mislead the public, in that the services provided would, in many cases, fall short of the impression given to them by the standard. As such, the commissioner's standards would not achieve our shared policy aim of providing clear linguistic rights for citizens.

16:48

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Ar y pwynt hwnnw, a all y Gweinidog gadarnhau ei fod yn rhagweld llunio safonau cwbl newydd fel Llywodraeth, fel yr awgrymodd yn y datganiad yr wythnos diwethaf, ynteu a yw safonau'r comisiynydd yn gynsail i'r safonau newydd? Mae'n ymddangos i mi ei fod yn awgrymu bod y dynesiad a gymerodd y comisiynydd yn anghywir o'r cychwyn cyntaf.

On that point, can the Minister confirm that he foresees that the Government will write completely new standards, as he suggested in last week's statement, or will the commissioner's standards form the basis for the new standards? It seems to me that he is suggesting that the approach taken by the commissioner was flawed from the very beginning.

16:49

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Dywedais yr wythnos diwethaf bod yn rhaid inni adeiladu ar safonau'r comisiynydd ac rydym ni, yn fy adran, yn edrych ar y safonau wrth ddatblygu safonau newydd.

I said last week that we must build on the commissioner's standards and, in my department, we are looking at those standards in developing new standards.

Byddai gosod safonau eang yn golygu y byddai rhaid i'r comisiynydd roi'r manylion am beth yn union y mae disgwyl i gyrff ei wneud yn yr hysbysiadau cydymffurfio. Byddai hynny yn newid y pwyslais o ran yr atebolrwydd democrataidd a gafodd ei ragweld pan gymeradwywyd y Mesur. Yn ogystal, mae'r model y mae'n ei gynnig o ran gosod dyletswyddau yn fwy cymhleth na'r broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu a chymeradwyo cynlluniau iaith, ac felly yn gam yn ôl o ran y nod o leihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau i'w galluogi i ganolbwyntio ar wella darpariaeth gwasanaethau iaith Gymraeg.

Setting broadly scoped standards would also result in the commissioner determining the details of what bodies are expected to do, by means of her compliance notice. That would change the emphasis in terms of democratic accountability from what was foreseen when the Measure was passed. In addition, the model she proposes with regard to the imposition of duties is more complex than the process used to develop and approve Welsh language schemes and would, therefore, be a step backwards with regard to the aim of reducing the administrative burden on organisations to enable them to focus on improving the delivery of Welsh language services.

Yn ogystal â llythyr Alun Ffred at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, atgoffodd y Llywodraeth y comisiynydd o'r broses y disgwylir iddi ei dilyn mewn llythyr gan y cyfarwyddwr cyffredinol ar y pryd, ym mis Awst 2012, a oedd hefyd yn ei hatgoffa o'r angen i sicrhau na ddylai'r disgwyliadau ar unigolion i gydymffurfio â'r safonau fod yn afresymol na'n anghymesur, o'r angen i barhau i leihau biwrocratiaeth, ac o'r angen i sicrhau y dylai'r safonau fod mor glir â phosibl yn nhermau'r hyn y disgwylir i sefydliad ei wneud er mwyn cydymffurfio â hwy. Ailadroddwyd hyn ymhellach mewn llythyr oddi wrth uwch swyddog yn Rhagfyr 2012.

In addition to Alun Ffred's letter to Legislation Committee No. 2, the Government reminded the commissioner about the process expected to be followed, by means of a letter from the then director general, in August 2012, which also reminded her of the need to ensure that the requirements for persons to comply with standards should not be unreasonable or disproportionate, of the need to keep bureaucracy to a minimum, and of the need to ensure that standards should be as clear as possible with regard to what organisations would need to do in order to comply with them. This was reiterated in a further letter from a senior official in December 2012.

Bydd y Llywodraeth yn awr yn gweithredu er mwyn gwireddu amcanion polisi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rwyf am weld sefydlu hawliau clir ar gyfer siaradwyr Cymraeg, yn nhermau gwasanaethau Cymraeg. Rwyf am sicrhau bod siaradwyr Cymraeg, a'r sefydliadau sy'n eu gwasanaethu, mor glir â phosibl ynglŷn â beth mae'r hawliau hynny'n golygu'n ymarferol. Rwyf am leihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg fel eu bod yn gallu canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau hynny.

The Government will now act in order to deliver the policy aims behind the Welsh Language (Wales) Measure 2011. I want to see clear rights established for Welsh speakers, with regard to Welsh language services. I want to ensure that Welsh speakers and the organisations that serve them are as clear as possible about what those rights mean in practice. I want to reduce the administrative burden on organisations required to deliver Welsh language services, so that they can focus on improving the delivery of those services.

Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r weledigaeth a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod taith y Mesur, ac rwy'n hollol ymroddedig i wireddu'r weledigaeth hon. Gallaf sicrhau Aelodau nad ar chwarae bach y cymerais y penderfyniad i beidio â chefnogi safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg. Gwnes y penderfyniad ar ôl ystyriaeth ofalus o gyngor polisi a chyfreithiol.

These aims reflect the vision presented to the National Assembly for Wales during the passage of the Measure, and I am fully committed to delivering that vision. I can assure members that I did not take the decision not to support the Welsh Language Commissioner's proposed standards lightly. My decision followed careful consideration of policy and legal advice.

Rwyf wedi sôn o'r cychwyn cyntaf fy mod yn benderfynol o wneud y safonau iaith cyntaf cyn gynted â phosibl. Yn dilyn y broses a ragwelwyd yn ystod cyfnod craffu'r Mesur, rwy'n amcangyfrif y byddaf yn gallu creu'r safonau cyntaf cyn diwedd 2014. Nid wyf felly yn derbyn gwelliant cyntaf Aled Roberts, ond rwy'n hapus i dderbyn yr ail welliant, a chyhoeddi amserlen. Bydd yr amserlen hon yn arwain at yr hysbysiad cydymffurfio cyntaf yn cael ei osod yn gynharach nag yn y model a gyflwynwyd gan y comisiynydd, lle byddai dau set o reoliadau wedi cael eu creu fisoedd ar wahân. Rwy'n amcangyfrif y byddai dilyn y broses a argymhellwyd gan y comisiynydd wedi arwain at oedi tan o leiaf canol 2015. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw ein bod yn symud ymlaen gyda drafftio'r safonau. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau ar y broses hon.

I have said from the beginning that I am determined to make the first Welsh language standards as soon as possible. I estimate that, following the process envisaged during scrutiny of the Measure, I will be able to make the first standards before the end of 2014. I therefore reject Aled Roberts's first amendment, but I am happy to accept the second amendment, and publish a timetable. This timetable will result in the first compliance notices being imposed quicker than in the commissioner's proposed model, whereby two sets of regulations would have be made, months apart. I estimate that following the process recommended by the commissioner would result in a delay to at least mid 2015. What is important now is that we move forward with drafting the standards. My officials have already started this course of action.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1-Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu ein bod, dros ddwy flynedd ar ôl pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn parhau i fod yn bell iawn o fabwysiadu cyfres ffurfiol o safonau ar gyfer gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.*

*Regrets that, over two years after the Welsh Language (Wales) Measure 2011 was passed, we are still a long way from the adoption of a formal set of standards for Welsh language services.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2-Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen weithredu fanwl ar gyfer cyflwyno safonau iaith Gymraeg erbyn 2014.*

*Calls on the Welsh Government to publish a detailed timetable of action for the introduction of Welsh language standards by 2014.*

16:54

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn fy enw i.

I move amendments 1 and 2 in my name.

Yn y lle cyntaf, mae'n ofynnol arnaf i dderbyn, fel y dywedodd y Gweinidog, mai safonau Gweinidogion Cymru yw safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac felly derbyniaf fod hawl gan y Gweinidog i'w haddasu yn ôl yr angen, eu cyflwyno, neu eu gwrthod wedi iddynt gael eu drafftio gan y comisiynydd iaith. Rwyf hefyd yn diolch iddo am yr esboniad technegol a gawsom ddoe gan y gweision sifil, ac rwy'n credu ei fod o gymorth inni ei fod wedi rhannu'r llythyr o esboniadau a anfonwyd at y comisiynydd yn ystod yr wythnos.

In the first place, it is incumbent upon me to accept, as the Minister said, that the standards of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 are the Welsh Ministers' standards, so I accept that the Minister has the right to amend them as necessary, to introduce them or to reject them as drafted by the language commissioner. I also thank him for the technical explanation given to us yesterday by civil servants, and I believe that it has helped that he has shared with us the letter of explanation sent to the commissioner during the week.

Mae'r gwelliannau yn ceisio tanlinellu rhwystredigaeth ein plaid bod bron dwy flynedd ers llunio'r Mesur, ac rydym yn dal mewn sefyllfa lle mae addewid o safonau. Rwy'n derbyn beth ddywedodd y Gweinidog o ran ceisio cael safonau ar waith erbyn 2014, ond mae cryn rwystredigaeth o gofio canlyniadau'r cyfrifiad, a oedd yn siom i lawer iawn ohonom.

The amendments seek to underline our party's frustration that nearly two years have gone by since the Measure was formed, and we are still in a situation where standards have been promised. I accept what the Minister said in terms of having standards in place by 2014, but there is quite a bit of frustration, bearing in mind the census results, which many of us found to be disappointing.

Mae gwelliant 2 yn ceisio symud pethau ymlaen, ac rwy'n croesawu bod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn barod i gyhoeddi'r amserlen, er mwyn i ni fel Cynulliad wybod yn union beth yw'r amserlen mae'r Llywodraeth yn gweithio iddi.

Amendment 2 seeks to move things forward, and I welcome that the Minister has said that he is willing to publish the timetable, so that we as an Assembly know exactly to what timetable the Government is working.

Mae cryn ddryswch o ran yr esboniad a gawsom gan y gweision sifil ddoe, ac sydd wedi ei danlinellu gan y Gweinidog heddiw, sef bod y Llywodraeth o'r farn bod y broses yr aeth y comisiynydd drwyddi y llynedd yn annerbyniol ac efallai ddim yn gyfreithiol. Mae'n glir bod y comisiynydd, wrth iddi geisio dilyn llwybr ymgynghoriad, yn credu bod yr ymgynghoriad hwnnw yn rhan o'r ymchwiliad safonau mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato eisoes. Felly, mae gwahaniaeth barn, a'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn gan lawer yw: sut rydym wedi cyrraedd y sefyllfa hon, lle mae gwahaniaeth barn ynglŷn â'r broses yn creu mwy o oedi?

Quite a bit of confusion surrounds the explanation given by the civil servants yesterday, as underlined by the Minister today, that the Government believes that the process undertaken by the commissioner last year was unacceptable and possibly unlawful. It is clear that the commissioner, as she attempted to go down the route of consultation, believed that that consultation formed part of the standards investigation to which the Minister has already referred. Therefore, there is a difference of opinion, and the question that is being asked by many is: how have we reached this situation, where a difference of opinion about the process is leading to more delay?

Rwy'n teimlo bod nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod rhaid i'r comisiynydd wybod yn union beth oedd yr ymateb i natur y safonau a oedd yn cael eu hargymell gan y comisiynydd iaith. Mae'n debyg bod y Llywodraeth yn disgwyl mai'r ymchwiliad safonau oedd i ddechrau'r broses, a bod yr ymgynghoriad yn digwydd ar ôl yr ymchwiliad hwnnw. Fodd bynnag, yn hytrach na mynd yn ôl dros amser, rydym yn awyddus iawn i'r safonau hyn gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a'n bod yn symud ymlaen. Mae'n bwysig ein bod yn cadw at y consensws a welwyd yn ystod y trafodaethau ynglŷn â'r Mesur iaith. Wrth i'r gweision sifil fynd ati i ddrafftio'r safonau, a yw'r Gweinidog yn credu bod angen mwy o ymgynghoriad ynglŷn â natur y safonau drafft, ynteu a fydd yn rhoi'r gwaith hwn i'r gweision sifil ac yn dod â'r safonau drafft gerbron pwyllgor y Cynulliad er mwyn i ni drafod ein hymateb iddynt fel gwleidyddion?

I feel that the number of responses to the consultation demonstrates that the commissioner must know the details of the response to the nature of the standards recommended by the language commissioner. It seems that the Government expects the process to start with the standards investigation, and that the consultation should follow that. However, rather than go backwards, we are very keen for these standards to be presented to the Assembly and for us to move forward. It is important that we maintain the consensus seen during debates on the language Measure. As civil servants set about drafting the standards, does the Minister believe that more consultation is required on the nature of the draft standards, or will he give this task to civil servants and bring draft standards before the Assembly for us to discuss as politicians?

Mae elfennau ac egwyddorion y mae'n rhaid eu tanlinellu. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn yr egwyddor bod hawl gan unrhyw un yng Nghymru i wasanaethau yn y Gymraeg, lle bynnag mae'r unigolyn hwnnw yn byw. Mae gennyf brofiad o fyw yn y gogledd-ddwyrain, lle nad oedd fy mhlant yn siarad Saesneg cyn eu bod yn dair oed, ond wrth gael triniaeth feddygol ac ati, roedd yn rhaid i ni fel rhieni gyfieithu ar eu cyfer. Nid yw hynny yn dderbyniol yn 2013. Mae'n rhaid inni gael y drafodaeth hon er mwyn osgoi sefyllfa lle mae gweision sifil a'r Gweinidog yn cyflwyno safonau iaith drafft nad ydynt yn dderbyniol o ran egwyddor i rai ohonom yn y Cynulliad.

There are elements and principles that must be underlined. I hope that the Minister will accept the principle that all the people of Wales have the right to receive services in Welsh, wherever they live. I have experience of living in north-east Wales, where my children did not speak English until they were three years old, but when receiving medical treatment and so on, we as parents had to translate for them. That is unacceptable in 2013. We must have this debate so that we can avoid a situation in which civil servants and the Minister introduce draft language standards that are unacceptable, as a matter of principle, to some Assembly Members.

16:59 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw. Roedd yn anffodus i Simon Thomas orfod gofyn am ddadl frys, gan achosi gohirio Rheolau Sefydlog, er mwyn i hyn gael ei roi gerbron y Cynulliad heddiw. Yn dilyn pryderon a godwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol, gofynnodd Aelodau am ddadl ar adroddiad y comisiynydd—dadl gan y Llywodraeth, yn yr un modd â holl adroddiadau'r comisiynwyr a ddaw gerbron y Cynulliad. Nid dyma'r unig dro i Aelodau wneud cais o'r fath. Weinidog, rwy'n derbyn bod cyflwyno'r safonau newydd a ragwelwyd ym Mesur 2011 yn fater i chi. Felly, pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd tuag at gyflwyno'r rheoliadau hynny? Dim ond heddiw rydych yn sôn yn y Siambr am symud ymlaen.

Thank you for the opportunity to speak in this debate today. It was unfortunate that Simon Thomas had to ask for an urgent debate, leading to the suspension of Standing Orders, so that this could be placed before the Assembly today. Following concerns raised in a meeting of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, Members asked for a debate on the commissioner's report-a Government debate, as is afforded to all commissioner reports that come before the Assembly. This is not the first time that a Member has made such an application. Minister, I accept that putting forward the new standards, as envisaged in the 2011 Measure, is a matter for you. Therefore, what steps have you taken towards introducing those regulations? Today, you have spoken in the Chamber about moving forward.

Nid oeddwn yn Aelod pan basiodd y Cynulliad y Mesur, ond hyd y gwelaf o wyneb y Mesur, nid oes gan y comisiynydd rôl ffurfiol o ran paratoi safonau drafft ar gyfer y Llywodraeth. Pam fyddai ganddi'r fath rôl? Mae hi'n annibynnol. Serch hynny, o fewn ei chyfrifoldebau ehangach, fel y nodir yn adrannau 3 a 4 o'r Mesur, mae'n briodol iddi baratoi adroddiad gydag argymhellion ar gyfer sut gallai'r safonau edrych efallai, a'i phenderfyniad hi'n llwyr fyddai sut i wneud hynny. Cyflawnwyd y gwaith hwnnw ac, yn ei hadroddiad ym mis Tachwedd, derbyniodd y comisiynydd bod anawsterau o ran rhoi rhai o'i hawgrymiadau cyntaf ar waith, er eu bod yn ymddangos yn dderbyniol mewn egwyddor. Efallai na fydd yr awgrymiadau yn gwbl addas, ond mae'r adroddiad yn dal i fod yn ddefnyddiol er mwyn llywio'r Gweinidog wrth iddo barhau i ddatblygu'r gwaith o ddrafftio safonau swyddogol, fel y mae barn Aelodau ar ei hargymhellion. Rhaid i'r Gweinidog roi sylw dyledus i'r adroddiad; dim mwy, rwy'n gwybod. Fodd bynnag, yn sicr byddai'n fanteisiol iddo wybod beth yw barn Aelodau, yn arbennig gan ei fod yn gwrthod yr argymhellion yn llwyr. Fel Cynulliad, rydym yn falch o gael cyfle i drafod argymhellion a wneir gan gomisiynwyr annibynnol ac i herio Gweinidogion ynglŷn â'u rhesymau dros wrthod y cyfryw argymhellion. Efallai y byddant yn cytuno â rhai elfennau, fel biwrocratiaeth, ac yn cefnogi barn y comisiynydd ar faterion eraill, fel hysbysebion.

I was not a Member when the Assembly passed the Measure, but as far as I can see, on the face of the Measure the commissioner does not have a formal role in preparing draft standards for the Government. Why would she have such a role? She is independent. Despite that, within her wider responsibilities, as noted in sections 3 and 4 of the Measure, it is appropriate for her to prepare a report with recommendations as to how the standards might look, and how to do that would be her decision entirely. That work was completed and, in her report in November, the commissioner accepted that there were difficulties with implementing some of her first proposals, although they appeared to be acceptable in principle. Perhaps the suggestions were not wholly appropriate, but the report is still useful in directing the Minister as he continues to develop the work of drafting official standards, as is the opinion of Members on her recommendations. The Minister must give due regard to the report. He does not have to give more than that. However, it would be advantageous for him to know the opinion of Members, especially as he has rejected the recommendations in their entirety. As an Assembly, we are pleased to have an opportunity to discuss recommendations made by independent commissioners and to challenge Ministers on their reasons for rejecting those recommendations. Perhaps they will agree on some elements, for example, bureaucracy, but support the commissioner's opinion in other regards, such as advertisements.

Rhaid imi ofyn ichi, Weinidog, pan roedd y comisiynydd yn casglu gwybodaeth ac yn cyflwyno awgrymiadau, beth oeddech chi'n ei wneud? Mater i chi yw'r rheoliadau. Pa waith paratoi yr ydych chi wedi'i wneud? Pa waith ymgynghori a ydych chi wedi'i wneud i ganfod effaith eich geiriad dewisol ar y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddo? Pasiwyd y Mesur yn 2011. Dyma beth rydych wedi bod yn ei wneud: cysylltodd eich swyddogion â'r comisiynydd ym mis Rhagfyr 2011, gan ddweud eu bod am roi cyflwyniad ar sut i baratoi adroddiad a fyddai'n eich helpu i baratoi asesiad effaith rheoleiddiol. A yw hi wir yn briodol i Weinidog wneud cais o'r fath i gomisiynydd annibynnol? Pa waith oedd eich adran yn ei wneud i lunio asesiad effaith rheoleiddiol? Yn ystod gwanwyn y llynedd, ymgynghorodd y comisiynydd ynglŷn â rhai o'i syniadau ar gyfer safonau drafft, felly byddai wedi bod yn briodol ichi gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad annibynnol hwnnw gyda'ch pryderon. Wrth i'r ymgynghoriad ddod i ben, anfonodd Emyr Roberts o'ch adran chi lythyr nad oedd yn ymateb, ond a oedd yn tynnu sylw'r comisiynydd at egwyddorion allweddol y Mesur. Pam oedd swyddog o'r Llywodraeth yn ei gweld hi'n briodol i gyflwyno cyngor nas gofynnwyd amdano i gomisiynydd annibynnol? Nododd y llythyr hefyd y byddai'r comisiynydd, o bosibl, yn dymuno helpu'r Gweinidog ymhellach drwy gynnal ymchwiliad safonau yn unol â thelerau'r Mesur. Mae adrannau perthnasol y Mesur yn cyfeirio'n glir at safonau, ac nid safonau drafft nac at safonau drafft a argymhellir gan y comisiynydd annibynnol. Felly, nid wyf yn siŵr y gallai'r comisiynydd fod wedi cydsynio, hyd yn oed pe bai'n barod i beryglu ei statws annibynnol. Yn y cyfamser, ymddengys na roddwyd unrhyw gynigion gerbron gan y Llywodraeth ac ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ar effaith bosibl ei syniadau; ni wnaethpwyd unrhyw beth ond aros i weld pa awgrymiadau a fyddai'n dod i law gan y comisiynydd ac wedyn ceisio llywio ei barn drwy ohebiaeth a sgyrsiau cynorthwyol.

I must ask you, Minister, when the commissioner was gathering information and putting forward suggestions, what were you doing? The regulations are a matter for you. What preparatory work have you done? What consultations have you held to find out the effect of your chosen wording on those who are likely to be affected by it? The Measure was passed in 2011. This is what you have been doing: your officials contacted the commissioner in December 2011, saying that they would be giving a presentation on how to prepare a report that would help you to prepare a regulatory impact assessment. Is it really appropriate for a Minister to make such an application to an independent commissioner? What work was your department doing to prepare a regulatory impact assessment? In the spring of last year, the commissioner consulted on some of her proposals for draft standards, so it would have been appropriate for you to introduce your response to that independent consultation voicing your concerns. As the consultation closed, Emyr Roberts from your department sent a letter that was not a response, but that drew the commissioner's attention to key principles of the Measure. Why did a Government official feel it appropriate to put forward advice that was not asked for to an independent commissioner? The letter also stated that the commissioner may wish to help the Minister further by conducting a standards investigation in accordance with the Measure's conditions. The Measure refers clearly to standards, not draft standards or indeed draft standards recommended by the independent commissioner. So, I am not entirely sure that the commissioner could have consented, even if she were willing to endanger her independent status. In the meantime, it appears that no proposals were put forward by the Government and neither was a consultation held on the possible effects of its ideas; nothing was done except that it waited to see what suggestions would be put forward by the commissioner and then tried to direct her opinion through correspondence and helpful chats with her.

17:04

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf hefyd yn falch o'r cyfle i gyfrannu at ddadl heddiw, ac rwy'n falch iawn gweld, beth bynnag ein barn ar y safonau, ein bod i gyd yn unedig yn ein cefnogaeth a'n parch i'r iaith a'i statws. Rwyf hefyd yn falch bod y pwnc dan drafodaeth yn mynnu cymaint o sylw cryf a phendant, ond, cyn cychwyn, credaf ei bod yn bwysig cofio'r darlun ehangach, mai Cymru fydd y wlad gyntaf yn y byd â safonau iaith ac mae'n rhaid inni eu cael nhw'n iawn.

I am also pleased to have the opportunity to contribute to today's debate, and I am very pleased to see that, whatever our opinion on the standards, we are all united in our strong support and great respect for the language and its status. I am also pleased that the subject in question is attracting so much attention, but, before I begin, I think that it is important to remember the broader picture, that Wales will be the first country in the world with language standards and we must get them right.

Cefnogaf y Gweinidog ar ei benderfyniad. Mae wedi dyfynnu sawl reswm eglur a phendant dros yr hyn a benderfynwyd, ac rwy'n siŵr nad yw wedi ei gymryd yn ysgafn. Nid oes amheuaeth bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn y pythefnos diwethaf, cafwyd esiamplau gwych o hyn: pasio'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n rhoi cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg ar lefel statudol, a'r grantiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog addysg i fudiadau sy'n dathlu'r Gymraeg, er enghraifft, mae'r Urdd yn cael dros £800,000.

I support the Minister on his decision. He has mentioned several clear and definite reasons for his decision, and I am sure that that decision was not taken lightly. There is no doubt that the Welsh Government's aim is ensuring that the Welsh language is not treated less favourably than English. In the past fortnight, there have been excellent examples in this regard: the passing of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, which places the strategic Welsh in education schemes on a statutory footing, and the grants announced by the Minister for education for groups that celebrate the Welsh language, for example, the Urdd receives over £800,000.

I symud at drywydd technegol, dywed y Gweinidog bod angen safonau cliriach a symlach, a'i fod wedi eu gwrthod yn dilyn cyngor cyfreithiol ac oherwydd gweledigaeth polisi. Hefyd, ni chafwyd ymchwiliad safonau, er bod y Gweinidog wedi gofyn am hyn. Mae’r comisiynydd nawr wedi datgan y bydd yn cynnal ymchwiliadau safonau ym mis Medi 2013 gyda sefydliadau o flaenoriaeth.

To move to more technical matters, the Minister says that clearer and simpler standards are needed, and that he has rejected them in the light of legal advice and due to his policy vision. Also, a standards investigation was not held, even though the Minister had asked for that. The commissioner has now stated that she will hold a standards investigation in September 2013 with priority institutions.

Ar y ddadl nad ydym wedi cyflwyno safonau erbyn hyn, yn gyntaf mae angen i ni gyflwyno safonau priodol sy’n ateb y gofyn neu byddwn yn tanseilio union nod y Mesur iaith. Yn ail, bydd y safonau o dan y Gweinidog yn dod mewn yn 2014, nid 2015. Yn drydydd, dim ond am 11 mis y mae swyddfa’r comisiynydd wedi bod mewn bodolaeth. Felly, nid wyf yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

In response to the argument that we have not yet introduced standards, first of all we need to put forward appropriate standards that are fit for purpose or we will undermine the exact aims of the language Measure. Secondly, the standards to be put forward by the Minister will come in 2014, not 2015. Thirdly, the commissioner's office has only existed for 11 months, so I do not support amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Rwy’n falch o’r gwaith dwfn a chaled a wnaed gan y comisiynydd yn y maes, yn enwedig gan nad oedd ymgynghoriad yn statudol angenrheidiol. Gweithredwyd oherwydd y gred ei bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth, ac mae’n siŵr felly y bydd y trafodaethau a’r pwyntiau hyn yn ffurfio sylfaen ar gyfer gweithredu o hyn ymlaen. Mae’r comisiynydd ei hun wedi dweud mai safonau gweinidogol ydynt ac, yn sgîl hynny, mae’n ddealladwy y byddai’r Gweinidog yn mo’yn eu haddasu, sy’n creu’r sefyllfa orau, mewn ffordd, ar gyfer y cydweithio sydd i ddod rhwng Llywodraeth Cymru a’r comisiynydd. Mae’r ymgynghoriad yn darparu sylfaen arbennig ac yn sicr wedi agor y drafodaeth ar ba fath o safonau sydd eu hangen arnom yng Nghymru.

I am pleased with the far-reaching and hard work that the commissioner has done on this issue, especially as the consultation was not a statutory necessity. It was undertaken because of the belief that it would raise awareness, and it is true therefore that these discussions and the points raised will form the basis for action from now on. The commissioner herself says that they are ministerial standards and, with that in mind, it is understandable that the Minister would wish to adapt them. In a way, that creates the best circumstances for future collaboration between the Welsh Government and the commissioner. The consultation lays a firm foundation and has certainly sparked a debate on what kinds of standards are needed in Wales.

Dywed rhai bod hyn yn dangos nad yw’r comisiynydd yn wirioneddol annibynnol. Y gwir amdani yw nad wyf yn credu hyn ac rwy’n cytuno â’r Gweinidog mai gwir brawf annibyniaeth yw’r gallu i gyflwyno safonau, cynigion neu unrhyw waith arall na fydd y Llywodraeth, yn y pen draw, yn cytuno â nhw, a dyna’r hyn sydd wedi digwydd. Rwy’n edrych ymlaen at weld y safonau newydd ac rwy’n siŵr y byddwn i gyd yn eu derbyn. Diolch.

Some say that this is a sign that the commissioner is not truly independent. The truth of the matter is that I do not believe that and I agree with the Minister that the real proof of independence is the ability to introduce standards, to make proposals or to put forward any other work that the Government may, ultimately, disagree with, and that is what has happened. I look forward to seeing the new standards and I am sure that we will all accept them in due course. Thanks.

17:08

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i’r Gweinidog am gyflwyno’r ddadl hon. Roeddwn yn ofni na fyddem yn cael dadl o fewn amser y Llywodraeth ar y mater pwysig hwn. Fodd bynnag, rydym wedi cyrraedd at y mater nawr. Mae safbwynt Plaid Cymru’n ddigon clir: mae angen safonau cryf sy’n gosod hawliau a dyletswyddau ieithyddol cyn gynted ag sy’n bosibl, ac mae angen i’r rheini fod yn rymus ac yn gadarn ac yn dderbyniol yn gyfreithiol hefyd.

I thank the Minister for opening this debate. I had feared that we would not get a debate in Government time on this important issue. However, we have done so today. Plaid Cymru's stance is quite clear: we need to see robust standards that put language rights and duties in place as soon as possible, and we need those to be strong and robust and legally acceptable too.

Mae'n anodd gwybod sut rydym wedi cyrraedd at y sefyllfa bresennol; mae'n sefyllfa anffodus, nid oes dwywaith am hynny. Ond, roeddem yn glir mai pwrpas safonau iaith oedd rhoi canllawiau clir ynghylch yr hyn yr ydym yn disgwyl i gyrff a busnesau ei gyflwyno ac y dylent wneud y gwahaniaeth yn glir o ran cyflwyno gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr, a bod angen i'r comisiynydd sicrhau bod y safonau'n ddealladwy i'r cyrff a fydd yn eu gweithredu. Nid ydym yn credu bod modd mynd yn ôl ar yr egwyddor graidd yn y Mesur nad oes modd trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n greiddiol i'r Mesur ac mae'n bwysig bod hynny'n sail i'r holl safonau. Rydym hefyd yn derbyn, wrth gwrs, mai dim ond Gweinidogion Cymru, ac nid y comisiynydd, yn dilyn trafodaeth lawn a chymeradwyaeth gan y lle hwn, sy'n gyfrifol am greu safonau statudol.

It is difficult to know how we have reached the current situation; it is an unfortunate situation-there is no doubt about that. However, we were clear that the purpose of language standards was to give clear guidance on what we expect bodies and businesses to introduce and that they should make the difference in terms of presenting Welsh-language services to users clear, and that there is a need for the commissioner to ensure that the standards can be understood by the bodies that are implementing them. We do not think that we can go back on the core principle in the Measure that the Welsh language should not be treated less favourably than English. That is at the very heart of the Measure and it is important that that underpins the standards as a whole. We also accept, of course, that it is only Welsh Ministers, and not the commissioner, following full discussion and approval by this place, who are responsible for creating statutory standards.

Mae'n amlwg bod y comisiynydd wedi penderfynu, o dan y pŵer sydd ganddi yn y Mesur, i ymgynghori ar safonau drafft yn hytrach na chynnal ymchwiliad ffurfiol i'r safonau. Rwyf i o'r farn nad yw'n glir o gwbl bod yn rhaid i'r comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau, ond bod ymchwiliad safonau pan fydd angen cymhwyso safonau i gyrff neu grwpiau o bobl benodol. Wedi dweud hynny, mae hefyd yn ddigon clir bod y Llywodraeth o farn wahanol a'i bod wedi mynegi'r farn honno sawl gwaith wrth y comisiynydd. Rwy'n derbyn bod y comisiynydd yn annibynnol ac nad oes yn rhaid i'r comisiynydd wrando ar y Llywodraeth, ond mae hefyd yn wir i ddweud os yw rhywun yn dweud wrthych fwy nag unwaith mai fel hyn y byddent yn dymuno gweld rhywbeth yn cael ei wneud er mwyn hwyluso'r broses ddeddfwriaethol sy'n dilyn, byddai'n ddoeth talu rhywfaint o sylw i hynny. Un peth sydd ar goll yn y ffordd mae'r comisiynydd wedi ei gwneud hi, mae'n amlwg, yw nad yw'r Llywodraeth nawr yn teimlo'n ddigon hyderus i baratoi asesiad effaith rheoleiddiol, sydd yn greiddiol i unrhyw fath o is-ddeddfwriaeth yr ydym yn ei gwneud yn y lle hwn. Felly, er ein bod yn derbyn bod y comisiynydd wedi bod yn hollol bropor yn yr hyn mae hi wedi ei wneud, mae'n amlwg bod cyfathrebu rhwng y Llywodraeth a'r comisiynydd wedi bod yn wael ac yn wan ac nad oedd yn ddigon clir pwy oedd yn gwneud beth er mwyn hwyluso gwaith y Gweinidog wrth wneud rheoliadau.

It is clear that the commissioner has decided, under the power given to her in the Measure, to consult on draft standards rather than carry out a formal investigation into the standards. I am of the opinion that it is not clear at all that the commissioner has to carry out a standards investigation, but that there is a standards investigation when standards need to be applied to specific bodies or groups of individuals. Having said that, it is also quite clear that the Government is of a different opinion and has expressed that opinion on a number of occasions to the commissioner. I accept that the commissioner is independent and does not have to listen to the Government, but it is also true that, if someone tells you more than once that this is how they would like to see something done in order to faciltiate the legislative process that follows, it would be wise to pay some attention to that. One thing that is missing in the way that the commissioner has acted, clearly, is that the Government now does not feel sufficiently confident to prepare a regulatory impact assessment, which is at the heart of of any sub-ordinate legislation that we would make in this place. Therefore, although we accept that the commissioner has acted entirely properly, it is clear the communication between the commissioner and the Government has been poor and deficient and that it was not sufficiently clear who was doing what in order to faciliate the work of the Minister in making regulations.

Mae gennyf hefyd rai cwestiynau ynglŷn â'r panel cynghori. Gwnaethom sefydlu panel cynghori fel rhan o'r Mesur i sicrhau bod lleisiau eraill tu fewn i swyddfa'r comisiynydd a allai gynghori'r comisiynydd ar rai o'r materion hyn. Nid yw'n glir i mi, o'r papurau rwyf wedi eu gweld, y bu gan y panel cynghori hwn unrhyw rôl yn y broses hon a byddwn wedi dymuno meddwl y byddai ganddo rôl yn helpu'r comisiynydd i lunio'r safonau.

I also have some questions about the advisory panel. We established an advisory panel as part of the Measure to ensure that there were other voices within the commissioner's office who could advise the commissioner on some of these issues. It is not clear to me, from the papers that I have seen, that the advisory panel has had any role in this process and I would have liked to have thought that it would have had a role in helping the commissioner to draw up the standards.

Trof at y camau nesaf, achos mae'n bwysig i Blaid Cymru ein bod yn gweld safonau yn cael eu gweithredu a bod hynny'n digwydd yn fuan. Nid yw'n glir i mi, serch hynny, pwy yn awr a fydd yn cynnal yr ymchwiliad safonau mae'r Llywodraeth yn ei ystyried yn hollbwysig. Nid yw'r Llywodraeth wedi dweud pwy fydd yn gwneud hynny. Mae'n ymddangos i mi fod y comisiynydd yn bwriadu gwneud hyn ond nid yw'r Llywodraeth wedi ei pherswadio ei hun mai'r comisiynydd a ddylai fod yn ei wneud. Hoffwn glywed gan y Gweinidog wrth gloi ai'r Llywodraeth a fydd yn cynnal yr ymchwiliad safonau o hyn ymlaen. Yn llythyr y Gweinidog at y comisiynydd, mae'n dweud yn glir ei fod yn ymwybodol bod gan y comisiynydd ddewisiadau amgen neu opsiynau eraill ynglŷn â gwneud safonau. A yw'n bwriadu creu'r safonau newydd ar sail cynlluniau eraill sydd wedi cael eu trafod rhwng y comisiynydd a'r Llywodraeth?

I turn now to the next steps, because it is important for Plaid Cymru that we see the implementation of standards and that that happens quickly. It is not clear to me, however, who will hold the standards investigation that the Government considers to be vital. The Government has not said who will do that. It appears to me that the commissioner may be considering doing so, but that the Government is not entirely convinced that that is her role. I would like to hear from the Minister whether the Government will hold the standards investigation from here on in. In the Minister's letter to the commissioner, it states clearly that he is aware that the commissioner has alternative choices or other options in terms of drawing up standards. Does he intend to create new standards on the basis of other proposals discussed between the commissioner and the Government?

Mae'n amlwg bod yn rhaid i ni weld y comisiynydd yn bwrw ymlaen gyda'i gwaith arall. Rwy'n derbyn gair y Gweinidog heddiw fod ganddo ffydd o hyd yn y comisiynydd a'i bod yn annibynnol ac yn lladmerydd dros yr iaith yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir i ddweud fy mod i a Plaid Cymru yn awyddus bod swyddfa'r comisiynydd yn cael ei gweld yn gryf, yn rymus, yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol, ac yn ddigon uchel ei pharch i ddylanwadu ar Lywodraeth, cymdeithas sifil a chwmnïau. Mae angen adfer rhywfaint o enw da yn y cyd-destun hwnnw. Mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod yn llawn sawl cam gwag, mae arnaf ofn, ond cyn belled ag y mae'r safonau yn y cwestiwn, mae'n rhaid i ni i gyd i fwrw ati i greu safonau cryf a dealladwy a fydd yn rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg.

It is clear that we now need to see the commissioner progressing with her other responsibilities. I accept what the Minister has said today that he still has faith in the commissioner and that she is independent and an advocate for the language in general. However, it is also true to say that Plaid Cymru and I are eager for the commissioner's office to be seen as being strong and robust, working effectively and efficiently, and having adequate respect to bring influence to bear on Government, civil society and companies. Perhaps we need to restore the reputation of the commissioner's office in that regard. The first year has seen a number of mistakes, I am afraid, but as far as standards are concerned, we must now work hard in order to create robust standards that are well-understood and that will provide rights to Welsh speakers.

17:13

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ategu'r hyn mae Simon Thomas wedi ei ddweud, ac mae'n wir ddrwg gennyf, ar un ystyr, fy mod yn cymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma, achos roedd gormod o eiriau wedi'u mynegi a gormod o falu awyr wedi digwydd yn ystod proses boenus yr LCO a hyd yn oed wrth greu'r Mesur. Mae'r amser wedi dod i weithredu a rhoi sicrwydd i siaradwyr Cymraeg o ran pa wasanaethau sydd ar eu cyfer nhw a hefyd i'r cyrff hynny sy'n darparu'r gwasanaethau o ran beth yw'r disgwyliadau. I'r fan honno rydym eisiau symud ac rydym eisiau symud yno yn gyflymach nac yr ydym wedi gwneud hyd yn hyn.

I endorse what Simon Thomas has said, and I am very sorry, in some senses, that I am taking part in this debate this afternoon, because too much was said and there were too many empty words during the painful LCO process and even during the creation of the Measure. The time has come to take action and to provide certainty for Welsh speakers on which services are available to them and also for those bodies that provide services in terms of what the expectations are. It is in that direction that we want to move and we want to do so quicker than we have done up until now.

Mae'n amlwg bod diffyg dealltwriaeth wedi bod rhwng y comisiynydd a'r Llywodraeth am ba bynnag reswm, achos roeddem wedi ceisio sicrhau annibyniaeth y comisiynydd fel bod y comisiynydd mewn sefyllfa i herio'r Llywodraeth ar adegau, ac yn sicr i fod yn bencampwr dros siaradwyr Cymraeg yn ei gwaith bob dydd. Yn anffodus, mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi tanseilio sefyllfa'r comisiynydd ac mae gwaith i'w wneud i adfer enw da swyddogaeth y comisiynydd yn y dyfodol. Ni fyddwn yn disgwyl i'r comisiynydd a'r Llywodraeth weld llygad yn llygad. Yn wir, byddai hynny'n sefyllfa afiach iawn pe bai pethau'n rhy gyfeillgar rhyngoch. Ar yr un pryd, mae angen cyd-ddeall oherwydd bod y gwaith mae'r comisiynydd yn ei wneud yn gorfod, i ryw raddau, bod mewn cytgord â'r hyn mae'r Llywodraeth wedi'i wneud, gan mai'r Llywodraeth, yn y pen draw, sy'n gyrru'r strategaeth ieithyddol. Felly, nid yw'r ddau beth yn gwbl ar wahân.

It is obvious that there has been a lack of understanding between the commissioner and the Government for whatever reason, because we had tried to ensure the independence of the commissioner so that the commissioner would be in a position to challenge the Government at times, and to be a champion for Welsh speakers in her everyday work. Unfortunately, what has happened has undermined the commissioner's position and there is work to be done to restore the reputation of the commissioner's role in the future. I would not expect the commissioner and the Government to see eye to eye. Indeed, it would be an extremely unhealthy situation if things were too friendly between you. However, at the same time, there needs to be a joint understanding because the work that the commissioner is doing must, to some extent, be in accord with what the Government has done, because it is the Government that, ultimately, drives the language strategy. Therefore, the two things are not wholly separate.

I fynd yn ôl at y safonau, ac i ategu'r hyn mae Simon wedi'i ddweud, mae angen eglurder ynglŷn â'r safonau, a dyna, mae'n debyg, mae'r Gweinidog yn ei ddweud: nad oes eglurder ynglŷn â'r safonau sydd wedi'u cynnig.

To return to the standards, and to endorse what Simon said, there needs to be clarity in relation to the standards, and that is what the Minister appears to be saying: that there is no clarity in relation to the standards that have been proposed.

Mae geiriad y cynnig, sy'n dweud na fydd unrhyw beth yn ei le cyn diwedd 2014, yn siomedig iawn ac yn ddigalon, yn enwedig o gofio cyd-destun y cyfrifiad a'r newyddion ynglŷn â hynny. Felly, rwy'n annog y Llywodraeth i brysuro. Rwy'n gwybod bod angen bod yn ofalus ac yn ystyrlon ond rwy'n annog y Gweinidog i brysuro gyda'r gwaith. Rwy'n gobeithio bod gwaith wedi'i wneud yn barod o fewn swyddfa'r comisiynydd a fydd yn help wrth ddatblygu eich syniadau. Bydd rhaid inni aros i weld beth fydd yn digwydd ond rwy'n siarsio'r Gweinidog nad ydym, yn sicr, am weld glastwreiddio ar amcanion y Mesur. Cymeraf air y Gweinidog am y tro, a chawn weld beth a ddaw pan y bydd yn cyflwyno'r safonau hyn gerbron y Cynulliad.

The wording of the motion, which states that there will be nothing in place before the end of 2014, is disappointing and disheartening, particularly in the context of the census and the news in that regard. Therefore, I encourage the Government to take action. I understand that we need to be cautious and considered, but I encourage the Minister to take action. I hope that work has already taken place in the commissioner's office that will help to develop your ideas. We will have to wait to see what happens, but I issue a challenge to the Minister: we certainly do not want to see the Measure's aims diluted. I take the Minister's word on that for the time being and we will see what comes forward when he introduces the standards to the Assembly.

17:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister for Education and Skills to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ymateb i'r ddadl.

17:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw ar safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Rwy'n cytuno bod angen inni gymryd camau ar unwaith, felly rwy'n benderfynol o fwrw ymlaen i lunio'r set gyntaf o safonau cyn gynted ag y bo modd. Mae'n rhaid inni hefyd edrych at y dyfodol. Fel y dywedais, rwy'n amcangyfrif y byddaf yn gallu cyflwyno'r safonau cyntaf cyn diwedd 2014. Yn fy natganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, yn ymateb i gynigion Comisiynydd y Gymraeg, esboniais y bydd y broses o lunio'r safonau yn cynnwys datblygu set ddiwygiedig o safonau i ymgynghori arnynt. Ymgynghorir yn fanwl â'r cyhoedd a'r sefydliadau y bydd y safonau yn effeithio arnynt. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yna'n llunio rheoliadau i gyflwyno safonau ynghyd â rheoliadau i sicrhau bod y safonau hynny'n berthnasol, yn benodol i'w cymeradwyo gan y Cynulliad. Byddwn yn paratoi asesiad effaith rheoleiddiol i'w osod gerbron y Cynulliad ynghyd â'r rheoliadau.

I am grateful to everyone who has contributed to this debate on standards in relation to the Welsh language. I agree that we need to take immediate steps and therefore I am determined to progress in drawing up the first set of standards as soon as is possible. We must also look to the future. As I have said, I estimate that I will be able to introduce the first standards before the end of 2014. In my written statement of last week, responding to the Welsh Language Commissioner's proposals, I explained that the process of drawing up standards will include developing a revised set of standards for consultation. There will be detailed consultation with the public and the organisations that the standards will impact upon. We will consider the outcomes of the consultation and then draw up regulations in order to introduce standards as well as regulations to ensure that those standards are relevant, particularly for the approval of the Assembly. We will prepare a regulatory impact assessment to be brought before the Assembly along with the regulations.

Rwy'n falch, felly, bod y comisiynydd, wrth ymateb i fy mhenderfyniad, wedi dweud y byddai'n fodlon i'w swyddogion gydweithio â'm swyddogion i wrth ddatblygu set newydd o safonau. Rwy'n awyddus iawn i weithio gyda'r comisiynydd, gan barchu ei swyddogaeth fel hyrwyddwr annibynnol yr iaith. Felly, rwy'n disgwyl y bydd y comisiynydd a'i swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r Llywodraeth wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig sydd o'n blaenau.

I am therefore pleased that the commissioner, in responding to my decision, has said that she would be willing for her officials, and for my officials, to collaborate on developing a new set of standards. I am eager to work with the commissioner, while respecting her function as an independent advocate for the language. I therefore expect that the commissioner and her officials will do everything within their ability to support the Government as we progress with the important work facing us.

Er bydd y Llywodraeth yn llunio'r safonau ar y cyd â'r comisiynydd, bydd disgwyl i'r comisiynydd baratoi'r codau ymarfer perthnasol. Bydd y codau hyn yn rhoi arweiniad ymarferol yn ymwneud â gofynion safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Although the Government will draw up the standards jointly with the commissioner, the commissioner will be expected to prepare the relevant codes of practice. These codes will give practical guidance in relation to the requirements of standards in relation to the Welsh language.

I gloi, hoffwn bwysleisio fy mod yn awyddus i sicrhau bod y Llywodraeth yn gweud popeth y gall i gefnogi'r iaith ac, fel y dywedais ar ddechrau'r ddadl hon, rwyf eisiau cyflawni pob un o'r amcanion polisi a adlewyrchir gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

To conclude, I would like to emphasise that I am eager to ensure that the Government does everything that it can to support the Welsh language, and, as I said at the start of the debate, I want to achieve every one of the policy objectives reflected in the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

17:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn gohirio'r holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.20 p.m.*

*The Presiding Officer took the Chair at 5.20 p.m.*

# Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44

# Stage 3 Standing Order 26.44 debate on the Public Audit (Wales) Bill

### Grŵp 1: Technegol a Chanlyniadol (Gwelliannau 28, 29, 14, 26, 15A, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24)

### Group 1: Technical and Consequential (Amendments 28, 29, 14, 26, 15A, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 and 24)

17:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first group of amendments are technical in nature. The lead amendment in this group is amendment 28, and I call on the Minister to move and speak to that amendment and to speak to the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn dechnegol eu natur. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 28, a galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y gwelliant hwnnw ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I move amendment 28 in my name.

Cynigiaf welliant 28 yn fy enw i.

I thank the Presiding Officer for the opportunity to move amendment 28 and to speak to the associated amendments in this group. I am also grateful for the opportunity to open this Stage 3 consideration of the Public Audit (Wales) Bill. Members will recall that the genesis of this Bill was in the need to improve oversight of the Auditor General for Wales's office. The Bill fulfils the Government and cross-party commitment to strengthen the governance and accountability arrangements for the auditor general's office, and it provides the Assembly with the means to obtain greater assurance and better risk management of that office and the new corporate Wales Audit Office. I thank the Chair and members of the Public Accounts Committee and wider stakeholders who have worked with me in bringing the Bill to this stage to deliver our shared policy aims.

Diolchaf i'r Llywydd am y cyfle i gynnig gwelliant 28 ac i siarad am y gwelliannau cysylltiedig yn y gr?p hwn. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar am y cyfle i agor yr ystyriaeth Cyfnod 3 hwn o'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Bydd Aelodau'n cofio mai'r rheswm am greu'r Bil hwn oedd yr angen i wella goruchwyliaeth swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Bil yn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth, ac ar draws y pleidiau, i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer swyddfa'r archwilydd cyffredinol, ac mae'n darparu modd i'r Cynulliad gael mwy o sicrwydd a rheoli risg yn well o ran y swyddfa honno a'r Swyddfa Archwilio Cymru gorfforaethol newydd. Diolchaf i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach sydd wedi gweithio gyda mi i ddod â'r Bil i'r cam hwn er mwyn cyflawni nodau a rennir ein polisïau.

The first group of amendments are technical and consequential in nature. They relate to corrections to the Bill. The amendments vary from those that correct typographical errors to those that change provisions in other enactments and legislative measures to accurately reflect provisions in the Bill.

Mae'r gr?p cyntaf o welliannau yn dechnegol ac yn ddilynol eu natur. Maent yn ymwneud â chywiriadau i'r Bil. Mae'r gwelliannau yn amrywio o'r rheiny sy'n cywiro gwallau teipograffyddol i'r rhai sy'n newid darpariaethau deddfiadau a mesurau deddfwriaethol eraill er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn y Bil yn gywir.

Amendments 28 and 29 make changes to the Welsh version of the Bill only and correct the misplacement of the word 'efficiently' for 'effectively' in section 8, dealing with how the Auditor General for Wales's functions are to be exercised, and in section 15, which deals with efficiency.

Mae gwelliannau 28 a 29 yn gwneud newidiadau i fersiwn Gymraeg y Bil yn unig ac yn cywiro'r camddefnydd o'r gair 'effeithlon' ar gyfer 'effeithiol' yn adran 8, sy'n ymdrin â sut y mae swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru am gael eu cyflawni, ac yn adran 15, sy'n ymdrin ag effeithlonrwydd.

Amendments 14, 19, 20, 22 and 23 are all technical in nature to bring accuracy to their related provisions in the Bill.

Mae gwelliannau 14, 19, 20, 22 a 23 i gyd yn dechnegol eu natur er mwyn sicrhau cywirdeb yn y darpariaethau sy'n gysylltiedig â hwy yn y Bil.

Amendments 16, 17, 18, 24 and 21 make consequential changes under Schedule 4 to other legislation. These consequential amendments bring accuracy between the legislative provision of this Bill and other UK primary legislation. Members may wish to note that amendment 21 makes changes to the Government of Wales Act 2006. The amendment ensures that the protective provisions in Schedule 7 to the 2006 Act, which are restated in the Bill, are not modified and continue to be protected. Restating the protective provisions in the Bill makes their status clear to future legislators. I can assure Members that amendment 21 is within the Assembly's legislative competence.

Mae gwelliannau 16, 17, 18, 24 a 21 yn gwneud newidiadau dilynol o dan Atodlen 4 i ddeddfwriaeth arall. Mae'r gwelliannau dilynol hyn yn sicrhau cywirdeb rhwng darpariaeth ddeddfwriaethol y Bil hwn a deddfwriaeth sylfaenol arall yn y DU. Efallai yr hoffai'r Aelodau nodi bod gwelliant 21 yn gwneud newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau nad yw'r darpariaethau diogelu yn Atodlen 7 o Ddeddf 2006, sy'n cael eu hailddatgan yn y Bil, yn cael eu haddasu a'u bod yn parhau i gael eu diogelu. Mae ailddatgan y darpariaethau amddiffynnol yn y Bil yn gwneud eu statws yn eglur i ddeddfwyr yn y dyfodol. Gallaf sicrhau'r Aelodau fod gwelliant 21 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

The amendments in this group are important to ensure accuracy of provision within the Bill, and I trust that Members will support the amendments.

Mae'r gwelliannau yn y gr?p hwn yn bwysig i sicrhau cywirdeb y ddarpariaeth o fewn y Bil, a hyderaf y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r gwelliannau.

17:23

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to the Minister and the Welsh Government for the way that they have engaged with the Public Accounts Committee in bringing this Bill forward. Members will recall that the Public Accounts Committee in the third Assembly, in its report on the accounting, governance and propriety issues at the Wales Audit Office, made reference to the need for improvements in the governance arrangements at the Wales Audit Office and, indeed, suggested that they ought to be put on a statutory footing. This Bill is therefore very welcome indeed, and I am pleased that it was in the first legislative programme put forward by the Welsh Government.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru am y modd y maent wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth ddwyn y Bil hwn ymlaen. Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y trydydd Cynulliad, yn ei adroddiad ar y materion cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru, wedi cyfeirio at yr angen am welliannau yn y trefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru ac, yn wir, yn awgrymu y dylent gael eu rhoi ar sail statudol. Mae llawer iawn o groeso i'r Bil hwn felly, ac rwyf yn falch ei fod yn y rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

I am grateful to the Minister for bringing the amendments in this group forward, because they are necessary to tidy up the Bill and other related enactments.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddwyn y gwelliannau yn y gr?p hwn ymlaen, oherwydd eu bod yn angenrheidiol i dacluso'r Bil a deddfiadau eraill perthnasol.

I should like to speak, if I may, Presiding Officer, to amendments 26 and 15A, tabled in my name. Amendment 26 refers to paragraph 4 of Schedule 4 to the Bill, which amends section 41(a) of the Education Act 1997 so that the Wales Audit Office can recover the costs incurred by the auditor general in providing assistance to Estyn. I would like some clarification of what is meant by

Hoffwn siarad, os caf i, Lywydd, am welliannau 26 a 15A, a gyflwynwyd yn fy enw i. Mae Gwelliant 26 yn cyfeirio at baragraff 4 o Atodlen 4 y Bil, sy'n welliant i adran 41(a) o Ddeddf Addysg 1997 fel y gall Swyddfa Archwilio Cymru adennill y costau a ysgwyddir gan yr archwilydd cyffredinol wrth ddarparu cymorth i Estyn. Hoffwn rywfaint o eglurhad o'r hyn a olygir gan

'costs incurred by the auditor general'.

'y costau a ysgwyddir gan yr archwilydd cyffredinol'.

Under the new arrangements in this Bill, there will be two separate legal entities. The first entity will be the auditor general, who, as a corporation sole, will still be responsible for his statutory audit functions. However, the auditor general's current powers to employ staff, to secure services and to charge fees will transfer to the newly constituted Wales Audit Office, so that the auditor general will no longer have any financial capacity in his own right. The question, of course, is: how can the auditor general therefore incur costs? Surely, it is the Wales Audit Office that, in providing the services to the auditor general, will incur these costs.

O dan y trefniadau newydd yn y Bil hwn, bydd dau endid cyfreithiol ar wahân. Yr endid cyntaf fydd yr archwilydd cyffredinol, a fydd, fel corfforaeth undyn, yn parhau i fod yn gyfrifol am ei swyddogaethau archwilio statudol. Fodd bynnag, bydd pwerau presennol yr archwilydd cyffredinol i gyflogi staff, i sicrhau gwasanaethau a chodi ffioedd yn trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru, a gyfansoddwyd o'r newydd, fel na fydd gan yr archwilydd cyffredinol unrhyw allu ariannol mwyach, yn ei hawl ei hun. Y cwestiwn, wrth gwrs, yw: sut gall yr archwilydd cyffredinol, felly, ysgwyddo costau? Onid yw'n wir mai Swyddfa Archwilio Cymru, wrth ddarparu'r gwasanaethau i'r archwilydd cyffredinol, fydd yn ysgwyddo'r costau hyn.

This argument may seem to some Members to be a little pedantic, but it is important, as I understand that there has been some confusion in the past regarding the funding of assistance to Estyn. My amendment here seeks to put this matter beyond doubt. The Minister may wish to argue that the auditor general is incurring costs, albeit that they are being incurred on behalf of the Wales Audit Office, but there is an inconsistency here because paragraph 6(3) of Schedule 4, which relates to the recovery of costs for work done in respect of social landlords, does not refer to costs incurred by the auditor general.

Mae'n si?r bod y ddadl hon yn ymddangos ychydig yn bedantig i rai Aelodau, ond mae'n bwysig, gan fy mod yn deall y bu rhywfaint o ddryswch yn y gorffennol ynghylch ariannu cymorth i Estyn. Mae fy ngwelliant yma yn ceisio sicrhau bod y mater hwn y tu hwnt i amheuaeth. Efallai y bydd y Gweinidog yn dymuno dadlau bod yr archwilydd cyffredinol yn ysgwyddo costau, er eu bod yn cael eu hysgwyddo ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, ond mae anghysondeb yma oherwydd nad yw paragraff 6(3) o Atodlen 4, sy'n ymwneud ag adennill costau am waith a wnaed mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol, yn cyfeirio at gostau a ysgwyddwyd gan yr archwilydd cyffredinol.

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Amendment 15A makes a similar point in respect of the Welsh Government grant payable for local government improvement work that is carried out by the auditor general. As I said earlier, it is important to put these matters beyond doubt and for the Minister to give an assurance that the costs incurred by the auditor general also encompasses costs incurred by the Wales Audit Office in undertaking work for the auditor general in respect of those functions.

Mae Gwelliant 15A yn gwneud pwynt tebyg o ran grant Llywodraeth Cymru sy'n daladwy ar gyfer gwaith gwella llywodraeth leol sy'n cael ei wneud gan yr archwilydd cyffredinol. Fel y dywedais yn gynharach, mae'n bwysig sicrhau bod y materion hyn y tu hwnt i amheuaeth, ac i'r Gweinidog roi sicrwydd y bydd y costau a ysgwyddir gan yr archwilydd cyffredinol hefyd yn cynnwys y costau a ysgwyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth ymgymryd â gwaith ar ran yr archwilydd cyffredinol mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

17:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Are there any other speakers? There are not. I call the Minister to reply.

A oes unrhyw siaradwyr eraill? Nac oes. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to clarify and reassure Members on these points, particularly Darren Millar, of course, in terms of these amendments. The exercise of functions by the AGW will undoubtedly result in him or her incurring costs. Section 21 of the Bill requires that the WAO must provide resources for the exercise of those functions, and it will cover those costs. That is why the provisions in paragraph 4 of Schedule 4 relating to Estyn, and Government amendment 15, relating to local government bodies, require sums payable to be paid to the WAO, not the AGW. The AGW will plan and execute his or her work, some of which he or she will do himself or herself, and the rest of which will be done by authorising others to do the work on his or her behalf. While the AGW is not the budget holder, he or she by their actions incur costs that the WAO will recover.

Yr wyf yn croesawu'r cyfle i egluro a thawelu meddyliau'r Aelodau ynghylch y pwyntiau hyn, yn enwedig Darren Millar, wrth gwrs, o ran y gwelliannau hyn. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn sicr yn mynd i gostau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae Adran 21 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, a bydd yn ysgwyddo'r costau hynny. Dyna pam y mae'r darpariaethau ym mharagraff 4 o Atodlen 4 sy'n ymwneud ag Estyn, a gwelliant y Llywodraeth 15, sy'n ymwneud â chyrff llywodraeth leol, yn ei gwneud yn ofynnol i symiau sy'n daladwy gael eu talu i Swyddfa Archwilio Cymru, nid Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynllunio ac yn gwneud ei waith ef neu ei gwaith hi, a bydd yn gwneud peth o'r gwaith ei hun, a bydd gweddill y gwaith yn cael ei wneud trwy awdurdodi eraill i wneud y gwaith ar ei ran neu ar ei rhan. Er nad Archwilydd Cyffredinol Cymru yw deilydd y gyllideb, bydd ef neu hi trwy ei weithredoedd yn mynd i gostau y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadennill.

In clarifying this point, Llywydd, I hope I have removed concerns about uncertainty. I do not believe that these provisions are uncertain, and I think that there is potential for the amendments to cause confusion. In relation to both entries it is clear from reading the sections that they amend that the costs resulting from the exercise by the auditor general of functions are conferred upon that office, not upon the WAO. Darren Millar has highlighted his concerns, and I hope that my explanations have usefully clarified the position to avert the need for these amendments.

Wrth egluro'r pwynt hwn, Lywydd, yr wyf yn gobeithio fy mod wedi dileu pryderon am ansicrwydd. Nid wyf yn credu bod y darpariaethau hyn yn ansicr, a chredaf fod potensial i'r gwelliannau achosi dryswch. Mewn perthynas â'r ddau gofnod, mae'n amlwg o ddarllen yr adrannau y maent yn cynnig gwelliant iddynt bod y costau sy'n deillio o gyflawni swyddogaeth yr archwilydd cyffredinol yn cael rhoi ar y swydd honno, ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Darren Millar wedi tynnu sylw at ei bryderon, ac rwyf yn gobeithio y bydd fy esboniadau wedi egluro'r sefyllfa mewn modd defnyddiol er mwyn osgoi'r angen am y gwelliannau hyn.

17:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 28 is agreed to. Does any Member object? There are no objections, and therefore amendment 28 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 28. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, ac felly mae gwelliant 28 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 28.*

*Amendment 28 agreed.*

17:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 29.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 29.

17:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 29 in my name.

Cynigiaf welliant 29 yn fy enw i.

17:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 29 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, and therefore amendment 29 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 29. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, ac felly mae gwelliant 29 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 29.*

*Amendment 29 agreed.*

### Grŵp 2: Cynllun Dirprwyo (Gwelliannau 2 ac 3)

### Group 2: Scheme of Delegation (Amendments 2 and 3)

17:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 2. I call on Jane Hutt to move amendment 2 and to speak to that amendment and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar Jane Hutt i gynnig gwelliant 2 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliant arall yn y grŵp.

17:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in my name.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

Amendment 2 provides for the AGW to set out the conditions applicable to his or her scheme of delegation, authorising others to act on his or her behalf, and a requirement that any persons to be authorised to act on the AGW's behalf must agree to comply with the AGW's code of audit practice.

Mae gwelliant 2 yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru nodi'r amodau sy'n berthnasol i'w gynllun neu ei chynllun dirprwyo, awdurdodi eraill i weithredu ar ei ran neu ar ei rhan, a gofyniad bod unrhyw unigolion sydd i'w hawdurdodi i weithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cytuno i gydymffurfio â chod arfer archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Amendment 2 fulfils the commitment I gave at Stage 2 of this Bill to bring forward provision to address the Public Accounts Committee's concerns over the AGW's ability to ensure quality and maintain control over the quality of work undertaken by those acting on the auditor general's behalf. Should amendment 2 be carried—and I trust that it will—the auditor general will be able to maintain quality assurance to the standards and principles that an expert professional provider of accounting or auditing services would be expected to follow.

Mae Gwelliant 2 yn cyflawni'r ymrwymiad a roddais yng Nghyfnod 2 y Bil hwn i gyflwyno darpariaeth i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gallu Archwilydd Cyffredinol Cymru i sicrhau ansawdd a chynnal rheolaeth dros ansawdd y gwaith a wneir gan y rhai sy'n gweithredu ar ran yr archwilydd cyffredinol. Os derbynnir gwelliant 2-a hyderaf y bydd hynny'n digwydd-bydd yr archwilydd cyffredinol yn gallu cynnal sicrwydd ansawdd i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol gwasanaethau cyrifyddu neu archwilio eu dilyn.

Amendment 3 simply takes out unnecessary words.

Mae Gwelliant 3 yn syml yn dileu geiriau diangen.

17:29 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for bringing these amendments forward. Throughout their consideration of the Bill, the members of the Public Accounts Committee were determined to ensure that the new Wales Audit Office board would not be able to undermine the auditor general's independence in any way in the exercise of his or her personal statutory functions. As the Minister has indicated, at Stage 2 the committee considered section 19 of the Bill, which allows the WAO to enter into arrangements with third parties. Amendment 2 partly addresses the committee's concerns by ensuring that anyone operating under a delegated authority from the auditor general is also bound by his or her code of audit practice.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddwyn y gwelliannau ymlaen. Trwy gydol y cyfnod yr oeddynt yn ystyried y Bil, roedd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn benderfynol o sicrhau na fyddai bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn gallu tanseilio annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol mewn unrhyw ffordd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol personol. Fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, yng Nghyfnod 2 ystyriodd y pwyllgor adran 19 o'r Bil, sy'n caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru sefydlu trefniadau gyda thrydydd parti. Mae Gwelliant 2 yn rhannol yn mynd i'r afael â phryderon y pwyllgor drwy sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithredu dan awdurdod dirprwyedig gan yr archwilydd cyffredinol hefyd yn dilyn ei god ymarfer archwilio.

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

However, the committee was also concerned that the Wales Audit Office could make an arrangement under section 19 of the Bill that could undermine the auditor general's independence. My understanding, however, is that provision for a code spelling out the relationship between the Wales Audit Office and the auditor general that was introduced at Stage 2 addresses that concern, as that paragraph specifically refers to section 8 of the Bill, which in turn requires adherence to professional audit standards. In other words, the relationship in the code, as specified, would work to require the WAO, as well as the auditor general, to have regard to those professional standards, including auditor independence. I think that the Minister will be able to confirm that my interpretation is correct and, if that is the case, I am sure that all Members will want to support these amendments.

Fodd bynnag, yr oedd y pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai'r Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniant dan adran 19 o'r Bil a allai danseilio annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol. Fy nealltwriaeth i, fodd bynnag, yw y darperir cod, sy'n nodi'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd cyffredinol, a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2, yn mynd i'r afael â'r pryder hwnnw, gan fod y paragraff hwnnw'n cyfeirio'n benodol at adran 8 o'r Bil, sydd yn ei dro yn ei gwneud yn ofynnol i lynu at safonau archwilio proffesiynol. Mewn geiriau eraill, byddai'r berthynas yn y cod, fel y'i nodir, yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r archwilydd cyffredinol, i roi sylw i'r safonau proffesiynol hynny, gan gynnwys annibyniaeth archwilwyr. Credaf y bydd y Gweinidog yn gallu cadarnhau bod fy nehongliad yn gywir ac, os yw hyn yn wir, rwy'n si?r y bydd pob Aelod yn awyddus i gefnogi'r gwelliannau hyn.

17:31 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak in support of the group 2 amendments. The independence of the auditor general is crucial to his ability to scrutinise public finance. There were concerns that this would have been undermined under the Bill, as originally drafted. The importance of independence was the overriding theme running through the committee's Stage 1 report and was subsequently reflected in the amendments at Stage 2. It is therefore very welcome that that priority is being recognised by the Minister in these Stage 3 amendments.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad o blaid gwelliannau grŵp 2. Mae annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol yn hanfodol i'w allu i graffu ar gyllid cyhoeddus. Roedd pryderon y byddai hyn wedi ei danseilio dan y Bil, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol. Pwysigrwydd annibyniaeth oedd y brif thema trwy adroddiad Cam 2 y pwyllgor ac adlewyrchwyd hynny wedyn yn y gwelliannau yng Nghyfnod 2. Mae'n beth da felly bod y flaenoriaeth honno'n cael ei chydnabod gan y Gweinidog yn y gwelliannau hyn yng Nghyfnod 3.

17:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for those contributions. Amendment 2 fulfils the commitment that I gave at Stage 2 of the Bill, as Antoinette has said. It meets the concerns that Darren Millar has raised. Another important point is that placing the amendment in section 18 of the Bill, which is about the delegation and joint exercise of functions of the auditor general, makes a better and stronger link to quality assurance and the standards that the Auditor General for Wales requires from those acting on his or her behalf.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfraniadau hynny. Mae Gwelliant 2 yn cyflawni'r ymrwymiad a roddais yng Nghyfnod 2 y Bil, fel y mae Antoinette wedi'i ddweud. Mae'n bodloni'r pryderon y mae Darren Millar wedi eu codi. Pwynt pwysig arall yw bod gosod y gwelliant yn adran 18 y Bil, sy'n ymwneud â dirprwyo a chyflawni swyddogaethau'r archwilydd cyffredinol ar y cyd, yn gwneud cysylltiad gwell a chryfach gyda sicrwydd ansawdd a'r safonau y mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu disgwyl gan y rhai sy'n gweithredu ar ei ran neu ar ei rhan.

17:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 2 is not agreed, amendment 3 will fall. The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There are no objections therefore amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Os nad yw gwelliant 2 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 3 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 agreed.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I invite the Minister to move amendment 3.

Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 3.

17:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in my name.

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i.

17:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 agreed.*

### Grŵp 3: Aelodau sy'n Gyflogeion SAC (Gwelliannau 4, 5, 6, 7 a 25)

### Group 3: WAO Employee Members (Amendments 4, 5, 6, 7 and 25)

17:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 4. I call on Jane Hutt to move amendment 4 and to speak to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y gr?p hwn yw gwelliant 4. Galwaf ar Jane Hutt i gynnig gwelliant 4 a siarad am y gwelliannau eraill yn y gr?p.

17:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

The amendment changes the term used in the Bill for the employee member appointed by the WAO by the AGW's nomination from 'employee member A' to 'the appointed member', which is a more suitably descriptive term than is currently on the face of the Bill. Its sister amendment, amendment 5, changes the term used in the Bill for employee members appointed to the WAO by election of WAO staff from 'employee members B' to 'the elected members', which, again, is a better term than what is currently on the face of the Bill. I trust that Members will agree that both changes are more fitting. Amendment 6 replaces paragraphs 15 and 16 of Schedule 1 to the Bill by inserting new provisions that are intended to be more clearly understood by the reader. I assure Members that amendment 6 has the same effect as the paragraph that it replaces and clarifies that elected members must be elected by majority votes. Amendment 7 is a consequential change that removes a specific reference to 'employee members B' in respect of the conduct of ballots. The specific reference is not required.

Mae'r gwelliant yn newid y term a ddefnyddir yn y Bil ar gyfer yr aelod-gyflogai a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru trwy enwebiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o 'aelod-gyflogai A' i 'yr aelod penodedig', sy'n derm disgrifiadol mwy addas nag sydd ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant sy'n cyd-fynd â hwn, gwelliant 5, yn newid y term a ddefnyddir yn y Bil ar gyfer aelod-gyflogeion a benodwyd i Swyddfa Archwilio Cymru drwy etholiad o staff Swyddfa Archwilio Cymru o 'aelod-gyflogeion B' i 'yr aelodau etholedig', sydd, unwaith eto, yn well term na'r hyn sydd ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Hyderaf y bydd yr Aelodau'n cytuno bod y ddau newid yn fwy addas. Mae gwelliant 6 yn disodli paragraffau 15 ac 16 o Atodlen 1 y Bil drwy gynnwys darpariaethau newydd gyda'r bwriad o sicrhau bod y darllenydd yn eu deall yn well. Yr wyf yn sicrhau'r Aelodau bod gwelliant 6 yn dweud yr un peth â'r paragraff y mae'n ei ddisodli ac mae'n egluro bod rhaid i aelodau etholedig gael eu hethol trwy drwy fwyafrif o bleidleisiau. Mae gwelliant 7 yn newid dilynol sy'n dileu cyfeiriad penodol at 'aelod-gyflogeion B' wrth gynnal y bleidlais. Nid yw'r cyfeiriad penodol yn ofynnol.

17:34 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister's amendments in this group are a slight variation on some similar amendments agreed at Stage 2, which were put forward by my colleague Mohammad Asghar. However, they achieve the same effect, and therefore I am happy to support them.

Mae gwelliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn yn fân amrywiad ar rai gwelliannau tebyg y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr Mohammad Asghar. Fodd bynnag, maent yn cyflawni'r un effaith, ac felly yr wyf yn hapus i'w cefnogi.

I would also like to speak to amendment 25 in my name. The Wales Audit Office board will now be required to devise rules for the conduct of staff ballots for the appointment of two staff members to the board. My amendment is designed to ensure that the board has sufficient flexibility to ensure that the staff of the Wales Audit Office can be divided into two constituencies for the purposes of these ballots, if the board wishes to do so. For example, to ensure that two members between them have a broad knowledge of the whole of the organisation or to ensure that the board reflects gender balance—an issue that is of great importance to the Assembly and to Assembly Members on all sides of this Chamber—or even, perhaps, to reflect people who are based out in the field, as far as their work is concerned, as opposed to a head office. I know that this is a matter of concern to the auditor general. He has written to the committee to say that he would much prefer to see one member of staff elected. However, of course, the committee took a view on this; we listened to the evidence that was presented to us, we felt that it was necessary to have two and this amendment simply seeks to lay a foundation for the elections by making this suggestion that separate constituencies are appropriate in terms of being able to exercise the functions of having these particular ballots. I would be very interested to hear the Minister's views on my amendment.

Hoffwn siarad hefyd am welliant 25 yn fy enw i. Bydd bellach yn ofynnol i fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru lunio rheolau ar gyfer cynnal pleidlais gan y staff ar gyfer penodi dau aelod staff i'r bwrdd. Mae fy ngwelliant wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan y bwrdd hyblygrwydd digonol i sicrhau y gellid rhannu staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ddwy etholaeth at ddibenion y pleidleisiau hyn, os bydd y bwrdd yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, er mwyn sicrhau bod dau aelod rhyngddynt yn meddu ar wybodaeth eang am y sefydliad cyfan neu i sicrhau bod y bwrdd yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng y rhywiau-mater sydd o bwys mawr i'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad ar bob ochr i'r Siambr hon-neu hyd yn oed, efallai, i adlewyrchu pobl sy'n gweithio allan yn y maes, wrth eu gwaith, yn hytrach nag yn y brif swyddfa. Gwn fod hwn yn fater o bryder i'r archwilydd cyffredinol. Mae wedi ysgrifennu at y pwyllgor i ddweud y byddai'n llawer gwell ganddo weld un aelod o staff yn cael ei ethol. Fodd bynnag, wrth gwrs, yr oedd gan y pwyllgor farn ar hyn, gwrandawyd ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, ac roeddem yn teimlo ei bod yn angenrheidiol i gael dau ac mae'r gwelliant hwn, yn syml, yn ceisio gosod sylfaen ar gyfer yr etholiadau drwy awgrymu bod etholaethau ar wahân yn briodol o ran bod yn gallu arfer y swyddogaethau o gynnal y pleidleisiau penodol hyn. Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed barn y Gweinidog ar fy ngwelliant.

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are there any other speakers?

A oes unrhyw siaradwyr eraill?

17:36 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that this amendment is inappropriate, because it is up to the WAO board to decide how it wishes to elect the two staff members. In its regulations, it will have to decide and agree that with the auditor general. Therefore, I will vote against this.

Credaf fod y gwelliant yn amhriodol, oherwydd mai penderfyniad bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw dewis sut y mae'n dymuno ethol y ddau aelod o staff. Yn ei reoliadau, bydd yn rhaid iddo benderfynu a chytuno ar hynny gyda'r archwilydd cyffredinol. Felly, byddaf yn pleidleisio yn erbyn hyn.

17:36 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment is not prescriptive in any way, shape or form. It simply makes a suggestion that the board may, if it wants to, recognise the need for two constituencies when it makes its provisions in its standing orders et cetera for the elections to the WAO board. Therefore, it is not prescriptive and it does not tie the hands of the board; it allows the board simply to make arrangements should it so wish.

Nid yw'r gwelliant yn rhagnodol mewn unrhyw ffordd o gwbl. Mae'n awgrymu'n syml y gall y bwrdd, os yw'n dymuno, gydnabod yr angen am ddwy etholaeth pan fydd yn gwneud ei ddarpariaethau yn ei reolau sefydlog ac ati ar gyfer yr etholiadau i fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, nid yw'n rhagnodol ac nid yw'n rhwystro'r bwrdd; y cyfan mae'n ei wneud yw caniatáu i'r bwrdd wneud trefniadau pe byddai'n dymuno gwneud hynny.

17:37 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In response to that, I would like to say that putting in 'may' and including two constituencies pushes them in one direction and it may not wish to do that; it may wish to have another way of identifying how these two people should be selected. It may wish to have a gender balance, for example. However, we should leave that to the board.

Mewn ymateb i hynny, hoffwn ddweud bod cynnwys y gair 'caiff' a chynnwys dwy etholaeth yn eu gwthio i un cyfeiriad ac efallai na fydd yn dymuno gwneud hynny; gall fod yn dymuno cael ffordd arall o nodi sut y dylid dewis y ddau unigolyn hyn. Efallai y bydd yn dymuno cael cydbwysedd rhwng y rhywiau, er enghraifft. Fodd bynnag, dylem adael hynny i'r bwrdd.

17:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that I can clarify the points arising from Darren Millar's amendment on this point. As he said, this amendment would make specific provision for the non-executive members of the WAO to include in the procedural rules provision for its staff to be divided into two constituencies and for those constituents to elect their member of the WAO. However, the Bill does provide that the WAO is responsible for making the rules, and that includes arrangements for ballots and regulating its procedures. In making the rules for ballots, the WAO will have the flexibility to determine the most suitable arrangements for electing its two staff members. The WAO could well decide to set up constituencies and it already has the power to do so under paragraphs 27 and 30 of Schedule 1 to the Bill. While not wishing to fetter the WAO in making its procedural rules, I am sure that Members will join me in placing on record the expectation that, when the WAO comes to consider proposals for the ballots, all options will be discussed—including the formation of constituencies—with stakeholders and their representatives to reach the best solution, taking into account the views of all interested parties. I hope that the record of that will reassure Darren Millar in terms of his position on this amendment.

Rwy'n gobeithio y gallaf egluro'r pwyntiau sy'n codi o welliant Darren Millar ar y pwynt hwn. Fel y dywedodd, byddai'r gwelliant hwn yn darparu'n benodol ar gyfer aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru i gynnwys darpariaeth yn y rheolau gweithdrefnol i'w staff gael eu rhannu'n ddwy etholaeth ac i'r etholwyr hynny ethol eu haelod ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bil yn sicrhau mai Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am lunio'r rheolau, ac mae hynny'n cynnwys y trefniadau ar gyfer pleidleisiau a rheoleiddio ei weithdrefnau. Wrth lunio'r rheolau ar gyfer pleidleisiau, bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru yr hyblygrwydd i benderfynu ar y trefniadau mwyaf addas ar gyfer ethol ei dau aelod o staff. Gallai Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu sefydlu etholaethau ac mae ganddi eisoes y p?er i wneud hynny o dan baragraffau 27 a 30 o Atodlen 1 y Bil. Er nad wyf am lyffetheirio Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi lunio ei rheolau gweithdrefnol, yr wyf yn si?r y bydd Aelodau'n ymuno â mi i gofnodi'r disgwyliad, pan fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i ystyried cynigion ar gyfer y pleidleisiau, y bydd yr holl ddewisiadau'n cael eu trafod-gan gynnwys ffurfio etholaethau-gyda rhanddeiliaid a'u cynrychiolwyr i benderfynu ar yr ateb gorau, gan ystyried barn pawb sydd â budd. Gobeithio y bydd y cofnod o hynny yn tawelu meddwl Darren Millar o ran ei safbwynt ar y gwelliant hwn.

17:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 4 is not agreed, amendments 5, 6 and 7 will fall. The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Os nad yw gwelliant 4 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 5, 6 a 7 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 4 yn wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*

*Amendment 4 agreed.*

17:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 5, 6 and 7, which appear consecutively on the marshalled list, be disposed of en bloc. Does any Member object to en bloc voting? I see not. I invite the Minister to move amendments 5, 6 and 7.

Cynigiaf y dylid ymdrin â gwelliannau 5, 6 a 7, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu pleidleisio felly? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliannau 5, 6 a 7.

17:39

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 5, 6 and 7 in my name.

Cynigiaf welliannau 5, 6 a 7 yn fy enw i.

17:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 5, 6 and 7 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendments 5, 6 and 7 are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 5, 6 a 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliannau 5, 6 a 7 wedi eu derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliannau 5, 6 a 7.*

*Amendments 5, 6 and 7 agreed.*

17:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Darren Millar to move amendment 25 in his name.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 25 yn ei enw.

17:39

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the basis of the Minister’s response, I will not be moving amendment 25.

Ar sail ymateb y Gweinidog, ni fyddaf yn cynnig gwelliant 25.

*Ni chynigiwyd gwelliant 25.*

*Amendment 25 not moved.*

## Grŵp 4: Cynllun Blynyddol (Gwelliannau 8, 9 ac 11)

## Group 4: Annual Plan (Amendments 8, 9 and 11)

17:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 8. I call the Minister to move amendment 8 and to speak to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 8 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y gr?p.

17:40

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

There are two associated amendments in this group. These amendments flow from the agreement at Stage 2 to replace the term 'agree upon' in section 25 with 'jointly prepare' in respect of the development of the annual plan by the AGW and the Chair of the WAO. The amendments will simply bring consistency of wording between what is currently stated in section 25 and what should be stated in Schedules 1 and 2 to the Bill. I trust that Members will support the amendments accordingly.

Ceir dau welliant cysylltiedig yn y grŵp hwn. Mae'r gwelliannau hyn yn deillio o'r cytundeb yng Nghyfnod 2 i ddisodli'r term 'cytuno ar' yn adran 25 gyda 'pharatoi ar y cyd' o ran datblygiad y cynllun blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd gwelliannau, yn syml, yn cysoni'r geiriad rhwng yr hyn a nodir ar hyn o bryd yn adran 25 a'r hyn y dylid ei nodi yn Atodlenni 1 a 2 y Bil. Hyderaf y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r gwelliannau yn unol â hynny.

17:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers in this group. If amendment 8 is not agreed to, amendment 9 and 11 will fall. The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore amendment 8 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill yn y grŵp hwn. Os nad yw gwelliant 8 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 9 ac 11 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 8 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 8.*

*Amendment 8 agreed.*

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I invite the Minister to move amendment 9.

Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 9.

17:41

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore amendment 9 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 9 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 9.*

*Amendment 9 agreed.*

### Grŵp 5: Paratoi Adroddiadau Interim (Gwelliannau 10, 12 a 13)

### Group 5: Preparation of Interim Reports (Amendments 10, 12 and 13)

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 10. I call on the Minister to move amendment 10 and to speak to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 10. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 10 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y gr?p.

17:41

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 10 in my name.

Cynigiaf welliant 10 yn fy enw i.

The amendments in this group relate to the requirement for the auditor general and the chair of the Wales Audit Office to prepare interim reports. The Bill currently places a duty on the auditor general and the chair of the Wales Audit Office to jointly prepare two interim reports on progress against their annual plan to be laid before the Assembly during each financial year. At the Stage 2 considerations of the Bill, a group of amendments were considered that sought to remove the requirement for interim reporting. The committee acknowledged that interim reporting was essential to the Assembly maintaining a level of oversight of the auditor general and the WAO in-year, but did not wish for the process to become burdensome. In acknowledging that, I propose that a further Government amendment be brought forward at Stage 3 to ensure the continued requirement for interim reporting, but with greater flexibility at the Assembly's discretion.

Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn ymwneud â'r gofyniad i'r archwilydd cyffredinol a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru baratoi adroddiadau interim. Mae'r Bil ar hyn o bryd yn gosod dyletswydd ar yr archwilydd cyffredinol a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i baratoi dau adroddiad interim ar y cyd ynglŷn â'r cynnydd yn erbyn eu cynllun blynyddol i'w osod gerbron y Cynulliad yn ystod pob blwyddyn ariannol. Yn ystod ystyriaethau Cyfnod 2 y Bil, ystyriwyd grŵp o welliannau a oedd yn ceisio cael gwared ar y gofyniad am adroddiad interim. Roedd y pwyllgor yn cydnabod bod yr adroddiad interim yn hanfodol i'r Cynulliad allu cynnal lefel o oruchwyliaeth dros yr archwilydd cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn, ond nid oedd yn dymuno i'r broses fod yn feichus. Wrth gydnabod hynny, cynigiaf fod gwelliant Llywodraeth arall yn cael ei ddwyn ymlaen yng Nghyfnod 3 i sicrhau bod y gofyniad i gyflwyno adroddiadau interim yn parhau, ond gyda mwy o hyblygrwydd yn ôl disgresiwn y Cynulliad.

Amendments 10 and 12 fulfil that commitment, with amendment 13 being consequential to them. The amendments place a duty on the AGW and the WAO chair to prepare at least one interim report each financial year. They also empower the Assembly, at any time, to call for additional interim reports to be produced by the AGW and the WAO chair within each financial year, should the Assembly consider that there was a need to do so.

Mae Gwelliannau 10 a 12 yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, ac mae gwelliant 13 yn ganlyniadol iddynt. Mae'r gwelliannau yn rhoi dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i baratoi o leiaf un adroddiad interim ym mhob blwyddyn ariannol. Maent hefyd yn rhoi'r p?er i'r Cynulliad, ar unrhyw adeg, i alw am adroddiadau interim ychwanegol i gael eu cynhyrchu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod pob blwyddyn ariannol, os bydd y Cynulliad yn ystyried bod angen gwneud hynny.

As these amendments meet a commitment made at Stage 2, I trust that Members will support the amendments in the group.

Gan fod y gwelliannau hyn yn bodloni ymrwymiad a wnaed yng Nghyfnod 2, hyderaf y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp.

17:43

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will just make a brief contribution here. I thank the Minister on behalf of the Public Accounts Committee for these amendments, which address an undertaking that she gave to the committee during Stage 2 in response to amendments tabled by Jocelyn Davies. It is important that we have the opportunity to call for interim reports on an 'as and when' basis, and that there is a requirement for the Wales Audit Office and the auditor general to produce those reports so that we can ensure scrutiny and proper accountability to the National Assembly for Wales. The previous arrangements on the face of the Bill were rather onerous, and these amendments, if passed, will allow for more flexible arrangements. Therefore, I have no hesitation in recommending that Members in this Chamber should support the amendments that have been tabled.

Yr wyf am wneud cyfraniad byr yma. Diolchaf i'r Gweinidog ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y gwelliannau hyn, sy'n mynd i'r afael ag ymrwymiad a roddodd i'r pwyllgor yn ystod Cyfnod 2 mewn ymateb i welliannau a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies. Mae'n bwysig ein bod yn cael y cyfle i alw am adroddiadau interim ar sail 'yn ôl y galw', a'i bod yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd cyffredinol i gynhyrchu'r adroddiadau hynny er mwyn i ni allu sicrhau craffu ac atebolrwydd priodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y trefniadau blaenorol ar wyneb y Bil braidd yn feichus, a bydd y gwelliannau hyn, os cânt eu derbyn, yn caniatáu ar gyfer trefniadau mwy hyblyg. Felly, nid wyf yn petruso rhag argymell y dylai'r Aelodau yn y Siambr hon gefnogi'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno.

17:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you wish to reply?

Weinidog, a ydych chi'n dymuno ymateb?

17:43

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac ydw.

17:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 10 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 10 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 10.* *Amendment 10 agreed.*

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In line with the marshalled list, we will now move to dispose of amendment 11. I invite the Minister to move amendment 11.

Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, cynigiwn yn awr i ymdrin â gwelliant 11. Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 11.

17:44

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 11 in my name.

Cynigiaf welliant 11 yn fy enw i.

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 11 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 11 wedi ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 11.* *Amendment 11 agreed.*

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I invite the Minister to move amendment 12.

Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 12.

17:44

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 12 in my name.

Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 12 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 12 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 12.* *Amendment 12 agreed.*

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I Invite the Minister to move amendment 13.

Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 13.

17:44

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 13 in my name.

Cynigiaf welliant 13 yn fy enw i.

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 13 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 13. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 13 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 13.* *Amendment 13 agreed.*

17:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I Invite the Minister to move amendment 14.

Rwyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 14.

17:44

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 14 in my name.

Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 14 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 14 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 14.*

*Amendment 14 agreed.*

### Grŵp 6: Trosglwyddo Staff i SAC (Gwelliannau 1, 1A a 27)

### Group 6: Transfer of Staff to WAO (Amendments 1, 1A and 27)

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 1. I call on the Minister to move amendment 1 and to speak to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 1 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in my name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

This amendment includes additional provisions after paragraph 5 of Schedule 3 to the Bill. They deal with the transfer of staff from the employment of the auditor general to the employment of the Wales Audit Office. The amendment is in three parts. There is provision to protect staff from variation of employment contracts, provision to retain existing collective agreements and provision for continued recognition of trade unions. The amendment fulfils my commitment at Stage 2 to bring forward amendments placing certain TUPE-like provisions on the face of the Bill. It has always been the Welsh Government’s policy to ensure that staff transfer on no less favourable terms than they have currently. Amendment 1 builds upon the provisions added at Stage 2 in respect of protection against dismissal in relation to the transfer. Members will be aware that there has been much discussion around the matter of staff transfers throughout the various stages of the Bill. We have worked closely and constructively with the committee, trade unions and the AGW’s office to develop provision that meets everybody’s aims of ensuring a smooth and fair transition from one employer to the other. I trust Members will support the amendment.

Mae'r gwelliant hwn yn cynnwys darpariaethau ychwanegol ar ôl paragraff 5 o Atodlen 3 y Bil. Maent yn ymdrin â throsglwyddo staff o gyflogaeth yr archwilydd cyffredinol i gyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gwelliant hwn mewn tair rhan. Ceir darpariaeth i ddiogelu staff rhag amrywiad o ran contractau cyflogaeth, darpariaeth i gadw cytundebau ar y cyd sy'n bodoli eisoes a darpariaeth i gydnabod undebau llafur yn barhaus. Mae'r gwelliant yn bodloni fy ymrwymiad yng Nghyfnod 2 i gyflwyno gwelliannau a fyddai'n gosod rhai darpariaethau tebyg i TUPE ar wyneb y Bil. Polisi Llywodraeth Cymru erioed fu sicrhau bod staff yn cael eu trosglwyddo ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai sydd ganddynt ar y pryd. Mae Gwelliant 1 yn adeiladu ar y darpariaethau a ychwanegwyd yng Nghyfnod 2 o ran diogelu yn erbyn diswyddo mewn perthynas â'r trosglwyddo. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y bu llawer o drafod ynghylch y mater o drosglwyddo staff drwy gydol cyfnodau amrywiol y Bil. Rydym wedi gweithio'n agos ac yn adeiladol â'r pwyllgor, undebau llafur a swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddatblygu darpariaeth sy'n bodloni amcanion pawb o sicrhau trosglwyddiad llyfn a theg o un cyflogwr i'r llall. Hyderaf y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r gwelliant.

17:46 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for bringing forward amendment 1 following her undertaking to the committee at Stage 2. Together with paragraph 6 of Schedule 3, it will ensure that staff will transfer to the new WAO on TUPE-like terms. We certainly support that. My amendment 27 seeks to correct an apparent omission from paragraph 6, which was also inserted at stage 2, which would apply in relation to dismissals in relation to the transfer. Paragraph 6(3) in particular states that, if a transfer-connected dismissal is for an economic, technical or organisational reason entailing changes to the workforce, it would be treated as having been for redundancy. However, there is no specific reference here to section 98(4) of the Employment Rights Act 1996, which provides an established test for unfair dismissal in such cases. This apparent omission of the fair-dismissal test makes the paragraph inconsistent with established principles of employment law, and that may cause serious confusion. An employment tribunal, if faced with a transfer-connected dismissal under paragraph 6(3), could only decide that the dismissal was by reason of redundancy. It could not then move on to the second part of the test, which is to decide whether the redundancy dismissal was fair or unfair. My amendment seeks to correct this omission by making it clear that paragraph 6(3) does not prejudice the application of section 98(4) of the 1996 Act.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gyflwyno gwelliant 1 yn dilyn ei hymrwymiad i'r pwyllgor yng Nghyfnod 2. Ynghyd â pharagraff 6 o Atodlen 3, bydd yn sicrhau y bydd staff yn trosglwyddo i'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd ar delerau tebyg i TUPE. Rydym yn sicr yn cefnogi hynny. Mae fy ngwelliant 27 yn ceisio cywiro hepgoriad ymddangosiadol o baragraff 6, a gynhwyswyd hefyd yng Nghyfnod 2, a fyddai'n berthnasol ar gyfer diswyddiadau yn ymwneud â'r trosglwyddiad. Mae paragraff 6(3) yn arbennig yn datgan, os yw diswyddiad sy'n gysylltiedig â throsglwyddiad yn digwydd am reswm economaidd, technegol neu sefydliadol, sy'n golygu newidiadau i'r gweithlu, byddai'n cael ei drin fel bod am resymau dileu swydd. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol yma at adran 98(4) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, sy'n darparu prawf sefydledig ar gyfer diswyddo annheg mewn achosion o'r fath. Mae'r hepgoriad hwn o'r prawf diswyddo teg yn golygu bod y paragraff yn anghyson ag egwyddorion sefydledig cyfraith cyflogaeth, a gallai hynny achosi dryswch difrifol. Pe byddai tribiwnlys cyflogaeth yn wynebu diswyddiad sy'n gysylltiedig â throsglwyddiad o dan baragraff 6 (3), ni allai ond penderfynu bod y diswyddiad hwnnw wedi bod oherwydd dileu swydd. Ni allai wedyn symud ymlaen i ail ran y prawf, a fyddai'n penderfynu pa un a oedd y diswyddiad oherwydd dileu swydd yn deg neu'n annheg. Mae fy ngwelliant yn ceisio cywiro'r hepgoriad hwn drwy ei gwneud yn glir nad yw paragraff 6(3) yn effeithio ar y defnydd o adran 98(4) o Ddeddf 1996.

It will come as no surprise to Members that, in drafting the amendment and this explanation, I had some assistance by Ian Summers. I take this opportunity to put on the record my gratitude to him. He is leaving the Assembly, and I think that Members who have had the opportunity to work with him will, no doubt, want to join me in wishing him well in his retirement. He has been with us some six years, advising us on governance and audit and has been invaluable in securing improvements here. His assistance in the passage of this Bill has also been invaluable and I am sure that he will be available to us if ever we need him. Thank you, Presiding Officer, for your indulgence in allowing me to do that. I could not let this opportunity to thank Mr Summers pass.

Ni fydd yn synnu'r Aelodau i glywed fy mod wedi cael peth cymorth gan Ian Summers, wrth ddrafftio'r gwelliant a'r esboniad hwn. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch iddo. Mae'n gadael y Cynulliad, a chredaf y bydd yr Aelodau sydd wedi cael y cyfle i weithio gydag ef yn sicr am ymuno â mi i ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad. Mae wedi bod gyda ni ers rhyw chwe blynedd, yn ein cynghori ni yngl?n â llywodraethu ac archwilio, ac mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau gwelliannau yma. Mae ei gymorth wrth gyflwyno'r Bil hwn wedi bod yn amhrisiadwy hefyd ac yr wyf yn si?r y bydd ar gael i ni os bydd byth ei angen arnom. Diolch i chi, Lywydd, am eich goddefgarwch wrth ganiatáu i mi wneud hynny. Ni allwn beidio ag achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Mr Summers.

17:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that those comments will be much appreciated. Thank you.

Yr wyf yn si?r y bydd y sylwadau yna'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch i chi.

17:48 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, would like to acknowledge the help and advice given by Ian Summers.

Hoffwn innau, hefyd, ddymuno cydnabod y cymorth a'r cyngor a roddwyd gan Ian Summers.

As a Member of the committee, I, like Jocelyn Davies, am grateful to the Minister for bringing forward amendment 1, which ensures that staff transferring to the new Wales Audit Office do so on TUPE-like terms. This was an issue that very much tasked us as a committee. Sub-paragraph 1 within amendment 1 on the trade union recognition provisions follows the wording of TUPE regulation 6, which is intended to prevent workers already in the receiving organisation's employment from benefitting from continuing trade union recognition for the workers who are being transferred. However, in the context of the new Wales Audit Office, this does not appear to make sense, because there will be no Wales Audit Office employees before the transfer takes effect. There is a risk, to my mind, that sub-paragraph 1 could be interpreted as disapplying the rest of the paragraph, because the transferring employees will form the whole of the new organisation and will not be maintaining a separate identity. That is clearly not the intention behind the drafting of the amendment, so my amendment is designed to put the matter beyond any doubt.

Fel Aelod o'r pwyllgor, yr wyf innau, fel Jocelyn Davies, yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gyflwyno gwelliant 1, sy'n sicrhau bod staff sy'n trosglwyddo i'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn gwneud hynny ar delerau tebyg i TUPE. Roedd hwn yn fater a oedd yn creu tipyn o benbleth i ni fel pwyllgor. Mae is-baragraff 1 o fewn gwelliant 1 ar y darpariaethau i gydnabod undebau llafur yn dilyn geiriad rheoliad 6 TUPE, sydd â'r bwriad o atal gweithwyr sydd eisoes wedi eu cyflogi gan y sefydliad sy'n derbyn y staff rhag elwa o barhau i gydnabod undebau llafur ar gyfer y gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, nid yw'n ymddangos bod hyn yn gwneud synnwyr, oherwydd na fydd unrhyw weithwyr Swyddfa Archwilio Cymru cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd. Mae perygl, yn fy marn i, y gellid dehongli is-baragraff 1 fel datgymhwyso gweddill y paragraff, gan y bydd y gweithwyr sy'n trosglwyddo yn ffurfio'r holl sefydliad newydd ac ni fyddant yn cadw hunaniaeth ar wahân. Mae'n amlwg nad hynny yw'r bwriad y tu ôl i ddrafftio'r gwelliant, felly mae fy ngwelliant i wedi ei lunio i sicrhau bod y mater y tu hwnt i unrhyw amheuaeth.

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you want to reply to the debate?

Weinidog, a ydych am ymateb i'r ddadl?

17:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome both these amendments and I will be supporting them. They are about making it absolutely clear, in terms of the arrangements for staff transfer. I should say, certainly in response to Jocelyn Davies, that it might be our view that we looked at this very carefully and did we need to clarify it further? However, it puts beyond doubt the test for unfair dismissal. On that basis, I am very happy to support the amendment. As Aled said, his amendment provides for wider protection than the proposed Government amendment, but it means that trade union recognition will not just apply while the staff transferring remain a distinct group, but subject to any agreement being varied or rescinded, will continue to apply for as long as those employees remain in the employment of the WAO. So, that is another amendment to clarify the provision.

Croesawaf y ddau welliant hyn a byddaf yn eu cefnogi. Maent yn ymwneud â sicrhau bod y trefniadau ar gyfer trosglwyddo staff yn gwbl eglur. Dylwn ddweud, yn sicr mewn ymateb i Jocelyn Davies, y gallem fod o'r farn inni edrych ar hyn yn ofalus iawn ac a oedd angen i ni ei egluro ymhellach? Fodd bynnag, mae'n sicrhau bod y prawf diswyddo annheg y tu hwnt i amheuaeth. Ar y sail honno, yr wyf yn hapus iawn i gefnogi'r gwelliant. Fel y dywedodd Aled, mae ei welliant ef yn darparu ar gyfer amddiffyniad ehangach nag y mae gwelliant arfaethedig y Llywodraeth, ond mae'n golygu na fydd cydnabod undebau llafur yn berthnasol dim ond tra bod y staff sy'n trosglwyddo yn parhau i fod yn gr?p ar wahân, ond, yn ddarostyngedig i amrywio neu ddiddymu unrhyw gytundeb, yn parhau i fod yn berthnasol cyhyd ag y bydd y gweithwyr hynny yn aros yng nghyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, dyna welliant arall i egluro'r ddarpariaeth.

I also want to say that I got to know Ian Summers and his advice, and the cross-party modus operandi worked quite well, in that our Public Accounts Committee, certainly Darren Millar, got to know my officials as well. So, I would like to thank my officials and Ian Summers.

Rwyf hefyd yn awyddus i ddweud fy mod wedi dod i adnabod Ian Summers ac mae ei gyngor a'r dull trawsbleidiol o weithredu wedi gweithio'n eithaf da, gan fod ein Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac yn sicr Darren Millar, wedi dod i adnabod fy swyddogion i hefyd. Felly, hoffwn ddiolch i fy swyddogion ac i Ian Summers.

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have an amendment to amendment 1, we will dispose of that first. I invite Aled Roberts to move the amendment.

Gan fod gennym welliant i welliant 1, byddwn yn ymdrin â hwnnw'n gyntaf. Yr wyf yn gwahodd Aled Roberts i gynnig y gwelliant.

17:51 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1A in my name.

Cynigiaf welliant 1A yn fy enw i.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 1A be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 1A is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 1A wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1A.*

*Amendment 1A agreed.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to dispose of amendment 1, as amended.

Awn yn awr i ymdrin â gwelliant 1, fel y'i diwygiwyd.

The question is that amendment 1, as amended, be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 1, as amended, is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1, fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 1, fel y'i diwygiwyd, wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 fel y'i diwygiwyd.*

*Amendment 1, as amended, agreed.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to dispose of the remaining amendments. I invite Jocelyn Davies to move amendment 27.

Awn yn awr i ymdrin â gweddill y gwelliannau. Yr wyf yn gwahodd Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 27.

17:52

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 27 in my name.

Cynigiaf welliant 27 yn fy enw i.

17:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 27 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 27 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 27. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 27 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 27.*

*Amendment 27 agreed.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I invite Darren Millar to move amendment 26.

Yr wyf yn gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 26.

17:52

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On the basis of the Minister's response earlier, when we debated these amendments, I will not move amendments 26 and 15A in my name.

Ar sail ymateb y Gweinidog yn gynharach, pan drafodwyd y gwelliannau hyn, ni fyddaf yn cynnig gwelliannau 26 a 15A yn fy enw i.

*Ni chynigiwyd gwelliannau 26 a 15A.*

*Amendments 26 and 15A not moved.*

17:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to dispose of amendment 15 and I invite the Minister to move the amendment.

Awn yn awr i ymdrin â gwelliant 15, ac yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

17:52

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 15 in my name.

Cynigiaf welliant 15 yn fy enw i.

17:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 15 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 15 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 15. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliant 15 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 15.*

*Amendment 15 agreed.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I propose that amendments 16 to 24, which appear consecutively on the marshalled list, are disposed of en bloc. Does any Member object to en bloc voting? I see that there are no objections. Therefore, I invite the Minister to move amendments 16 to 24.

Cynigiaf ein bod yn ymdrin â Gwelliannau 16 i 24, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu pleidleisio felly? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliannau 16-24.

17:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 and 24 in my name.

Cynigiaf welliannau 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24 yn fy enw i.

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 and 24 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendments 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 and 24 are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, mae gwelliannau 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24 wedi eu derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliannau 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 a 24.*

*Amendments 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23 and 24 agreed.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Public Audit (Wales) Bill and I declare that all sections and schedules of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi cyrraedd diwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), ac rwyf yn datgan yr ystyrir bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

I now call on the Minister to make a statement regarding Her Majesty the Queen’s consent.

Galwaf yn awr ar y Gweinidog i wneud datganiad yngl?n â chaniatâd Ei Mawrhydi y Frenhines.

17:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have it in command from Her Majesty the Queen to acquaint the Assembly that Her Majesty, having been informed of the purport of the Public Audit (Wales) Bill, has given her consent to this Bill.

Rwyf wedi derbyn gorchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines i roi gwybod i'r Cynulliad fod Ei Mawrhydi, ar ôl cael gwybod am gynnwys Bil Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), wedi rhoi ei chaniatâd i'r Bil hwn.

# Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47 i Gymeradwyo’r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

# Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Public Audit (Wales) Bill

Cynnig
Motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Public Audit (Wales) Bill.

17:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased that we have reached the final stage of the Public Audit (Wales) Bill. Throughout its passage, the Bill has been subject to robust scrutiny, and we have come a long way since the launch of the consultation on the Bill in March 2012. I would like to thank everybody who has contributed to the development of the Bill at all of its stages.

Rwy'n falch iawn ein bod wedi cyrraedd cyfnod terfynol Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Trwy gydol ei daith, mae'r Bil wedi bod yn destun craffu cadarn, ac rydym wedi dod yn bell ers lansio'r ymgynghoriad ar y Bil ym mis Mawrth 2012. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil yn ei holl gyfnodau.

This Bill provides for more open and effective governance of the office of the Auditor General for Wales and strengthens accountability arrangements of Wales's most vital public audit service. In developing this Bill, we have achieved the Government's aims of improving oversight and governance arrangements of the office, while protecting the auditor general's independence and objectivity.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer llywodraethu mwy agored ac effeithiol o swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn cryfhau trefniadau atebolrwydd ar gyfer gwasanaeth archwilio cyhoeddus mwyaf hanfodol Cymru. Wrth ddatblygu'r Bil hwn, rydym wedi cyflawni nodau'r Llywodraeth o wella trefniadau goruchwylio a llywodraethu'r swyddfa, gan ddiogelu annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd cyffredinol ar yr un pryd.

I would like to take this opportunity to thank the Chair and members of the Public Accounts Committee and their officials for their professional scrutiny of this Bill and, in particular, for their positive and co-operative approach to working with me and my officials throughout the scrutiny process to develop the Bill and get it to this stage. I have found this collaborative approach helpful, and I am confident that we have a strong Bill that addresses the concerns of the Welsh Government and the National Assembly for Wales.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'u swyddogion am eu gwaith craffu proffesiynol ar y Bil hwn ac, yn arbennig, am eu hymagwedd gadarnhaol a chydweithredol i weithio gyda mi a fy swyddogion trwy gydol y broses graffu i ddatblygu'r Bil a'i gael i'r cyfnod hwn. Mae'r ymagwedd gydweithredol hon wedi bod yn ddefnyddiol i mi, ac rwyf yn ffyddiog fod gennym Fil cryf sy'n mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

I thank the Chair and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their role in the scrutiny process and for their Stage 1 report. I also thank all the stakeholders who contributed to the scrutiny process, including those who responded to the consultation and, in particular, to those who gave evidence to the committee. Those contributions have helped to shape a strong Bill. At each stage, we as the Government have sought a co-operative approach to developing the Bill, and the amendments that we have brought forward have demonstrated our willingness to listen and fully consider recommendations and, if persuaded, to change our approach to improve the Bill. It has been a great privilege for me to bring forward this Bill on behalf of the Welsh Government and the National Assembly for Wales and to steer it through the Bill process. I look forward to its implementation and I ask Members to approve this Bill.

Diolchaf i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith yn y broses graffu ac am eu hadroddiad yng Nghyfnod 1. Rwyf hefyd yn diolch i'r holl randdeiliaid a gyfrannodd at y broses graffu, gan gynnwys y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac, yn arbennig, i'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor. Mae'r cyfraniadau hynny wedi helpu i lunio Bil cryf. Ym mhob cyfnod, rydym ni fel y Llywodraeth wedi ceisio defnyddio dull cydweithredol o ddatblygu'r Bil, ac mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u cyflwyno wedi dangos ein parodrwydd i wrando ac ystyried argymhellion yn llawn ac, os oeddem yn cael ein hargyhoeddi, i newid ein dull er mwyn gwella'r Bil. Mae wedi bod yn fraint fawr i mi i gyflwyno'r Bil hwn ar ran Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'i lywio drwy'r broses ar gyfer Bil. Rwyf yn edrych ymlaen at ei weld yn cael ei roi ar waith a gofynnaf i'r Aelodau gymeradwyo'r Bil hwn.

17:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I cannot let the opportunity pass, given that Her Majesty the Queen has been mentioned, to wish her a speedy recovery from a recent episode of gastroenteritis.

Ni allaf beidio ag achub ar y cyfle hwn, o gofio bod Ei Mawrhydi y Frenhines wedi ei chrybwyll, i ddymuno gwellhad buan iddi ar ôl iddi ddioddef yn ddiweddar o gastroenteritis.

Taking this Bill forward has been a refreshing experience and being able to work with the Welsh Government on a cross-party basis in the way that the committee has done has been really useful. The engagement by the Minister and her officials with the committee, the committee clerks, the special adviser—Jocelyn Davies has stolen my thunder in thanking Ian Summers—and our legal adviser, Joanest Jackson, has been absolutely invaluable, and we have appreciated the opportunity to have this open door of communication between the committee and the Minister's officers.

Mae datblygu'r Bil hwn wedi bod yn brofiad adfywiol ac mae cael gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ar sail traws-bleidiol yn y ffordd y mae'r pwyllgor wedi'i wneud, wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae ymgysylltiad y Gweinidog a'i swyddogion gyda'r pwyllgor, clercod y pwyllgor, yr ymgynghorydd arbennig-mae Jocelyn Davies wedi achub blaen arnaf i ddiolch i Ian Summers-a'n cynghorydd cyfreithiol, Joanest Jackson, wedi bod yn gwbl amhrisiadwy, ac rydym wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gael cyfathrebu drws agored rhwng y pwyllgor a swyddogion y Gweinidog.

Everyone in the Chamber has always had the highest regard for the work of the Wales Audit Office. Its financial and value-for-money work has ensured that public sector bodies in Wales have, where necessary, been properly held to account for the management of public funds entrusted to their care. Sound, independent and objective public audit is an essential component of a healthy democracy. However, there is always the question of who watches the watchdog, and that is why it is important that this Bill came forward and that we got it absolutely right.

Bu gan bawb yn y Siambr y parch mwyaf at waith Swyddfa Archwilio Cymru erioed. Mae ei gwaith ariannol a gwerth am arian wedi sicrhau bod cyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, pan oedd angen, yn cael eu dwyn i gyfrif, yn briodol, ynglŷn â rheoli cronfeydd cyhoeddus a ymddiriedwyd i'w gofal. Mae archwilio cyhoeddus cadarn, annibynnol a gwrthrychol yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth iach. Fodd bynnag, rhaid bob amser gofyn pwy sy'n gwylio'r corff gwarchod, a dyna'r rheswm pam ei bod yn bwysig bod y Bil hwn wedi ei gyflwyno, a'n bod wedi ei lunio'n hollol gywir.

I have already referred in the debate at Stage 3 to the report in the third Assembly by the Public Accounts Committee on the accounting, governance and propriety issues at the Wales Audit Office. It is worth reminding Members of where we were at that time. There were serious governance failures that the committee identified. These included irregularity in the reporting of severance packages, financial statements that failed to comply with the financial reporting manual and insufficient controls over training and expenses claims that were being made by senior staff. This Bill goes all the way to addressing those concerns and helping to plug the gaps that we identified. I am delighted to speak in support of its approval at Stage 4, and I look forward, as Chair of the Public Accounts Committee, to having a part in its implementation in the future to ensure that there is robust scrutiny and governance of the Wales Audit Office and the Auditor General for Wales.

Rwyf wedi cyfeirio eisoes yn y ddadl yng Nghyfnod 3 at yr adroddiad yn y trydydd Cynulliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar faterion cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n werth atgoffa Aelodau o ble yr oeddem ar y pryd. Roedd methiannau llywodraethu difrifol a nodwyd gan y pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys anghysondebau wrth gyflwyno adroddiadau am becynnau diswyddo, datganiadau ariannol nad oedd yn cydymffurfio â'r llawlyfr adrodd ariannol a rheolaeth annigonol dros hyfforddiant a hawliadau treuliau gan staff uwch. Mae'r Bil hwn yn mynd yr holl ffordd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny a helpu i gau'r bylchau a nodwyd gennym. Mae'n bleser gennyf siarad o blaid ei gymeradwyo yng Nghyfnod 4, ac edrychaf ymlaen, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, i gael rhan yn ei weithredu yn y dyfodol i sicrhau y bydd craffu a llywodraethu cadarn o Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

17:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, do you want to reply?

Weinidog, a ydych am ymateb?

17:58

## Jane Hutt [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I thank Darren Millar as Chair of the Public Accounts Committee for his response and his support for this Bill. I have always felt that I was the steward of this Bill. It is a Bill for the governance and accountability of the auditor general and the Wales Audit Office. The way that we have worked, in terms of the scrutiny, development and amendment of the Bill, has delivered, through the legislation, the best outcome for governance and for the people of Wales.

Diolch i Darren Millar, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ei ymateb ac am ei gefnogaeth i'r Bil hwn. Rwyf wedi teimlo erioed mai fi oedd y stiward ar gyfer y Bil hwn. Bil ydyw ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd yr archwilydd cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ffordd yr ydym wedi gweithio, o ran craffu, datblygu a newid y Bil, wedi cyflawni, trwy'r ddeddfwriaeth, y canlyniad gorau ar gyfer llywodraethu ac ar gyfer pobl Cymru.

17:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that the Public Audit (Wales) Bill be passed. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore the Bill is passed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiadau, felly mae'r Bil wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been agreed that voting time will take place after the last item of business. I intend to move straight into voting. Does anyone wish to have the bell rung? I see that no-one does.

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Yr wyf yn bwriadu symud ymlaen yn syth i bleidleisio. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5162.

Result of the vote on motion NDM5162.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Motion agreed: For 36, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NNDM5176.

Result of the vote on amendment 1 to motion NNDM5176.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NNDM5176.

Result of the vote on amendment 2 to motion NNDM5176.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NNDM5176 fel y'i diwygiwyd

Motion NNDM5176 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. yn nodi bod:

1. Notes that:

(a) y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg;

(a) the Minister for Education and Skills has decided not to proceed with the Welsh Language Commissioner's proposed Welsh language standards;

(b) y Gweinidog nawr yn bwriadu adeiladu ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, i ddatblygu cyfres o safonau a fydd yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg, o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(b) the Minister now intends to build on the Welsh Language Commissioner's consultation to develop a set of standards which will see rights established for Welsh speakers, with regard to Welsh language services; and

(c) y Gweinidog yn bwriadu gwneud, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, rheoliadau yn gwneud y gyfres gyntaf o safonau, a gwneud y safonau hynny yn benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

(c) the Minister intends to make, with the National Assembly's approval, regulations making standards, and making the standards specifically applicable to persons, by the end of 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen weithredu fanwl ar gyfer cyflwyno safonau iaith Gymraeg erbyn 2014.

2. Calls on the Welsh Government to publish a detailed timetable of action for the introduction of Welsh language standards by 2014.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NNDM5176 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NNDM5176 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

18:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That brings today’s business to a close. Thank you very much.

Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.01 p.m.*

*The meeting ended at 6.01 p.m.*